



Crisis

Y monitor digartrefedd: Cymru 2025

Beth Watts-Cobbe, Glen Bramley, Rhiannon Sims, Hal Pawson, Gillian Young a Suzanne Fitzpatrick. Sefydliad Polisi Cymdeithasol, Tai ac Ymchwil Cydraddoldeb (I-SPHERE), Prifysgol Heriot-Watt; Canolfan Ymchwil i Ddyfodol Dinasoedd, Prifysgol New South Wales; Newhaven Research Ltd.

Ebrill 2025



Y monitor digartrefedd: Cymru 2025

Mae'r gyfres Monitor Digartrefedd yn astudiaeth hydredol sy'n darparu dadansoddiad annibynnol o effeithiau datblygiadau economaidd a pholisi diweddar yng Nghymru ac mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig ar ddigartrefedd. Mae'r pumed adroddiad hwn sy'n canolbwyntio ar Gymru yn rhoi disgrifiad o sefyllfa digartrefedd yn 2024 (neu mor agos at 2024 ag y mae argaeledd data'n caniatáu), ac mae'n canolbwyntio'n benodol ar weithredu'r Cynllun Gweithredu Lefel Uchel Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru yn barhaus, gan gynnwys mynd ar drywydd diwygiadau cyfreithiol helaeth, yn ogystal ag effeithiau digartrefedd yr argyfwng costau byw parhaus a phwysau cynyddol ar lety dros dro. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys amcangyfrifon modelu wedi eu diweddarau a rhagamcanestyniadau o ddigartrefedd 'craidd'.

Y monitor digartrefedd: Cymru 2025

Beth Watts-Cobbe, Glen Bramley, Rhiannon Sims, Hal Pawson, Gillian Young a Suzanne Fitzpatrick. Sefydliad Polisi Cymdeithasol, Tai ac Ymchwil Cydraddoldeb (I-SPHERE), Prifysgol Heriot-Watt; Canolfan Ymchwil i Ddyfodol Dinasoedd, Prifysgol New South Wales; Newhaven Research Ltd.

Ebrill 2025

Gwybodaeth am Crisis

Crisis yw'r elusen genedlaethol ar gyfer pobl ddigartref. Rydyn ni'n helpu pobl i roi digartrefedd y tu ôl iddynt, ac yn ymgyrchu dros y newidiadau cymdeithasol y mae angen eu gwneud er mwyn rhoi diwedd ar ddigartrefedd unwaith ac am byth. Rydyn ni'n gwybod y gallwn ni roi diwedd ar ddigartrefedd gyda'n gilydd.

Prif swyddfa Crisis

50-52 Commercial Street
Llundain E1 6LT
Ffôn: 0300 636 1967
Ffacs: 0300 636 2012

www.crisis.org.uk

Hawlfraint Crisis 2025

ISBN: 978-1-78519-089-6

Crisis UK (yn masnachu fel Crisis)
Rhifau Elusen Gofrestredig:
Cymru a Lloegr 1082947,
yr Alban SC040094
Rhif Cwmni: 4024938

Gair am yr Awduron

Mae'r Athro Beth Watts-Cobbe, Rhiannon Sims, yr Athro Glen Bramley a'r Athro Suzanne Fitzpatrick wedi eu lleoli yn y Sefydliad Polisi Cymdeithasol, Tai ac Ymchwil Cydraddoldeb (I-SPHERE). Mae'r Athro Hal Pawson wedi ei leoli yn y Ganolfan Ymchwil i Ddyfodol Dinasoedd, Prifysgol New South Wales. Mae'r Athro er Anrhydedd Gillian Young wedi ei lleoli yn I-SPHERE a hi yw Cyfarwyddwr Newhaven Research Scotland.

Cydnabyddiaeth

Comisiynwyd yr adroddiad hwn gan Crisis, ac fe'i cyllidwyd gan Crisis, a diolchwn i Dr Francesca Albanese, Debbie Thomas ac Alice Dore yn Crisis am eu holl gymorth gyda'r gwaith hwn. Rydym yn hynod ddiolchgar i'r holl hysbyswyr allweddol o ddarparwyr gwasanaethau digartrefedd a mudiadau eraill ledled Cymru a neilltuodd amser yn eu hamserlenni prysur i'n helpu gyda'r astudiaeth hon, ac i bob awdurdod lleol a lenwodd yr holiadur.

Ymwadiad: Yr awduron sy'n gyfrifol am bob barn ac unrhyw wallau yn yr adroddiad hwn. Ni ddylid tybio bod y safbwyntiau a fynegir yn rhai Crisis nac unrhyw un o'r prif hysbyswyr a gynorthwyodd gyda'r gwaith hwn.

Cynnwys

Ffigurau	8
Tablau	10
Acronymau	11
Rhagair	12
Crynodeb gweithredol	14
1. Cyflwyniad	22
1.1 Cyflwyniad	22
1.2 Cwmpas yr adroddiad	22
1.3 Dulliau ymchwil	23
1.4 Achosiad a digartrefedd	24
1.5 Strwythur yr adroddiad	24
2. Y cyd-destun ehangach	26
Prif bwyntiau	26
2.1 Cyflwyniad	27
2.2 Y cyd-destun economaidd ehangach	27
2.3 Cymorth ariannol i aelwydydd incwm isel ac agored i niwed	34
2.4 Tueddiadau yn y system dai	44
3. Polisi digartrefedd	61
Prif bwyntiau	61
3.1 Cyflwyniad	62
3.2 Cynllun Gweithredu Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru	62
3.3 Ymestyn angen blaenoriaethol	66

3.4 Ailgartrefu cyflym	70
3.5 Tai yn Gyntaf	75
3.6 Partneriaethau	76
3.7 Cyllid a'r gweithlu	80
3.8 Y Panel Adolygu Arbenigol a'r Papur Gwyn	84
4. Cysgu allan a digartrefedd statudol	95
Prif bwyntiau	95
4.1 Cyflwyniad	95
4.2 Cysgu allan	96
4.3 Y galw o ran digartrefedd statudol	99
4.4 Newidiadau ym mhroffil ac achosion digartrefedd statudol	102
4.5 Canlyniadau ymgeisio	111
4.6 Dyletswyddau atal a lliniaru	111
4.7 Camau gweithredu'r Brif Ddyletswydd Ailgartrefu	116
4.8 Lleoliadau llety dros dro	120
5. Amcangyfrifon a rhagamcanion digartrefedd craidd	130
Prif bwyntiau	130
5.1 Cyflwyniad	130
5.2 Amcangyfrifon digartrefedd craidd, tueddiadau a dosbarthiad	132
5.3 Cyflwyniad i ragamcanion o ddigartrefedd craidd	136
5.4 Yr amcanestyniadau gwaelodlin	138
5.5 Effeithiau senarios polisi gwahanol	138
6. Casgliad	148
Atodiad A: Prosesau asesu digartrefedd o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014	152
Atodiad 2: Arolwg Awdurdodau Lleol 2024	153
Llyfryddiaeth	165

Ffigurau

Ffigur 2.1:	Dangosyddion economaidd allweddol ar gyfer y Deyrnas Unedig	28
Ffigur 2.2:	Tueddiadau yng nghyfansoddiad aelwydydd trigolion Cymru mewn tlogdi ar ôl ystyried costau tai, 2011/13 i 2021/23	33
Ffigur 2.3:	Hawl wyr budd-daliadau oedran gweithio yng Nghymru, mis Mai 2018 i fis Tachwedd 2023	35
Ffigur 2.4:	Hawl wyr Credyd Cynhwysol yng Nghymru a oedd dan sancsiwn ar adeg benodol, Rhagfyr 2019 i Chwefror 2024	37
Ffigur 2.5:	Aelwydydd sy'n destun y Cap ar Fudd-daliadau yng Nghymru, mis Ionawr 2019 i fis Mai 2024	39
Ffigur 2.6:	Dyraniad yr Adran Gwaith a Phensiynau a gwariant awdurdodau lleol Cymru ar Daliadau Disgresiwn at Gostau Tai	40
Ffigur 2.7:	Prisiau cyfartalog tai a chymhareb prisiau i enillion Cymru 2012 – 2023	45
Ffigur 2.8:	Cwblhau tai newydd, 2016/17 i 2023/24	47
Ffigur 2.9:	Cartrefi cymdeithasol (fforddiadwy) ychwanegol a ddarparwyd, 2012/13 i 2022/23.	49
Ffigur 2.10:	Pris rhent preifat a chwyddiant rhent yng Nghymru a Lloegr, Ionawr 2017 i Ionawr 2024	52
Ffigur 2.11:	Rhent preifat misol fel cyfran o incwm gros y cartref gan rentwyr preifat yng Nghymru	53
Ffigur 2.12:	Gosod tai i denantiaid cymdeithasol a chanran gosod eiddo newydd i aelwydydd digartref, 2011/12 i 2022/23	54
Ffigur 2.13:	Hawliadau meddiant chwarterol landlordiaid ar gyfer Cymru, Ch1 2019 i Ch4 2023	59
Ffigur 4.1:	Amcangyfrifon cysgu allan misol 2020-24	97
Ffigur 4.2:	Aelwydydd sy'n destun lliniaru neu atal digartrefedd, 2015/16-2023/24	100
Ffigur 4.3:	Aelwydydd sy'n destun dyletswyddau digartrefedd awdurdod lleol, 2016/17-2023/24, wedi eu mynegeo (2017/18=100)	101
Ffigur 4.4:	Aelwydydd yr aseswyd eu bod yn anfwriadol ddigartref ac mewn angen blaenoriaethol (y mae'r Brif Ddyletswydd Ailgartrefu yn ddyledus iddynt)	102

Ffigur 4.5:	A66 Canlyniadau Dyletswydd Atal, 2018/19-2023/24	112
Ffigur 4.6:	A73 Canlyniadau Dyletswydd Lliniaru, 2018/19-2022/23	113
Ffigur 4.7:	A75 Canlyniadau'r Brif Ddyletswydd Ailgartrefu, 2018/19-2022/23	116
Ffigur 4.8:	Canlyniadau gwaith achos digartrefedd awdurdodau lleol, 2023/24: dadansoddiad o'r math o aelwyd	119
Ffigur 4.9:	Lleoliadau llety dros dro ar 31 Mawrth, 2017-2024 (aelwydydd)	121
Ffigur 4.10:	Unigolion digartref mewn llety dros dro ar ddiwedd y mis, 2020-2024	122
Ffigur 5.1:	Niferoedd cartrefi craidd yn ôl elfennau, Cymru 2012-19 (amcangyfrif ciplun ar bwynt mewn amser)	133
Ffigur 5.2:	Cyfraddau digartrefedd craidd fesul 100 o aelwydydd yn ôl rhanbarthau Cymru, 2012-2022 (ciplun o'r amcangyfrif ar bob pwynt mewn amser)	134
Ffigur 5.3:	Cymharu cyfraddau digartrefedd craidd fesul 100 o aelwydydd yn ôl elfennau rhwng tair gwlad Prydain Fawr, 2022	135
Ffigur 5.4:	Cyfraddau digartrefedd craidd cyffredinol fesul 100 o aelwydydd yn nhair gwlad Prydain Fawr 2012-23	136
Ffigur 5.5:	Nifer yr aelwydydd digartref craidd a ragamcanwyd yn ôl categori o dan senario waelodlin, Cymru 2012-2041	137
Ffigur 5.6:	Maint effeithiau senarios polisi dethol ar ddigartrefedd craidd ar dri phwynt amser (canran y gwahaniaeth rhwng llinell sylfaen o ran nifer ciplun yr aelwydydd digartrefedd craidd)	141
Ffigur 5.7:	Newid yng nghyfanswm y digartrefedd craidd o'i gymharu â gwaelodlin ar gyfer Cymru gan ychwanegu un ar ddeg senario polisi yn dilyn ei gilydd i leihau digartrefedd craidd yn y cyfnod hyd at 2041	146

Tablau

Tabl 1.1: Teipoleg Awdurdodau Lleol Cymru	24
Tabl 2.1: Barn Awdurdodau Lleol ar ddyraniadau tai cymdeithasol i aelwydydd digartref (nifer yr Awdurdodau Lleol)	56
Tabl 3.1: Partneriaethau sy'n gwella gallu awdurdodau lleol i atal a/neu liniaru digartrefedd yn effeithiol	77
Tabl 4.1: Canfyddiad o newid diweddar yn nifer yr achosion o ddigartrefedd sy'n cynnwys gwahanol grwpiau (nifer yr Awdurdodau Lleol)	103
Tabl 4.2: Canfyddiad o newid diweddar yn nifer yr achosion o ddigartrefedd sy'n deillio o wahanol achosion uniongyrchol (nifer yr Awdurdodau Lleol)	106
Tabl 4.3: Newid disgwyliedig yn nifer yr achosion o ddigartrefedd yn ystod y 12 mis nesaf (nifer yr Awdurdodau Lleol)	110
Tabl 4.4: A fu newidiadau o ran argaeledd neu fynediad at y mathau a ganlyn o lety sefydlog i'r rhai sy'n ddigartref dros y flwyddyn ddiwethaf? (nifer yr Awdurdodau Lleol)	117
Tabl 4.5: Pa mor hawdd oedd sicrhau llety dros dro ar gyfer gwahanol grwpiau (nifer yr Awdurdodau Lleol)	128
Tabl 5.1: Categoriâu a diffiniadau digartrefedd craidd	131
Tabl 5.2: Crynodeb o'r ffynonellau a'r tybiaethau ar gyfer amcangyfrifon ciplun gwaelodlin ar gyfer Cymru	133
Tabl 5.3: Senarios polisi a brofwyd drwy'r model amcanestyniadau ar gyfer Cymru yn ystod y cyfnod 2022-41	139
Tabl 5.4: Effaith un ar ddeg senario polisi yn unigol ar bum elfen digartrefedd craidd ar orwel amser 2041 (newid canrannol)	143

Acronymau

AHC	Ar ôl Costau Tai
ASB	Ymddygiad gwrthgymdeithasol
CAS3	Gwasanaeth Llety Cymunedol 3
CoL	Costau Byw (Taliadau)
CPI	Mynegai Prisiau Defnyddwyr
DAF	Cronfa Cymorth Dewisol
DHPF	Y Gronfa Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai
DWP	Yr Adran Gwaith a Phensiynau
EAP	Taliadau Cymorth mewn Argyfwng
EHNAB	Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd
EPC	Cap Prisiau Ynni
ERP	Panel Adolygu Arbenigol
FRS	Arolwg Adnoddau Teulu
GB	Prydain
GDP	Cynnyrch Domestig Gros
GVA	Gwerth Ychwanegol Gros
HB	Budd-dal Tai
HMPPS	Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi
HSG	Grant Cymorth Tai
IFS	Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid
ALI	Awdurdod Lleol
LHA	Lwfans Tai Lleol
NIC	Cyfraniadau yswiriant gwladol
NLW	Cyflog Byw Cenedlaethol
NRPF	Dim Hawl i Gyllid Cyhoeddus
OBR	Swyddfa Cyfrifoldebau Cyllidebol
ONS	Swyddfa Ystadegau Gwladol
PHP	Cynlluniau Tai Personol
PRS	Sector Rhentu Preifat
RHA	Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016
RRTP	Cynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym
RSL	Landlord Cymdeithasol Cofrestredig
SMD	Anfanteision Difrifol a Lluosog
TA	Llety dros dro
UC	Credyd Cynhwysol
UK	Y Deyrnas Unedig
UTA	Llety Dros Dro Anaddas
WGC	Canolfan Llywodraethiant Cymru

Rhagair



Mae’r rhifyn diweddaraf o Fonitor Digartrefedd Cymru yn ymddangos yn ystod cyfnod allweddol i’r sector digartrefedd a thai.

Wrth i’r argyfwng costau byw barhau ac wrth i gostau rhent gynyddu, mae mwy a mwy o bobl yn wynebu caledi o ganlyniad i ansicrwydd tai, ac yn cael eu gorfodi i brofi’r trawma a achosir gan beidio â chael rhywle i’w alw’n gartref.

Roedd mwy o bobl yn byw mewn llety dros dro’r llynedd nag erioed o’r blaen – ac yn aml roeddent yn byw yn y lletydd hyn am fisoedd ar y tro, a hynny heb gyfleusterau sylfaenol. Mae’r pwysau sy’n cael ei roi ar lety dros dro anaddas, fel stafelloedd mewn gwestai gwely a brecwast, yn uwch yng Nghymru nag yn unrhyw le arall yn y Deyrnas Unedig.

Mae hyn yn golygu bod mwy o bobl a theuluoedd yn profi’r trawma a’r ansicrwydd a achosir gan ddigartrefedd. Mae’n golygu bod gweithwyr rheng flaen yn ceisio cydbwysu mwy o waith a hynny ar gyllidebau tynn. Yn ofnadwy, mewn rhai achosion, mae hynny wedi golygu bod pobl wedi cael eu gorfodi i gysgu allan.

Fodd bynnag, mae hwn hefyd yn gyfnod o newid, wrth i Lywodraeth Cymru fwrw ymlaen â’r ymrwymïadau a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu Lefel Uchel Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru.

Mae’r monitor hwn yn dangos bod newid y drefn yn hanfodol os ydym ni eisïau rhoi’r gorau i orfod ymateb i argyfyngau digartrefedd niferus, ac am weld y sefyllfa’n gwella yng Nghymru. Oni bai ein bod ni’n gweithredu mewn ffordd feiddgar, bydd y niferoedd sy’n profi digartrefedd yng Nghymru yn codi.

Mae’n dangos bod angen i ni ddatblygu polisïau a’u rhoi gerbron y Senedd yng Nghaerdydd a San Steffan, os ydym ni am leihau digartrefedd.

Cyfeiria’r adroddiad at fodelu economaidd wrth ddangos sut gallai’r newidiadau i bolisïau San Steffan gael effaith sylweddol ar leihau digartrefedd yng Nghymru. Mae’r newidiadau hyn yn cynnwys cynyddu’r Lwfans Tai Lleol a sicrhau bod Credyd Cynhwysol yn cefnogi’r bobl sy’n wynebu amddifadedd.

Mae’r adroddiad hefyd yn pwysleisio pa mor bwysig yw rhoi syniadau beiddgar, a allai leihau digartrefedd, gerbron y Senedd. Er enghraifft, amlinellu’r buddiannau sylweddol a ddaw’n uniongyrchol, yn y tymor canol a’r tymor hir, wrth feithrin dull mwy cyson o ddyrannu tai cymdeithasol i aelwydydd digartref.

Mae’r ymchwil yn dangos mor bwysig yw parhau â’r ymdrech i adeiladu tai cymdeithasol fforddiadwy, ac yn nodi y dylid ehangu’r gefnogaeth Tai yn Gyntaf ar hyd a lled y wlad.

Yn ogystal â hyn, mae neges yr adroddiad yn gwbl glir, sef bod angen i ni wneud mwy er mwyn atal pobl rhag profi digartrefedd yn y lle cyntaf. Mae’n dangos mai prin yw’r prosesau atal digartrefedd o fewn y ddeddfwriaeth gyfredol, ac yn nodi bod gweithwyr proffesiynol o bob rhan o’r sector yn croesawu’r galwadau hyn i newid y gyfraith er mwyn rhoi mwy o bwyslais ar atal digartrefedd.

Ond, mae’r monitor hefyd yn dangos bod gweithwyr mewn awdurdodau lleol yn teimlo’n bryderus am rai agweddau o’r newidiadau hyn. Mae eu galwadau yn nodi’n glir bod angen i unrhyw newid ddod ar y cyd â buddsoddiad yn y cyflenwad tai a chyllid i gefnogi gwasanaethau.

Mae’r Monitor hwn yn atgyfnerthu’r ffaith bod angen datblygu nifer o’r ymrwymïadau a amlinellir yng Nghynllun Gweithredu Lefel Uchel Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd Llywodraeth Cymru, ac yn y Papur Gwyn ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd - ond mae’n dangos hefyd bod angen i hyn gael ei gefnogi gan fuddsoddiad tymor hir a chymhelliad a fydd yn parhau ar ôl i dymor y Senedd ddod i ben yn 2026.

Mae newid yn gallu bod yn heriol, ond os nad ydym ni’n galw am newid a datblygu polisïau, bydd y niferoedd sy’n wynebu peryglon digartrefedd yng Nghymru yn parhau i godi. Mae’n rhaid i ni weithredu nawr er mwyn atal digartrefedd yn y dyfodol.

Matt Downie MBE

Prif Weithredwr Crisis

Cadeirydd y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru

Dylid nodi: Cafodd yr ymchwil hwn ei ddrafftio ym mis hydref 2024, ac felly, efallai nad yw’n rhoi sylw digonol i’r holl ddatblygiadau perthnasol mewn polisïau ers hynny.

Crynodeb gweithredol

Mae'r gyfres Monitor Digartrefedd yn astudiaeth hydredol sy'n darparu dadansoddiad annibynnol o effeithiau datblygiadau economaidd a pholisi diweddar yng Nghymru ac mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig ar ddigartrefedd.¹ Mae'r pumed adroddiad hwn sy'n canolbwyntio ar Gymru yn rhoi disgrifiad o sefyllfa digartrefedd yn 2024 (neu mor agos at 2024 ag y mae argaeledd data'n caniatáu), ac mae'n canolbwyntio'n benodol ar weithredu'r Cynllun Gweithredu Lefel Uchel Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru yn barhaus, gan gynnwys mynd ar drywydd diwygiadau cyfreithiol helaeth, yn ogystal ag effeithiau digartrefedd yr argyfwng costau byw parhaus a phwysau cynyddol ar lety dros dro. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys amcangyfrifon modelu wedi eu diweddarau a rhagamcanestyniadau o ddigartrefedd 'craidd'.

Dyma'r prif bwyntiau sy'n codi o'r dadansoddiad diweddaraf hwn:

- Mae Cymru'n wynebu cyd-destun cymdeithasol-economaidd heriol i fynd i'r afael â digartrefedd, a nodweddir gan economi ddisymud, lefelau uchel o anweithgarwch economaidd, a safonau byw sy'n gostwng. Mae cyllid cyhoeddus mewn cyflwr peryglus, gyda Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn wynebu diffyg cynyddol. Mae mesurau i gryfhau incwm yn ystod y pandemig a'r argyfwng

costau byw wedi atal cynnydd yng nghyfradd gyffredinol tlodi, ond mae amddifadedd a thlodi plant ar gynydd, sy'n adlewyrchu annigonolrwydd parhaus a rhwyd diogelwch nawdd cymdeithasol.

- Mae allbwn adeiladu tai yn dal yn annigonol, a heb wariant ychwanegol ni fydd modd cyrraedd y targed o ddarparu 20,000 o gartrefi cymdeithasol erbyn 2026. Mae llety gwag rhent preifat wedi gostwng wrth i'r sector grebachu, gan arwain at gynydd sylweddol mewn rhenti, sy'n cael ei waethgu gan ddiffyg llety a rennir ac eiddo un ystafell wely ac annigonolrwydd parhaus lefelau'r Lwfans Tai Lleol er gwaethaf y ffaith eu bod wedi cael eu hailosod yn ddiweddar.
- Mae nifer y gosodiadau cymdeithasol i denantiaid newydd wedi gostwng dros y degawd diwethaf ond mae cyfran y gosodiadau o'r fath i aelwydydd digartref wedi cynyddu ers 2018/19, ac mae'r bwlch rhwng cyfran y tai newydd i aelwydydd digartref ar gyfer awdurdodau lleol (46%) a chymdeithasau tai (42%) wedi lleihau. Er gwaethaf cynnydd ar lefel genedlaethol, mae cyfran y tai cymdeithasol i aelwydydd digartref ar draws ardaloedd awdurdodau lleol yn dal yn amrywiol iawn.
- Mae polisi digartrefedd yng Nghymru wedi canolbwyntio ar gryfhau dulliau atal, ailgartrefu cyflym a chael gwared ar rwystrau i dai a chymorth, gyda newidiadau allweddol dros y blynyddoedd diwethaf yn cynnwys datblygu a gweithredu Cynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym ac ymestyn yr angen blaenoriaethol i bobl sy'n cysgu allan. Mae'r newidiadau hyn wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i ymatebion digartrefedd, yn enwedig mewn

rhai ardaloedd, ond mae'r rhwystrau i gael rhagor o effaith yn cynnwys diffyg opsiynau tai addas a diffyg capasiti staff mewn timau awdurdodau lleol, seilwaith data gwael a diffyg ymrwymiad i'r dull gweithredu mewn rhai awdurdodau lleol.

- Fe wnaeth cynigion y Papur Gwyn a oedd yn ceisio 'Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru' ennyn cefnogaeth eang gan awdurdodau lleol a hysbyswyr allweddol, gyda chynigion i gyflwyno dyletswyddau newydd i atal digartrefedd ar gyrff cyhoeddus ehangach ac ymestyn dyletswydd atal yr Awdurdod Lleol i chwe mis yn cael croeso neilltuoel. Roedd cynigion i ddileu neu newid y profion a oedd yn pennu mynediad at gymorth tai yn cael eu hategu gan hysbyswyr allweddol a oedd yn eu hystyried yn ffordd hanfodol o leihau rhwystrau cyn cael cymorth, ond roeddent yn fater dadleuol ymysg rhai awdurdodau lleol a oedd yn teimlo y byddai'r newidiadau hyn yn cynyddu'r galw ac yn lleihau ymdeimlad pobl o gyfrifoldeb personol i ddatrys eu hanghenion tai eu hunain. Nodwyd mai cyllid, mwy o fynediad at dai addas, gweithredu'n raddol, sicrhau ymrwymiad gan wasanaethau cyhoeddus ehangach a chreu newid diwylliant mewn awdurdodau lleol yw'r galluo gwyr angenrheidiol ar gyfer gweithredu'r cynigion hyn os byddant yn symud ymlaen i newid deddfwriaethol.
- Er gwaethaf y mesurau parhaus i wella'r ymatebion, cododd lefelau amcangyfrifedig cysgu allan 86% yn y tair blynedd hyd at fis Gorffennaf 2024. Un o'r prif ffactorau oedd methiant anghyfreithlon rhai awdurdodau lleol i letya rhai aelwydydd digartref yng nghyd-destun pwysau difrifol ar lety dros dro. Ystyrir bod pobl sy'n gadael carchar a'r rhai heb fynediad at arian cyhoeddus mewn perygl penodol o gysgu allan.
- Mae llif yr aelwydydd digartref sy'n ddarostyngedig i ddyletswyddau atal neu ryddhad awdurdodau lleol wedi aros yn weddol wastad dros y blynyddoedd diwethaf, sef 12,939 yn 2023/24. Mae data digartrefedd statudol arall yn datgelu system dan straen. Ers 2018/19, mae cyfran y camau atal a lliniaru y bernir eu bod yn llwyddiannus wedi gostwng yn sylweddol ac mae'r defnydd o lety dros dro bellach

yn uwch nag erioed, ar ôl cynyddu 189% yn y tair blynedd i fis Mawrth 2024. Mae lleoliadau mewn llety Gwely a Brecwast yn gyffredinol ac ar gyfer teuluoedd wedi codi'n syfrdanol, gyda Gwely a Brecwast bellach yn brif fath o lety dros dro a ddarperir yng Nghymru, a'r wlad yn fwy dibynnol ar fathau anaddas o lety dros dro na Lloegr neu'r Alban.

- Mae ffactorau allweddol sy'n egluro'r pwysau difrifol hyn yn y system ddigartrefedd statudol yn cynnwys cyd-destun heriol iawn o ran strwythur a'r farchnad dai sy'n cyfyngu ar allu awdurdodau lleol i atal troi allan o dai neu sicrhau mynediad at dai rhent preifat priodol, ochr yn ochr ag effeithiau parhaus pandemig COVID-19 a'r ymateb mwy cynhwysol i ddigartrefedd a ysgogwyd. Dywedir bod awdurdodau lleol yn gweithredu 'dull rheoli argyfwng' sy'n cyfyngu ar eu gallu i fynd ar drywydd agendâu polisi ataliol rhagweithiol neu bolisiau trawsnewidiol eraill.
- Yn 2022, amcangyfrifir bod digartrefedd craidd cyffredinol yng Nghymru wedi bod yn 12,250 o aelwydydd. Mae cyfraddau digartrefedd craidd yng Nghymru yn is nag yn Lloegr (0.9% o'i gymharu â 1.01%), er eu bod wedi codi'n fwy sydyn yng Nghymru nag yn Lloegr neu'r Alban (lle mae'r cyfraddau ar eu hisaf, sef 0.62%). Gan dybio y bydd y polisiau presennol yn parhau (h.y. heb gynnwys cynigion ar gyfer newid deddfwriaethol eang), bydd cynnydd mewn digartrefedd craidd yn parhau yn y tymor byr i ganolig (hyd at 2031), ac yn codi'n gyflymach yn y tymor hwy (2031-41).
- Yn ôl ein modelu, mae polisiau effeithiol ar gyfer lleihau digartrefedd craidd yn y tymor byr yn cynnwys:
 - cynyddu cyfran y tai cymdeithasol a ddyrennir i aelwydydd digartref
 - codi cyfraddau Lwfans Tai Lleol, a
 - gwneud newidiadau i Gredyd Cynhwysol a budd-daliadau eraill i leihau amddifadedd.
- Dros y tymor hwy, rhagwelir y bydd mwy o gyflenwad tai cymdeithasol newydd wedi ei dargedu, cydbwyso economi Cymru'n

1 Cyhoeddir Monitorau Digartrefedd Cyfochrog ar gyfer Cymru a Lloegr. Mae'r holl adroddiadau Monitor Digartrefedd ar gael gan <https://www.crisis.org.uk/ending-homelessness/>

llwyddiannus, a mwy o ddarpariaeth Tai yn Gyntaf hefyd yn cael effaith gadarnhaol.

- Mae cefnogaeth eang ymysg rhanddeiliaid i ddiwygiadau deddfwriaethol arfaethedig sy'n ceisio symud mesurau atal digartrefedd yn uwch i fyny'r gadwyn – gan gynnwys ymestyn y ddyletswydd atal i 6 mis a'r cynigion ar gyfer dyletswyddau newydd yn y sector cyhoeddus. Mae'r awydd hwn am ragor o ddeddfwriaeth ar atal digartrefedd yn cael ei atgyfnerthu o bosibl gan ein modelu sy'n awgrymu mai cyfyngedig yw'r mesurau atal o fewn cyfyngiadau'r ddeddfwriaeth bresennol.
- Mae rhaglen gynhwysfawr wedi ei threfnu'n briodol ar gyfer diwygio polisiau yn cael ei modelu fel un sy'n gallu lleihau digartrefedd craidd yng Nghymru gymaint â hanner o ran ein senario llinell sylfaen erbyn 2041. Byddai'r senario hwn yn arwain at gyfraddau digartrefedd craidd 22% yn is na lefel 2019. Ar ben hynny, byddai llety dros dro anaddas yn gostwng 83%, hostelau yn gostwng 54%, byddai cysgu allan yn cael ei leihau 45%, a syrffio soffas yn gostwng 39%. Byddai rhai gostyngiadau hefyd yn y mesurau ehangach o ddigartrefedd statudol (16%) a chyfanswm y llety dros dro (18%), er gwaethaf y cynnydd sylweddol mewn cymhwysedd ar gyfer cymorth digartrefedd sy'n gysylltiedig â rhoi diwedd ar angen blaenoriaethol.

Y cyd-destun ehangach

Ers y pandemig, mae economi Cymru, fel economi'r Deyrnas Unedig, wedi dirywio ac mae anweithgarwch economaidd wedi cynyddu, yn enwedig yng Nghymru, wrth i bobl adael y farchnad lafur oherwydd salwch. Mae amrywiol siociau economaidd ar ôl y pandemig, yn fwyaf arwyddocaol y cynnydd mewn chwyddiant a'r cynnydd sydyn mewn cyfraddau llog o ganlyniad, wedi arwain at safonau byw yn gostwng.

Mae lefelau uwch o drethiant a dyled gyhoeddus net, yn rhannol i helpu i dalu am gostau cefnogi busnesau ac aelwydydd drwy'r pandemig a'r argyfwng costau byw, ynghyd â 14 mlynedd o galedi yn y sector cyhoeddus, wedi gadael cyllid cyhoeddus mewn cyflwr

enbyd. Ar ôl rhoi £1.7 biliwn o hwb i gyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol a 2025/26, dylai Cyllideb Hydref newydd Llywodraeth Lafur y Deyrnas Unedig yn 2024 leddfu rhywfaint ar bwysau cyllido Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol a'r risg o ddiffyg anghynaliadwy yn y tymor byrrach. Yn y tymor hwy, dylai Adolygiad o Wariant y Deyrnas Unedig 2025 egluro sut bydd y tynhau a ragwelir ar hyn o bryd ar wariant cyhoeddus o 2026/27 yn cael ei gyflawni o ran pa gyllidebau meysydd polisi fydd yn cael eu heffeithio fwyaf. Mae mesurau i gryfhau incwm yn ystod y pandemig a'r argyfwng costau byw wedi atal cynnydd yng nghyfradd gyffredinol tlodi. Fodd bynnag, mae penderfyniadau polisi eraill, yn enwedig gosod y terfyn dau blentyn yn 2017, wedi arwain at gynnydd sydyn mewn aelwydydd gyda thri neu fwy o blant yn byw mewn tlodi. Yn yr un modd, mae penderfyniadau sydd wedi lleihau gwir werth budd-daliadau, sancsiynau budd-dal llymach, a mynediad cyfyngedig at gyllid dewisol, yn enwedig i'r rhai nad ydynt yn gallu manteisio ar arian cyhoeddus, wedi gweld amddifadedd yn cynyddu. Er ei fod yn dal yn is na chyfartaledd Prydain, mae cyfradd yr amddifadedd yng Nghymru wedi codi'n fwy sydyn nag mewn llawer o ardaloedd eraill ym Mhrydain ers 2017.

O ystyried cyfyngiadau rhwyd diogelwch cymdeithasol ehangach, mae mathau lleol dewisol o gymorth, yn enwedig Taliadau Tai Dewisol a'r Gronfa Cymorth Dewisol, yn bwysig iawn o ran helpu awdurdodau lleol yng Nghymru i atal digartrefedd a mynd i'r afael â'r hyn sy'n ei achosi, er bod natur y cronfeydd hyn yn golygu bod pobl yn cael cymorth anghyson a bod cyfyngiadau a rheolau cyllidebol yn cyfyngu ar eu heffeithiolrwydd.

Nid oes digon o dai fforddiadwy a thai ar y farchnad breifat yn cael eu hadeiladu yng Nghymru. Mae rhanddeiliaid y sector yn croesawu targed uchelgeisiol 2021-26 Llywodraeth Cymru i ddarparu 20,000 o gartrefi cymdeithasol a chydabod y buddsoddiad cyfalaf sylweddol sydd wedi ei gyllidebu i gyflawni hynny. Fodd bynnag, mae'r £235 miliwn o gyfalaf (sy'n cynnwys pob maes polisi) sydd wedi ei gynnwys yn y £1.7 biliwn o gyllid canlyniadol Barnett ychwanegol a gyhoeddwyd ym mis Hydref yn is o lawer

na'r buddsoddiad ychwanegol – £580 miliwn - £740 miliwn ar ben y gyllideb bresennol – y dywed Archwilio Cymru sydd ei angen i gyflawni'r targed hwn.

Mae llety gwag rhent preifat wedi gostwng wrth i'r sector grebachu, er ei bod yn annhebygol y bydd newidiadau deddfwriaethol yn cael eu rhoi ar waith o fis Rhagfyr 2022 ymlaen i gryfhau hawliau tenantiaid a chodi safonau eiddo wedi bod yn ffactor allweddol. Mae prinder llety gwag wedi arwain at gynnydd sydyn mewn rhenti preifat, a waethygir gan ddiffyg llety a rennir ac eiddo un ystafell wely. Croesawodd awdurdodau lleol y terfyn at bedair blynedd o rewi lefelau Lwfans Tai Lleol, a ailosodwyd i'r 30^{ain} canradd o renti lleol, ac roedd yn lleddfu rhywfaint ar y pwysau fforddiadwyedd i rentwyr preifat incwm isel, ond mae hyn wedi bod yn fyrhoedlog yn dilyn penderfyniad Llywodraeth y Deyrnas Unedig i rewi'r lefelau unwaith eto ar gyfer 2025/26. Mae awdurdodau lleol hefyd yn adrodd bod rôl y Lwfans Tai Lleol o ran mynd i'r afael â digartrefedd wedi ei chyfyngu gan brinder tai preifat, yn enwedig unedau un ystafell wely, a'r rhenti uchel sy'n cael eu gosod ar gyfer eiddo sydd ar gael i'w gosod o'i gymharu â chyfraddau'r Lwfans Tai Lleol ledled Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio codi safonau ar draws y sector rhentu, gan gynnwys drwy Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru), sydd mewn grym ers diwedd 2022. Ochr yn ochr â llu o ddarpariaethau eraill, cyflwynodd gyfnod preswyllo gofynnol o ddeuddeg mis a chyfnodau rhybudd estynedig ar gyfer y rhan fwyaf o denantiaethau i chwe mis. Mae effeithiau llawn y Ddeddf yn cael eu gwerthuso'n barhaus, ond mae Awdurdodau Lleol yn poeni ei bod wedi arwain at ddadfuddsoddi gan landlordiaid, gan gynyddu digartrefedd a'i gwneud yn anoddach datrys y mater. Fodd bynnag, mae tystiolaeth o bob rhan o'r Deyrnas Unedig yn awgrymu bod amodau'r farchnad dai, proffil landlordiaid yn heneiddio, polisiau trethiant yn ogystal â rheoliadau llymach i gyd wedi cyfrannu at ddirywiad tenantiaethau preifat. Mae rhai hysbyswyr allweddol hefyd yn dweud bod y Ddeddf wedi cryfhau eu gallu i eiriol dros hawliau tenantiaid. Roedd hawliadau am adfeddiannu cyflym wedi gostwng yn ôl yn

2023, wedi eu sbarduno gan ostyngiad sydyn yn y defnydd o hysbysiadau troi allan 'heb fai' yn dilyn y newid yn y cyfnod rhybudd o ddau i chwe mis ym mis Rhagfyr 2022.

Wrth edrych i'r dyfodol, mae'r Papur Gwyn ar sicrhau llwybr tuag at dai digonol, a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghori ddiwedd mis Hydref 2024, yn canolbwyntio ar y potensial ar gyfer strategaeth dai genedlaethol a chynigion i wella fforddiadwyedd, hygyrchedd ac addasrwydd tai preifat ochr yn ochr â chasglu a defnyddio data rhentu preifat. Ategwyd y themâu hyn yn Adolygiad Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y Senedd o Gartrefi Rhentu Preifat a gyhoeddwyd yn gynharach yn yr un mis, er ei fod hefyd yn galw am adolygiad o droi allan 'heb fai' yng ngoleuni'r cynnydd diweddar i sicrhau deddfwriaeth i roi diwedd ar droi pobl allan yn y fath fodd yn Lloegr.

Mae nifer y tai cymdeithasol sy'n cael eu gosod hefyd wedi gostwng ers 2013/14, er bod hynny'n arafach o lawer nag yn Lloegr, lle mae'r Hawl i Brynu yn parhau i fod ar waith. Bu cynnydd amlwg mewn gosod tai cymdeithasol i aelwydydd digartref yng Nghymru ers 2018/19, ac mae'r bwlch rhwng cyfran y tai newydd i aelwydydd digartref ar gyfer awdurdodau lleol (46%) a chymdeithasau tai (42%) wedi lleihau. Mae'n bosibl y bydd cynigion i wella enwebiadau a chymorth tai i aelwydydd digartref yn gweld y bwlch hwn yn lleihau ymhellach. Wedi dweud hynny, mae llawer iawn o amrywiaeth o hyd yng nghyfran y tai newydd i aelwydydd digartref ledled Cymru, gyda'r gyfradd yn amrywio o rywle o dan 20% i dros 70% ar lefel ardall awdurdod lleol. Yn ogystal, ychydig iawn o gynnydd, os o gwbl, sydd wedi bod yng nghyfran y tai cymdeithasol sy'n cael eu gosod i aelwydydd digartref mewn llond llaw o ardaloedd awdurdodau lleol ers 2018/19. Mae Awdurdodau Lleol yn adrodd bod diffyg stoc addas, yn enwedig stoc o faint priodol, yn rhwystr allweddol i gynyddu dyraniadau i aelwydydd digartref, ond maent yn rhanedig ynghylch a yw nifer y tai sy'n cael eu gosod gan gymdeithasau tai i'r grŵp hwn yn ddigon uchel. Roedd y prif hysbyswyr yn glir, fodd bynnag, fod dyraniadau cymdeithasau tai i'r grŵp hwn yn dal yn llawer rhy isel mewn rhai ardaloedd.

Polisi digartrefedd

Roedd ffocws polisi digartrefedd yng Nghymru ar gryfhau atal, ailgartrefu cyflym a chael gwared ar rwystrau i dai a chymorth yn cael ei gymeradwyo’n eang gan randdeiliaid yn y sector. Mae’r rhwystrau i’w weithredu yn cynnwys seilwaith data gwael a diwylliant mewn awdurdodau lleol sy’n groes i’r cyfeiriad strategol, yn ogystal â’r pwysau ar adnoddau a’r galw.

Cydnabuwyd bod ymestyn y categori angen blaenoriaethol i gynnwys pobl sy’n ddigartref ac ar y stryd, gan gadarnhau’r newidiadau a gyflwynwyd yn ystod y pandemig, wedi gwella’r ymatebion i gysgu allan ac mae llawer yn ei groesawu fel ‘y peth iawn i’w wneud’. Fodd bynnag, mewn cyd-destun ehangach dan bwysau, mae’r newid wedi gwaethygu’r pwysau ar dai i Awdurdodau Lleol ac wedi ailgyfeirio eu ffocws at ymatebion i argyfwng a rheoli llety dros dro. Mae rhai awdurdodau lleol yn pryderu bod y newid i gynnwys y rhai sy’n ddigartref ac ar y stryd fel rhai sydd ag angen blaenoriaethol wedi ehangu’r cwmpas ar gyfer manteisio ar y rhwyd diogelwch cyfreithiol.

Mae’r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn dweud bod Cynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym sydd wedi eu datblygu’n dda ar waith, ac mae’n ymddangos bod y cynlluniau hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ymatebion i ddigartrefedd mewn llawer o ardaloedd, gan gynnwys drwy fwy o fynediad at dai sefydlog, gwelliannau mewn gweithio mewn partneriaeth a newidiadau ym mhroffil y llety dros dro a ddefnyddir. Yn y cyfamser, mae rhanddeiliaid yn amlinellu bod y rhwystrau rhag bwrw ymlaen â Chynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym yn cynnwys diffyg mynediad at lety addas (yn enwedig llety un ystafell wely), diffyg ymrwymiad i’r agenda ar ran Awdurdodau Lleol a phartneriaid ehangach, a phwysau aciwt ar wasanaethau ac adnoddau cyfyngedig.

Mae Tai yn Gyntaf yn gweithredu yn y rhan fwyaf o ardaloedd Awdurdodau Lleol yng Nghymru, ac mae’n cyflawni cyfraddau cynnal tenantiaeth uchel, ond nid yw lefelau’r ddarpariaeth yn ddigonol i ateb y galw mewn tua hanner yr Awdurdodau Lleol mae’n

gweithredu ynddynt. Rhai o’r rhwystrau allweddol o ran cynyddu’r ddarpariaeth a sicrhau ei bod yn glynu wrth egwyddorion Tai yn Gyntaf yw diffyg llety addas a diffyg capasiti cymorth.

Mae cryn le i gryfhau ymhellach y trefniadau partneriaeth sy’n ategu ymatebion Awdurdodau Lleol i ddigartrefedd. Mae’r partneriaethau presennol yn gryfaf gyda chymdeithasau tai, er bod arferion yn amrywio’n sylweddol, gyda rhai’n parhau i ddewis tenantiaid. Mae partneriaethau gyda gwasanaethau cymdeithasol, cyfiawnder troseddol ac iechyd ar waith i ryw raddau yn y rhan fwyaf o ardaloedd Awdurdodau Lleol ond maent yn aml yn dibynnu ar gysylltiadau personol yn hytrach nag arferion sydd wedi eu gwreiddio. Ymddengys bod partneriaethau gydag ysgolion a gwasanaethau addysg yn wannach, er y dylid nodi bod y rhain yn feysydd polisi a datblygu ymarfer o dan gynigion ar gyfer y Bil Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd sydd ar y gweill.

Gwelodd y Grant Cymorth Tai £13 miliwn o gynnydd yn 2024/25 ar ôl cael ei rewi am dair blynedd. Yn ôl y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, bydd hyn yn golygu bod modd cynnal gwasanaethau digartrefedd ar y lefelau presennol, ond ni fydd yn galluogi gwelliannau yn y ddarpariaeth gwasanaethau er gwaethaf pwysau aciwt ar wasanaethau. Mae’r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn dweud eu bod yn cael trafferth recriwtio a chadw staff sydd â’r sgiliau angenrheidiol mewn gwasanaethau digartrefedd Awdurdodau Lleol a gwasanaethau wedi eu comisiynu, sydd wedi ei sbarduno gan lwyth gwaith uchel, taliadau isel a diffyg cydnabyddiaeth o gyfraniad y gweithlu.

Fe wnaeth y pecyn cyffredinol o gynigion yn y Papur Gwyn ar Roi Terfyn ar Ddigartrefedd yng Nghymru ennyn cefnogaeth eang gan awdurdodau lleol a hysbyswyr allweddol. Mae elfennau o’r cynigion a gafodd groeso arbennig yn cynnwys cyflwyno dyletswyddau newydd i atal digartrefedd ar gyrff cyhoeddus ehangach ac ymestyn dyletswydd atal yr Awdurdodau Lleol i chwe mis. Croesawyd cynigion i ddileu’r prawf digartrefedd bwriadol a lliniaru rheolau cysylltiad lleol gan hysbyswyr allweddol, ond maent yn ddadleuol ymysg

awdurdodau lleol sy’n poeni y byddant yn cynyddu’r galw ac yn lleihau ymdeimlad pobl o gyfrifoldeb personol dros ddatrys eu hanghenion tai eu hunain. Nodwyd mai cyllid, mwy o fynediad at dai addas, gweithredu’n raddol, sicrhau ymrwymiad gan wasanaethau cyhoeddus ehangach a chreu newid diwylliant mewn awdurdodau lleol yw’r ffactorau galluogi angenrheidiol ar gyfer gweithredu.

Tueddiadau mewn cysgu allan a digartrefedd statudol

Cynyddodd y lefelau amcangyfrifedig o gysgu allan 86% yn ystod y tair blynedd hyd at fis Gorffennaf 2024. Mae sbardunau allweddol wedi cynnwys methiant anghyfreithlon rhai awdurdodau lleol i letya rhai aelwydydd digartref yng nghyd-destun pwysau difrifol ar lety dros dro. Ystyrir bod pobl sy’n gadael carchar a’r rhai heb fynediad at arian cyhoeddus mewn perygl penodol o gysgu allan.

Ar ôl cyrraedd uchafbwynt yn 2019/20, bu rhywfaint o ostyngiad yn llif yr aelwydydd digartref a oedd yn destun dyletswyddau atal neu ryddhad awdurdodau lleol yn 2020/21 ac mae wedi aros yn weddol wastad ers hynny, gan gyrraedd 12,939 yn 2023/24. Mae diffyg data statudol ar gael ar broffil aelwydydd sy’n wynebu digartrefedd yng Nghymru neu ei sbardunau, er bod ymdrechion ar y gweill i wella hyn. Mae ein harolwg o Awdurdodau Lleol yn dangos bod cynnydd eang yn y galw yn 2023/24 wedi dod gan bobl ag anghenion cymhleth, oedolion sengl a’r rhai sy’n gadael y carchar.

Ers 2018/19, mae cyfran y camau atal a lliniaru y barnwyd eu bod yn llwyddiannus wedi gostwng, o 68% i 58% o ganlyniadau’r ddyletswydd atal ac o 41% i 26% o ganlyniadau rhyddhad. Gwelir bod y tueddiadau hyn yn cael eu sbarduno wrth i gapasiti awdurdodau lleol gael ei ddargyfeirio oddi wrth ymdrechion atal a lliniaru i reoli argyfwng, yn ogystal â chyd-destun heriol iawn yn y farchnad dai a strwythurol – mae hynny’n cyfyngu ar allu awdurdodau lleol i atal pobl rhag cael eu troi allan o’r sector rhentu preifat a sicrhau tai amgen priodol a fforddiadwy.

O ganlyniad i’r gostyngiad yn effeithiolrwydd ymyriadau atal a lliniaru, ochr yn ochr ag ymestyn yr angen blaenoriaethol, mae nifer yr aelwydydd mae’r Prif Ddyletswydd Ailgartrefu yn ddyledus iddynt wedi cynyddu’n gyflym yn ystod y blyneddau diwethaf – gan ddyblu dros y cyfnod 2019/20-2023/24. Mae’r rhan fwyaf o aelwydydd o’r fath yn cael eu ‘rhyddhau yn gadarnhaol’ i dai diogel, er nad yw tua un o bob pump yn sicrhau’r canlyniad hwn, ac yn hytrach yn colli cysylltiad â gwasanaethau.

Dim ond nifer fach iawn o aelwydydd sydd bellach wedi eu heithrio o’r Prif Ddyletswydd Ailgartrefu ar sail barnu nad ydynt mewn angen blaenoriaethol neu eu bod yn fwriadol ddigartref. Yn 2023/24 dim ond 90 o aelwydydd a gafodd eu heithrio rhag cael eu hailgartrefu ar y sail hon, 5% y nifer yr effeithiwyd arnynt yn 2018/19. Serch hynny, mae pobl sengl yn dal i gael eu gorgynrychioli ymysg y rhai nad ydynt yn cael eu helpu’n sylweddol nac yn effeithiol drwy’r system ddigartrefedd statudol.

Cynyddodd cyfanswm y lleoliadau llety dros dro 189% yn y tair blynedd i fis Mawrth 2024, o 2,232 i 6,444. Cynyddodd lleoliadau gwely a brecwast bron i bum gwaith y ffigur blaenorol (452%) i 2,730 o gymharu â dim ond 495. Ers 2017, mae lleoliadau o’r fath wedi codi dros ddeng gwaith yn fwy. Mae nifer y teuluoedd (yn hytrach na phobl sengl) mewn gwestai Gwely a Brecwast hefyd wedi cynyddu, o 33 i 408 dros y tair blynedd i fis Mawrth 2023 – unwaith eto, mwy na deg gwaith yn fwy.

Y prif ffactorau sy’n sbarduno’r cynnydd dramatig hwn mewn defnydd o lety dros dro yw effeithiau pandemig COVID-19 a’r ymateb mwy cynhwysol i ddigartrefedd a sbardunwyd gan hynny, ochr yn ochr â chyd-destun marchnad dai heriol, ac yn benodol heriau cynyddol o ran cael gafael ar lety priodol yn y sector rhentu preifat. Er ei bod yn ymddangos bod mynediad at dai cymdeithasol – yn enwedig tai cymdeithasau tai – wedi gwella mewn llawer o ardaloedd, dywedodd dwy ran o dair (11 o 16) o’r rhai a ymatebodd i’r arolwg o Awdurdodau Lleol eu bod wedi gweld gostyngiad yn nifer y tai rhent preifat ar gyfer aelwydydd digartref yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae pobl sengl, y rhai sydd ag

anghenion cymhleth, a phobl sy’n gadael y carchar yn arbennig o anodd i’w lletya.

O ganlyniad i’r pwysau hyn ar lety dros dro, mae rhai awdurdodau lleol fel mater o drefn yn methu â darparu ar gyfer y rhai mae dyletswydd arnynt i’w cynorthwyo, gan ddibynnu ar lety dros dro o ansawdd gwael, ac yn gynyddol yn dewis lleoliadau y tu allan i’r ardal. Mae hyd yr arhosiad yn cynyddu, ac mae cymorth annigonol yn arwain at heriau rheoli, troi pobl allan, digartrefedd parhaus a chysgu allan. Mae’r pwysau hyn yn rhoi straen ar gapasiti a llesiant staff, yn ogystal â chyllidebau Awdurdodau Lleol.

Digartrefedd craidd

Yn 2022, amcangyfrifir bod digartrefedd craidd cyffredinol yng Nghymru wedi bod yn 12,250 o aelwydydd². Mae’r ffigur cyffredinol hwn yn cynnwys 6,550 o bobl yn syrffio soffas, 2,600 mewn llety dros dro anaddas, 2,270 mewn hosteli ac ati, 600 mewn llety anghonfensiynol a 250 yn cysgu allan. Mae’r niferoedd hyn wedi codi’n sylweddol ers 2019 ac wedi eu sbarduno’n bennaf gan ymatebion i bandemig COVID-19 ac yna’r argyfwng costau byw.

Mae cyfraddau digartrefedd craidd yng Nghymru yn is nag yn Lloegr (0.9% o’i gymharu â 1.01%), er eu bod wedi codi’n fwy sydyn yng Nghymru nag yn Lloegr neu’r Alban (lle mae’r cyfraddau ar eu hisaf, sef 0.62%). Erbyn hyn, mae gan Gymru fwy o aelwydydd mewn llety dros dro anaddas na’r ddwy wlad arall, a mwy o’r holl gategorïau digartrefedd craidd na’r Alban, ac eithrio cysgu allan.

Gan dybio y bydd y polisiâu presennol yn parhau, bydd cynnydd mewn digartrefedd craidd yn parhau yn y tymor byr i ganolig (hyd at 2031), ac yn cynyddu’n gyflymach yn y tymor hwy (2031-41). Fodd bynnag, mae nifer o ddatblygiadau polisi pwysig yn mynd rhagddynt neu’n cael eu hystyried yng Nghymru, sy’n debygol o newid y trywydd hwn.

Yn ôl ein gwaith modelu, y polisiâu mwyaf effeithiol ar gyfer lleihau digartrefedd craidd yw cynyddu cyfran y tai cymdeithasol a ddyrennir i aelwydydd digartref (gan gynnwys digartrefedd craidd), codi cyfraddau Lwfans Tai Lleol, a gwneud newidiadau i Gredyd Cynhwysol a budd-daliadau eraill i leihau amddifadedd.

Yn y tymor hwy, yn ogystal â’r dyraniadau tai uchod, y Lwfans Tai Lleol, a mesurau lles, mae senarios eraill yn cael eu modelu i leihau digartrefedd craidd yn sylweddol, gan gynnwys mwy o gyflenwad tai cymdeithasol newydd wedi ei dargedu, cydbwyso economi Cymru’n llwyddiannus, a mwy o ddarpariaeth Tai yn Gyntaf ynghyd â darpariaeth adsefydlu briodol a llai o lety hostel traddodiadol.

Dangosir bod rhaglen gynhwysfawr o newid polisi sydd wedi ei threfnu’n briodol yn gallu lleihau digartrefedd craidd yng Nghymru gymaint â hanner o ran ein senario llinell sylfaen erbyn 2041. Byddai’r senario hwn yn arwain at gyfraddau digartrefedd craidd 22% yn is na lefel 2019. Ar ben hynny, byddai llety dros dro anaddas yn gostwng 83%, hostelau yn gostwng 54%, byddai cysgu allan yn cael ei leihau 45%, a syrffio soffas yn gostwng 39%. Byddai rhai gostyngiadau hefyd yn y mesurau ehangach o ddigartrefedd statudol (16%) a chyfanswm y llety dros dro (18%), er gwaethaf y cynnydd sylweddol mewn cymhwysedd ar gyfer cymorth digartrefedd sy’n gysylltiedig â rhoi diwedd ar angen blaenoriaethol.

Casgliadau

Y prif straeon a ddaeth i’r amlwg o’r rhifyn hwn o’r Monitor Digartrefedd: Mae Cymru o dan bwysau cynyddol ar wasanaethau digartrefedd awdurdodau lleol yng nghyd-destun ymdrechion parhaus i ddatblygu ymatebion mwy ataliol, cynhwysol sy’n cael eu harwain gan dai. Mae’r pwysau hyn yn arbennig o amlwg mewn perthynas â llety dros dro, gyda lefelau lleoliadau yn uwch nag erioed ac yn arwain at lu o effeithiau

negyddol i’r rhai sy’n wynebu digartrefedd ac i awdurdodau lleol. Mae’r ffaith bod awdurdodau lleol yn lleihau eu gallu i atal neu liniaru digartrefedd yn effeithiol yn ddangosydd allweddol arall o system dan straen a chyd-destun marchnad dai anodd. Mae’r agenda polisi sy’n cael ei dilyn yng Nghymru yn canolbwyntio’n uniongyrchol ar leihau pwysau ar lety dros dro a gwella gallu awdurdodau lleol i atal ac ymateb yn effeithiol i ddigartrefedd, ac mae wedi cael cefnogaeth eang gan randdeiliaid, ond nid oes amheuaeth y daw’r Bil Tai uchelgeisiol sydd ar y gweill ar adeg pan fydd awdurdodau lleol yn teimlo nad oes ganddynt ddigon o adnoddau i weithredu dulliau gweithredu newydd a chymryd cyfrifoldebau pellach heb gymorth sylweddol gan asiantaethau ehangach a buddsoddiad pellach.

Bydd rhifyn nesaf y monitor digartrefedd, sy’n canolbwyntio ar Gymru, yn gyfle i adolygu sut mae’r agenda polisi uchelgeisiol ar ddigartrefedd yng Nghymru yn bwrw ymlaen, ac i ba raddau mae’r heriau a nodwyd wedi cael eu goresgyn. Bydd hefyd yn galluogi myfyrio ar effaith newidiadau sylweddol mewn polisi digartrefedd yng Nghymru yn ogystal â’r newid mewn arweinyddiaeth wleidyddol ar lefel y Deyrnas Unedig ac ar ôl etholiad y Senedd yn 2026. Ymysg y cwestiynau allweddol mae’r cwestiwn a yw’r flaenoriaeth wleidyddol a roddir i ddigartrefedd yng Nghymru yn parhau, ac a yw Llywodraeth newydd y Deyrnas Unedig yn penderfynu mabwysiadu dull gweithredu gwahanol mewn meysydd polisi a gedwir yn ôl sy’n berthnasol i ddigartrefedd, gan gynnwys nawdd cymdeithasol.

2 Amcangyfrifir niferoedd digartrefedd craidd ar gyfer y flwyddyn sylfaen - yn yr achos hwn blwyddyn ariannol 2022/23 ('2022' yn gryno), gan ddefnyddio llawer o ffynonellau data ac, mewn rhai achosion, amcangyfrifon wedi eu modelu. Mae rhai o’r ffynonellau hyn yn golygu bod oedi sylweddol rhwng y cyfnod maent yn cyfeirio ato a’u hargaeledd, a chynhaliwyd y dadansoddiad yn yr achos hwn yn ystod gwanwyn a haf 2024.

1. Cyflwyniad

1.1 Cyflwyniad

Mae'r astudiaeth Monitro Digartrefedd hydredol hon, a ddechreuodd yn 2011, yn darparu dadansoddiad annibynnol o effeithiau datblygiadau economaidd a pholisi yng Nghymru ar ddigartrefedd. Mae'n ystyried tueddiadau'r farchnad dai a chanlyniadau economaidd ar ddigartrefedd, gyda fersiynau diweddar yn cofnodi effeithiau pandemig COVID-19 ar ddigartrefedd. Un ffocws penodol yw effeithiau newidiadau polisi sy'n berthnasol i ddigartrefedd a roddwyd ar waith gan lywodraethau'r Deyrnas Unedig ers 2010, yn ogystal ag effaith polisiau perthnasol Llywodraeth Cymru ar dai, digartrefedd a lles.

Mae'r pumed adroddiad diweddar hwn sy'n canolbwyntio ar Gymru yn rhoi adroddiad ar sefyllfa digartrefedd yng Nghymru yn 2024 (neu mor agos â 2024 ag y mae data ar gael), ac mae'n dadansoddi'r prif dueddiadau yn y cyfnod hyd at 2024. Mae'n canolbwyntio'n benodol ar yr hyn sydd wedi newid ers i ni gyhoeddi Monitor Digartrefedd diwethaf Cymru yn 2021, gan gynnwys effeithiau'r argyfwng costau byw parhaus ar ddigartrefedd, pwysau cynyddol ar lety dros dro a gweithredu Cynllun Gweithredu Lefel

Uchel Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru 2021-2026. Rydym hefyd, am yr ail dro, yn darparu dadansoddiad sy'n targedu tueddiadau digartrefedd yng Nghymru i'r dyfodol, gan gadw'r cyd-destun presennol yn sefydlog a hefyd o dan amrywiaeth o senarios polisi. Mae pedwar adroddiad blaenorol yn rhoi darlun llawnach o hanes diweddar digartrefedd a pholisi cysylltiedig yng Nghymru.³ Mae Monitorau Digartrefedd Cyfochrog wedi cael eu cyhoeddi ar gyfer rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.⁴

1.2 Cwmpas yr adroddiad

Er bod digartrefedd, yn nychymyg y cyhoedd, yn aml yn gyfystyr â chysgu allan,⁵ mae dealltwriaeth gyfreithiol ac arbenigol yn tueddu i gyfrif ystod llawer ehangach o sefyllfaoedd byw, fel digartrefedd ar y sail eu bod yn adlewyrchu diffyg mynediad pobl at dai sy'n cael a chael i fod yn ddigonol.⁶ Er mwyn i'r adroddiad hwn fod mor gynhwysfawr a chynhwysol â phosibl, rydym yn mabwysiadu ystod o ddiffiniadau neu 'safbwyntiau' ar ddigartrefedd, gan ystyried effeithiau newidiadau polisi a newidiadau

economaidd perthnasol ar y grwpiau canlynol (sy'n gorgyffwrdd yn rhannol):

- Pobl yn cysgu allan.
- Aelwydydd digartref statudol: hynny yw, aelwydydd sy'n ceisio neu'n derbyn cymorth tai gan awdurdodau lleol ar y sail eu bod ar hyn o bryd heb lety, neu y byddant heb lety yn fuan.
- Pobl sy'n profi 'digartrefedd craidd':⁷ mae hyn yn cyfeirio at aelwydydd sydd ar hyn o bryd yn profi'r mathau mwyaf difrifol o ddigartrefedd neu sy'n byw mewn llety tymor byr neu anaddas. Mae'n cynnwys pobl yn y sefyllfaoedd canlynol: cysgu allan; cysgu mewn ceir, pebyll a thrafnidiaeth gyhoeddus, neu feddiannu adeiladau dibreswyl; aros mewn hosteli, llochesi; byw mewn llety dros dro 'anaddas' (e.e. llety Gwely a Brecwast); syrffio soffas (h.y. aros gyda phobl nad ydynt yn deulu, am dymor byr, mewn amodau gorllawn).

1.3 Dulliau ymchwil

Mae pum dull wedi cael eu defnyddio yn yr astudiaeth hydredol hon.

- Yn gyntaf, mae llenyddiaeth, ymchwil a dogfennau polisi perthnasol wedi cael eu hadolygu.
- Yn ail, rydym wedi cynnal cyfweiliadau manwl gyda sampl o hysbyswyr allweddol o bob rhan o'r sectorau statudol a gwirfoddol yng Nghymru. Roedd y sampl o 15 a gyfwelwyd yn cynnwys cynrychiolwyr darparwyr gwasanaethau digartrefedd, yn ogystal â rhanddeiliaid allweddol eraill gyda throsolwg cenedlaethol o feysydd polisi ac ymarfer perthnasol yng Nghymru.

Cynhaliwyd y cyfweiliadau hyn rhwng mis Mai a mis Awst 2024.

- Yn drydydd, rydym wedi cynnal dadansoddiad ystadegol o a) tueddiadau economaidd a chymdeithasol perthnasol yng Nghymru; a b) maint, natur a thueddiadau digartrefedd ymysg y categorïau o bobl sy'n ei brofi a nodwyd uchod.
- Yn bedwerydd, am y trydydd tro yng Nghymru, rydym wedi cynnal arolwg ar-lein pwrpasol o Awdurdodau Lleol Cymru (Mai-Mehefin 2024), gyda'r bwriad o gael eu safbwynt ar dueddiadau digartrefedd lleol a hefyd ar effeithiau amrywiaeth o ddatblygiadau polisi perthnasol. Roeddem wedi rhoi pwyslais arbennig eleni ar effeithiau'r argyfwng costau byw ar ddigartrefedd, gweithreidiad parhaus Cynllun Gweithredu Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru Llywodraeth Cymru,⁸ a'r diwygiadau deddfwriaethol arfaethedig a nodir yn y Papur Gwyn ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru.⁹
- Yn bumed, rydym yn ymgorffori ymarfer modelu ystadegol sy'n amcangyfrif ffurfiau 'craidd' ar ddigartrefedd, ac sy'n rhagamcanu tueddiadau yn y mathau hyn o ddigartrefedd yn y dyfodol.

At ei gilydd, ymatebodd 16 awdurdod lleol yng Nghymru (cyfradd ymateb o 73%).¹⁰ Wrth ddadansoddi'r ymatebion, cafodd awdurdodau a ymatebodd eu dosbarthu yn ôl teipoleg a gyflwynir yn Nhabl 1.1, sy'n cyfuno daearyddiaeth ac amodau'r farchnad dai, gyda'r rhai nad atebodd wedi eu nodi â seren.

3 Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Young, G., Watts, B. & Wood, J. (2021) *The Homelessness Monitor: Cymru 2021*. Llundain: Crisis. <https://www.crisis.org.uk/ending-homelessness/homelessness-knowledge-hub/homelessness-monitor/wales/the-homelessness-monitor-wales-2021/>; Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Wilcox, S., Watts, B. & Wood, J. (2017) *The Homelessness Monitor: Wales 2017*. Llundain: Crisis. https://www.crisis.org.uk/media/237787/the_homelessness_monitor_wales_2017.pdf; Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Wilcox, S. & Watts, B. (2015) *The Homelessness Monitor: Wales 2015*. Llundain: Crisis. <https://www.crisis.org.uk/ending-homelessness/homelessness-knowledge-hub/homelessness-monitor/wales/the-homelessness-monitor-wales-2015/>; Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Wilcox, S. & Watts, B. (2012) *The Homelessness Monitor: Wales 2012*. Llundain: Crisis. <https://www.crisis.org.uk/ending-homelessness/homelessness-knowledge-hub/homelessness-monitor/wales/the-homelessness-monitor-wales-2012/>

4 Gweler Cyfres Monitro Digartrefedd Crisis: <http://www.crisis.org.uk/pages/homelessnessmonitor.html>

5 O'Neil, M., Pineau, M.G., Kendall-Taylor, N., Volmert, A. & Stevens, A. (2017) *Finding a Better Frame: How to Create More Effective Messages on Homelessness in the United Kingdom*. Ar-lein: FrameWorks Institute. <https://www.frameworksinstitute.org/publication/finding-a-better-frame-how-to-create-more-effective-messages-on-homelessness-in-the-united-kingdom/>

6 Busch-Geertsema, V., Culhane, D., & Fitzpatrick, S. (2016) 'Developing a global framework for conceptualising and measuring homelessness', *Habitat International*, 55, 124–132.

7 Bramley, G. (2017) *Homelessness Projections: Core homelessness in Great Britain, Summary Report*. Ar-lein: Crisis. https://www.crisis.org.uk/media/237582/crisis_homelessness_projections_2017.pdf

8 Llywodraeth Cymru (2021) *Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru: Cynllun Gweithredu Lefel Uchel 2021-2026*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. <https://www.llyw.cymru/rhoi-diwedd-ar-ddigartrefedd-cynllun-gweithredu-lefel-uchel-2021-i-2026>

9 Llywodraeth Cymru (2023) *Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. https://www.gov.wales/sites/default/files/consultations/2023-10/ending-homelessness-white-paper_0_0.pdf

10 Roedd pedwar o'r chwe ymatebydd yn gynghorau gwledig yn bennaf: Ceredigion, Sir Ddinbych, Gwynedd a Sir Fynwy. Roedd y ddau arall yn ardaloedd a oedd yn cynnwys trefi sylweddol: Castell-nedd Port Talbot a Wrecsam. Yn bwysig, cymerodd y tri awdurdod trefol mwy – Caerdydd, Casnewydd ac Abertawe – ran.

Tabl 1.1: Teipoleg Awdurdodau Lleol Cymru

De Cymru	Abertawe, Castell-nedd Port Talbot*, Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Caerdydd, Casnewydd, Sir Fynwy*
Canolbarth a Gorllewin Cymru	Ynys Môn, Gwynedd*, Powys, Ceredigion*, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro
Cymoedd Cymru	Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerffili, Blaenau Gwent, Torfaen
Gogledd-ddwyrain Cymru	Conwy, Sir Ddinbych*, Sir y Fflint, Wreccsam*

1.4 Achosiad a digartrefedd

Mae pob un o’r Monitorau Digartrefedd yn seiliedig ar fframwaith cysyniadol ar ganfod digartrefedd a ddefnyddiwyd fel sail i’n dehongliad o effeithiau tebygol newid economaidd a newid polisi.¹¹

Mae safbwyntiau damcaniaethol, hanesyddol a rhyngwladol yn dangos bod achosiad digartrefedd yn gymhleth, heb ddim un ‘sbardun’ sydd naill ai’n ‘angenrheidiol’ neu’n ‘ddigonol’ iddo ddigwydd. Mae ffactorau unigol, rhyngbersonol a strwythurol i gyd yn chwarae rhan – ac yn rhyngweithio â’i gilydd – ac mae cydbwysedd yr achosiadau yn amrywio dros amser, ar draws gwledydd, a rhwng grwpiau demograffig.

Gyda golwg ar y prif ffactorau strwythurol, mae ymchwil gymharol ryngwladol, a phrofiad dirwasgiadau blaenorol yn y Deyrnas Unedig, yn awgrymu mai tueddiadau a pholisïau’r farchnad dai sy’n cael yr effaith fwyaf uniongyrchol ar lefelau digartrefedd, gyda dylanwad newid yn y farchnad lafur yn fwy tebygol o fod yn aneglur ac yn wasgaredig, ac yn cael ei gyfyngu’n gryf gan drefniadau lles a ffactorau cyd-destunol eraill. Mae’r rôl ganolog y mae tlodi’n ei chwarae o ran llywio risgiau digartrefedd yn y Deyrnas Unedig wedi hen ennill ei phlwyf erbyn hyn.¹²

Mae’r gwendidau unigol, yr anghenion cymorth a’r ymddygiad ‘cymryd risg’ sy’n gysylltiedig â digartrefedd rhai pobl eu hunain yn aml, er nad bob amser, wedi eu gwreiddio yn y pwysau sy’n gysylltiedig â thlodi a mathau eraill o anfantais strwythurol. Ar yr un pryd, gall cysylltiadau cymdeithasol ‘angori’ sy’n gallu gweithredu fel ‘byffer’ sylfaenol i ddigartrefedd, gael eu rhoi dan straen sylweddol oherwydd amgylchiadau ariannol anodd. Gan hynny, gellid disgwyl hefyd i amodau economaidd sy’n dirywio yng Nghymru, fel y rhai sy’n gysylltiedig â’r argyfwng costau byw presennol, greu mwy o wendidau ‘unigol’ a ‘rhyngbersonol’ o ran digartrefedd dros amser, gydag unrhyw welliant mewn amodau o’r fath yn tueddu i gael effaith o chwith.

1.5 Strwythur yr adroddiad

Mae Pennod 2 yn adolygu’r cyd-destun ehangach ar gyfer digartrefedd, gan gynnwys tueddiadau economaidd, tlodi a’r farchnad lafur, datblygiadau yn y farchnad dai, a newidiadau i bolisi lles, gan gynnwys ymateb i’r argyfwng costau byw presennol. Mae Pennod 3 yn newid y ffocws ar bolisïau ac arferion sy’n benodol i ddigartrefedd ar lefel genedlaethol a lleol, gan gynnwys gweithredu Cynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym, ac elfennau eraill o Gynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar ddigartrefedd. Mae

Pennod 4 yn darparu dadansoddiad wedi ei ddiweddarau’n llawn o’r data ystadegol sydd ar gael ar raddfa bresennol a thueddiadau diweddar mewn digartrefedd statudol yng Nghymru. Mae Pennod 5 yn darparu amcangyfrifon o faint cyfredol digartrefedd craidd yng Nghymru, ac yn rhagamcanu tueddiadau yn y mathau hyn o ddigartrefedd i’r dyfodol. Mae’r holl benodau hyn yn seiliedig ar y wybodaeth sy’n deillio o’n cyfweiliadau manwl â hysbyswyr allweddol a gynhaliwyd yn 2024, ac o’r wybodaeth ystadegol ac ansoddol a gafwyd o’r arolwg ar-lein o awdurdodau lleol eleni. Ym Mhennod 6 rydym yn crynhoi prif ganfyddiadau’r adroddiad hwn.

11 I gael mwy o fanylion am y fframwaith cysyniadol hwn, edrychwch ar Bennod 2 yn y Monitor Digartrefedd cyntaf ar gyfer Cymru: Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Wilcox, S. & Watts, B. (2012) *The Homelessness Monitor: Wales 2012*. Llundain: Crisis. <https://www.crisis.org.uk/ending-homelessness/homelessness-knowledge-hub/homelessness-monitor/wales/the-homelessness-monitor-wales-2012/>

12 Bramley, B. & Fitzpatrick, S. (2018) ‘Homelessness in the UK: who is most at risk?’, *Housing Studies*, 33(1), 96-116.

2. Y cyd-destun ehangach

Prif bwyntiau

Mae Cymru wedi dioddef yn anghymesur o ganlyniad i'r cynnydd mewn chwyddiant a siociau economaidd eraill sydd wedi ysgwyd economi'r Deyrnas Unedig ac wedi gostwng safonau byw, gan adlewyrchu problemau economaidd strwythurol gwaelodol Cymru, incwm is, cyfraddau anweithgarwch economaidd uwch a chyfraddau tlodi uwch o'r chymharu â'r rhan fwyaf o'r Deyrnas Unedig.

Yn dilyn Cyllideb Hydref 2024 y Llywodraeth Lafur newydd, mae cyllid y sector cyhoeddus yng Nghymru mewn cyflwr llai enbyd nag ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, ond mae gwasanaethau cyhoeddus yn dal dan bwysau aruthrol oherwydd y cynnydd yn y galw a chostau uwch, ac mae'n bosibl y bydd rhai gwasanaethau 'heb eu diogelu' yn dal mewn perygl o doriadau cyllid, yn enwedig o fis Ebrill 2026 ymlaen. Roedd mesurau i gryfhau incwm yn ystod y pandemig a'r argyfwng costau byw wedi atal cynnydd yng nghyfradd tlodi cyffredinol Cymru, ond mae penderfyniadau polisi i leihau gwir werth budd-daliadau'r wladwriaeth a chyfyngu ar gymhwysedd wedi cyfrannu at gyfraddau cynyddol tlodi ac amddifadedd plant.

Mae Taliadau Tai Dewisol a'r Gronfa Cymorth Dewisol (DAF) yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o helpu awdurdodau lleol i atal a mynd i'r afael â digartrefedd, ond cyfyngir ar eu heffeithiolrwydd gan gyfyngiadau cyllidebol, rheolau sy'n cyfyngu ar sut gellir eu defnyddio, a chan amrywiadau yn y ffordd mae'r cynlluniau'n gweithredu'n lleol.

Mae Cymru'n adeiladu nifer annigonol o gartrefi ym mhob deiliadaeth a heb gyllid cyfalaf ychwanegol ni fydd targed 2021-26 Llywodraeth Cymru i gyflawni 20,000 o gartrefi cymdeithasol, sy'n cael ei gymeradwyo'n eang, yn gyraeddadwy. Amser a ddengys faint o'r £235 miliwn o fuddsoddiad

cyfalaf ychwanegol ar gyfer 2025/26 sy'n deillio o gyllideb mis Hydref a fydd yn cael ei wario ar dai, ond mae'r swm hwn yn is o lawer na'r bwlch buddsoddi a nodwyd gan Archwilio Cymru.

Mae'n bosibl bod ailsylfaenu cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol ym mis Ebrill 2024, a fydd yn awr yn parhau i fod yn weithredol tan o leiaf Ebrill 2026, wedi lleddfu'r pwysau ar ddigartrefedd yn y tymor byr. Fodd bynnag, y broblem sylfaenol o hyd yw bod cyfuniad o renti cynyddol, llai o lety gwag a phrinder eiddo un ystafell wely yn cyfyngu fwyfwy ar allu aelwydydd incwm is i sicrhau a chynnal tenantiaeth breifat y gallant ei fforddio.

Ni fydd effaith Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru), a ddaeth i rym ddiwedd 2022, yn hysbys am beth amser, ond cymysg yw'r safbwyntiau cychwynnol. Amser a ddengys a yw'r gostyngiad mewn hawliadau meddiant wedi eu cyflymu, sy'n bennaf yn hysbysiadau troi allan 'heb fai', gan fod y cyfnod rhybudd wedi cynyddu o ddau i chwe mis ym mis Rhagfyr 2022, yn newid parhaol am i lawr.

Ers 2018/19, mae cyfran yr holl osodiadau cymdeithasol i denantiaid newydd sy'n cael eu dyrannu i aelwydydd digartref wedi cynyddu ac mae'r bwlch rhwng cyfran yr awdurdodau lleol (46%) a'r cymdeithasau tai (42%) sy'n cael eu gosod i aelwydydd digartref wedi lleihau, ond mae amrywiadau daearyddol mewn dyraniadau i aelwydydd digartref yn dal yn amlwg. Mae'n bosibl y bydd cynigion i wella enwebiadau a chymorth tai i aelwydydd digartref yn arwain at welliant pellach yng nghyfradd y tai cymdeithasol newydd i aelwydydd digartref os cânt eu cyflwyno i ddeddfwriaeth newydd.

2.1 Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg o dueddiadau economaidd, cymdeithasol a thai diweddar sy'n dylanwadu ar yr amgylchedd lle mae digartrefedd yn digwydd. Mae adran 2.2 yn edrych ar ddatblygiadau economaidd a'u heffaith ar gyllid cyhoeddus ac aelwydydd. Mae adran 2.3 yn edrych ar y camau a gymerwyd i gynorthwyo aelwydydd y mae'r cynnydd mewn costau byw yn effeithio'n andwyol arnynt, ac mae adran 2.4 yn edrych ar ffactorau sy'n dylanwadu ar y cyflenwad tai a mynediad at dai rhent sy'n fforddiadwy.

2.2 Y cyd-destun economaidd ehangach


Mae macro-economi'r Deyrnas Unedig, lle mae economi Cymru wedi gwreiddio,¹³ wedi perfformio'n wael ers dirwasgiad byd-eang 2008-2009, gan adlewyrchu problem amlochrog cynhyrchiant isel, wedi ei hategu gan fuddsoddiad annigonol.¹⁴ Mae economi Cymru hefyd wedi aros yn gymharol wan,¹⁵ gyda Gwerth Ychwanegol Gros y pen¹⁶ yn aros ar tua 72% o gyfartaledd y Deyrnas Unedig.¹⁷

Yn ystod pandemig 2020, gwelwyd gostyngiad digynsail mewn Cynnyrch Domestig Gros (GDP) (gweler ffigur 2.1) a chynnydd mewn dyled net yn y sector cyhoeddus tuag at 100% o'r Cynnyrch Domestig Gros¹⁸ wrth i fenthycu gan y llywodraeth gynyddu i dalu am fesurau i ddiogelu iechyd a sefydlogrwydd ariannol aelwydydd a busnesau. Fe wnaeth siociau economaidd ar ôl y pandemig atal adferiad i dwf economaidd a gostwng safonau byw. Roedd y rhain yn cynnwys cynnydd mewn prisiau bwyd ac ynni byd-eang,¹⁹ Brexit,²⁰ a 'chyllideb mini' mis Medi 2022,²¹ a orfododd Banc Lloegr i ymyrryd i sefydlogi'r farchnad ac atal rhai cronfeydd pensiwn rhag methu.²² Fe wnaeth Banc Lloegr hefyd orfodi 14 o godiadau dilynol mewn cyfraddau llog i leddfu chwyddiant, a gyrhaeddodd uchafbwynt o 11.1% ym mis Hydref 2022.

Yn ystod 2024, gostyngodd chwyddiant y Deyrnas Unedig tuag at darged 2% Llywodraeth y Deyrnas Unedig, gan arwain Banc Lloegr i leihau'r gyfradd llog sylfaenol o'r lefel uchaf mewn 16 mlynedd, sef 5.25%, i 5% ym mis Awst 2024 (gweler ffigur 2.1).²³ Fodd bynnag, gyda chwyddiant ar gyfer gwasanaethau'n parhau i fod yn 5.6% yn

- 13 Price, J (2023) *Adroddiad y Prif Economegydd a Disgwyliadau Cyllidol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-12/cyllideb-cymru-2023-adroddiad-y-prif-economegydd.pdf>
- 14 Resolution Foundation & Centre for Economic Performance, LSE (2023) *Ending Stagnation: A New Economic Strategy for Britain*. Llundain: Resolution Foundation. <https://economy2030.resolutionfoundation.org/wp-content/uploads/2023/12/Ending-stagnation-final-report.pdf>
- 15 Ibid
- 16 Mae GVA yn mesur gwerth y nwyddau a'r gwasanaethau a gynhyrchir, ar ôl tynnu cost mewnbynnau a deunyddiau crai y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i'r cynhyrchiad hwnnw ac a ddefnyddir yn aml i gymharu economïau rhanbarthol.
- 17 Swyddfa Ystadegau Gwladol (2024) *Cynnyrch Domestig Gros Rhanbarthol a Gwerth Ychwanegol Gros*. Llundain: Swyddfa Ystadegau Gwladol <https://www.llyw.cymru/cynnyrch-domestig-gros-rhanbarthol-gwerth-ychwanegol-gros-1998-i-2022>
- 18 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2024) *Public Sector Finances, UK: February 2024*. Llundain: ONS. <https://www.ons.gov.uk/economy/governmentpublicsectorandtaxes/publicsectorfinance/bulletins/publicsectorfinances/february2024>
- 19 Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (2023) *OECD Economic Outlook, Interim Report March 2023: A Fragile Recovery*. Paris: OECD <https://www.oecd-ilibrary.org/sites/d14d49eb-en/index.html?itemId=/content/publication/d14d49eb-en>
- 20 Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (2023) *Brexit Analysis*. Llundain: OBR, <https://obr.uk/forecasts-in-depth/the-economy-forecast/brexit-analysis/#future>
- 21 Resolution Foundation (2023) *Mind the (credibility) gap: Autumn Statement preview*. Llundain: Resolution Foundation. <https://www.resolutionfoundation.org/publications/mind-the-credibility-gap/>
- 22 Stephen, M. (2024) 'Economic Prospects and Public Expenditure,' in *The UK Housing Review*. Coventry: CIH. <https://www.ukhousingreview.org.uk/ukhr24/commentaries-pdf/UKHR-2024-Commentary-Ch1.pdf>
- 23 Banc Lloegr (2024) *Monetary Policy Summary and Minutes of the Monetary Policy Committee Meeting – August 2024*, <https://www.bankofengland.co.uk/monetary-policy-summary-and-minutes/2024/august-2024>

Ffigur 2.1: Dangosyddion economaidd allweddol ar gyfer y Deyrnas Unedig



Ffynhonnell: Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) Awst-Medi 2024, Economaidd. Ystadegau'r Farchnad Lafur ynghyd â Chyfradd Banciau Banc Lloegr (cyfradd sylfaenol y Swyddfa Gartref)
Nodiadau: 1. Mae gostyngiad yng nghyfraddau ymateb yr Arolwg o'r Llafurlu yn golygu bod ffigurau chwarterol ar gyfer diweithdra ILO rhwng Ch2 2020 a Ch4 2023 yn fwy anwadad a dylid eu trin yn eithaf gofalus. 2. Mae enillion wythnosol cyfartalog yn cynrychioli cyfraddau twf blyneddol Prydain, wedi eu haddasu'n dymhorol.

Ch3 2024,²⁴ bydd aelwydydd a busnesau yn parhau i gael trafferth gydag effaith chwyddiant a chyfraddau llog uchel am gryn amser i ddod.

Cafodd y pandemig effaith gymharol fach ar ddiweithdra oherwydd y cynllun ffyrlo ac ymatebion eraill Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru a amlinellwyd ym Monitor Digartrefedd 2021 Cymru.²⁵ Rhwng 2020 a 2024, cynyddodd diweithdra

yng Nghymru tua 3-5%, ymhell o dan yr 8-10% a welwyd yn ystod y dirwasgiad byd-eang. Fodd bynnag, mae'r gyfradd anweithgarwch economaidd yng Nghymru (28.7%) yn dal yn uwch o lawer na'r gyfradd ar gyfer y Deyrnas Unedig (22.1%).²⁶ Amcangyfrifodd Prifysgol Sheffield Hallam yn 2022 fod y gyfradd diweithdra wirioneddol (h.y. oedolion 16-64 oed yn hawlio budd-daliadau sy'n gysylltiedig â diweithdra ynghyd â'r rhai sy'n hawlio budd-daliadau analluogrwydd y byddai'n well

ganddynt weithio) yng Nghymru yn 7.7%, sy'n sylweddol uwch na Lloegr (5.6%).²⁷

Yn ystod y degawd hyd at 2023, cynyddodd cyflogau wythnosol chwarter isaf trigolion Cymru mewn gwaith amser llawn yn fwy sydyn (45%) nag ar gyfer y rhai ar gyflogau canolrifol (35%),²⁸ wedi eu gyrru'n bennaf gan gynydd uwch na chwyddiant yn yr isafswm cyflog, a elwir yn swyddogol yn y Cyflog Byw Cenedlaethol ers 2014. Ym mis Ebrill 2024, cafodd y Cyflog Byw Cenedlaethol ei ymestyn i'r rhai rhwng 21 a 22 oed a'i gynyddu 10% i £11.44, gan ragori ar darged Llywodraeth flaenorol y Deyrnas Unedig i godi'r Cyflog Byw Cenedlaethol i 67% o'r cyflog canolrifol fesul awr.

Ym mis Gorffennaf 2024, etholwyd Llywodraeth Lafur newydd yn y Deyrnas Unedig. Mae'n bwriadu ymestyn y Cyflog Byw Cenedlaethol i bawb sy'n 18 oed a hŷn a sicrhau bod codiadau blyneddol yn y Cyflog Byw Cenedlaethol yn ystyried costau byw²⁹. Gan hynny, o fis Ebrill 2025 ymlaen, bydd y Cyflog Byw Cenedlaethol ar gyfer pobl 21 oed a hŷn yn codi 6.7% i £12.21, a bydd y gyfradd ar gyfer pobl 18-20 oed yn cynyddu dros 16% o £8.60 i £10. Bydd dau fesur newydd i gryfhau cyfraith llafur a'i gorfodi hefyd yn ehangu mynediad at Dâl Salwch Statudol a thâl gwyliau, yn rhoi terfyn ar arferion 'cael

gwared ac ailgyflogi/newid' ac yn diddymu contractau dim oriau.³⁰ Yng ngwanwyn 2024, roedd tua 3.3% o weithwyr Cymru ar contractau dim oriau, yn unol â chyfradd y Deyrnas Unedig (3.1%).³¹

Rhagolygon economaidd a chyllidol

Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) yn rhagweld³² y bydd cynnyrch domestig gros yn tyfu yn 2024 (1.1%) a 2025 (2%) ac y bydd cyfraddau llog yn gostwng i 3.8% erbyn diwedd 2025. Serch hynny, rhagwelir mai dim ond tua 1% yn uwch erbyn diwedd 2025 y bydd cynnyrch domestig gros y pen na'r hyn ydoedd yn 2019, gan adlewyrchu cyfuniad o dwf cynnyrch domestig gros cronig o wan ers y pandemig, lefelau cynyddol o anweithgarwch economaidd ac yn gyflymach na thwf rhagamcanol poblogaeth y Deyrnas Unedig yn flaenorol, wedi ei sbarduno gan allfudo net o'r tu allan i Ewrop.³³

Tybir bod rhagolygon tymor agos y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer y Deyrnas Unedig yn berthnasol i Gymru fel arfer.³⁴ Bydd y dybiaeth hon yn cael ei phrofi yn sgil colli 2,500 o swyddi yng ngwaith dur Port Talbot ac o bosibl hyd at 10,000 o swyddi yn y gadwyn gyflenwi³⁵ er bod y pwrs cyhoeddus wedi ymrwymo £500 miliwn i becyn gwerth £1.25

24 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2024) *Consumer price inflation, UK: September 2024*. Ar-lein: ONS. <https://www.ons.gov.uk/economy/inflationandpriceindices/bulletins/consumerpriceinflation/september2024>
25 Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Young, G., Watts, B. & Wood, J. (2021) *The Homelessness Monitor: Cymru 2021*. Llundain: Crisis. <https://www.crisis.org.uk/ending-homelessness/homelessness-knowledge-hub/homelessness-monitor/wales/the-homelessness-monitor-wales-2021>
26 Llywodraeth Cymru (2024) *Trosolwg o'r Farchnad Lafur Gorffennaf 2024*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru <https://www.llyw.cymru/trosolwg-or-farchnad-lafur-gorffennaf-2024-canlyniadau-pennawd.html>

27 Beatty, C., Fothergill, S., Gore, T., a Leather, D. (2022). *The real level of unemployment 2022: the myth of full employment across Britain*. Sheffield: Prifysgol Sheffield Hallam, CRESR., <https://www.shu.ac.uk/centre-regional-economic-social-research/publications/the-real-level-of-unemployment-2022>
28 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2023) *Annual Survey of Hours and Earnings Time Series of Selected Estimates*. Ar-lein: ONS. <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/datasets/ashes1997to2015selectedestimates>
29 Swyddfa'r Prif Weinidog (2024) 'What Changes Are We Making to the Minimum Wage?' 30 Gorffennaf 2024, Llundain: Llywodraeth y Deyrnas Unedig <https://www.gov.uk/government/news/what-changes-are-we-making-to-the-minimum-wage>
30 Llywodraeth y Deyrnas Unedig (2024) 'Government Unveils Significant Reforms To Employment Rights'. 10 Hydref 2024. Llundain: Llywodraeth y Deyrnas Unedig. <https://www.gov.uk/government/news/government-unveils-most-significant-reforms-to-employment-rights>
31 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2024) *EMP17: People in Employment on Zero Hours Contracts – August 2024* release. <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/datasets/emp17peopleinemploymentonzerohourscontracts>
32 Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (2024) *Economic and Fiscal Outlook – October 2024*, Llundain: OBR, <https://obr.uk/economic-and-fiscal-outlooks/>
33 Ibid
34 Price, J (2023) *Adroddiad y Prif Economegydd a Disgwyliadau Cyllidol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, <https://www.llyw.cymru/cyllideb-cymru-2023-adroddiad-y-prif-economegydd>
35 Mosalski, R. (2024) "This Deal Is Not Something To Celebrate" - UK Government Signs New Port Talbot Steelworks Deal With Tata', *Wales Online*. 11 Medi. Ar-lein: Wales Online. <https://www.walesonline.co.uk/news/politics/this-deal-not-something-celebrate-29910488>

biliwn i ategu'r broses o newid i gynhyrchu dur yn fwy gwyrdd.³⁶ Gall cyflymder Eluned Morgan, trydydd Prif Weinidog Cymru ers dechrau 2024, i sicrhau sefydlogrwydd gwleidyddol yn dilyn cwmp cytundeb cydweithredu Llafur Cymru a Phlaid Cymru ym mis Mai 2024 hefyd gael rhywfaint o effaith. Bydd sicrhau sefydlogrwydd gwleidyddol hefyd yn allweddol i gydlynu dull cydlynol ac integredig o sicrhau Cymru fwy ffyniannus, cydnerth a gwyrddach.³⁷

Nid oedd Cyllideb Wanwyn y Deyrnas Unedig yn 2024 yn gadael fawr o le i fenthycu, ac amlinellwyd toriadau gwariant yr amcangyfrifodd y Sefydliad Astudiaethau Cyllidol (IFS) eu bod yn cyfateb i 1.9-3.5% o ostyngiadau ar gyfer meysydd polisi 'heb eu diogelu' (h.y. heb gynnwys iechyd, addysg, gofal plant ac amddiffyn) yn y pedair blynedd hyd at 2028/29.³⁸ Yng Nghyllideb Hydref 2024 Llywodraeth newydd y Deyrnas Unedig gwelwyd rhywfaint o ailgydbwysu blaenoriaethau yn unol â nod y Llywodraeth o gynyddu buddsoddiad mewn gwasanaethau cyhoeddus a phrosiectau cyfalaf, gan gynnwys tai, i sicrhau twf economaidd a safonau byw uwch yn y tymor hwy.³⁹

Bydd gwariant uwch ar wasanaethau cyhoeddus o ddydd i ddydd yn cael ei gyllido'n bennaf gan drethiant uwch, a allai olygu bod refeniw trethi yn cyfateb i 38% o'r Cynnyrch

Domestig Gros erbyn 2029/30, y gyfradd uchaf ers 1948.⁴⁰ Mae mesurau i godi trethi yn cynnwys rhewi parhaus ar drothwyon treth incwm tan 2027/28, sydd ddim ond yn cael ei wrthbwysu'n rhannol gan ostyngiad y tapr Cyfraniadau Yswiriant Gwladol personol o 12% i 10% ym mis Ionawr 2024 ac i 8% o fis Ebrill 2024. Bydd Cyfraniadau Yswiriant Gwladol y Cyflogwr hefyd yn cynyddu, a bydd yn cyfrif am hanner y refeniw treth ychwanegol o £42 biliwn a nodwyd yng Nghyllideb yr Hydref. Bydd gwaith ailysgrifennu rheolau cyllidol y Llywodraeth hefyd yn arwain at £100 biliwn o gynnydd mewn benthyca dros y pum mlynedd nesaf. Bydd hyn yn bennaf yn helpu i gyllido tai newydd a phrosiectau cyfalaf eraill ond bydd hefyd yn helpu i fynd i'r afael â'r £22 biliwn o 'dwl du' mewn cyllid cyhoeddus a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf,⁴¹ a oedd yn deillio'n rhannol o benderfyniadau'r Llywodraeth newydd ar gyflogau yn y sector cyhoeddus a £6.4 biliwn o ddiffyg mewn cyllid i letya a chynorthwyo ceiswyr lloches.

Roedd cyllideb wreiddiol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024/25, sef £26.6 biliwn,⁴² yn cynnwys Grant Bloc o £20.7 biliwn gan San Steffan.⁴³ Ar ôl addasu ar gyfer chwyddiant, canfu Canolfan Llywodraethiant Cymru fod y gyllideb hon yn llai na'r hyn a ddisgwyliwyd yn Adolygiad Gwariant 2021 ac y gallai olygu bod gwariant nad yw'n wariant y GiG yn syrthio'n is na lefelau 2010-11.⁴⁴ Rhybuddiodd

Canolfan Llywodraethiant Cymru hefyd y gallai cynlluniau gwario Llywodraeth Cymru greu diffyg o £683 miliwn erbyn 2028/29⁴⁵ ac y gallai awdurdodau lleol Cymru wynebu £744 miliwn o fwlc cyllido erbyn 2027/28.⁴⁶

Mae'r £1.7biliwn o symiau canlyniadol Barnett sy'n deillio o Gyllideb yr Hydref 2024 wedi lleddfu'r pwysau cyllido hyn yn y tymor byr, ar ôl rhoi £774 miliwn o hwb i gyllideb adnoddau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024/25 a £694 miliwn ar gyfer 2025/26, a chynyddu'r arian cyfalaf £235 miliwn. Mae Adolygiad o Wariant y Gwanwyn Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn 2025 yn annhebygol o fwrw ymlaen â chynigion i ddatganoli Ystâd y Goron,⁴⁷ na throsglwyddo cyfiawnder a phwerau'r heddlu i Gymru,⁴⁸ ond mae'n debygol y bydd yn diwygio rhagdybiaeth Cyllideb yr Hydref y bydd codiadau blynyddol mewn gwariant ar wasanaethau cyhoeddus o ddydd i ddydd yn cael eu cyfyngu i 1.3% o 2026/27 ymlaen. Fodd bynnag, nes bydd hyn yn digwydd, mae perygl y gallai meysydd polisi 'heb eu diogelu' yng Nghymru a rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig wynebu toriadau yn y gyllideb.

Gallai'r rhagolygon cyllidol heriol adnewyddu ymdrechion i ddatblygu'r dull gweithredu traws-polisi, cyfannol ac ataliol ar gyfer llunio a chyflawni polisiau fel y rhagwelir

yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.⁴⁹ Hyd yma, nid yw'r Ddeddf wedi cael ei datblygu'n gyson ac yn effeithiol, fel y dangoswyd gan benderfyniad diweddar Llywodraeth Cymru i leihau gwariant ataliol ar dlodi ac anghydraddoldeb er mwyn diogelu gwasanaethau rheng flaen heb unrhyw arfarniad o sut gallai'r toriadau hyn effeithio ar gynaliadwyedd gwasanaethau o'r fath yn y tymor hwy.⁵⁰

Ar wahân i sefydlu 'Cyngor ar gyfer y Gwledydd a'r Rhanbarthau',⁵¹ nid yw'n glir sut bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn bwrw ymlaen â'i hymrwymiad i gryfhau cysylltiadau rhynglywodraethol a datganoli ac os bydd hyn yn adeiladu ar waith y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru⁵² a'i argymhellion ar gyfer lleihau cyfyngiadau ar gyllid a benthyca Llywodraeth Cymru. Amser a ddengys a fydd Llywodraeth Cymru yn gwneud gwell defnydd o'i phwerau presennol, fel ei phŵer nas defnyddiwyd i amrywio treth incwm. Yn y cyfamser, mae wedi ymgynghori ar ddewisiadau ar gyfer diwygio'r dreth gyngor,⁵³ a byddai'r mwyaf uchelgeisiol ohonynt yn neilltuo eiddo i un o 12 band gwerth eiddo cyfredol. Nid yw canlyniadau'r gwahanol ddewisiadau ar gyfer cyllid awdurdodau lleol, y farchnad dai ac incwm aelwydydd yn glir er gwaethaf

36 Yr Adran Busnes a Masnach a Swyddfa Cymru (2024) *Government puts workers at the heart of new and improved Port Talbot deal- Datganiad i'r Wasg*, 11 Medi 2024, <https://www.gov.uk/government/news/government-puts-workers-at-the-heart-of-new-and-improved-port-talbot-deal>

37 Llywodraeth Cymru (2019) *Ffyniant i Bawb: Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. <https://www.llyw.cymru/ffyniant-i-bawb-y-cynllun-gweithredu-ar-yr-economi>

38 Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (2024) *Public Finances and the 2024 General Election*. 25 Mai. Llundain: IFS. <https://ifs.org.uk/articles/public-finances-and-2024-general-election>

39 Trysorlys EF (2024) *Cyllideb yr Hydref 2024*, Llundain: Llywodraeth y Deyrnas Unedig <https://www.gov.uk/government/publications/autumn-budget-2024>

40 Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (2024) *Economic and Fiscal Outlook – October 2024*, Llundain: OBR, <https://obr.uk/economic-and-fiscal-outlooks/>

41 Canghellor y Trysorlys (2024) *Public Spending: Inheritance*. 29 July. Llundain: Tŷ'r Cyffredin. <https://hansard.parliament.uk/search/MemberContributions?house=Commons&memberId=4031>

42 Llywodraeth Cymru (2024) *Cyllideb Derfynol 2024 i 2025*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. <https://www.llyw.cymru/cyllideb-derfynol-2024-2025>

43 Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru (2024) *Wales Office Supplementary Estimate 2023-24: Estimates Memorandum, Report to Welsh Affairs Committee*. Llundain: Tŷ'r Cyffredin. <https://committees.parliament.uk/publications/43845/documents/217478/default/>

44 Ifan, G. (2023) *The Medium-Term Fiscal Outlook For Local Government In Wales*. Caerdydd: Canolfan Llywodraethiant Cymru, Prifysgol Caerdydd. https://www.cardiff.ac.uk/__data/assets/pdf_file/0011/2776448/The-medium-term-fiscal-outlook-for-local.pdf

45 Ifan, G. (2024) *Stark Choices await the Welsh Budget Whichever Party Wins the UK General Election*. 26 Mehefin. Ar-lein: Prifysgol Caerdydd. <https://blogs.cardiff.ac.uk/thinking-wales/stark-choices-await-the-welsh-budget-whichever-party-wins-the-uk-general-election/>

46 Ibid

47 Gweler, er enghraifft, ymateb y Gweinidog yn ystod dadl ddiweddar ar fil ystâd y goron: [https://hansard.parliament.uk/Lords/2024-09-02/debates/1CB252D7-FD89-446C-8730-5E8059671D74/CrownEstateBill\(HL\)#main-content](https://hansard.parliament.uk/Lords/2024-09-02/debates/1CB252D7-FD89-446C-8730-5E8059671D74/CrownEstateBill(HL)#main-content)

48 Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru (2019) *Cyfiawnder yng Nghymru dros Bobl Cymru*, Caerdydd, y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru a Llywodraeth Cymru, <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-10/Justice%20Commission%20WEL%20DIGITAL.pdf>

49 Llywodraeth Cymru (2021) *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: Yr Hanfodion*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. <https://www.llyw.cymru/deddf-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru-2015-yr-hanfodion-html>

50 Pwyllgor Cyllid Senedd Cymru (2024) *Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25*. Caerdydd: Senedd, <https://senedd.cymru/media/z2uhe4gl/cr-ld16314-w.pdf>

51 Swyddfa'r Prif Weinidog a'i Fawrhydi y Brenin Charles III (2024) *The King's Speech 2024*. Llundain: Llywodraeth y Deyrnas Unedig. <https://www.gov.uk/government/speeches/the-kings-speech-2024>

52 Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru (2024) *Adroddiad Terfynol: Ionawr 2024*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. <https://www.useyourvoice.wales/final-report>

53 Llywodraeth Cymru (2023) *Ymgynghoriad Treth Gyngor Decach: cam 2*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, <https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-decach-cam-2>

canfyddiadau ymchwiliad diweddar gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid.⁵⁴

Anghydraddoldeb a thlodi yn dyfnhau


Llywodraeth y Deyrnas Unedig rhwng 2019 a 2024 oedd y gyntaf i weld gostyngiad mewn safonau byw yn ystod ei chyfnod wrth y llyw ers i gofnodion ddechrau ym 1961.⁵⁵ Profodd aelwydydd y tu allan i'r 20% uchaf o'r dosbarthiad incwm ostyngiad mewn safonau byw ond roedd aelwydydd yn yr 20% isaf yn waeth eu byd.⁵⁶ Yn ogystal â gwario cyfran uchel o'u cyllideb ar fwyd, ynni a hanfodion eraill, a welodd gynnydd mawr mewn prisiau, mae aelwydydd tlawd yn tueddu i dalu mwy am y pethau sylfaenol, gydag un astudiaeth yn nodi y gallai diffyg mynediad at fargeinion ar-lein olygu talu 25% yn fwy am fwyd ac eitemau eraill.⁵⁷

Mae'r OBR⁵⁸ yn disgwyl i safonau byw ddychwelyd i lefelau cyn y pandemig erbyn diwedd 2025, ond mae costau tai uchel a chynyddol yn golygu y bydd safonau byw cyfyngedig yn parhau i fod yn broblem ddifrifol i lawer o aelwydydd. Bydd sut mae hyn yn effeithio ar anghydraddoldeb incwm yn y Deyrnas Unedig, sydd bellach ar lefel uwch nag mewn unrhyw wlad Ewropeaidd fawr arall,⁵⁹ yn dylanwadu ar fynychder a difrifoldeb tlodi, ffactor risg allweddol ar gyfer digartrefedd.

Rhwng 2011/13 a 2018/2020 roedd cyfraddau tlodi yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig yn weddol sefydlog. Dros y cyfnod hwn, roedd 24% o holl drigolion Cymru yn byw mewn aelwyd gydag incwm is na 60% o incwm canolrifol aelwydydd ar ôl ystyried costau tai, ychydig yn uwch na chyfradd gymaradwy y Deyrnas Unedig (22%). Yn 2021/23, gostyngodd cyfradd tlodi ar ôl ystyried costau tai Cymru i 21%, gan gyrraedd yr un gyfradd â'r Deyrnas Unedig gyfan. Ysgogwyd hyn gan ostyngiad yng nghyfran y rhieni unigol mewn tlodi (gweler ffigur 2.2), yn benodol rhieni unigol mewn gwaith gydag un neu ddau o blant. Mae'r is-grŵp hwn o rieni unigol wedi elwa fwyaf o'r cynnydd Credyd Cynhwysol wythnosol dros dro o £20 yn ystod y pandemig, gweithredu lwfansau gwaith Credyd Cynhwysol mwy hael a thaprau is i rieni o ddiwedd 2021, a chyflwyno Taliadau Costau Byw dros dro.

Er gwaethaf y gostyngiad mewn aelwydydd unig riant mewn tlodi ar ôl ystyried costau tai a chyflwyno'r Strategaeth Tlodi Plant i Gymru, a gafodd ei hadnewyddu ym mis Ionawr 2024,⁶⁰ nid yw nifer y plant mewn tlodi (190,000) yng Nghymru wedi newid fawr ddim dros y blynyddoedd diwethaf. Y prif reswm dros hyn fu cynnydd yng nghyfran yr aelwydydd mwy gyda thri neu fwy o blant mewn tlodi ar ôl ystyried costau tai, a gynyddodd o 37% yn 2016/18 i 51% yn 2021/23. Digwyddodd tuedd tebyg ar i fyny ar lefel y Deyrnas Unedig, wedi ei sbarduno drwy gyflwyno terfyn dau blentyn ar gyfer hawliadau Credyd Cynhwysol a Chredyd Treth Plant o 2017.⁶¹ Mae'r Cap Budd-

Ffigur 2.2: Tueddiadau yng nghyfansoddiad aelwydydd trigolion Cymru mewn tlodi ar ôl ystyried costau tai, 2011/13 i 2021/23



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2024) Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog; Arolwg Adnoddau Teulu (FRS) – Tabl diwedd blwyddyn ariannol 2008 i ddiwedd blwyddyn ariannol 2023
Nodiadau: Mae'r ffigurau'n seiliedig ar gyfartaleddau treigl 3 blynedd.

daliadau a natur cyfradd sefydlog y taliadau costau byw dros dro wedi bod yn ffactorau hefyd.

Er bod ystadegau tlodi swyddogol yn dangos gostyngiad bach mewn tlodi ar ôl ystyried costau tai, mae tystiolaeth arall, yn enwedig ynghylch amddifadedd, yn rhoi darlun mwy digalon. Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru⁶² yn adrodd bod cyfran yr oedolion mewn amddifadedd materol wedi cynyddu o 3%

i 16% rhwng 2019/20 a 2022/23. Yn yr un modd, mae'r gyfres o arolygon Ciplun ar Dlodi⁶³ yn adrodd bod 13% o aelwydydd weithiau, yn aml, neu bob amser wedi bod heb ddigon o arian ar gyfer yr holl hanfodion yn ystod gaeaf 2024, sydd wedi cynyddu o'r lefel 8% yng ngwanwyn 2021.

Yn fwy pryderus fyth, dyblodd amddifadedd yn y Deyrnas Unedig rhwng 2017 a 2022, fel bod 3.8 miliwn o bobl, gan gynnwys miliwn

54 Adam, S., Phillips, D., Ray-Chaudhuri, S. (2023) *Assessing the Welsh Government's Consultation on Reforms to Council Tax*. Llundain: IFS, <https://ifs.org.uk/sites/default/files/2023-11/R287-Assessing-the-Welsh-Government%E2%80%99s-consultation-on-reforms-to-council-tax.pdf>

55 Ray-Chaudhuri, S., Waters, T., a Wernham, T. (2024) *Living standards since the last election*. Llundain: IFS. <https://ifs.org.uk/publications/living-standards-last-election>

56 Ibid

57 Centre for Social Justice (2023) *Left out: how to tackle digital exclusion and reduce the poverty premium*. Llundain: CSJ. <https://www.centreforsocialjustice.org.uk/wp-content/uploads/2023/08/CSJ-Left-Out.pdf>

58 Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (2024) *Economic and Fiscal Outlook – March 2024*. Llundain: OBR. <https://obr.uk/efo/economic-and-fiscal-outlook-march-2024/>

59 Resolution Foundation & Centre for Economic Performance, LSE (2023) *Ending Stagnation: A New Economic Strategy for Britain*. Llundain: Resolution Foundation <https://economy2030.resolutionfoundation.org/wp-content/uploads/2023/12/Ending-stagnation-final-report.pdf>

60 Llywodraeth Cymru (2024) *Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2024*. Caerdydd: Welsh Government, <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2024/7/5/1720789808/strategaeth-tlodi-plant-cymru-2024.pdf>

61 Patrick, R. et al (2023) *Needs and Entitlements: Welfare Reform and Larger Families*. Llundain: Nuffield Foundation. <https://www.nuffieldfoundation.org/project/how-uk-welfare-reform-affects-larger-families>

62 Llywodraeth Cymru (2024) Tlodi ac Amddifadedd (Arolwg Cenedlaethol Cymru): 2022-2023. Caerdydd: Llywodraeth Cymru <https://www.llyw.cymru/tlodi-ac-amddifadedd-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html>

63 Sefydliad Bevan (2024) Ciplun ar Dlodi yng Ngaeaf 2024. Merthyr Tudful: Sefydliad Bevan. <https://www.bevanfoundation.org/resources/ciplun-ar-dlodi-yng-ngaeaf-2024/>

o blant, yn amddifad ar ryw adeg yn ystod 2022.⁶⁴ Er bod cyfradd Cymru 2022 yn dal yn is na chyfartaledd y Deyrnas Unedig, mae amddifadedd wedi bod yn codi'n gyflymach yng Nghymru nag mewn llawer o ardaloedd eraill yn y Deyrnas Unedig ers 2017. Mae lefelau cynyddol o amddifadedd wedi eu hadlewyrchu yn y defnydd o fanciau bwyd. Dosbarthodd rhwydwaith Ymddiriedolaeth Trussell 187,400 o barseli bwyd yng Nghymru yn 2023/24 o'i gymharu â 116,325 yn 2018/19, sy'n 61% o gynnydd.⁶⁵

2.3 Cymorth ariannol i aelwydydd incwm isel ac agored i niwed

Mae'r adran hon yn edrych ar y cymorth dros dro i amddiffyn aelwydydd rhag yr argyfwng costau byw a datblygiadau nawdd cymdeithasol diweddar sy'n effeithio ar dlodi a'r risg o ddigartrefedd.

Costau byw a thaliadau dros dro eraill


Cafodd nifer o fesurau costau byw dros dro eu cyflwyno yn 2022/23 mewn ymateb i gynnydd cyflym yn y cap ar brisiau ynni, a oedd ar ei uchaf ar £4,279 yn Ch1 2023.⁶⁶ Cafodd pob aelwyd ym Mhrydain Fawr ddisgownt un-tro o £400 ar filiau ynni. Cafodd aelwydydd yng Nghymru a oedd yn byw mewn eiddo Band A i D neu a oedd yn derbyn taliad Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor £150 o ad-daliad ar y Dreth Gyngor hefyd, a dalwyd drwy symiau canlyniadol Barnett (£152 miliwn).

Cynyddodd y Gwarant Pris Ynni, a gynhaliwyd rhwng mis Hydref 2022 a mis Mawrth 2024, filiau blynyddol cyfyngedig ar gyfer aelwyd 'nodweddiadol' i £2,500, a £3,000 yn ddiweddarach. Yn olaf, roedd taliadau'r Gronfa yn darparu cymorth wedi ei dargedu ar gyfer aelwydydd incwm isel ac agored i niwed, gyda'r rhai sy'n hawlio budd-daliadau ar sail incwm yn cael £650 yn 2022/23 a £900 yn 2023/24, y rhai sy'n hawlio budd-daliadau anabledd yn cael £150 yn y ddwy flynedd, ac aelwydydd hŷn yn cael £300 yn y ddwy flynedd.

Roedd taliadau Costau Byw yn helpu i sicrhau bod yr aelwydydd tlotaf, mewn termau real, yn gweld llai o ostyngiad yn eu hincwm nag aelwydydd eraill.⁶⁷ Ar y llaw arall, roedd y gyfradd safonol o daliadau'r Dreth Enillion Cyfalaf o fudd i aelwydydd bach yn hytrach na theuluoedd mawr.⁶⁸ Roedd natur ymyl dibyn taliadau costau byw yn golygu nad oedd aelwydydd ag enillion ychydig yn uwch na'r trothwy cymhwysedd uchaf yn cael unrhyw beth, gan eu gwneud yn waeth eu byd nag aelwydydd tebyg a gafodd daliad.⁶⁹

Cafodd grwpiau amrywiol eu heithrio hefyd rhag hawlio taliadau costau byw, fel aelwydydd a oedd yn hawlio budd-daliadau tai yn unig neu fudd-daliadau etifeddol eraill (o leiaf 12,400 o aelwydydd yng Nghymru) a'r rhai heb hawl i gyllid cyhoeddus. Roedd aelwydydd ag enillion afreolaidd yr oedd eu cyflog fymryn y tu hwnt i'r trothwy Credyd Cynhwysol yn y cyfnod asesu ar gyfer rhandaliad £300 at gostau byw wedi colli'r cyfle, yn yr un modd ag aelwydydd yr oedd eu Credyd Cynhwysol wedi ei sancsiynu ac nad oeddent yn cael Taliad Caledi.⁷⁰

Ffigur 2.3: Hawlwyr budd-daliadau oedran gweithio yng Nghymru, mis Mai 2018 i fis Tachwedd 2023



Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau (Awst 2024) Cyfuniadau Budd-daliadau: Ystadegau Swyddogol hyd fis Tachwedd 2023 Nodiadau: Mae'r ffigurau ar gyfer hawliadau oedran gweithio ar gyfer gwahanol fudd-daliadau gan gynnwys Credyd Cynhwysol (UC), Budd-dal Tai (HB) a budd-daliadau etifeddol, anabledd a lwfans gofaliwyr eraill.

Nawdd cymdeithasol sy'n gysylltiedig ag incwm

Cododd nifer yr hawlwyd nawdd cymdeithasol oed gweithio yng Nghymru o 414,000 i 517,700 yn y deuddeg mis hyd at fis Chwefror 2021 (gweler ffigur 2.3). Ers hynny, mae'r niferoedd wedi aros ymhell uwchlaw'r lefelau cyn y pandemig. O'r 505,700 o hawlwyd ym mis Tachwedd 2023, roedd tua 273,200 yn hawlio budd-daliadau cysylltiedig ag anabledd (54%), yn gyson â'r cyfraddau anweithgarwch uchel a nodwyd yn gynharach.

Yn y 15 mlynedd i 2023/24, roedd cyfraddau budd-daliadau ar gyfer aelwydydd oedran gweithio wedi methu cadw'n gyfredol ag enillion na phrisiau,⁷¹ oherwydd toriadau a rhewi amrywiol a'r newid o'r Mynegai Prisiau Manwerthu i'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) ar gyfer uwchraddio budd-daliadau yn 2011. Er bod y buddion wedi cynyddu 10.1% ym mis Ebrill 2023 a 6.7% ym mis Ebrill 2024, yn gyson â'r gyfradd CPI yn y mis Medi blaenorol, mae cyfraddau arian parod sylfaenol Credyd Cynhwysol yn is na'r trothwyon arian ar gyfer amddifadedd i bobl oedran gweithio.⁷² Mae oedolion sengl wedi dioddef fwyaf, gyda'r lwfans safonol Credyd Cynhwysol bellach yn cyfateb i ddim ond

64 Fitzpatrick, S., Bramley, G., Treanor, M., Blenkinsopp, J., McIntyre, J., Johnsen, S., & McMordie, L. (2023). Destitution in the UK: 2023. York: Sefydliad Joseph Rowntree. <https://www.jrf.org.uk/report/destitution-uk-2023>

65 Ymddiriedolaeth Trussell (2024) *Emergency Food Parcel Distribution in Wales 1 April 2023 to 31 March 2024*. Llundain: Ymddiriedolaeth Trussell <https://www.trusselltrust.org/wp-content/uploads/sites/2/2024/05/EYS-Wales-Factsheet-2023-24.pdf>

66 Ofgem (2023) Retail market indicators. Ar-lein: Ofgem. Cyrchwyd Mehefin 2023, <https://www.ofgem.gov.uk/energy-data-and-research/data-portal/retail-market-indicators>

67 Ray-Chaudhuri, S., Waters, T., a Wernham, T. (2024) *Living standards since the last election*. Llundain: IFS, <https://ifs.org.uk/publications/living-standards-last-election>

68 Pwyllgor y Trysorlys (2022) *Autumn Statement 2022 – Cost of living payments*. Llundain: Tŷ'r Cyffredin <https://publications.parliament.uk/pa/cm5803/cmselect/cmtreasy/740/report.html#heading-1>

69 Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (2022) *IFS Response to Government Cost of Living Support Package*. Llundain: Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid. <https://ifs.org.uk/articles/ifs-response-government-cost-living-support-package>

70 Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (2023) *The cost of living crisis: a pre-Budget briefing*. Llundain: IFS. <https://ifs.org.uk/publications/cost-living-crisis-pre-budget-briefing>

71 Ibid

72 Bramley, G. (2023) *Destitution in the UK: income thresholds for October 2022*. York: Sefydliad Joseph Rowntree. <https://www.jrf.org.uk/report/destitution-uk-income-thresholds-october-2022>


14% o'r enillion cyfartalog,⁷³ ymysg y gyfradd amnewid incwm isaf yn holl wledydd incwm uchel y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD).⁷⁴ Ni fydd yr 1.7% o gynnydd arfaethedig i Gredyd Cynhwysol a'r rhan fwyaf o fuddion eraill o oedran gweithio ym mis Ebrill 2025 yn gwella perfformiad y Deyrnas Unedig yn y safleoedd hyn.

Gellir cosbi un rhan o bump o hawlwr oed gweithio yng Nghymru,⁷⁵ hawlwr Credyd Cynhwysol yn bennaf, os bernir eu bod wedi methu bodloni amodau sy'n gysylltiedig â gwaith. Roedd tua 5,500 o hawlwr Credyd Cynhwysol dan sancsiwn ym mis Chwefror 2024, sy'n cyfateb i 6.6% o hawlwr Credyd Cynhwysol sy'n destun amodoldeb (gweler ffigur 2.4). Fe wnaeth nifer a chyfradd y bobl a oedd yn destun sancsiwn gynyddu yng Nghymru a gweddill Prydain ar ôl ailddechrau cyfweiliadau wyneb yn wyneb yn ystod haf 2021, a gafodd eu hatal dros dro yn ystod y pandemig.⁷⁶ Mae hyn wedi atgyfnerthu pryderon nad yw mesurau diogelu i amddiffyn pobl anabl a phobl agored i niwed rhag sancsiynau yn cael eu rhoi ar waith yn gyson ac yn effeithiol.⁷⁷ Yn dilyn etholiad cyffredinol mis Gorffennaf 2024, ni fydd cynigion gan Lywodraeth flaenorol y Deyrnas Unedig i osod

sancsiynau llymach ac i ymestyn sancsiynau i lawer mwy o hawlwr⁷⁸ yn mynd rhagddynt mwyach. Yn hytrach, mae Llywodraeth newydd y Deyrnas Unedig yn bwriadu uno'r Ganolfan Byd Gwaith â'r Gwasanaeth Gyrfaedd Cenedlaethol yn Lloegr i greu asiantaeth newydd i hyrwyddo a chefnogi pobl i weithio yn hytrach na phlismona hawlwr.⁷⁹ Yn y cyfamser, yng Nghymru, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn bwriadu gweithio gyda Llywodraeth Cymru i adeiladu ar arferion cydweithredol rhwng y Ganolfan Byd Gwaith a Gyrfa Cymru.

Mae arian yn cael ei dynnu'n uniongyrchol o daliadau dros ddwy ran o bump o'r rhai sy'n hawlio Credyd Cynhwysol.⁸⁰ Mae hyn yn fwyaf cyffredin ar gyfer blaendaliadau a gordaliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau ond gall gynnwys didyniadau ar gyfer ôl-ddyledion i gyrff cyhoeddus ar gyfer rhent, treth gyngor a biliau cyfleustodau. Ers y pandemig, mae'r gyfradd adfer ar gyfer didyniadau Credyd Cynhwysol wedi cael ei gostwng⁸¹ ac mae cyfnodau ad-dalu ar gyfer rhai dyledion wedi cael eu hymestyn. Wedi dweud hynny, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn parhau i flaenoriaethu ad-daliadau dyledion heb fawr o asesiad o'r risg i iechyd a llesiant,⁸² gan waethygu tlodi a dyledion⁸³ a gwrthio rhai i

Ffigur 2.4: Hawlwyr Credyd Cynhwysol yng Nghymru a oedd dan sancsiwn ar adeg benodol, Rhagfyr 2019 i Chwefror 2024



Ffynhonnell: Cyfraddau Sancsiynau Credyd Cynhwysol yr Adran Gwaith a Phensiynau a ddefnyddiwyd drwy Stat-Xplore, cyrchwyd Awst 2024.
Nodiadau: Mae'r gyfradd yn cyfeirio at hawlwr Credyd Cynhwysol sydd dan sancsiwn fel canran o hawlwr Credyd Cynhwysol sy'n destun amodoldeb.

73 Brewer, M., Handscomb, K., Pacitti, C., & Try, L. (2023) *Sharing the Benefits: Can Britain Secure Broadly Shared Prosperity?* Llundain: Resolution Foundation. <https://economy2030.resolutionfoundation.org/reports/sharing-the-benefits/>

74 Sefydliad Joseph Rowntree ac Ymddiriedolaeth Trussell (2022) *An Essential Guarantee: Reforming Universal Credit to Ensure We Can All Afford the Essentials in Hard Times*. York: Sefydliad Joseph Rowntree. <https://www.jrf.org.uk/report/guarantee-our-essentials>

75 Amcangyfrifon tîm yr astudiaeth yn deillio o ystadegau'r Adran Gwaith a Phensiynau.

76 Webster, D. (2024) *Briefing: Benefit Sanctions Statistics, Summer 2024*. Ar-lein: CPAG. <https://cpag.org.uk/policy-and-research/latest-policy-briefings-and-reports/david-webster-briefings>

77 Y Pwyllgor Gwaith a Phensiynau (2024) *Ymchwiliad Diogelu Hawlwyr Agored i Niwed*. Llundain: Tŷ'r Cyffredin. <https://committees.parliament.uk/work/7866/safeguarding-vulnerable-claimants/publications/>

78 Llywodraeth y Deyrnas Unedig (2023) *Employment Support Launched For Over A Million People* <https://www.gov.uk/government/news/employment-support-launched-for-over-a-million-people?ref=publicsquare.uk>

79 Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau (2024) *Getting Britain Working – Speech At the Launch of the Pathways to Work report*, 23 July <https://www.gov.uk/government/speeches/getting-britain-working>

80 Y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant (2022) *Reducing Deductions: The First Step In A Package Of Support For Low-Income Households*. Glasgow: CPAG <https://cpag.org.uk/news/reducing-deductions-first-step-package-support-low-income-households>

81 40% i 25% i bob pwrpas o'r Lwfans Safonol ar gyfer Credyd Cynhwysol.

82 Sefydliad Banc Lloyds (2022) *Deductions: The Driver of Poverty*. Llundain: LBF. <https://www.lloydsbankfoundation.org.uk/media/h1adbmzu/deductionsreport.pdf>

83 Edmiston, D. (2024). 'Indentured: Benefit deductions, debt recovery and welfare disciplining.' *Social Policy & Administration*, 1–16. <https://doi.org/10.1111/spol.13021>

dlodi a digartrefedd.⁸⁴ Gallai hyn newid yn y dyfodol yn dilyn cyhoeddiad Cyllideb yr Hydref ynghylch cyflwyno'r 'Cyfradd Ad-dalu Teg', a fydd yn lleihau'r didyniad uchaf y gellir ei gymryd o lwfans safonol Credyd Cynhwysol o 25% i 15%. Mae cyfraddau Lwfans Tai Lleol yn sail i'r gwaith o gyfrifo cymorth costau tai ar gyfer rhentwyr preifat sy'n hawlio Credyd Cynhwysol neu Fudd-dal Tai a chawsant eu rhewi am y pedair blynedd hyd at Ebrill 2024. Dros y cyfnod hwn, roedd cyfran y rhentwyr preifat yng Nghymru a oedd yn hawlio Credyd Cynhwysol a oedd yn talu rhent uwch na'r gyfradd Lwfans Tai Lleol berthnasol

wedi cynyddu o 65% i 77%.⁸⁵ Roedd y risg o amddifadedd a digartrefedd ar ei huchaf ymhlith y rhai a oedd yn symud tŷ. Canfu Sefydliad Bevan mai dim ond 32 o'r 2,638 o lety rhentu preifat a hysbysebwyd (1.2%) yng Nghymru yn ystod pythefnos cyntaf mis Chwefror 2023 oedd â rhent a oedd yn cael ei gwmpasu'n llawn yn y gyfradd Lwfans Tai Lleol berthnasol, problem sy'n cael ei dwysau ymhellach gan y ddarpariaeth fach o lety a rennir ac unedau un ystafell wely ar draws y rhan fwyaf o Gymru (gweler isod).⁸⁶ Canfu astudiaeth ar y cyd gan Crisis a Zoopla hefyd mai dim ond 2% o lety rhent yn y flwyddyn hyd

84 Fitzpatrick, S., Bramley, G., Treanor, M., Blenkinsopp, J., McIntyre, J., Johnsen, S., & McMordie, L. (2023). *Destitution in the UK: 2023*. York: Sefydliad Joseph Rowntree. <https://www.jrf.org.uk/report/destitution-uk-2023>

85 Data Credyd Cynhwysol Stat-XPlore yr Adran Gwaith a Phensiynau a lwythwyd i lawr ym mis Mehefin 2024.

86 Sefydliad Bevan (2023) *Local Housing Allowance and the Private Rental Market in Wales: Winter 2023*. Merthyr Tudful: Sefydliad Bevan <https://www.bevanfoundation.org/wp-content/uploads/2023/03/Wales-Housing-Crisis-Winter-2023.pdf>

at Ebrill 2023 yng Nghymru a hysbysebwyd o fewn cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol.⁸⁷ Gan adlewyrchu'r darlun llwm hwn, dywedodd yr holl Awdurdodau Lleol a ymatebodd i'r arolwg fod rhewi'r Lwfans Tai Lleol wedi ei gwneud yn anodd atal neu liniaru digartrefedd yn ystod 2023/24, gyda 12 yn dweud ei fod yn heriol iawn.

Ym mis Ebrill 2024, cafodd cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol eu hadfer i 30ain canradd rhenti lleol fel yr oeddent ym mis Medi 2023. Roedd mwyafrif yr Awdurdodau Lleol a ymatebodd i'r arolwg (10 o 16) yn rhagweld y byddai hyn yn gwella rhywfaint ar y cwmpas ar gyfer atal neu liniaru digartrefedd yn eu hardal, ond roedd yr ymatebwyr yn glir bod yr her sylfaenol a sylweddol o ddiffyg rhwng cyfraddau Lwfans Tai Lleol a rhenti gwirioneddol y farchnad yn parhau:

‘mae’n rhy ychydig, yn rhy hwyr. Mae’r farchnad wedi gweld cynnydd sylweddol mewn rhent yn y sector rhentu preifat... ond bydd yn helpu rhywfaint, er hynny.’

(Awdurdod Lleol, Gogledd-ddwyrain Cymru)

‘Ni fydd y cynnydd yn ddigon effeithiol i gael unrhyw effaith ystyrlon, mae prisiau rhentu wedi cynyddu’n sylweddol.’

(Awdurdod Lleol, De Cymru)


Mae’r Cap Budd-daliadau yn cyfyngu ar gyfanswm yr incwm y gall aelwydydd ei gael o fudd-daliadau ac yn gyffredinol mae’n berthnasol i aelwydydd oedran gweithio sy’n

ennill llai na £793 fesul mis calendr, ni waeth beth yw eu costau tai. Y tu allan i Lundain, cynyddwyd y cap 10.1% yn 2023/24 i £22,020 y flwyddyn ar gyfer cyplau ac aelwydydd â phlant ac i £14,753 ar gyfer oedolion sengl, y cynnydd cyntaf yn y cap ers iddo gael ei ostwng ym mis Tachwedd 2016. Er hynny, mae’r Resolution Foundation yn amcangyfrif bod y cap bellach £14,000 yn is mewn termau real i deuluoedd yng Nghymru na phan gyflwynwyd y cap am y tro cyntaf yn 2013.⁸⁸

Yng Nghymru, effeithiodd y Cap Budd-daliadau ar 1,953 o aelwydydd ym mis Chwefror 2024. Mae Ffigur 2.5 yn dangos bod hyn yn llawer is nag ym mis Ebrill 2020 pan arweiniodd lansio’r codiad credyd cynhwysol wythnosol o £20 at gynnydd yn nifer yr aelwydydd a gafodd eu heffeithio. Roedd hefyd yn is nag ym mis Chwefror 2021, pan oedd y niferoedd ar eu uchaf ar 4,513, wrth i’r rhai a oedd yn hawlio Credyd Cynhwysol oherwydd colli enillion yn agos at ddechrau’r pandemig ddod yn ddarostyngedig i’r Cap. O edrych ar y rhai yr effeithiwyd arnynt, roedd tua 75% yn rhieni sengl ac roedd 24% arall yn gyplau â phlant, gydag oddeutu 30% yn colli incwm o £25-49 yr wythnos a 35% yn colli incwm o £50 a mwy yr wythnos. Mae ail-rewi’r Cap Budd-daliadau yn 2024/25 ar yr un pryd â chynyddu’r trothwy enillion is a chodi cyfraddau Lwfans Tai Lleol a budd-daliadau wedi arwain at gynnydd eto ers mis Ebrill 2024.

Mae profiad blaenorol yn awgrymu y bydd penderfyniad Llywodraeth newydd y Deyrnas Unedig i beidio â chynyddu cyfraddau presennol y Lwfans Tai Lleol tan o leiaf Ebrill 2026 ochr yn ochr â’r rhewi parhaus ar y Cap ar Fudd-daliadau i aelwydydd a’r penderfyniad i beidio â diddymu’r Cap Budd-dal neu’r terfyn dau blentyn yn gorfodi mwy o aelwydydd, yn enwedig y rhai sydd â phlant, i dlodi a digartrefedd ac yn ychwanegu at y galw am gyllid dewisol.

Ffigur 2.5: Aelwydydd sy’n destun y Cap ar Fudd-daliadau yng Nghymru, mis Ionawr 2019 i fis Mai 2024



Ffynhonnell: Ystadegau Cap Budd-daliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau, Stat-Xplore Tablau Credyd Cynhwysol a Budd-dal Tai, cyrchwyd Tachwedd 2024

Manteision yn ôl disgrisiwn a manteision penodol i Gymru

Mae’r Adran Gwaith a Phensiynau yn darparu cyllid ar gyfer Taliadau Disgrisiwn at Gostau Tai i awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr. Mae’r gronfa hon yn galluogi awdurdodau lleol i gynnig cymorth ariannol ychwanegol i’r rhai sy’n hawlio Budd-dal Tai neu’r elfen tai Credyd Cynhwysol. Defnyddir tua 70% o’r Taliad Tai Uniongyrchol yng Nghymru i liniaru costau rhent parhaus - fel arfer, y rhai sy’n gysylltiedig â’r dreth ystafell wely, diwygio’r Lwfans Tai Lleol a’r Cap Budd-daliadau. Defnyddir y 30% sy’n weddill tuag at ‘gostau eraill’, fel cymorth tymor byr gyda rhent wrth symud tŷ a darparu blaendal rhent.⁸⁹ Nid oes dadansoddiad manwl ar gael eto, ond cadarnhaodd Cyllideb yr Hydref 2024 y bydd £1 biliwn ar gael i gyllido

Taliadau Tai Dewisol ledled Cymru a Lloegr yn 2025/26 ynghyd ag estyniad 12 mis o’r Gronfa Cymorth i Deuluoedd sy’n gweithredu yn Lloegr ond sy’n cynhyrchu symiau canlyniadol Barnett y deallir eu bod yn helpu i gyllido Cronfa Atal Digartrefedd yn ôl Disgrisiwn Llywodraeth Cymru.

Mae cyllid yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer Taliadau Tai Dewisol wedi bod ar daith heriol ers y pandemig. Cynyddodd dyraniad Cymru o £8.14 miliwn yn 2019/20 i £10.1 miliwn yn 2020/21 ond gostyngodd yn ôl i £8.7 miliwn yn 2021/22 a £6.46 miliwn yn 2022/23, a 2023/24.⁹⁰ Yn 2021/22, darparodd Llywodraeth Cymru £4.1 miliwn o atodiad, sy’n fwy na gwrthbwysio toriad cyllid yr Adran Gwaith a Phensiynau. Yn hytrach nag


87 Crisis (2023) *Charity Calls For An End To Housing Benefit Freeze This Winter As Shocking New Statistics Unveiled*, datganiad i’r wasg, Caerdydd, <https://www.crisis.org.uk/about-us/crisis-media-centre/charity-calls-for-an-end-to-housing-benefit-freeze-this-winter-as-shocking-new-statistics-unveiled/>

88 Try, L (2024) *Catastrophic Caps: An Analysis Of The Impact Of The Two-Child Limit And The Benefit Cap*. Llundain: Resolution Foundation. <https://www.resolutionfoundation.org/publications/catastrophic-caps/>

89 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2024) Discretionary Housing Payments Statistics. Ar-lein: DWP. <https://www.gov.uk/government/collections/discretionary-housing-payments-statistics>

90 Ibid

Ffigur 2.6: Dyranriad yr Adran Gwaith a Phensiynau a gwariant awdurdodau lleol Cymru ar Daliadau Disgresiwn at Gostau Tai



Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2023) Use of Discretionary Housing Payments: fiscal year 2022/23: tablau ategol

ailadrodd y dull hwn yn 2022/23, sefydlodd Llywodraeth Cymru Gronfa Atal Digartrefedd yn ôl Disgresiwn, a oedd â chyllideb flynyddol o £6 miliwn yn 2022/23 a 2023/24,91 er bod dyraniad 2022/23 wedi cynyddu i £7.4 miliwn.92 Roedd y Gronfa yn galluogi awdurdodau lleol i benderfynu faint i'w wario ar ychwanegu at eu dyraniad Taliadau Tai Dewisol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a faint i'w wario ar weithgareddau Taliadau Tai Dewisol nad ydynt yn cael eu caniatáu, fel cymorth gydag ôl-ddyledion rhent oherwydd ad-daliad budd-dal a sancsiynau neu i gynorthwyo'r rhai nad ydynt yn cael budd-daliadau sy'n gysylltiedig â thai.

Roedd awdurdodau lleol Cymru wedi gwario 155% o'u dyraniad gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn 2022/23 a 127% o'u dyraniad yn 2023/24, gan awgrymu bod hyd at £3.6 miliwn o'r Gronfa Atal Digartrefedd yn ôl Disgresiwn wedi cael ei ddefnyddio i ategu gwariant Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai yn 2022/23 a £1.7 miliwn yn 2023/24 (gweler ffigur 2.6). Serch hynny, mae rhenti cynyddol y Sector Rhentu Preifat a phwysau o ran digartrefedd yn dal i roi'r gyllideb Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai o dan straen.

Roedd pob un a ymatebodd i'r arolwg Awdurdodau Lleol (16 o 16) yn teimlo bod Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai yn bwysig

o ran atal neu liniaru digartrefedd yn eu hardal, gyda'r rhan fwyaf ohonynt (12) yn eu disgrifio fel rhai pwysig iawn. Disgrifiodd un y Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai fel cronfa allweddol, nid yn unig i helpu gyda chostau tai mewn argyfwng, ond hefyd i sefydlogi tai a chadw pobl oddi wrth wasanaethau statudol (Awdurdod Lleol, Gogledd-ddwyrain Cymru). Roedd prif hysbyswyr yn cefnogi'r farn hon, gan ddisgrifio'r Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai fel 'arf gwerthfawr' (Hysbysydd allweddol yn y sector gwirfoddol) a 'hynod bwysig' (Hysbysydd allweddol y sector statudol). Roedd eraill yn disgrifio Awdurdodau Lleol Cymru fel rhai sy'n 'dibynnu'n drwm' ar Daliadau Disgresiwn at Gostau Tai i atal digartrefedd, gydag un arall yn dweud 'Dydw i ddim wir yn siŵr... lle byddem ni arni hebddynt' (Hysbysydd allweddol yn y sector gwirfoddol). Cydnabuwyd bod Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai yn cynnig 'ffynhonnell gymorth go iawn i denantiaid a'u landlordiaid cymdeithasol' (Hysbysydd allweddol yn y sector tai) yn ogystal â galluogi awdurdodau lleol i 'wario i arbed', drwy 'gadw pobl i ffwrdd o wasanaethau statudol' (Awdurdod Lleol, Gogledd-ddwyrain Cymru).

Roedd cyfranogwyr yn cydnabod mai un o rolau allweddol Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai yw 'gwneud iawn' am yr hyn sy'n cael ei adael gan y rhwyd diogelwch cymdeithasol ehangach ac annigonol, gan fynd i'r afael â'r risg digartrefedd sy'n cael ei chreu yn sgil rhewi'r Lwfans Tai Lleol a'r Dreth Ystafell Wely. Cydnabuwyd bod hyn yn broblemus ac yn lleihau cwmpas Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai i ymateb i argyfyngau tymor byr o fathau eraill:

'Un pryder yw'r ddibyniaeth barhaus ar Daliadau Disgresiwn at Gostau Tai ar gyfer achosion Treth Ystafell Wely... gyda chronfa gyfyngedig, mae Polisi Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn lleihau'r potensial ar gyfer gwariant mewn

argyfwng wedi ei dargedu'n well, ac mae llawer o hynny'n bodoli.'

(Awdurdod Lleol, Gogledd-ddwyrain Cymru).

'maen nhw'n ceisio gwneud iawn am fethiannau mewn rhannau eraill o'r system. Yn enwedig o ran rhewi'r Lwfans Tai Lleol... Dylent barhau, ond mae angen i ni symud i sefyllfa lle maen nhw'n cael eu defnyddio'n amlach o lawer, ac maen nhw'n cael eu defnyddio mewn amgylchiadau annisgwyl, yn hytrach na dim ond dod yn nodwedd o'n system dai, lle maen nhw'n ceisio gwneud iawn am ddiffygion yn sgil methiannau eraill.'

(Hysbysydd allweddol yn y sector gwirfoddol)

Er gwaethaf eu pwysigrwydd, cydnabuwyd agweddau heriol eraill ar ddarpariaeth Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai, gan gynnwys anghysondeb y dull gweithredu mewn gwahanol Awdurdodau Lleol a'r loteri cod post mae pobl yn ei wynebu wrth geisio cael gafael ar gymorth. Roedd yr enghreifftiau a roddwyd yn cynnwys yr amser y bydd awdurdodau lleol yn cynorthwyo aelwydydd, i ba raddau mae'r amser o'r flwyddyn yn effeithio ar barodrwydd awdurdodau lleol i wario'r gyllideb Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai, ac i ba raddau mae awdurdodau lleol yn defnyddio Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai i helpu eu tenantiaid eu hunain o'i gymharu â grwpiau eraill. Roedd y cyfranogwyr hefyd yn cydnabod y gall fod yn anodd cael gafael

91 Llywodraeth Cymru (2023) *Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru: Cynllun Gweithredu Lefel Uchel 2021-2026*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-08/rhoi-diwedd-ddigartrefedd-diweddariad-ar-gynnydd.pdf>

92 Sefydliad Bevan (2023) *Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai a'r Farchnad Dai yng Nghymru*. Merthyr Tudful: Sefydliad Bevan. <https://www.bevanfoundation.org/resources/wales-housing-crisis-discretionary-housing-payments/>

ar Daliadau Disgresiwn at Gostau Tai, o ran y broses ymgeisio a'r *'rheolau cadarn'* sy'n cyfyngu ar yr amgylchiadau lle gellir eu defnyddio.

‘Mae’r broses yn gymhleth ac mae angen staff cymorth i gynorthwyo hyd yn oed y rhai sy’n gymharol abl.’

(Awdurdod Lleol, y Cymoedd)

‘mae oedi wrth brosesu hawliadau ac ati, a gall fod yn rhy hwyr i wneud gwahaniaeth. Yn ogystal, mae’r rheolau yn rhy llym – ddim yn gallu clirio ôl-ddyledion a thalu tâl ychwanegol – mae angen y naill a’r llall mewn rhai achosion i roi amser i ddatrys y mater – byddai hyn yn helpu’n fawr pe na bai pethau mor haearnaidd.’

(Awdurdod Lleol, Canolbarth a Gorllewin Cymru).

Dywedodd un awdurdod lleol eu bod yn defnyddio eu Cyllid Atal Digartrefedd (gweler uchod) i fynd i’r afael â’r cyfyngiadau hyn o ran Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai.

Un o’r pryderon olaf a godwyd gan Awdurdodau Lleol oedd bod Taliadau

Disgresiwn at Gostau Tai yn gallu *‘creu dibyniaeth’* (Awdurdod Lleol, y Cymoedd) os ydynt yn cael eu talu dros y tymor hir. Arweiniodd hyn at un ymatebydd yn dadlau bod yn rhaid i ddyfarniadau gael eu gwneud ochr yn ochr â *‘rhywfaint o ‘ddysgu’ ar ochr y cleientiaid i sicrhau bod cyfrifoldebau ariannol yn cael eu deall a’u rheoli – bydd hyn yn sicrhau cyfrifoldeb personol ac yn fodd i arian y Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai fynd ymhellach’* (Awdurdod Lleol, Canolbarth a Gorllewin Cymru). Mae’r safbwynt hwn yn amlygu’r materion sy’n ymwneud â defnyddio cronfeydd lleol dewisol i fynd i’r afael â diffygion hirdymor yn incwm aelwydydd o’i gymharu â’u gwariant.

Y brif ffynhonnell arall o gymorth grant dewisol yw’r Gronfa Cymorth Dewisol a reolir gan Lywodraeth Cymru. Yn olynu’r Gronfa Gymdeithasol, mae’n cynnwys Taliadau Cymorth mewn Argyfwng sy’n helpu i dalu am gostau hanfodol, fel bwyd, tanwydd a dillad, a Thaliadau Cymorth Unigol sy’n helpu pobl i fyw’n annibynnol. Cynyddodd cyllideb y Gronfa Cymorth Dewisol £18 miliwn i £38.5 miliwn ar gyfer 2023/24, gyda Taliadau Cymorth mewn Argyfwng yn cyfrif am 97% o’r gwariant.⁹³ Ers mis Ebrill 2023, gall pobl wneud cais am hyd at dri Thaliad Cymorth mewn Argyfwng o hyd at £111, mewn cyfnod treigl o ddeuddeg mis, gyda bwlch o saith diwrnod rhwng ceisiadau.⁹⁴ Mae’r newidiadau hyn wedi cael eu croesawu,⁹⁵ ond mae cwestiynau’n dal i fodoli ynghylch pa mor ddigonol yw’r gyllideb a’r ffaith bod rheolau’r Deyrnas Unedig yn cyfyngu ar fynediad at y rhai sy’n hawlio budd-daliadau gwladol ac yn eithrio’r rhai heb hawl i gyllid cyhoeddus.

Roedd pob un o’r 16 awdurdod lleol a ymatebodd i’r arolwg yn teimlo bod y Gronfa Cymorth Dewisol yn bwysig o ran atal neu liniaru digartrefedd yn eu hardal, gyda’r rhan

fwyaf (11) o’r farn ei bod yn bwysig iawn, gyda dwy rôl allweddol yn cael eu pwysleisio. Yn gyntaf, gall y Gronfa Cymorth Dewisol atal digartrefedd drwy *‘ddarparu cymorth ariannol cyflym i unigolion a theuluoedd sy’n wynebu argyfyngau’* (Awdurdod Lleol, y Cymoedd):

‘Gall y Gronfa Cymorth dewisol negodi gyda landlordiaid i atal troi allan oherwydd ôl-ddyledion rhent.’

(Awdurdod Lleol, y Cymoedd).

‘Yn lliniaru digartrefedd yn gynnar gan olygu nad oes angen i gleientiaid gysylltu â’r Gwasanaeth Digartrefedd.’

(Awdurdod Lleol, De Cymru).

Yn ail, mae’r Gronfa Cymorth Dewisol yn cael ei hystyried yn adnodd hanfodol ar gyfer y rhai sy’n cael eu hailsefydlu mewn tenantiaethau newydd i’w galluogi i fforddio nwyddau gwynion a hanfodion eraill y cartref:

‘Mae’n bwysig iawn o ran symud a darparu nwyddau gwynion.’

(Awdurdod Lleol, Canolbarth a Gorllewin Cymru).

‘Ffynhonnell allweddol o gyllid i helpu pobl gydag eitemau ar gyfer unrhyw gartref rydyn ni’n eu cefnogi ynddo ar yr un pryd â helpu i roi diwedd ar ddigartrefedd.’

Nwyddau gwynion a dodrefnu gyda hanfodion fel cyllyll a ffyrc ac eitemau eraill y cartref. Mae cyllid y cyngor a chymorth y sector gwirfoddol ar gyfer eitemau o’r fath yn brin iawn.’

(Awdurdod Lleol, Gogledd-ddwyrain Cymru).

Nododd Awdurdodau Lleol a hysbyswyr allweddol wahanol gyfyngiadau ar weithredu’r Gronfa Cymorth Dewisol, fodd bynnag, gan gynnwys cyfyngiadau cyllidebol,⁹⁶ natur tymor byr/untro y cymorth sydd ar gael, a’r gofyniad i gytundeb tenantiaeth wedi ei lofnodi fod ar waith adeg gwneud cais sy’n golygu bod pobl naill ai’n aros yn hirach mewn llety dros dro drud neu’n cael eu gorfodi i symud i eiddo heb yr hanfodion:

‘Mae amseroedd aros yn gallu bod yn broblemus... mae’r gofyniad am gytundeb tenantiaeth wedi ei lofnodi fel prawf o gartref newydd ochr yn ochr â’r cais yn creu oedi wrth symud ymlaen o lety digartrefedd drud. Pe bai modd adolygu’r cais wythnos cyn symud i mewn, byddai hyn yn arbed amser ac yn tarfu llai ar y preswylwyr a chostau wedi eu cyllido gan y Cyngor ar gyfer llety i bobl ddigartref.’

(Awdurdod Lleol, Gogledd-ddwyrain Cymru).

93 Ferraz-Luz, S. (2023). *Y Gronfa Cymorth Dewisol: Adroddiad dadansoddi*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 97/2023., Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/y-gronfa-cymorth-dewisol-adroddiad-dadansoddi>

94 Y Gweinidog Cyfiawnder Gymdeithasol (2023) *Datganiad Ysgrifenedig: Newidiadau i’r Gronfa Cymorth Dewisol o 1 Ebrill 2023 ymlaen*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, <https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-newidiadau-ir-gronfa-cymorth-dewisol-o-1-ebrill-2023-ymlaen>

95 Sefydliad Bevan (2023) *Welcome for Welsh Government Changes to the Discretionary Assistance Fund*. 28 Chwefror. Ar-lein: Sefydliad Bevan. <https://www.bevanfoundation.org/news/2023/02/welcome-for-daf-change/#:~:text=The%20Bevan%20Foundation%20had%20called,made%20with%20regard%20to%20DAF.>

96 Er enghraifft, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru newidiadau i’r pecynnau cegin sydd ar gael drwy’r Gronfa Cymorth Dewisol yn 2023 – er enghraifft, newid popty a sychwr dillad am sychwr aer wedi ei wresogi â gorchudd a phoptai gyda ‘bwndel coginio’ gan gynnwys ffwrn ffrio, microdon, popty araf a phlât poeth sengl. NEC (2023. Discretionary Assistance Fund (DAF) Approved Partner Bulletin, Tachwedd 2023.

‘Mae’n rhaid iddyn nhw fod wedi cael y denantiaeth er mwyn i gallu dyfarnu arian y Gronfa Cymorth Dewisol... byddai’n well gen i pe baen ni mewn sefyllfa... i gytuno ar y Gronfa Cymorth Dewisol mewn egwyddor, fel bod modd archebu rhai o’r pethau hynny... yn hytrach na mynd i gragen wag yn unig a gorfod mynd drwy’r broses gyfan honno ac aros, sydd ddim yn ddefnyddiol.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector statudol)

Yn fwy cyffredinol, mae gwaith yn mynd rhagddo i greu System Fudd-daliadau i Gymru sy’n ei gwneud hi’n haws i bobl gael gafael ar fuddion datganoledig, wedi ei ategu gan Siarter sy’n rhoi tasg i’r llofnodwyr ddatblygu system gynhwysol gyda’i gilydd.⁹⁷ Ar hyn o bryd mae’r Siarter yn canolbwyntio ar fuddion a reolir gan awdurdodau lleol ac mae’n cynnwys cynigion i ddisodli Cynlluniau Gostyngiadau’r Dreth Gyngor lleol presennol â chynllun cenedlaethol erbyn 2026.⁹⁸

2.4 Tueddiadau yn y system dai

Rhwng Cyfrifiad 2011 a 2021, roedd cyfran yr aelwydydd yng Nghymru a oedd yn berchen ar eu cartref wedi gostwng o fwy na 68% i


66%. Roedd y rhai a oedd yn rhentu’n breifat wedi codi o 14% i 17% ac roedd y rhai a oedd yn rhentu gan landlord cymdeithasol wedi aros ar 17%. Yn y cyd-destun hwn, mae’r adran hon yn edrych ar ddatblygiadau polisi a’r farchnad dai sy’n ymwneud â’r cyflenwad a’r galw am dai a’u heffaith ar allu aelwydydd i gael gafael ar gartref y gallant fforddio ei rentu a’i gadw.

Y farchnad dai a’r cyflenwad newydd

Ar ôl y cyfnod clo cyntaf yn ystod y pandemig, profodd y farchnad dai yng Nghymru hwb bychan (gweler Ffigur 2.7). Cynyddodd prisiau wrth i’r galw fynd y tu hwnt i’r cyflenwad, wedi ei sbarduno gan gyfraddau llog isel iawn, y seibiant dros dro ar y Dreth Trafodiadau Tir a chyflenwad newydd cyfyngedig. Dechreuodd twf prisiau tai arafu yn 2022 wrth i gostau byw gyflymu, a gostyngodd y pris cyfartalog 2.6% i £214,000 yn y deuddeg mis hyd at fis Rhagfyr 2023, wrth i gyfraddau llog morgeisi godi. Parhaodd y duedd araf hon ar i lawr yn ystod hanner cyntaf 2024 ond gyda’r pris tŷ cyfartalog yn costio chwe gwaith y cyflog cyfartalog, mae prynu tŷ yn dal yn ormod i lawer, gan gynyddu’r galw am rentu preifat.

Fe wnaeth nifer y tai a gwblhawyd yng Nghymru gynyddu ychydig yn unig, o 5,840 yn 2013/14 i 6,040 yn 2019/20, gan aros ymhell o dan y cyfartaledd o 8,560 o gartrefi wedi eu hadeiladu bob blwyddyn cyn 2008/09 (gweler ffigur 2.8). Nid yw adeiladu tai ledled Prydain wedi dychwelyd i lefelau cyn y pandemig eto, ond mae cyflymder yr adferiad yng Nghymru wedi bod yn arbennig o araf. Mae hyn wedi cael ei briodoli i gymhlethdod y system gynllunio yng Nghymru, nad oes ganddi ddigon o adnoddau,⁹⁹ diffyg contractwyr, prinder llafur, rhwystrau yn y gadwyn

Ffigur 2.7: Prisiau cyfartalog tai a chymhareb prisiau i enillion Cymru 2012 – 2023



Ffynhonnell: Mynegai Prisiau Tai y Swyddfa Ystadegau Gwladol a gyrchwyd ym mis Ebrill 2024, enillion ASH (a gyrchwyd drwy Nomis) a’i chyfrifiadau ei hun

gyflenwi,¹⁰⁰ costau gwaith tir, targedau i leihau ffosffadau mewn afonydd,¹⁰¹ a chyfraddau llog uchel.

Rhwng 2021/22 a 2023/24, cafodd cyfartaledd o 5,100 o gartrefi eu cwblhau bob blwyddyn, ymhell o dan amcangyfrif Llywodraeth Cymru ar sail 2019 a oedd wedi dyddio bod angen 7,400 o gartrefi ychwanegol, gan gynnwys 3,500 o gartrefi fforddiadwy, bob blwyddyn tan 2023/24.¹⁰² Roedd graddfa’r tangyflawni yn uwch nag mewn mannau eraill, gyda chyfartaledd blyneddol o ddim ond 4 cartref yn cael eu hadeiladu ar gyfer pob 1,000 o aelwydydd yng Nghymru o’i gymharu â saith yn Lloegr a naw yn yr Alban. Roedd y prif

hysbyswyr yn bryderus, er bod angen clir am stoc llety llai, un ystafell wely, nad oedd y math hwn o lety yn cael ei adeiladu yn agos at y cyflymder yr oedd ei angen:

‘nid ydym yn gweld llawer o fflatiau ac eiddo i un unigolyn yn cael eu hadeiladu o ran cartrefi cymdeithasol newydd yn y dyfodol.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector gwirfoddol)

97 Llywodraeth Cymru (2024) *Siarter Budd-daliadau Cymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. <https://www.llyw.cymru/siarter-budd-daliadau-cymru>

98 Ymchwil y Senedd (2024) Y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) – Crynodeb o’r Bil. Caerdydd: Senedd Cymru. https://ymchwil.senedd.cymru/media/jh3p2pwz/24-02-local-gov-finance-bill-summary_cy.pdf

99 Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (2024) *Wales Summary of CMA Market Study Final Report into Housebuilding*. Llundain: CMA, https://assets.publishing.service.gov.uk/media/65d8bb1454f1e70011165960/_Wales_summary_.pdf

100 CIH Cymru (2024) *Ymateb CIH Cymru i Ymchwiliad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai i Gyflenwad Tai Cymdeithasol*. Caerdydd: CIH. <https://www.cih.org/publications/cih-cymrus-response-to-the-senedds-local-government-and-housing-committee-inquiry-into-social-housing-supply-in-wales/>

101 Evans, A. (2023) *A division of Labour? The policies for housebuilding in Wales and England*. Llundain: Caerlwythgoed. <https://lichfields.uk/blog/2023/august/18/a-division-of-labour-the-policies-for-housebuilding-in-wales-and-england/>

102 Llywodraeth Cymru (2020) *Amcangyfrif o’r Angen am Dai: ar sail 2019*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. <https://www.llyw.cymru/amcangyfrifon-or-angen-am-dai-sail-2019>

‘ar gyfer cymdeithasau tai... gall fod yn eithaf anodd cael caniatâd cynllunio weithiau ar gyfer llety, llety fflatiau i bobl iau. Er bod angen hynny ar awdurdodau lleol, nid yw aelodau etholedig lleol eisiau bloc o fflatiau ar gyfer pobl ifanc.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector tai)

Gan ddechrau yn 2022, disgwylir i awdurdodau lleol gydweithio â phartneriaid i baratoi Asesiad o'r Farchnad Dai Leol bob pum mlynedd sy'n cydymffurfio â chanllawiau a'r templed cysylltiedig ar gyfer amcangyfrif yr angen presennol, yr angen sy'n codi o'r newydd a'r diffyg posibl mewn tai, wedi ei rannu yn ôl deiliadaeth a maint annedd. Bydd yn cymryd amser i'r trefniadau newydd hyn ymsefydlu ond y bwriad yw y byddant yn arwain at flaenoriaethau lleol gwell sy'n seiliedig ar dystiolaeth i hybu'r cyflenwad a mynd i'r afael ag anghenion tai, gan gynnwys y camau gweithredu a nodir ym Mhrosbectws Asesu'r Farchnad Dai Leol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru. Roedd hysbyswyr allweddol yn croesawu'r dull newydd fel un 'mwy safonol' (Hysbysydd allweddol yn y sector statudol) ac fel 'cam arall yn sicr ar y daith honno o gyfuno cynllunio strategol ac angen cymunedol' (Hysbysydd allweddol yn y sector statudol), ond gan godi rhai pryderon ynghylch y dull methodolegol, gan gynnwys diffyg data manylach a mwy diweddar ar anghenion tai, diffyg gofyniad i gynnwys cymdeithasau tai yn y broses asesu a'r risg bod y broses yn tanamcangyfrif yr angen, gan gynnwys unedau un ystafell wely (gweler hefyd pennod 4):

‘Mae rhai cwestiynau ynghylch y fethodoleg yn dal i fodoli. Mae’n bosibl mai tangyfrif yw hyn o hyd, ond hyd yn oed mai tangyfrif ydyw, mae’n dal i ddod yn ôl at lefelau llawer uwch o angen, yn enwedig yr angen am lety un ystafell wely.’


(Hysbysydd allweddol yn y sector statudol)

‘pan edrychon ni ar y data cychwynnol ar gyfer yr hyn sy’n dod drwodd, y peth amlwg ar unwaith... ar gyfer Cymru gyfan yw nad yw’n ymddangos bod unrhyw un angen uned un ystafell wely... Roedd yn arwydd gwyh, efallai, nad oedd y ddwy system yn cydgysylltu.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector gwirfoddol)

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwario £1.27 biliwn tuag at ei tharged i ddarparu 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel yn y pum mlynedd hyd at ddiwedd 2025/26. Mae ganddi hefyd gyllideb dybiannol o £730 miliwn ar gyfer y ddwy flynedd sy'n weddill. Fodd bynnag, yn rhannol oherwydd costau cynyddol, mae Archwilio Cymru yn awgrymu, oni bai fod y gyllideb dybiannol yn cynyddu o £580 miliwn i £740 miliwn, mai dim ond rhwng 15,860 ac 16,670 o gartrefi cymdeithasol a fydd yn cael eu darparu erbyn mis Mawrth 2026.¹⁰³

Ffigur 2.8: Cwblhau tai newydd, 2016/17 i 2023/24



Ffynhonnell: Data cystadlaethau tai Llywodraeth Cymru, wedi ei dalgrynnu i'r 10 agosaf
Nodiadau: Gall ffigurau mentrau preifat gynnwys rhai tai fforddiadwy, gan arwain at dangyfrif gwaith adeiladu yn y sector cymdeithasol (heb eu meintoli) a gorgyfrif gwaith adeiladu yn y sector preifat.

Croesawodd hysbyswyr allweddol yr hyn a welent yn fel targed adeiladu tai 'uchelgeisiol iawn' (Hysbysydd allweddol yn y sector statudol) a oedd yn canolbwyntio ar dai cymdeithasol (yn hytrach na thai fforddiadwy), gan ganmol arwyddion diweddar clir bod yr uchelgais o fynd i'r afael â digartrefedd yn ganolog i'r targed:

‘Nodwyd yn glir iawn mai bwriad y rhaglen 20,000 o gartrefi yw datrys digartrefedd. Os gallwn fodloni'r galw, yn enwedig am lety un ystafell wely... mae gennym siawns wirioneddol

dda o ddadwneud cam hanesyddol.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector gwirfoddol)

‘roedd dewis dweud tai cymdeithasol yn hytrach na thai fforddiadwy yn wirioneddol bwysig. Mae'r uchelgais ac yna'r cyllid sydd wedi dilyn yn y gyllideb gyfalaf ers hynny wedi bod yn beth cadarnhaol iawn.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector gwirfoddol)

103 Archwilio Cymru (2024) *Tai Fforddiadwy – Medi 2024*. Caerdydd: Archwilio Cymru. https://wao.gov.uk/sites/default/files/publications/tai_fforddiadwy.pdf

Fodd bynnag, roedd rhai hysbyswyr allweddol yn bryderus bod y targed yn annhebygol o gael ei gyrraedd, a'i fod yn tanamcangyfrif yr angen presennol am dai beth bynnag:

‘mae’n seiliedig ar amcangyfrifon 2019 o anghenion tai, sy’n seiliedig ar lefelau llawer is o ddefnydd o lety dros dro... felly rwy’n credu y gallwn ni fod yn eithaf sicr ei fod yn amcangyfrif rhy isel o’r angen am dai.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector statudol)

‘Rydyn ni’n dal ein gafael yn y targed hwnnw o drwch blewyn... Mae’n anhygoel o anodd.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector statudol)

O’r 6,000 o dai fforddiadwy a ddarparwyd drwy’r rhaglen Grant Tai Cymdeithasol erbyn mis Mawrth 2023, roedd 4,800 ar gyfer rhent cymdeithasol ac roedd 400 ar gyfer rhent canolradd (gweler ffigur 2.9). Roedd tua 37% o’r anheddau yn gaffaeliadau yn hytrach na thai newydd. Er bod caffaeliadau’n chwarae rhan allweddol o ran lliniaru digartrefedd ac anghenion tai brys eraill, nid ydynt yn cynyddu’r stoc dai gyffredinol. Fe wnaeth y diffyg adeiladu tai, a’r pryderon bod hynny’n ychwanegu at y pwysau o ran fforddiadwyedd, ysgogi Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y Senedd i lansio ymchwiliad parhaus i

heriau sy’n ymwneud â darparu tai. Fodd bynnag, mae’r Ymchwiliad yn edrych ar dai cymdeithasol yn hytrach na’r agenda buddsoddi a diwygio cynllunio ar draws y system gyfan sy’n cael blaenoriaeth gan Lywodraeth newydd y Deyrnas Unedig.


Yn ogystal â’r heriau adeiladu sy’n wynebu pob datblygwr tai, mae landlordiaid cymdeithasol yn wynebu dewisiadau anodd o ran cydbwysu buddsoddiad mewn cartrefi newydd a rhai sy’n bodoli’n barod. Gwneir yr olaf i gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru ac uchelgeisiau polisi i ddatgarboneiddio a gwella iechyd a diogelwch y stoc dai bresennol. Bydd adroddiad terfynol Ymchwiliad Tŵr Grenfell, sy’n cynnwys 1,700 o dudalennau, hefyd yn arwain at oblygiadau mawr o ran buddsoddi mewn cartrefi presennol a gwasanaethau preswyl a diwylliant sefydliadol.¹⁰⁴ Canfu’r ymchwiliad y gellid bod wedi osgoi marwolaethau 72 o bobl yn llwyr a bod hynny’n benllanw degawdau o ddiystyru bywyd dynol yn druenus, rheoleiddio cwbl annigonol, anghymhwyster, anonestrwydd bwriadol a natur farus, a diystyru tystiolaeth a phryderon dro ar ôl tro gan breswylwyr ac eraill.

Bydd cynnydd arfaethedig yng nghyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwyr a’r cyflog byw cenedlaethol a nodwyd yn gynharach hefyd yn cynyddu costau gweithredu llawer o landlordiaid cymdeithasol a sefydliadau eraill sy’n ymwneud â darparu gwasanaethau tai, a allai orfodi rhai i gwtogi rhaglenni datblygu a gwasanaethau tai, gan gynnwys cymorth tai.

Y sector rhentu preifat

Mae dros 103,000 o landlordiaid preifat cofrestredig yng Nghymru, er y gallai rhai fod wedi rhoi’r gorau i fasnachu.¹⁰⁵ Mae amcangyfrifon swyddogol yn awgrymu bod 194,900 o anheddau rhent preifat ym mis Mawrth 2022, a oedd 14,800 yn fwy nag yn 2011, ond 13,400 yn llai nag yn 2018, pan

Ffigur 2.9: Cartrefi cymdeithasol (fforddiadwy) ychwanegol a ddarparwyd, 2012/13 i 2022/23



Ffynhonnell: Ystadegau tai fforddiadwy Llywodraeth Cymru, a lwythwyd i lawr ym mis Ebrill 2024
Nodiadau: Yn unol â tharged Llywodraeth Cymru, mae’r ffigurau’n cynnwys prynu, caffael neu drosi anheddau presennol ynghyd ag unedau a brydlesir am hyd at flwyddyn i gartrefu teuluoedd digartref.

oedd y stoc rhentu preifat ar ei uchaf.¹⁰⁶ Fodd bynnag, mae’n anodd iawn mesur newidiadau yn y stoc rhentu preifat yn gywir.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio codi safonau yn y sector rhentu ers tro. Pasiodd Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, er mai dim ond ym mis Rhagfyr 2022 y dechreuodd ei gweithredu, ar ôl rhai diwygiadau yn 2021. Mae’r Ddeddf yn cynnwys llu o fesurau ar gyfer y sectorau rhentu preifat a

chymdeithasol sy’n canolbwyntio ar safonau eiddo gwell a chontractau tenantiaeth newydd sy’n egluro hawliau a chyfrifoldebau tenantiaid a landlordiaid. Yn benodol, mae’r contractau meddiannaeth newydd yn cryfhau hawliau tenantiaid preifat drwy, er enghraifft, ddarparu cyfnod preswyl gofynnol o ddeuddeg mis ac ymestyn cyfnodau rhybudd ar gyfer y rhan fwyaf o denantiaethau o ddau i chwe mis, gan gynnwys troi allan ‘heb fai’.¹⁰⁷

104 The Grenfell Tower Inquiry (2024) *Grenfell Tower Inquiry: Phase Two Report*. Ar-lein: The Grenfell Tower Inquiry. <https://www.grenfelltowerinquiry.org.uk/>
105 Rhentu Doeth (2024) Dangosfwrdd Eiddo Cofrestredig: <https://www.rhentudoeth.llyw.cymru/cym/registrationdashboard/>

106 Llywodraeth Cymru (2023) *Amcangyfrifon stoc annedd: ar 31 Mawrth 2022*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. <https://www.gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2023-09/dwelling-stock-estimates-31-march-2022-398.pdf>
107 Mae’r prif eithriadau’n ymwneud â thorri contract, fel ôl-ddyledion rhent ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae’r Ddeddf hefyd wedi gwella hawliau olynw tenantiaeth, trefniadau symlach ar gyfer diweddaru cyd-denantiaethau a darpariaethau i atal taliadau rhent os bernir bod eiddo’n anaddas i bobl fyw ynddo.

Ni fydd effaith lawn Deddf 2016 yn hysbys am beth amser ond mae'r gwerthusiad parhaus¹⁰⁸ yn tynnu sylw at yr angen i wella cyfathrebu ac arweiniad a chontractau tenantiaid sy'n fwy ystyriol o'r defnyddiwr. Mae hefyd yn cwestiynu a fydd y Ddeddf o fudd i denantiaid mwy agored i niwed sy'n byw mewn llety is-safonol a ddarperir gan landlordiaid 'amheus' ac mae'n tynnu sylw at heriau ac anghysondebau o ran cynnwys llety myfyrwyr a llety dros dro yn y Ddeddf. Mae hyn yn cynnwys y ffaith bod gan y rhai sy'n byw mewn llety dros dro a ddarperir gan gymdeithasau tai lai o sicrwydd deiliadaeth na'r rhai mewn llety dros dro awdurdod lleol.

Mae canfyddiad bod Deddf 2016 wedi sbarduno crebachu yn y sector¹⁰⁹ sydd, ochr yn ochr â throsglwyddiadau i'r farchnad gosod tymor byr,¹¹⁰ wedi gwaethygu diffygion llety dros dro.¹¹¹ Roedd y persbectif hwn yn amlwg iawn yn yr ymatebion i arolwg yr Awdurdodau Lleol. Pan ofynnwyd a oedd 'llai o aelwydydd wedi dod yn ddigartref o ganlyniad i droi allan 'heb fai' oherwydd y darpariaethau', roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol (8 o 16) yn anghytuno â'r datganiad (dim ond tri oedd yn cytuno, gyda gweddill yr ymatebwyr naill ai'n niwtral neu'n ansicr). Ar y llaw arall, roedd bron y cyfan o'r ymatebwyr (14 o 16) yn cytuno bod 'Mwy o aelwydydd yn mynd yn ddigartref oherwydd bod landlordiaid yn gadael y farchnad rhentu preifat oherwydd y darpariaethau hyn. Roedd cyfran fawr o Awdurdodau Lleol yn bendant bod y Ddeddf wedi bod yn un o brif ysgogwyr y tueddiadau canfyddedig hyn:

‘Mae’r Ddeddf Rhentu Cartrefi yn bendant wedi effeithio ar y Sector Rhentu Preifat ac wedi annog landlordiaid i beidio â rhoi eiddo i’w rentu.’

(Awdurdod Lleol, y Cymoedd)

‘mae landlordiaid wedi rhoi gwybod i ni bod baich ychwanegol y Ddeddf Rhentu Cartrefi wedi achosi iddynt wneud y penderfyniad i werthu eu heiddo... I’r landlordiaid hynny nad ydynt yn landlordiaid proffesiynol, mae deddfwriaeth a gofynion Rhentu Cartrefi yn frawychus ac yn feichus.’

(Awdurdod Lleol, De Cymru)

Ar y llaw arall, mae tystiolaeth arall yn awgrymu efallai nad y Ddeddf Rhentu Cartrefi yw'r unig yrrwr, neu hyd yn oed y gyrrwr allweddol. Mae dadansoddiad Banc Lloegr yn awgrymu bod gostyngiad bach mewn stoc rhent preifat ledled y Deyrnas Unedig yn ystod y pedair blynedd hyd at ddiwedd 2022, ond ni nodwyd bod dadfuddsoddi yng Nghymru yn uwch nag mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig.¹¹² Roedd Awdurdodau Lleol eraill a hysbyswyr allweddol hefyd yn cydnabod rôl nifer o ffactorau, gan gynnwys cynnydd mewn cyfraddau llog ac atyniad y farchnad gosod eiddo yn y tymor byr:

‘rydym wedi gweld colli... eiddo o’r sector preifat. Nid yw’n glir a yw hyn o ganlyniad i gynnydd mewn cyfraddau llog, gweithredu’r Ddeddf Rhentu Cartrefi neu lety tebyg i AirBnB yn cynnig gwell elw i landlordiaid’

(Awdurdod Lleol, gogledd Cymru)

‘Nid y Ddeddf Rhentu Cartrefi yw’r unig sbardun o ran penderfyniadau mae landlordiaid wedi eu gwneud, naill ai i adael y sector rhentu preifat yn gyfan gwbl, neu i newid ffocws y ffordd maent yn gweithredu... gan edrych ar wahanol segmentau o’r farchnad.... Mae newidiadau mewn cyfraddau llog... y dadleuon ynghylch y cap ar brisiau ynni... wedi bod yn rhan o ddarlun cymhleth.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector statudol)

Beth bynnag fo'r achos, roedd y gostyngiad yn y sector rhentu preifat yn bryder penodol i awdurdodau lleol. Roedd bron pob un o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg (13 o 16) yn anghytuno â'r datganiad 'Mae cymysgedd priodol o ddewisiadau tai i ddiwallu anghenion gwahanol aelwydydd yn fy ardal i', gyda chwech yn anghytuno'n gryf. Wrth ymhelaethu ar yr ymatebion hyn, nododd Awdurdodau Lleol fod diffyg llety fforddiadwy yn y sector rhentu preifat yn fater allweddol, ochr yn ochr â stoc annigonol o lety un ystafell wely, cartrefi i deuluoedd mawr a llety a rennir:

‘Does dim digon o lety ar gyfer pobl sengl ac mae’r llety ar rent yn breifat ac mae diffyg tai amlfeddiannaeth.’

(Awdurdod Lleol, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

‘Mae’r sector rhentu preifat yn anfforddiadwy i fwyafrif yr ymgeiswyr gan arwain at ddibyniaeth ar dai cymdeithasol. Mae cyflenwad cyfyngedig o eiddo mwy.’

(Awdurdod Lleol, De Cymru)

Y tu hwnt i effeithiau dadleuol y Ddeddf ar ddadfuddsoddi gan landlordiaid, roedd hysbyswyr allweddol yn awyddus i bwysleisio ei effeithiau cadarnhaol ar denantiaid, gan gynnwys eu mynediad at gymorth ar faterion ansawdd a diogelwch deiliadaeth:

Mae Deddf Rhentu Cartrefi Cymru wedi rhoi mwy o adnoddau i ni, fel sefydliad, ar gyfer rhywfaint o’n gwaith achos... gallu herio ar sail cyflwr, ar addasrwydd i bobl fyw ynddynt, ar sail troi allan a phethau felly, mae hynny wedi bod yn gadarnhaol iawn. Mae hysbysiadau chwe mis yn rhoi mwy o amser i ni weithio gyda chleientiaid.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector gwirfoddol)

108 Lock, K., Baker, T., Davies, A., Morris, D., Wilson, B., James, V. (2023). *Gwerthusiad o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016*: Adroddiad Cam 1. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, <https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-o-ddeddf-rhentu-cartrefi-cymru-2016-adroddiad-cam-1>


109 Ibid

110 Sefydliad Bevan (2023) *Llety Gwyliau a’r Rhent a’r Sector Rhentu Preifat*. Merthyr Tudful: Sefydliad Bevan. <https://www.bevanfoundation.org/resources/llety-gwyliau-ar-rhent/>

111 Sefydliad Bevan (2022) *Wales Housing Crisis - An Update on the Private Rental Market in Wales in Summer 2022*. Merthyr Tudful: Sefydliad Bevan. <https://www.bevanfoundation.org/resources/wales-housing-crisis-summer-2022/>

112 Blood, K., Hughes, E., a Waddell, J (2023). *Has the private rental sector been shrinking?* Llundain: Banc Lloegr. <https://www.bankofengland.co.uk/bank-overground/2023/has-the-private-rental-sector-been-shrinking>

Ffigur 2.10: Pris rhent preifat a chwyddiant rhent yng Nghymru a Lloegr, Ionawr 2017 i Ionawr 2024



Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2024) Price Index of Private Rents (nominal), cyrchwyd Mehefin 2024

Mae'r bwlch cynyddol rhwng y cyflenwad a'r galw am dai preifat, sydd wedi codi rhenti, wedi cael ei siapio gan gyfyngiadau ar brynu tai a thwf parhaus yn nifer y cartrefi. Yn ystod y flwyddyn hyd at fis Ionawr 2024, cynyddodd rhent preifat cyfartalog Cymru dros 9% o'i gymharu â 2% o gynnydd ar gyfartaledd ym mhob un o'r pum mlynedd hyd at 2021 (gweler ffigur 2.10). Er ei bod yn ymddangos bod chwyddiant rhent preifat yng Nghymru wedi arafu yn 2024 mewn ymateb i'r galw gwannach,¹¹³ mae rhenti'n dal yn ymrwymiad

mawr i lawer. Yn 2021/22, gallai rhentwyr preifat yng Nghymru ar incwm chwarterl isaf ddisgwyl gwario 32% o incwm gros eu cartref, gan gynnwys unrhyw incwm budd-dal, ar rent chwarterl isaf, gan godi i 38% ar gyfer rhent preifat canolrifol (gweler ffigur 2.11).¹¹⁴


Ddiwedd mis Hydref 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn¹¹⁵ yn amlinellu cynlluniau i ddatblygu deddfwriaeth yn ystod tymor nesaf y Senedd i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio strategaeth dai ac adrodd yn rheolaidd ar gynnydd

113 Donnell, R. (2024) *Rental Market Report: March 2024*. Llundain: Zoopla: <https://www.zoopla.co.uk/discover/property-news/rental-market-report/>

114 Mae dadansoddiad mwy diweddar y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn adrodd ar y cymarebau incwm canolrif rhent a chanolrif incwm yn unig, ac nid oes modd cymharu'r data sylfaenol yn uniongyrchol â'r rhai a nodwyd yn Ffigur 2.11

115 Llywodraeth Cymru (2024) *Papur Gwyn ar sicrhau llwybr tuag at dai digonol, gan gynnwys rhenti teg a fforddiadwyedd*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru, <https://www.llyw.cymru/papur-gwyn-ar-creu-llwybr-tuag-dai-digonol-gan-gynnwys-rhenti-teg-fforddiadwyedd>

Ffigur 2.11: Rhent preifat misol fel cyfran o incwm gros y cartref gan rentwyr preifat yng Nghymru



Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2024) Fforddiadwyedd rhentu preifat, Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon Nodiadau: Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn defnyddio pwysoliad ffactor gros i addasu ar gyfer rhagfarn bosibl yn ymatebion y Gwasanaeth Tân ac Achub i greu incwm aelwydydd gros wedi ei bwysoli'n rhanbarthol ar gyfer rhentwyr preifat. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn defnyddio rhenti sy'n deillio o fynegai y sector rhentu preifat.

tuag at gyflawni digonolrwydd tai. Roedd gweddill y Papur Gwyn yn canolbwyntio ar wella fforddiadwyedd, hygyrchedd a'r gallu i fyw mewn tai preifat, gan gynnwys cynigion i alluogi tenantiaid i herio cynnydd mewn rhenti a chadw anifeiliaid anwes a galluogi awdurdodau lleol i weithredu fel gwarantwr ar gyfer aelwydydd digartref ac aelwydydd eraill sy'n agored i niwed sy'n ei chael yn anodd sicrhau llety preifat. Cynnig arall yw archwilio'r potensial i ad-dalu'r cynnydd yn y Dreth Trafodiadau Tir sy'n berthnasol i brynu eiddo ychwanegol i landlordiaid preifat sydd wedi ymuno â chynllun lesddaliadau preifat a phrydlesu eu heiddo ar gyfraddau is na'r Lwfans Tai Lleol. Roedd y papur hefyd yn cynnwys cynigion i wella data rhentu preifat, a byddai un o'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i bob landlord cofrestredig ddarparu data blynyddol i Rhentu Doeth Cymru ar lefelau

rhent ac, o bosibl, Cofnod Cyflwr Eiddo Blynyddol wedi ei hunanardystio.


Adleisiwyd themâu tebyg yn Adolygiad Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y Senedd o Gartrefi Rhentu Preifat a gyhoeddwyd yn gynharach yn yr un mis.¹¹⁶ Fodd bynnag, galwodd y Pwyllgor am adolygiad o droi allan 'heb fai' yn ogystal â rheoleiddio rhenti, tra bod y Papur Gwyn yn diystyru rheolaeth rhenti, gan nodi'r risg o leihau'r cyflenwad.

Y sector rhentu cymdeithasol

Ers i'r Hawl i Brynu ddod i ben yn 2019, mae'r stoc rhentu cymdeithasol wedi ehangu'n araf. Ym mis Mawrth 2022, roedd tua 237,395 o gartrefi rhent cymdeithasol, 8,000 yn fwy nag ym mis Mawrth 2019. Mae cymdeithasau tai naill ai'n berchen ar neu'n rheoli tua 63% o'r

116 Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai Senedd Cymru (2024) *Sector Rhentu Preifat Hydref 2024*, Caerdydd: Comisiwn y Senedd, <https://senedd.cymru/media/z5djqqo4/cr-ld16755-w.pdf>

Ffigur 2.12: Gosod tai i denantiaid cymdeithasol a chanran gosod eiddo newydd i aelwydydd digartref, 2011/12 i 2022/23



Ffynonellau: Llywodraeth Cymru (yn parhau i aros am ymateb i gwestiynau)
Nodiadau: 1. Mae gosod tai yn cyfeirio at osod unedau cyffredinol ac unedau gwarchod sy'n dod o dan Bolisi Rhent Cymdeithasol Llywodraeth Cymru ac yn eithrio tai â chymorth a llety dros dro. Nid yw gosodiadau newydd yn cynnwys trosglwyddiadau a chyfnewidiadau ar y cyd. 2. Oherwydd y pandemig, ni chasglwyd data ar osod tai cymdeithasol yng Nghymru ar gyfer 2019-20. 3. Nid oes modd cymharu'r gosodiadau i aelwydydd digartref cyn 2015/16 yn uniongyrchol oherwydd newid mewn dyletswyddau deddfwriaethol, ac maent yn cael eu darparu ar gyfer cyd-destun yn unig.

225,432 o gartrefi rhent cymdeithasol sy'n dod o dan Bolisi Rhenti Cymdeithasol Llywodraeth Cymru.¹¹⁷

Roedd landlordiaid cymdeithasol wedi dyrannu 17,762 o gartrefi yn 2022/23, y flwyddyn ddiweddaraf mae data ar gael ar ei chyfer. Fel mae ffigur 2.12 yn ei ddangos, mae llif blynyddol y gosodiadau wedi gostwng yn raddol ers 2013/14, er bod cyfradd y gostyngiad wedi bod yn llawer llai amlwg nag yn Lloegr ac, i raddau llai, yn yr Alban.

Roedd tua 13,626 o'r holl osodiadau (77%) yn 2022/23 yn osodiadau newydd, yn cynnwys

7,709 o osodiadau i denantiaid newydd a 5,917 o osodiadau i aelwydydd digartref. Ers 2015/16, pan gyflwynwyd dyletswyddau atal a lliniaru digartrefedd newydd, mae cyfran y gosodiadau newydd i aelwydydd digartref wedi cynyddu o 19% i 43%, er ei bod yn ymddangos bod rhywfaint o'r cynnydd hwn yn ganlyniad i gynnwys aelwydydd a gafodd gymorth o dan Adran 73 ac nid Adran 75 yn unig o Ddeddf 2014 mewn data dyraniadau ers o leiaf 2018/19. Er hynny, mae'n ymddangos bellach bod landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru yn dyrannu cyfran lawer uwch o dai newydd i aelwydydd digartref na'u cyfoedion yn Lloegr (30%), er bod y gyfradd

yn dal yn llai na'u cyfoedion yn yr Alban (52%). Fodd bynnag, mae'n anodd bod yn bendant oherwydd gwahaniaethau yn y diffiniad o osodiadau o'r newydd a'r cyd-destun deddfwriaethol digartrefedd ar draws Prydain. Mae nifer o hysbyswyr allweddol hefyd yn parhau i fwrw amheuaeth ar ansawdd a chwmpas data dyraniadau yng Nghymru.

Roedd awdurdodau lleol Cymru wedi parhau i ddyrannu cyfran uwch o'u gosodiadau newydd i aelwydydd digartref (46%) yn 2022/23 na chymdeithasau tai (42%), ond mae'r bwlch hwn wedi lleihau'n sylweddol. Yn 2018/19, roedd y cyfrannau yn 31% a 19% yn y drefn honno. Serch hynny, mae llawer iawn o amrywiaeth o hyd yng nghyfran y tai newydd sy'n cael eu gosod i aelwydydd digartref ledled Cymru, gan adlewyrchu (yn rhannol o leiaf) y gwahaniaethau mewn diwylliant a chyfeiriadedd sy'n cael eu trafod ymhellach ym mhennod 3, adran 3.6). Yn 2022/23, roedd cyfradd yr holl osodiadau cymdeithasol newydd i aelwydydd digartref yn amrywio o 19% i 74% ar lefel ardal awdurdod lleol. Gwelwyd patrwm tebyg o ran gosod tai cymdeithasau tai ar lefel awdurdodau lleol (21-74%) a'r sector awdurdod lleol (9-82%). Mae'r amrywiad amlwg yn arwydd o'r ffaith nad yw cyfran y tai cymdeithasol a osodir i aelwydydd digartref mewn pum ardal awdurdod lleol wedi newid fawr ddim, os o gwbl, ers 2018/19, ac mewn ardaloedd eraill mae'r gyfradd wedi cynyddu'n sylweddol.

Gan adlewyrchu'r amrywiad daearyddol hwn mae'n debyg, roedd safbwyntiau'r ymatebwyr i'r arolwg o awdurdodau lleol ar ddyraniadau tai cymdeithasol i aelwydydd digartref yn eithaf cymysg (gweler tabl 2.1). Ar y cyfan, roeddent yn tueddu i ryw raddau at y farn bod lefel dyraniadau awdurdodau lleol i aelwydydd digartref yn ei gwneud yn anodd darparu ar gyfer pobl eraill sydd mewn angen o ran tai, gyda saith o'r 12 a ymatebodd yr oedd y cwestiwn hwn yn berthnasol iddynt yn cytuno â datganiad i'r perwyl hwnnw (pedwar yn cytuno'n gryf, gweler tabl 2.1). Dim ond un o'r 16 a ymatebodd oedd o'r farn nad oedd dyraniadau tai Awdurdodau Lleol i aelwydydd digartref yn ddigon uchel. Pwysleisiodd Awdurdodau Lleol a oedd yn egluro eu hymatebion mai'r prif rwystr i letya aelwydydd

digartref yw nid polisi neu ymarfer dyrannu, ond argaeledd cartrefi addas, yn enwedig rhai o faint priodol:

'Mae canran uwch o ddyraniadau'n mynd at ddigartrefedd. Y broblem yw diffyg llety i ddiwallu'r angen'
(Awdurdod Lleol, De Cymru).

'Nid mater o bolisi neu barodrwydd partneriaid tai i gartrefu aelwydydd digartref sy'n gyfrifol am y sefyllfa heriol, ond fel y nodwyd mewn atebion blaenorol, nid oes gennym y math iawn o gartrefi i gyfateb i broffil digartrefedd.'
(Awdurdod Lleol, Gogledd-ddwyrain Cymru)

Roedd hanner (8 o 16) yr awdurdodau lleol a ymatebodd o'r farn bod lefel dyraniadau cymdeithasau tai i aelwydydd digartref yn ei gwneud yn anodd darparu ar gyfer pobl eraill ag anghenion tai (dim ond 3 oedd yn anghytuno). Fodd bynnag, roedd barn awdurdodau lleol yn rhanedig ar y cwestiwn a yw dyraniadau cymdeithasau tai i aelwydydd digartref yn ddigon uchel. Roedd chwech (o 16) awdurdod lleol o'r farn nad yw'r lefelau'n ddigon uchel, roedd pump yn anghytuno a phedwar yn niwtral. Unwaith eto, mae hyn yn debygol o adlewyrchu bod cyfraniad cymdeithasau tai yn amrywio'n sylweddol, ac yn wir, tynnodd rhai Awdurdodau Lleol sylw at y ffaith bod trefniadau cofrestr tai cyffredin yn eu hardal yn golygu nad oedd gwahaniaeth rhwng arferion awdurdodau lleol a chymdeithasau tai yn hyn o beth. Pwysleisiodd eraill y diffyg cyffredinol o dai cymdeithasol neu stoc briodol (yn enwedig llety un ystafell wely a chartrefi i deuluoedd mawr) a'r cyfaddawdau ynghylch dyraniadau uwch i aelwydydd digartref:

¹¹⁷ Llywodraeth Cymru (2023) *Llefydd gwag, gosodiadau ac ôl-ddyledion tai cymdeithasol: Ebrill 2021 - Mawrth 2022*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. <https://www.llyw.cymru/llefydd-gwag-gosodiadau-ac-ol-ddyledion-tai-cymdeithasol-ebrril-2021-i-fawrth-2022>

Tabl 2.1: Barn Awdurdodau Lleol ar ddyraniadau tai cymdeithasol i aelwydydd digartref (nifer yr Awdurdodau Lleol)

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Amherthnasol	Ddim yn gwybod
Mae lefel dyraniadau tai awdurdodau lleol i aelwydydd digartref yn ei gwneud yn anodd cartrefu pobl eraill sydd ag anghenion tai yn fy ardal i	4	3	2	3	0	4	0
Nid yw lefel dyraniadau tai awdurdodau lleol i aelwydydd digartref yn fy ardal yn ddigon uchel	0	1	2	7	2	4	0
Mae lefel dyraniadau cymdeithasau tai i aelwydydd digartref yn ei gwneud yn anodd cartrefu pobl eraill sydd ag anghenion tai yn fy ardal i	4	4	5	3	0	0	0
Nid yw lefel dyraniadau tai cymdeithasau tai i aelwydydd digartref yn ddigon uchel	2	4	4	4	1	0	1

‘Y broblem yw nad oes digon o dai cymdeithasol. Mae’r dull rhentu uniongyrchol yn rhoi rhywfaint o symudiad i aelwydydd digartref ond mae’n talu’r hen a dwyn y newydd... Canlyniad anfwriadol gosod tai

uniongyrchol yw bod digartrefedd yn dod yn llwybr at dai cymdeithasol.’
(Awdurdod Lleol, Gogledd-ddwyrain Cymru)

‘Mae ymgeiswyr sydd ag anghenion tai (ddim yn ddigartref) yn aros yn hirach am ddyraniadau sy’n golygu bod eu hamgylchiadau’n gwaethygu.’
(Awdurdod Lleol, De Cymru)

Nododd Panel Adolygu Arbenigol Cymru (a drafodir ymhellach ym mhennod 3) nad yw polisïau ac arferion dyrannu, gan gynnwys trefniadau enwebu, bob amser yn ategu ymdrechion i gartrefu aelwydydd digartref.¹¹⁸ Yn ôl ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, mae heriau yn aml yn codi oherwydd amrywiadau o ran pwyslais landlordiaid ar yr hyblygrwydd sydd ei angen i bwyso a mesur materion fel cynnal tenantiaeth a chymuned, dehongliadau gwahanol o ‘ymddygiad annerbyniol’ a diffyg cymorth tai.¹¹⁹

Roedd hysbyswyr allweddol yn cydnabod amrywiaeth o heriau o ran dyraniadau, gan gynnwys diffyg stoc yn gyffredinol; diffyg cyfatebiaeth rhwng proffil stoc ac anghenion tai; pwysigrwydd dod o hyd i’r cartref priodol i bobl, yn y lle priodol, gyda’r cymorth priodol; a chostau dyraniadau uchel i aelwydydd digartref i grwpiau eraill. Fodd bynnag, roedd consensws bod lefel y dyraniadau i aelwydydd digartref yn amrywio’n sylweddol a’i fod yn ‘hynod o isel’ (Hysbysydd allweddol yn y sector statudol) mewn rhai ardaloedd, gyda’r sbardun pwysicaf i’r amrywiad hwn yn cael ei weld fel arfer anghyson gan gymdeithasau tai gan gynnwys ‘dewis a dethol’ (Hysbysydd allweddol yn y sector statudol) (gweler pennod 3):

‘mae’n anghyson iawn... mae rhai landlordiaid cymdeithasol yn chwarae

rhan enfawr...yn mynd yr ail filltir... yn aml yn cynnig tai â chymorth, cymorth fel bo’r angen, sicrhau bod eiddo ar gael ar gyfer Tai yn Gyntaf. Yna mae rhai eraill sydd o bosibl ddim yn gwneud y pethau hynny... ac yn cymryd dyraniadau is o ddigartrefedd.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector gwirfoddol)

‘mae llawer o enghreifftiau da lle mae cynghorau’n fodlon â’r ymgysylltu a gânt â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig [RSL] a’r dyraniadau sy’n deillio o’r rhai, ond yn yr un modd, mae rhai cysylltiadau nad ydynt mor gynhyrchiol a chadarnhaol o hyd.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector statudol)

Yng nghyd-destun y lefelau presennol o ddigartrefedd a defnydd o lety dros dro (gweler pennod 4) gwelwyd bod cyfiawnhad dros godi’r gwastad a chynnydd cyffredinol yn y flaenoriaeth a roddir i aelwydydd digartref mewn dyraniadau, ochr yn ochr â rhoi sylw i ddarparu cymorth priodol a’r effeithiau ar grwpiau eraill:

118 Panel Adolygu Arbenigol (2023) *Ending Homelessness In Wales: A Legislative Review*. Llundain: Crisis. <https://www.crisis.org.uk/media/uqgbuwpp/ending-homelessness-in-wales-a-legislative-review.pdf>

119 Woolley, B. (2023) *Dyraniadau: Deall mwy, yng nghyd-destun digartrefedd yng Nghymru*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2023-10/dyraniadau-deall-mwy-yng-nghyd-destun-digartrefedd-yng-nghymru.pdf>

‘mae’n rhaid i ni sicrhau bod y system ddyrannu’n canolbwyntio ar y rhai mwyaf agored i niwed a’r rhai sydd fwyaf mewn angen ar hyn o bryd: mae hynny’n realiti ymarferol. Os yw hynny’n golygu mwy o aelwydydd digartref, gwyddom fod hynny’n bosibl... y cwbl sydd angen i ni ei wneud yw meddwl am wasanaethau cynnal’

(Hysbysydd allweddol yn y sector gwirfoddol)

‘Weithiau, y cyfan sydd ei angen, fel y gwelwyd yn ystod COVID, yw cyfnod byr lle rydych chi wir yn blaenoriaethu’r boblogaeth hon.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector academiaidd)

‘mae’n hollol iawn canolbwyntio am y tro ar aelwydydd sy’n ddigartref. Maen nhw mewn angen mwy enbyd... ar yr un pryd... mae


angen i ni gadw golwg ar y grwpiau hynny a allai fod wedi mynd i dai cymdeithasol o’r blaen... ond na fydd yn gwneud hynny oherwydd bod y flaenoriaeth yn cael ei rhoi i raddau llawer mwy i bobl ddigartref.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector gwirfoddol)

Roedd y ‘Papur Gwyn ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru’ yn cynnwys cynigion i fynd i’r afael â’r heriau hyn a sicrhau bod tai cymdeithasol yn cael eu gosod i’r rhai sydd â’r angen mwyaf ac mae’n cael ei drafod ymhellach ym mhennod 3.¹²⁰

Roedd safon rhent cymdeithasol a thaliadau gwasanaeth 2020-25 Llywodraeth Cymru yn gosod codiadau blynyddol ar CPI yn ogystal ag 1% y flwyddyn,¹²¹ ond ar ddechrau’r argyfwng costau byw cafodd y safon hon ei hatal. Cafodd cynnydd mewn rhenti ei gapio ar 6.5% yn 2023/24 a 6.7% yn 2024/25 yn gyfnewid am landlord cymdeithasol yn ymrwymo i beidio â throï unrhyw un allan oherwydd caledi ariannol yn ystod y cyfnod hwn. Bydd y safon yn cael ei hailgyflwyno ar gyfer 2025/26, cyn belled â bod chwyddiant yn parhau i fod yn is na 3% ym mis Medi 2024.¹²² Mae cymdeithasau tai nawr yn chwilio am safon rhent amlflwyddyn o 2026/27 a fydd yn darparu incwm digonol fel bod modd buddsoddi mewn cartrefi newydd a rhai sy’n bodoli eisoes, gan gydbwyso fforddiadwyedd i denantiaid ar yr un pryd.¹²³ Ond mae eraill wedi rhybuddio bod codiadau rhent eisoes yn

Ffigur 2.13: Hawliadau meddiant chwarterol landlordiaid ar gyfer Cymru, Ch1 2019 i Ch4 2023



Ffynhonnell: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Mortgage and Landlord Possession Statistics Quarterly (Cyhoeddwyd Chwefror 2024). Sylwer: Mae Ffigurau Ch4 2023 yn rhai dros dro

tanseilio rôl landlordiaid cymdeithasol o ran amddiffyn pobl rhag tlodi ac amddifadedd.¹²⁴

Troi allan ac adfeddiannu

Roedd mesurau brys yn atal y rhan fwyaf o achosion o droi allan yn ystod misoedd cyntaf y pandemig, gyda hawliadau meddiant landlordiaid yn cynyddu o 1,120 yn Ch2 2019 i ddim ond 71 yn Ch2 2020 (gweler ffigur 2.13). Roedd mesurau brys dilynol wedyn yn sicrhau bod gan y rhan fwyaf o denantiaid hawl i chwe mis o rybudd cyn y gallai eu landlord ddechrau achos llys. Pan ddaeth y mesurau hyn i ben ar 24 Mawrth 2022, cododd hawliadau meddiant landlordiaid yn sydyn, wedi eu sbarduno gan gynnydd mewn hawliadau ‘triniaeth gyflym’. Yn gyffredinol, hawliadau’r weithdrefn garlam yw Adran 173 neu droi allan ‘heb fai’ sy’n

caniatáu i landlord adennill meddiant heb roi rheswm. Yn y naw mis hyd at fis Rhagfyr 2022, roedd cyfanswm o 1,269 o’r 2,654 o hawliadau (48%) yn ‘weithdrefn garlam’ o’i gymharu â dim ond 544 o 3,363 o hawliadau (16%) yn y naw mis hyd at fis Rhagfyr 2019.

Daeth mesurau i atal landlordiaid rhag cyflwyno hysbysiad adennill meddiant o fewn chwe mis cyntaf contract meddiannaeth ‘newydd’ a chynyddu’r cyfnod rhybudd ‘dim bai’ o ddau i chwe mis i rym ym mis Rhagfyr 2022. I bob pwrpas, roedd hyn yn atal landlordiaid rhag ffeilio hawliad gweithdrefn garlam gyda’r llysoedd yn ystod blwyddyn gyntaf tenantiaeth. Nid yw’n syndod, felly, bod hawliadau ‘y weithdrefn garlam’ yn 2023 wedi gostwng o 524 yn Ch1 i 108 yn Ch4. Er mwyn cymharu, roedd nifer yr

120 Llywodraeth Cymru (2023) *Papur cabinet: Papur Gwyn Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru- Papur cabinet CAB(23-24)06*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. <https://www.llyw.cymru/papur-cabinet-papur-gwyn-rhoi-diwedd-ar-ddigartrefedd-yng-nghymru>

121 Llywodraeth Cymru (2020) *Safon Rhenti a Thaliadau Gwasanaeth Llywodraeth Cymru, 2020-2025*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2024-12/safon-renti-a-thaliadau-gwasanaeth-2020-2025.pdf>

122 James, J (2024) Datganiad Ysgrifenedig: *Fforddiadwyedd wrth wraidd polisi rhent cymdeithasol*. Senedd Cymru. <https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-fforddiadwyedd-wrth-wraidd-polisi-rhent-cymdeithasol>

123 Sefydliad Bevan (2023) Wales’ social rent setting policy is not fit for purpose (comment), <https://www.bevanfoundation.org/views/wales-social-rent-setting-policy-is-not-fit-for-purpose/>

124 Evans, S. (2023) Increasing Social Rents Cannot Be The Housing Sector’s Answer To Rising Inflation – blog, Sefydliad Bevan, <https://www.bevanfoundation.org/views/increasing-rents-not-answer/>

hawliadau meddiant ‘safonol’ a wnaed gan landlordiaid cymdeithasol a phreifat, fel arfer ar gyfer ôl-ddyledion rhent, ymddygiad gwrthgymdeithasol neu dorri amodau tenantiaeth, yn Ch4 2023 bron heb newid ers Ch4 2022.

Yn gyffredinol, mae’r data’n awgrymu y gallai’r Ddeddf Rhentu Cartrefi fod wedi lleihau’r defnydd o achosion o droi allan ‘heb fai’ yn y tymor byr. Fodd bynnag, nid yw nifer yr hysbysiadau a gyhoeddir heb fynd i’r llys yn hysbys ac nid oes sicrwydd y bydd y gostyngiad diweddar yn nifer yr hawliadau am y weithdrefn garlam yn parhau yn y tymor canolig.

Er bod ôl-ddyledion morgais wedi cynyddu yn 2023, mae llai nag 1% o ddeiliaid morgeisi yn y Deyrnas Unedig mewn ôl-ddyledion.¹²⁵ Roedd gweithredoedd benthycwyr yn parhau i leihau adfeddiannu a mynediad haws at Gymorth ar gyfer Benthyciadau Llog Morgais o fis Ebrill 2023 ymlaen, sy’n golygu bod adfeddiannu yn dal yn isel, gyda dim ond 967 o hawliadau meddiant a 167 o feiliaid yn gorfodi ailfeddiannu yng Nghymru yn 2023. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi sefydlu ‘Cymorth i Aros’ yn ddiweddar, sy’n cynnig benthyciad ecwiti ar y cyd i berchnogion tai sy’n ei chael hi’n anodd talu eu morgais ac sydd ag incwm o lai na £67,000.¹²⁶ Gan hynny, mae adfeddiannu tai ar forgais yn annhebygol o gynyddu nifer y bobl sy’n ddigartref yn y dyfodol agos.

125 Cyllid y Deyrnas Unedig – Nid yw ffigurau Cymru ar gael
126 Llywodraeth Cymru (2024) *Cael help i dalu eich morgais gyda benthyciad ecwiti a rennir Cymorth i Aros*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru <https://www.llyw.cymru/cael-help-i-dalu-eich-morgais-gyda-benthyciad-ecwiti-rennir-cymorth-i-aros>

3. Polisi digartrefedd

Prif bwyntiau

Roedd ffocws polisi digartrefedd yng Nghymru ar gryfhau atal, ailgartrefu cyflym a chael gwared ar rwystrau i dai a chymorth yn cael ei gymeradwyo’n eang gan randdeiliaid yn y sector. Ochr yn ochr â phwysau ar adnoddau, mae’r rhwystrau i’w weithredu yn cynnwys seilwaith data gwael a diwylliant mewn awdurdodau lleol sy’n groes i’r cyfeiriad strategol. Tynnodd rhai sylw hefyd at y ffaith y byddai arweinyddiaeth wleidyddol ar y lefelau uchaf un (h.y. Prif Weinidog) yn helpu i sicrhau cyfranogiad a gweithredu effeithiol.

Cydnabuwyd bod ymestyn y categorïau angen blaenoriaethol i gynnwys pobl sy’n ddigartref ac ar y stryd, gan gadarnhau’r newidiadau a gyflwynwyd yn ystod y pandemig, wedi gwella’r ymatebion i gysgu allan ac mae’n cael ei gymeradwyo’n fawr gan y rhan fwyaf o randdeiliaid y sector fel ‘y peth iawn i’w wneud’. Drwy ddod â’r rhai a oedd wedi eu heithrio’n flaenorol o fewn y rhwyd ddiogelwch statudol, mae’r newid wedi gwaethygu’r pwysau tai ar awdurdodau lleol ac wedi golygu bod angen canolbwyntio ar ymatebion i argyfwng a rheoli llety dros dro. Mae rhai cynrychiolwyr Awdurdodau Lleol yn pryderu bod y newid wedi tanseilio cyfrifoldeb personol pobl i ddatrys eu hanghenion tai eu hunain a’u galluogi i fanteisio ar y rhwyd diogelwch cyfreithiol. Fodd bynnag, nid yw’n glir pam mai dim ond i grwpiau sydd newydd gael cymorth mae’r pryderon hyn yn berthnasol.

Dywedodd y rhai a ymatebodd i’r arolwg o awdurdodau lleol bod Cynlluniau Pontio Ailgartrefu sydd wedi eu datblygu’n dda ar waith yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, a’u bod wedi dechrau cael effaith gadarnhaol ar ymatebion i ddigartrefedd mewn llawer o ardaloedd, gan gynnwys drwy fwy o fynediad at dai sefydlog, gwelliannau mewn gweithio mewn partneriaeth a newidiadau

ym mhroffil y llety dros dro a ddefnyddir. Mae rhwystrau o ran bwrw ymlaen â Chynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym yn cynnwys diffyg mynediad at lety addas (yn enwedig llety un ystafell wely), diffyg ymrwymiad i’r agenda ar ran Awdurdodau Lleol a phartneriaid ehangach, a phwysau aciwt ar wasanaethau ac adnoddau cyfyngedig.

Gwelodd y Grant Cymorth Digartrefedd £13 miliwn o gynnydd yn 2024/25 ar ôl cael ei rewi am dair blynedd, gyda’r bwriad o’i ddefnyddio i gynyddu cyflogau’r gweithlu. Yn ôl y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, bydd hyn yn golygu bod modd cynnal gwasanaethau digartrefedd ar y lefelau presennol, ond ni fydd yn galluogi gwelliannau yn y ddarpariaeth gwasanaethau er gwaethaf pwysau aciwt ar wasanaethau. Mae’r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn dweud eu bod yn cael trafferth recriwtio a chadw staff sydd â’r sgiliau angenrheidiol mewn gwasanaethau digartrefedd. Awdurdodau Lleol a gwasanaethau wedi eu comisiynu, sydd wedi ei sbarduno gan lwyth gwaith uchel, taliadau isel a diffyg cydnabyddiaeth o gyfraniad y gweithlu.

Fe wnaeth y pecyn cyffredinol o gynigion yn y Papur Gwyn ar Roi Terfyn ar Ddigartrefedd yng Nghymru ennyn cefnogaeth eang gan awdurdodau lleol a hysbyswyr allweddol. Mae elfennau o’r cynigion a gafodd groeso arbennig yn cynnwys cyflwyno dyletswyddau newydd i atal digartrefedd ar gyrff cyhoeddus ehangach ac ymestyn dyletswydd atal yr Awdurdodau Lleol i chwe mis. Croesawyd cynigion i ddileu’r prawf digartrefedd bwriadol a lliniaru rheolau cysylltiad lleol gan hysbyswyr allweddol, ond maent yn ddadleuol ymysg awdurdodau lleol sy’n poeni y bydda’r newidiadau hyn yn cynyddu’r galw ac yn lleihau cyfrifoldeb personol. Nodwyd mai cyllid, mwy o fynediad at dai addas, gweithredu’n raddol, sicrhau ymrwymiad gan wasanaethau cyhoeddus ehangach a chreu

newid diwylliant mewn awdurdodau lleol yw'r ffactorau galluogi angenrheidiol ar gyfer gweithredu.

3.1 Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn ystyried newidiadau polisi diweddar a chynigion i ymateb i ddigartrefedd yng Nghymru. Mae Adran 3.2 yn adolygu ffocws a threfn lywodraethu'r strategaeth ddigartrefedd bresennol yng Nghymru yn ogystal â'r seilwaith data sy'n sail iddi. Mae'r adrannau a ganlyn yn canolbwyntio'n benodol ar elfennau neilltuoel o'r agenda polisi hon, eu gweithrediad hyd yma a'u derbyniad ymysg rhanddeiliaid allweddol yn y sector ac awdurdodau lleol (ar adeg y gwaith maes, h.y. gwanwyn/haf 2024), sef: ymestyn y maen prawf angen blaenoriaethol (Adran 3.3), yr agenda ailgartrefu cyflym (3.4), tai yn gyntaf (3.5) partneriaethau (3.6) a chyllido a'r gweithlu (3.7). Mae Adran 3.8 yn rhoi trosolwg o'r cynigion ar gyfer diwygio yn y Papur Gwyn ar Roi Terfyn ar Ddigartrefedd yng Nghymru, a gyhoeddwyd yn 2023, ac archwiliad o'r cynigion hyn o safbwynt rhanddeiliaid allweddol yn y sector ac awdurdodau lleol.

3.2 Cynllun Gweithredu Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru

Mae Llywodraethau olynol Cymru wedi cynnal ymrwymiad gwleidyddol lefel uchel i wella ymatebion i ddigartrefedd. Cam allweddol oedd cyflwyno Deddf Tai (Cymru) 2014, a oedd yn arwain y byd ar y pryd ac

a gyflwynodd ddyletswyddau statudol ar Awdurdodau Lleol i atal digartrefedd am y tro cyntaf yn y Deyrnas Unedig. Mae camau gweithredu dilynol wedi ceisio gwella'r ymatebion ymhellach, gan gynnwys cynnull y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd i wneud argymhellion ar sut i 'roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru' a'r camau a gymerwyd mewn ymateb i bandemig COVID-19.¹²⁷ Cafodd argymhellion terfynol y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd, a oedd yn seiliedig ar y gwersi a ddysgwyd yn ystod y pandemig, eu datblygu gan Lywodraeth Cymru a oedd newydd gael ei hethol yn 2021, a oedd yn ymrwymo i ddiwygio deddfwriaeth digartrefedd i gryfhau dulliau ataliol a chyflwyno ffocws o'r newydd ar ailgartrefu cyflym.¹²⁸

Cafodd yr ymrwymïadau hyn eu datblygu yng Nghynllun Gweithredu Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru 2021-26, fersiwn ddiwygiedig o strategaeth 2019 a oedd yn ceisio nodi ffyrdd o sicrhau bod digartrefedd yn 'brin, yn para am gyfnod byr ac nad yw'n ailadrodd' gyda chamau gweithredu lefel uchel wedi eu trefnu o dan dair thema – trawsnewid y system ddigartrefedd, atal a chamau cymorth cyffredinol.¹²⁹ Ym mis Mawrth 2022, fe wnaeth Julie James, y Gweinidog Newid Hinsawdd ar y pryd (sydd â chyfrifoldeb dros dai), wahodd Crisis i gynnull Panel Adolygu Arbenigol i gynnal adolygiad cynhwysfawr o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â digartrefedd,¹³⁰ 'yn seiliedig ar egwyddorion atal cynnar, bod neb yn cael ei adael allan, ac ailgartrefu cyflym'.¹³¹

Roedd y prif hysbyswyr yn cymeradwyo'n gryf y 'cyfarwyddyd polisi clir' (hysbysydd allweddol

yn sector statudol) a gymerwyd yng Nghymru, gan ddisgrifio'r strategaeth bresennol fel 'y weledigaeth gywir... y fframwaith cywir' (Hysbysydd allweddol yn y sector gwirfoddol) ac un 'flaengar... yn seiliedig ar drawma ac yn canolbwyntio ar bobl' (Hysbysydd allweddol yn y sector gwirfoddol)). Canmolwyd hefyd natur 'eithriadol o uchelgeisiol' (Hysbysydd allweddol yn y sector statudol) y Cynllun Gweithredu: 'Mae ehangder yr uchelgais yn drawiadol, sydd, ar fater mor frys â hyn, yn rhywbeth i'w groesawu'n fawr' (Hysbysydd allweddol yn y sector tai).

Fodd bynnag, roedd nifer o randdeiliaid o'r farn, er gwaethaf y ffaith bod y cyn Weinidog, Julie James, wedi hyrwyddo'r achos, nad oedd mynd i'r afael â digartrefedd wedi cael ei dderbyn eto fel 'blaenoriaeth gwbl drawslywodraethol' (hysbysydd allweddol yn y sector gwirfoddol), gyda chefnogaeth o bob rhan o'r sector cyhoeddus ac ar y lefel wleidyddol uchaf:

'mae angen i ni gael cydnabyddiaeth gan Brif Weinidog, mae'n debyg, bod hon yn her drawslywodraethol... a thynnu sylw at y rhyng-gysylltiad rhwng digartrefedd, iechyd, addysg, cyflogaeth, ychydig yn fwy clir.'

(Hysbysydd allweddol yn y sector gwirfoddol)

Roedd pryder mawr nad yw lefel yr uchelgais a nodir yn y Cynllun Gweithredu a'r dogfennau cysylltiedig yn cyd-fynd â ffocws digonol ar yr heriau o ran gweithredu na'r adnoddau sydd eu hangen:

'ni allai neb ddadlau ag uchelgais Llywodraeth Cymru ar lefel genedlaethol... ond... nid yw'n troi'n newid mawr

ym mhobman oherwydd nad yw'r adnoddau'n dilyn drwodd i'w alluogi i ddigwydd.'

(Hysbysydd allweddol yn y sector tai)

Mynegodd un hysbysydd allweddol yn y sector tai 'gydymdeimlad gwirioneddol â phartneriaid cyflawni' o ystyried 'graddfa'r disgwyliadau arnynt' (Hysbysydd allweddol yn y sector tai), safbwynt a ategwyd gan awdurdodau lleol:

'rydych chi'n gofyn i ni wneud gormod ar unwaith...mae'n rhaid i ni adeiladu, mae'n rhaid i ni ôl-osod, mae'n rhaid i ni geisio cynyddu'r sector rhentu preifat. Rydych chi'n gofyn i ni gyflawni newidiadau mawr iawn mewn sector heb unrhyw gymorth ychwanegol gwirioneddol... ac yna rydych chi eisiau i ni roi diwedd ar ddigartrefedd... Dydyn ni ddim yn mynd i gyflawni hyn i gyd o fewn yr amserlenni... gyda'r farchnad fel mae hi.'

(Hysbysydd allweddol yn y sector statudol)

Daeth her weithredu ychwanegol a oedd yn ymwneud â'r angen am 'newid diwylliant' i'r amlwg yn gryf mewn cyfweiliadau â hysbyswyr allweddol. Er bod newid i'w groesawu i 'ethos ... Atal' (Hysbysydd allweddol yn y sector academaidd) yn cael ei gydnabod, nododd hysbyswyr allweddol fod safbwyntiau ar ddigartrefedd a oedd yn wrth-foesegol i fwriadau polisi Llywodraeth Cymru yn parhau i gael eu hymgorffori:

127 Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Young, G., Watts, B. & Wood, J. (2021) *The Homelessness Monitor: Cymru 2021*. Llundain: Crisis. <https://www.crisis.org.uk/ending-homelessness/homelessness-knowledge-hub/homelessness-monitor/wales/the-homelessness-monitor-wales-2021/>

128 Llywodraeth Cymru (2021) *Y Rhaglen Lywodraethu: diweddariad*. Llywodraeth Cymru. Ar-lein. <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-01/rhaglen-lywodraethu-diweddariad-rhagfyr-2021.pdf>

129 Llywodraeth Cymru (2023) *Ymgynghoriad y Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2023-06/fframwaith-canlyniadau-ar-gyfer-rhoi-diwedd-ar-ddigartrefedd-dogfen-ymgyngghori_1.pdf t.6.

130 Llywodraeth Cymru (2022) Datganiad Ysgrifenedig: Sefydlu Panel Adolygu Arbenigol ar gyfer deddfwriaeth digartrefedd yng Nghymru. (Llywodraeth Cymru: Ar-lein. <https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-sefydlu-panel-adolygu-arbenigol-ar-gyfer-deddfwriaeth-digartrefedd-yng>

131 Panel Adolygu Arbenigol (2023) *Ending Homelessness in Wales: A Legislative Review*. Llundain: Crisis. <https://www.crisis.org.uk/media/uqggbuwpp/ending-homelessness-in-wales-a-legislative-review.pdf>. P.13.

‘mae’n debyg bod diwylliant... sy’n deillio o reoli adnodd y mae pen draw iddo... barn ynghylch pwy sy’n haeddu help a phwy sydd ddim yn haeddu help a pha fath o ymddygiad sy’n haeddu help a pha fath o ymddygiad nad yw’n haeddu help... gan sbarduno newid diwylliant sy’n dod ag unrhyw ymdeimlad o haeddiant yn erbyn cyflawni yn y maes digartrefedd... yn un o’r cyfleoedd yma.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector statudol)

Sefydlwyd Bwrdd Cynghori Cenedlaethol ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd (yr hen Fwrdd Cynghori Cenedlaethol ar Gymorth Tai) i ddarparu goruchwyliaeth ac archwilio a darparu cyngor ar faterion strategol sy’n ymwneud â rhoi’r Cynllun Gweithredu ar waith. Yn 2023 – hanner ffordd drwy weithredu’r Cynllun – cyhoeddodd y Bwrdd adroddiad yn asesu cynnydd ac yn gwneud

argymhellion ar gyfer blaenoriaethau ar gyfer ail hanner cyfnod y Cynllun.¹³² Rhoddwyd pwyslais mawr ar gyflwyno newid deddfwriaethol i drawsnewid y system digartrefedd yn seiliedig ar argymhellion y Panel Adolygu Arbenigol.

Roedd y Bwrdd yn cael ei weld gan hysbyswyr allweddol fel strwythur defnyddiol ac effeithiol i helpu i yrru’r Cynllun yn ei flaen. Yn benodol, roedd y bwrdd o’r farn bod *‘rhywfaint o... gysondeb... rhyw fath o ddewis wrth gefn... Rhyw fath o barhad ynghylch y naratif na fyddai yno fel arall’* (Hysbysydd allweddol yn y sector statudol) yn ystod cyfnod o ddatblygu polisi cyflym. Gwelwyd bod strwythur y grŵp gorchwyl a gorffen¹³³ sy’n rhan o’r bwrdd cyffredinol wedi rhoi *‘ffocws aruthrol o ddefnyddiol’* (hysbysydd allweddol yn y sector gwirfoddol) wrth fwrw ymlaen â’r ddarpariaeth, gyda nifer o hysbyswyr allweddol yn enwedig yn croesawu’r ffocws ar iechyd a digartrefedd a’r gweithlu.

Roedd y Cynllun Gweithredu hefyd yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i ddatblygu Fframwaith Canlyniadau newydd, dan arweiniad grŵp gorchwyl a gorffen Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Dod â Digartrefedd i Ben,¹³⁴ i ddwyn ynghyd ddangosyddion sy’n berthnasol i ddeall ei gynnydd.¹³⁵ Cyhoeddwyd fersiwn derfynol yn nodi canlyniadau strategol lefel uchel a dangosyddion penodol ym mis Ionawr 2024¹³⁶ ac yna adroddiad sylfaenol a fydd yn cael ei ddefnyddio i fesur cynnydd

yn y dyfodol.¹³⁷ Ochr yn ochr â’r Fframwaith newydd, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i adolygu’r trefniadau casglu data presennol, i sicrhau bod asiantaethau statudol ac anstatudol yn casglu’r data sydd ei angen i fesur cynnydd o ran y canlyniadau newydd.¹³⁸

Roedd hysbyswyr allweddol yn croesawu’r Fframwaith fel un a oedd yn adlewyrchu dealltwriaeth eang o ddigartrefedd ac yn cydnabod pwysigrwydd ffactorau risg cynnar ac atal. Canmolwyd hefyd fod cynnwys canlyniadau sy’n gysylltiedig â’r gweithlu yn cydnabod dibyniaeth y Cynllun ar staff rheng flaen. Ar y llaw arall, cododd nifer bryderon ynghylch cymhlethdod y fframwaith a nifer y canlyniadau a’r dangosyddion a gynhwyswyd. Wrth gofnodi dwy ochr y ddadl, dywedodd y hysbysydd allweddol hwn:

‘Ymysg y pethau cadarnhaol... [mae’r ffaith bod y fframwaith] yn cydnabod amrywiaeth profiadau o fod yn ddigartref... yn ceisio mesur gweithgarwch atal... ac nid yw’n canolbwyntio ar argyfyngau yn unig... Ochr arall y geiniog i hynny yw eich bod chi o bosibl yn ceisio mesur llawer iawn o bethau na fydd o reidrwydd yn cael effaith uniongyrchol a phendant ar ddigartrefedd.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector academiaidd)

Tynnwyd sylw at y cysylltiad rhwng uchelgais y Fframwaith Canlyniadau a’r seilwaith data presennol yng Nghymru gan nifer o hysbyswyr allweddol: *‘unwaith eto, mae wedi datgelu pa mor wael yw’r data am Gymru, er mwyn ein galluogi i fesur cynnydd yn rhai o’r meysydd hyn’* (Hysbysydd allweddol yn y sector academiaidd).

Yn unol â’r sylwebaeth bresennol,¹³⁹ nodwyd bylchau allweddol yn y seilwaith data tai a digartrefedd, gan gynnwys diffyg Arolwg Tai sy’n cyfateb i Arolwg Tai Lloegr (sy’n darparu data hanfodol ar broffil aelwydydd ac anheddau a chostau tai a fforddiadwyedd) ac oedi parhaus wrth gyflwyno data unigol ar lefel achosion ar y system ddigartrefedd statudol.¹⁴⁰

‘does dim modd i ni edrych ar symudiad rhwng awdurdodau... mesur digartrefedd sy’n digwydd dro ar ôl tro mewn ffordd ddefnyddiol ac ystyrlon... edrych ar ganlyniadau ar barthau cyhoeddus ehangach drwy gysylltu’r data hwnnw... hyd yn oed pethau sylfaenol iawn fel deall y llwybrau a arweiniodd bobl at fod yn ddigartref, y sbardunau uniongyrchol.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector academiaidd)

132 Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Dod â Digartrefedd i Ben (2023) *Adroddiad Blynyddol i Weinidogion Cymru 2022-23*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-08/bwrdd-cynghori-cenedlaethol-dod-digartrefedd-ben-adroddiad-blynyddol-weinidogion-cymru-2022-2023.pdf>

133 Mae pum grŵp gorchwyl a gorffen yn ymdrin â’r themâu a ganlyn: y gweithlu digartrefedd; y fframwaith canlyniadau; ailgartrefu cyflym; iechyd a digartrefedd; a chydaddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

134 Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Dod â Digartrefedd i Ben (2023) *Adroddiad Blynyddol i Weinidogion Cymru 2022-23*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-08/bwrdd-cynghori-cenedlaethol-dod-digartrefedd-ben-adroddiad-blynyddol-weinidogion-cymru-2022-2023.pdf> t.19.

135 Y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd (2020) Y fframwaith o bolisiau, dulliau a chynlluniau y mae ei angen i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru (Beth mae rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru’n ei olygu mewn gwirionedd): *Adroddiad gan y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd ar gyfer Llywodraeth Cymru. Ar-lein: Llywodraeth Cymru*. https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-03/grwp-gweithredu-ar-ddigartrefedd-adroddiad-mawrth-2020_0.pdf t.13.

136 Llywodraeth Cymru (2024) Y Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd: Ymgynghoriad – *crynodeb o’r ymatebion*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2024-02/crynodeb-ymatebion-digartrefedd.pdf>; *Llywodraeth Cymru (2024) Y Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2024-04/fframwaith-canlyniadau-gyfer-rhoi-diwedd-ddigartrefedd%20%281%29_0_0.pdf

137 Llywodraeth Cymru (2024) Y Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd: *Adroddiad Sylfaen*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2024-07/ending-homelessness-outcomes-framework-baseline-report.pdf>

138 Llywodraeth Cymru (2021) *Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru: Cynllun Gweithredu Lefel Uchel 2021-2026*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. <https://www.llyw.cymru/rhoi-diwedd-ar-ddigartrefedd-cynllun-gweithredu-lefel-uchel-2021-i-2026>. P.26.

139 Bibbings, J. (2024) *Popeth nad ydym yn ei wybod am dai yng Nghymru*. Ar-lein: Ymchwil y Senedd. <https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/popeth-nad-ydym-yn-ei-wybod-am-dai-yng-nghymru/>

140 5 Gorffennaf 2024 Adroddiad Penderfyniad: <https://www.llyw.cymru/adroddiadau-ar-benderfyniadau-2024>

‘Nid yw’n cael ei ystyried yn hanfodol. Mae’n hurt... allwn ni ddim dweud pa gyfraniad mae’r sector rhentu preifat yn ei wneud i ddigartrefedd, fel un enghraifft yn unig, sydd fel cwestiwn enfawr, syml y dylem allu ei ateb’

(Hysbysydd allweddol yn y sector statudol)

Fodd bynnag, mae gwella data ar ddigartrefedd yn ffocws allweddol i Lywodraeth Cymru.¹⁴¹ Yn wir, mae’r papur gwyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd a’r papur gwyn a gyhoeddwyd yn fwy diweddar ar y llwybr at dai digonol, yn tynnu sylw at yr uchelgeisiau ar gyfer gwell data.

3.3 Ymestyn angen blaenoriaethol

Mae ehangu’r grwpiau sydd â hawl i gael y ‘prif ddyletswydd ailgartrefu’ o dan ddeddfwriaeth digartrefedd drwy ddiwygiadau i’r prawf

angen blaenoriaethol wedi bod ar agenda polisi Cymru ers tro, ar ôl cael ei argymhell gan y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd¹⁴² ac yn amodol ar adolygiad annibynnol a gyhoeddwyd yn 2020.¹⁴³ Canfu’r adolygiad annibynnol lefel eang o gefnogaeth i ddiddymu’r prawf yn gyfan gwbl,¹⁴⁴ a chafodd y cyfeiriad hwn ei sbarduno gan yr ymateb brys ‘neb heb help’ i bandemig Covid-19. Roedd datganiadau a chanllawiau gweinidogol yng ngwanwyn 2020 yn nodi’n glir y byddai pobl sy’n cysgu allan yn cael eu trin fel pobl ‘agored i niwed’ ac felly mewn angen blaenoriaethol yn ystod argyfwng iechyd y cyhoedd.¹⁴⁵ Wrth i Gymru ddod allan o’r pandemig ym mis Tachwedd 2021, ymrwymodd y Gweinidog ar y pryd i ‘*beidio mynd yn ôl*’¹⁴⁶ i ffyrdd blaenorol o weithio ar ddigartrefedd. Tua’r un pryd, cadarnhaodd ein harolwg o awdurdodau lleol Cymru yn 2021 gefnogaeth barhaus i ddiddymu’r prawf, ar yr amod bod adnoddau priodol ar gael.¹⁴⁷

Yn ystod Haf 2022, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar y cynnig i wneud y mesurau dros dro a oedd yn gysylltiedig â COVID-19 yn rhai parhaol, ac wedi hynny diwygio Deddf Tai (Cymru) 2014 i drin pobl sy’n ddigartref ar y stryd fel rhai sydd ag angen

blaenoriaethol,¹⁴⁸ newid a ddaeth i rym ar 24 Hydref 2022 ynghyd â chanllawiau statudol.¹⁴⁹

Roedd y prif hysbyswyr yn tueddu i fod yn bendant mai’r newid hwn oedd y peth iawn i’w wneud, fel mater o egwyddor, a’i fod wedi cael effaith gadarnhaol ar y rhai roedd y newid yn effeithio arnynt:

‘Yr egwyddor a ddylid eu cynnwys? Wrth gwrs y dylen nhw...’

(Hysbysydd allweddol yn y sector tai)

‘mae wedi cael effaith gadarnhaol iawn... gweithio yn y sector a siarad â phobl ar y strydoedd, roedden nhw bob amser yn arfer dweud, ‘Dydw i ddim mewn angen blaenoriaethol. Does gen i ddim gobaith o gael llety dros dro. Felly, pa ddewis arall sydd gennyf ond cysgu allan ar y stryd...’ Mae gallu dweud yn awr, ‘Wel, mae categori angen blaenoriaethol newydd yn awr ac mae gennych chi hawl i gael y cymorth hwn’, yn benderfyniad gwych’

(Hysbysydd allweddol yn y sector gwirfoddol)

Roedd awdurdodau lleol hefyd yn glir bod y newid a achoswyd gan COVID a’i godeiddio dilynol wedi gwella’r ymatebion i gysgu allan:

‘mae hyn yn cadarnhau ein ffyrdd o weithio yn ystod Covid... mae hyn wedi gwella ein gallu i helpu pobl sy’n cysgu allan yn effeithiol – dim newid i’r ffordd roedden ni’n delio â phobl sy’n cysgu allan o’i gymharu â chyfnod Covid, ond newid sylweddol o’i gymharu â’r cyfnod cyn Covid.’

(Awdurdod Lleol, Gogledd-ddwyrain Cymru)

‘Covid oedd y prif newid o ran sut rydyn ni’n rhoi cymorth pendant i bobl sy’n cysgu allan. Sefydlwyd cyfarfod celloedd digartrefedd a oedd yn tynnu sylw at ddull cadarnhaol o gynorthwyo pobl sy’n cysgu allan ynghyd â chyflwyno’r tîm allgymorth iechyd. Rydym wedi parhau â’r fforwm cymorth aml-asantiaeth hwn ac yn cynnal cyfarfodydd bob pythefnos i nodi’r rhai sy’n cysgu allan.’

(Awdurdod Lleol, De Cymru)

Mae’n ymddangos bod y newid hefyd wedi cael effeithiau cadarnhaol y tu hwnt i’r rhai sy’n cysgu allan, neu sydd mewn perygl uniongyrchol o gysgu allan, gan fod rhai ardaloedd yn ‘gweithio’n ddigon agos i ffordd sy’n ‘ddall’ i angen blaenoriaethol’ (Awdurdod Lleol, Gogledd-ddwyrain Cymru). Er bod

- 141 Gweler, er enghraifft: Llywodraeth Cymru (2024) *Y Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd: Adroddiad Sylfaen*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2024-07/fframwaith-canlyniadau-gyfer-rhoi-diwedd-ddigartrefedd-adroddiad-sylfaen.pdf>; Llywodraeth Cymru (2024) *Papur Gwyn ar sicrhau llwybr tuag at dai digonol, gan gynnwys rhenti teg a fforddiadwyedd*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru, <https://www.llyw.cymru/papur-gwyn-ar-creu-llwybr-tuag-dai-digonol-gan-gynnwys-rhenti-teg-fforddiadwyedd>; Llywodraeth Cymru (2023) *Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru*. (Llywodraeth Cymru: Ar-lein. <https://www.llyw.cymru/papur-gwyn-ar-creu-llwybr-tuag-dai-digonol-gan-gynnwys-rhenti-teg-fforddiadwyedd>;
- 142 Y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd (2020) *Y fframwaith o bolisiau, dulliau a chynlluniau y mae ei angen i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru (Beth mae rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru’n ei olygu mewn gwirionedd): Adroddiad gan y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd ar gyfer Llywodraeth Cymru*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-03/grwp-gweithredu-ar-ddigartrefedd-adroddiad-mawrth-2020_0.pdf t.40.
- 143 Mackie, P., Gray, T., Hughes, C., Madoc-Jones, I., Mousteri, V., Pawson, H., Spyropoulos, N., Stirling, T., Taylor, H. & Watts, B. (2020). Review of Priority Need in Wales. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
- 144 Mackie, P., Gray, T., Hughes, C., Madoc-Jones, I., Mousteri, V., Pawson, H., Spyropoulos, N., Stirling, T., Taylor, H. & Watts, B. (2020). Review of Priority Need in Wales. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. P.164.
- 145 Llywodraeth Cymru (2020) *Canllawiau i awdurdodau lleol ar gefnogi pobl sy’n cysgu allan – Brigiad Covid-19*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-04/canllawiau-i-awdurdodau-lleol-ar-gefnogi-pobl-syn-cysgu-allan-argyfwng-covid-19_0.pdf
- 146 Cofnod Trafodion y Senedd. Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd a Thai. 30 Tachwedd 2021. <https://cofnod.senedd.cymru/Plenary/12499#A68724>
- 147 Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Young, G., Watts, B. & Wood, J. (2021) *The Homelessness Monitor: Cymru 2021*. Llundain: Crisis. <https://www.crisis.org.uk/ending-homelessness/homelessness-knowledge-hub/homelessness-monitor/wales/the-homelessness-monitor-wales-2021/>

- 148 Rheoliadau Digartrefedd (Angen Blaenoriaethol a Bwriadoldeb) (Cymru) 2022, Offeryn Statudol 2022/1069
- 149 Llywodraeth Cymru (2022) Atodiad – Rheoliadau Digartrefedd (Angen Blaenoriaethol a Bwriadoldeb) (Cymru) 2022. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2022-10/code-of-guidance-addendum.pdf>

hysbyswyr allweddol yn awyddus i bwysleisio bod y prawf angen blaenoriaethol yn dal i gael ei ddefnyddio mewn rhai ardaloedd, mae'r newid oddi wrth ei ddefnyddio y tu hwnt i'r rhai sy'n cysgu allan eisoes ar y gweill:

‘Ychydig iawn o awdurdodau lleol sy’n defnyddio’r prawf hwnnw yn y ffordd roeddent yn ei wneud cyn y pandemig... Nid yw’r data’n awgrymu eu bod wedi mynd yn ôl i angen blaenoriaethol fel adnodd allweddol. Maen nhw’n dal wedi ymrwymo i helpu’r bobl o’u blaenau yn y ffordd orau bosibl...mae’r prawf angen blaenoriaethol yn cael ei ddefnyddio, ac mae’n cael ei ddefnyddio gan rai awdurdodau lleol yn fwy nag eraill ac mae hynny’n bryder.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector statudol)

Mae ymestyn yr angen blaenoriaethol wedi arwain at amrywiaeth o heriau. Y cydbwysedd barn hysbyswyr allweddol oedd bod y symud mor bwysig fel ei bod yn ofynnol llywio’r materion ehangach hyn: ‘Os yw hynny’n creu heriau eraill yn ddiweddarach, mae’r pwynt cyntaf o egwyddor yn parhau y dylid eu cynnwys beth bynnag’ (Hysbysydd allweddol yn y sector tai). Er hynny, roeddent yn glir ei fod wedi bod yn heriol i Awdurdodau Lleol: ‘mae’n amlwg ei fod wedi cynyddu’r galw am wasanaethau’ (Hysbysydd allweddol yn y sector statudol).

Pwysleisiodd yr awdurdodau lleol a ymatebodd i’r arolwg y pwysau sylweddol iawn roeddent yn teimlo bod ehangu dyletswyddau statudol wedi ei ychwanegu at wasanaethau sydd eisoes dan straen. Roedd pob un (14 o 14) yn cytuno bod ‘y newid hwn wedi gwaethygu’r pwysau ar dai yn ein hardal’,

gan ymhelaethu yn eu geiriau eu hunain bod y newid ‘wedi arwain at gynnydd enfawr yng nghostau’r ddarpariaeth a rhagor o bwysau ar gapasiti tai’ (Awdurdod Lleol, Canolbarth a Gorllewin Cymru), ‘cynyddu nifer y bobl sy’n cyflwyno, sy’n arwain at lai o amser gyda phob cwsmer’ (Awdurdod Lleol, Canolbarth a Gorllewin Cymru), ‘dwysáu a chynyddu’r galw ar wasanaeth sydd eisoes dan bwysau mawr’ (Awdurdod Lleol, De Cymru), ac wedi ‘rhoi mwy o alw ar gael gafael ar dai parhaol addas a fforddiadwy’ (Awdurdod Lleol, y Cymoedd).

Tynnodd awdurdodau lleol sylw at heriau penodol sy’n codi wrth reoli cyflwyniadau gan bobl ag anghenion cymhleth:

‘mae hyn wedi arwain at fwy a mwy o geisiadau ailadroddus, sy’n golygu bod angen cynnal mwy o asesiadau. Mae’r unigolion hyn yn tueddu i fod yn gymhleth iawn ac ychydig iawn o wasanaethau eraill sydd eisiau helpu gyda’r pwysau sy’n ein hwynebu.’

(Awdurdod Lleol, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

‘Mae hyn wedi symud ein ffocws oddi ar waith atal ystyrlon a chymorth dwys i’n hachosion mwyaf cymhleth i reoli Gwely a Brecwast o ddydd i ddydd.’

(Awdurdod Lleol, Gogledd-ddwyrain Cymru)

‘Rydym yn cael llawer o gyflwyniadau dro ar ôl tro lle bu methiant mewn llety dros dro sawl gwaith.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector statudol)

Mae nifer o awdurdodau lleol hefyd yn bwrw amheuaeth ar gyfreithlondeb yr angen ymysg rhai o’r rhai a gynorthwywyd drwy ymestyn y prawf angen blaenoriaethol ac yn cwestiynu eu blaenoriaethau ar gyfer llety, gan ddweud eu bod ‘yn methu gwirio’ honiadau bod pobl yn ddigartref ar y stryd (Awdurdod Lleol, y Cymoedd) a thynnu sylw at y ffaith bod y ddeddfwriaeth ‘wedi rhoi’r baich ar yr awdurdod lleol i wrthbrofi bod rhywun yn cysgu allan... [felly] mae’r trothwy ar gyfer cynnig llety dros dro yn isel iawn’ (Awdurdod Lleol, Gogledd-ddwyrain Cymru):

‘Cyn Covid roedd gennym 11 o bobl a oedd yn cysgu ar y stryd yn [enw’r awdurdod]... Erbyn hyn mae gennym bron i 200 o ymgeiswyr sengl mewn llety gwely a brecwast heb ddewisiadau realistig ar gyfer symud ymlaen. Rwy’n gwybod na fyddai gennym 200 o bobl yn cysgu allan pe bai’r ddyletswydd yn dod i ben yfory gan y byddai’r rhan fwyaf ohonynt yn cael llety amgen (ond ansefydlog).’

(Awdurdod Lleol, Gogledd-ddwyrain Cymru)

‘ni fyddai 70% o’r rhai mewn llety Gwely a Brecwast/ Gwestai ar hyn o bryd wedi cael eu lleoli o’r blaen, ond roedd llai na 5% wedi cysgu ar y stryd mewn gwirionedd.’

(Awdurdod Lleol, De Cymru)

Teimlai awdurdodau lleol ledled Cymru a ymatebodd fod y newid wedi cyflwyno cymhelliant ymddygiadol gwrthnysig i’r bobl sengl sy’n elwa ar yr hawliau estynedig hyn, gan danseilio eu hymdeimlad o gyfrifoldeb i ddatrys eu hanghenion tai eu hunain neu eu hannog i ‘chwarae’r system’:

‘mae ymgeiswyr yn manteisio ar y meini prawf... Rydym wedi cael llawer o achosion lle mae rhywun wedi honni’n anwir eu bod yn ‘ddigartref ar y stryd’, ond ar ôl ymchwilio i hyn, mae’n amlwg nad dyna’r achos.’

(Awdurdod Lleol, De Cymru)

‘rydym yn gweld mwy o bobl yn honni eu bod yn cysgu allan, lle nad oes rheswm dros gredu y gallent fod mewn angen blaenoriaethol am y rheswm hwn ac yn fwy tebygol o fod yn syrffio soffas neu o fyw gyda pherthnasau. Mae’n ymddangos mai dyma’r ffordd hawsaf o gael tai cymdeithasol yn gynt.’

(Awdurdod Lleol, y Cymoedd)

‘Nid yw pobl mor rhagweithiol o ran dod o hyd i lety gan fod Llety Dros Dro yn opsiwn iddyn nhw.’

(Awdurdod Lleol, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Mae’n bwysig nodi, fel y pwysleisiodd nifer o ymatebwyr Awdurdodau Lleol, bod Llywodraeth Cymru yn glir yn ei chanllawiau ‘nad oes angen i ymgeisydd ddangos ei fod yn cysgu allan neu wedi bod yn cysgu allan yn y gorffennol, dim ond eu bod yn ‘ddigartref ac ar y stryd’ ar yr union adeg honno’ gyda digartref ac ar y stryd yn cael ei ddiffinio fel dim hawl gyfreithiol neu drwydded ddatganedig neu ymhlyg i feddiannu llety,¹⁵⁰ gan nodi mai’r bwriad oedd ymestyn y categori ychwanegol hwn yn fwy eang na rhai awdurdodau lleol i wirio hawliadau cysgu allan (gweler pennod 4). Nid yw’n glir pam mae’r pryderon hyn yn berthnasol i’r rhai sydd newydd gael cymorth yn unig.

3.4 Ailgartrefu cyflym

Roedd Cynllun Gweithredu 2021 yn cynnwys ymrwymiad y byddai pob awdurdod lleol yn drafftio Cynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym 5 mlynedd erbyn mis Mehefin 2022 a chael cynlluniau terfynol ar waith erbyn mis Medi

y flwyddyn honno.¹⁵¹ Mae dulliau ailgartrefu cyflym yn canolbwyntio ar ddarparu llety i’r rhai sy’n wynebu digartrefedd i dai sefydlog cyn gynted â phosibl, gan roi’r cymorth sydd ei angen arnynt i gynnal y tai hynny. Un o nodau allweddol y dull gweithredu yw osgoi arosiadau hir, niweidiol a drud mewn llety dros dro. Datblygwyd canllawiau ar sut i ddatblygu Cynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym¹⁵² - gan ddefnyddio profiadau yn yr Alban, lle cyflwynwyd y Cynlluniau hynny yn 2018¹⁵³ - gyda chaniatâd i Awdurdodau Lleol ddefnyddio hyd at 2% a dim mwy na £100,000 o’u dyraniad Grant Cymorth Tai i gyllido’r ymdrechion hyn rhwng 2021 a 2024.

Erbyn haf 2023, nid oedd 4 o’r 22 awdurdod lleol wedi cyflwyno drafft cyntaf o’u Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym i Lywodraeth Cymru, a galwodd yr Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Dod â Digartrefedd i Ben am ‘gampau brys’¹⁵⁴ i fynd i’r afael â rhwystrau a chynorthwyo cynnydd. Cafodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ailgartrefu Cyflym ei sefydlu gan y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Dod â Digartrefedd i Ben i gynorthwyo gweithredu, ac ym mis Awst 2023 nododd y Grŵp rwystrau allweddol o ran cynnydd, gan gynnwys: heriau cyflenwadau tai, diffyg eglurder ynghylch sut byddai cynnydd yn cael ei fonitro, a diffyg ymwybyddiaeth a gwybodaeth am ailgartrefu cyflym mewn llywodraeth leol ac ymysg partneriaid.¹⁵⁵

O’r 16 awdurdod lleol a ymatebodd i’n harolwg, roedd 13 o’r farn bod ganddynt Gynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym ‘wedi ei ddatblygu’n dda’ ar waith, gyda 3 o’r farn bod eu Cynlluniau’n dal i gael eu ‘datblygu’. Yn ddadlennol, eglurodd un awdurdod lleol y mae ei Gynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym yn dal i gael ei ddatblygu bod y gwaith hwn wedi cael ei ‘oedi oherwydd cyflymu yn y lleoliadau i westai’ a’r angen i ‘flaenoriaethu symud ymlaen’ (Awdurdod Lleol, De Cymru). Amlygodd un arall ‘allu cyfyngedig o fewn gweithgareddau’r Strategaeth Dai’ fel rhywbeth a oedd yn achosi oedi (Awdurdod Lleol, Gogledd-ddwyrain Cymru).

Mae’r ffaith bod Cynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym yn ‘dal i gael eu datblygu’ dwy flynedd ers dechrau’r cyfnod pontio yn siomedig o bosibl, ac yn wir fe wnaeth nifer o’r hysbyswyr allweddol y pwynt bod Cynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym yn dal i fod yn ‘waith ar y gweill’ (Hysbysydd allweddol yn y sector statudol), neu’n fwy damniol, ‘yn sicr wedi dod i stop’ (Hysbysydd allweddol yn y sector gwirfoddol). Yn wir, dywedodd pum ymatebydd o arolwg yr awdurdodau lleol nad oedd Cynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym wedi cael unrhyw effaith eto, ond mae’n werth nodi bod y rhan fwyaf (10) wedi dweud bod eu Cynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym eisoes wedi gwella’r ymatebion i ddigartrefedd yn eu hardal.

I rai, roedd y cynnydd hwn yn ymwneud â chymryd ‘cam(au) bach i adeiladu’r sylfeini’ ar gyfer gweithredu’r cynllun yn y tymor hwy (Awdurdod Lleol, Gogledd-ddwyrain Cymru). Disgrifiodd nifer o bobl eraill y Cynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym fel rhywbeth a oedd wedi rhoi ‘ffocws gwirioneddol’ (Awdurdod Lleol, Gogledd-ddwyrain Cymru) i fater digartrefedd yn yr Awdurdod Lleol, gan gynnwys ar lefelau uwch, gan gynnwys drwy ‘dynnu sylw at y ffaith, os na fyddwn yn rhoi’r atebion ar waith, gallai’r gost i’r awdurdod fod yn enfawr’ (Awdurdod Lleol, Canolbarth a Gorllewin Cymru). Serch hynny, mewn tua hanner yr awdurdodau lleol, roedd newidiadau diriaethol wedi cael eu gwneud. Roedd dau awdurdod lleol yn glir bod y Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym wedi arwain at fwy o fynediad at dai sefydlog i’r rhai sydd

mewn llety dros dro, naill ai drwy newidiadau i bolisiau dyrannu a/neu drwy gynyddu’r defnydd o’r sector rhentu preifat:

‘Mae ein Cynllun wedi golygu bod modd gwneud newidiadau i’r polisi Dyraniadau sydd bellach yn caniatáu newidiadau bandio ar sail pobl sy’n ddigartref, gan gynyddu eu siawns o gael eu cartrefu’n gyflymach.’

(Awdurdod Lleol, Canolbarth a Gorllewin Cymru).

‘Mae wedi cael rhywfaint o effaith o ran rhagor o fynediad at y sector rhentu preifat drwy ein [enw’r cynllun, ac rydyn ni’n] cynnal adolygiad o’r Gofrestr Tai Cyffredin.’

(Awdurdod Lleol, y Cymoedd)

Soniodd sawl awdurdod lleol hefyd am welliannau o ran gweithio mewn partneriaeth, naill ai o fewn neu y tu hwnt i’r awdurdod lleol:

‘Mae wedi dod â rhai adrannau at ei gilydd i weithio ar atebion hirdymor.’

(Awdurdod Lleol, Canolbarth a Gorllewin Cymru).

‘[Mae ein Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym wedi ein galluogi i] weithio’n agosach gydag lechyd yr Amgylchedd a pherchnogion eiddo preifat

150 Llywodraeth Cymru (2022) *Atodiad – Rheoliadau Digartrefedd (Angen Blaenoriaethol a Bwriadoldeb) (Cymru) 2022*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2022-10/code-of-guidance-addendum.pdf>

151 Llywodraeth Cymru (2021) *Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru: Cynllun Gweithredu Lefel Uchel 2021-2026*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. <https://www.llyw.cymru/rhoi-diwedd-ar-ddigartrefedd-cynllun-gweithredu-lefel-uchel-2021-i-2026>. P.12.

152 Llywodraeth Cymru (2021) *Cynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym: Canllawiau i Awdurdodau Lleol a Phartneriaid Datblygu Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym 2022 i 2027*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. <https://www.llyw.cymru/cynlluniau-pontio-ailgartrefu-cyflym-canllawiau-i-awdurdodau-lleol-au-partneriaid>

153 Watts, B., Bramley, G., Fitzpatrick, S., Pawson, H., McMordie, L & Young, G. (2024) *The Homelessness Monitor: Scotland 2021*. Llundain: Crisis. <https://www.crisis.org.uk/ending-homelessness/homelessness-knowledge-hub/homelessness-monitor/scotland/the-homelessness-monitor-scotland-2024/>

154 Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Dod â Digartrefedd i Ben (2023) *Adroddiad Blynyddol i Weinidogion Cymru 2022-23*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-08/bwrdd-cynghori-cenedlaethol-dod-digartrefedd-ben-adroddiad-blynyddol-weinidogion-cymru-2022-2023.pdf> t.6.

155 Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Dod â Digartrefedd i Ben (2023) *Adroddiad Blynyddol i Weinidogion Cymru 2022-23*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-08/bwrdd-cynghori-cenedlaethol-dod-digartrefedd-ben-adroddiad-blynyddol-weinidogion-cymru-2022-2023.pdf> t.9-10.

i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd.'

(Awdurdod Lleol, y Cymoedd).

Eglurodd tri awdurdod lleol fod eu Cynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym wedi arwain at newidiadau ym mhroffil y llety dros dro a ddefnyddiwyd, canfyddiad sy'n groes i reddf o bosibl o ystyried y pwyslais ar osgoi a lleihau'r defnydd o lety dros dro sy'n ganolog i'r agenda ailgartrefu cyflym. Roedd yr effeithiau penodol yn cynnwys buddsoddi mewn llety â chymorth arbenigol, yn ogystal ag mewn eiddo llety dros dro hunangynhwysol mwy, gan gynnwys drwy'r Rhaglen Cyllid Cyfalaf Llety Trosiannol a gyflwynwyd yn 2022/23 i gynyddu'r cyflenwad o 'lety tymor hwy o ansawdd da' i'r rhai sydd mewn llety dros dro:¹⁵⁶

'rydym wedi cynyddu nifer yr eiddo hunangynhwysol sydd gennym ac rydym yn eu defnyddio fel llety dros dro er mwyn ceisio gweithio tuag at yr ethos o ailgartrefu cyflym.'

(Awdurdod Lleol, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

'datblygu llety â chymorth ar ffurf tŷ gwlyb, ad-drefnu llety lloches, datblygu llety â chymorth gyda diagnosis deuol i ddiwallu anghenion y rhai sydd ag anghenion mwy cymhleth.'

(Awdurdod Lleol, y Cymoedd)

Tynnodd awdurdodau lleol sylw at amrywiaeth o rwystrau sy'n llesteirio cynnydd o ran datblygu a gweithredu Cynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym, gyda thri yn arbennig o amlwg. Y cyntaf, a'r un a bwysleisiwyd yn gryf iawn, oedd heriau o ran cyflenwad ac argaeledd llety addas a fforddiadwy, ac yn enwedig llety un ystafell wely:

'nid oes digon o dai fforddiadwy ar gyfer pobl, felly maent yn treulio gormod o amser mewn llety dros dro neu mae'n rhaid iddynt gymryd eiddo nad yw'n rhoi'r ateb gorau iddynt o bosibl.'

(Awdurdod Lleol, De Cymru)

'mae'r garfan o ddigartrefedd yn golygu bod angen llawer o lety cyffredinol 1 ystafell wely (tua 75% o'r garfan llety i bobl ddigartref) ond dim ond tua 5% o'r stoc tai cyffredinol ar draws ein darparwyr tai cymdeithasol yw'r cyflenwad o dai cymdeithasol anghenion cyffredinol ag un ystafell wely.'

(Awdurdod Lleol, Gogledd-ddwyrain Cymru)

Yn ail, roedd awdurdodau lleol yn teimlo bod diffyg dealltwriaeth a chefnogaeth gan bartneriaid perthnasol eraill, gan gynnwys cymdeithasau tai, yn rhwystr allweddol:

'mae pob gwasanaeth a phartner yn derbyn bod digartrefedd yn beth drwg. Fodd bynnag, mae cymaint o heriau i wasanaethau cyhoeddus... Mae'n glir bod Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym yn flaenoriaeth i ni ond nid yw'n flaenoriaeth i bob gwasanaeth, gan ein bod ni i gyd yn gweithio ar raglenni newid radical, gan geisio arbedion effeithlonrwydd a gwelliannau ar adeg o gyni a galw na welwyd ei debyg o'r blaen.'

(Awdurdod Lleol, Gogledd-ddwyrain Cymru)

'mae diffyg dealltwriaeth o sefydliadau/timau/dechnegwyr nad ydynt o'r farn mai u problem nhw yw digartrefedd.'

(Awdurdod Lleol, De Cymru)

Yn drydydd, roedd y pwysau difrifol sydd ar awdurdodau lleol i ymateb i ddigartrefedd – 'y fath raddfa' o angen fel y dywedodd un awdurdod lleol (Awdurdod Lleol, y Cymoedd) – ynghyd â'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael iddynt yn cael ei weld fel rhwystr i ddatblygu Cynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym. Yn ôl Awdurdodau Lleol, roedd y pwysau hyn naill ai'n golygu bod gwaith trawsnewidiol wedi cael ei ddadflaenoriaethu, neu ei fod wedi cael ei ddilyn ond ar draul gwasanaethau rheng flaen:

'Mae gwasanaethau... dan straen aruthrol... Dim ond gwaith cyfyngedig ar newid trawsnewidiol sy'n bosibl gan fod cyllid yn canolbwyntio mwy a mwy ar y rheng flaen.'

(Awdurdod Lleol, Gogledd-ddwyrain Cymru)

'Mae wedi... cymryd llawer iawn o adnoddau ar gyfer gweinyddiaeth yn unig y gellid bod wedi ei wario'n well ar atal a lliniaru digartrefedd.'

(Awdurdod Lleol, De Cymru)

'roedden ni wedi dweud wrth Lywodraeth Cymru, fel awdurdodau lleol... gadewch i ni ddelio â'r argyfwng yn gyntaf, yna fe wnawn ni ddelio ag ailgartrefu cyflym. Dywedwyd wrthym, na, mae'n rhaid i chi fwrw ymlaen â phethau. Mae'n debyg nad oedd amseriad hynny'n iawn... roedden ni'n dal i ddelio â chanlyniadau COVID.'

(Hysbysydd allweddol yn y sector statudol)

Roedd rhai hysbyswyr allweddol o'r farn, er gwaethaf yr heriau hyn, fod Awdurdodau Lleol 'o blaid' yr agenda ailgartrefu cyflym:

'Mae'n gyfeiriad mae pobl yn teimlo'n gyfforddus iawn ag ef ar lefel athronyddol, ond

¹⁵⁶ Darparwyd cyfanswm o £89 miliwn ar gyfer 2022-23, ac yna £120 miliwn arall yn 2023/24 ar ffurf cyllid grant i awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Llythyr gan Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd, at John Griffiths AS, Cadeirydd Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai Senedd Cymru (2022) *Gwybodaeth ddilynol ar ôl sesiwn dystiolaeth ar ddigartrefedd*. Ar-lein: Senedd Cymru. <https://busnes.senedd.cymru/documents/s133916/Papur%201.pdf>; Llywodraeth Cymru (2024) Y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro, Cyfeirnod SC11036 - i annog darparu llety tymor hwy ar gyfer y rhai sydd mewn llety dros dro a llety cychwynnol ar gyfer adsefydlu. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. <https://www.llyw.cymru/y-cynllun-cymorth-y-rhaglen-gyfalaf-llety-trosiannol-html#140733>

mae’r holl amgylchedd polisi a chyflawni yn heriol iawn.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector statudol)

‘Rydyn ni wedi ymrwymo i [egwyddorion Ailgartrefu Cyflym], ond nid ydw i’n meddwl bod hynny’n mynd i ddigwydd yn gyflym. Bydd yn digwydd, ond nid yn ystod fy oes waith mae’n debyg, y bydd mor gyflym ag y maen nhw eisiau iddo fod, ond rydyn ni wedi ymrwymo i hynny.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector statudol)

Fodd bynnag, roedd eraill yn cwestiynu dealltwriaeth yr awdurdodau lleol o ailgartrefu cyflym a’u hymrwymiad iddo, gan dynnu sylw at y ffaith bod llawer o gynnwys Cynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym yn adlewyrchu strategaethau sy’n bodoli’n barod yn hytrach na ‘dealltwriaeth ddyfnach’ (hysbysydd allweddol yn y sector gwirfoddol) o’r ailgyfeirio sylfaenol mae ailgartrefu cyflym yn ei olygu, ac yn pwysleisio’r rhwystrau diwylliannol a gwleidyddol maent yn eu gweld pethau sy’n rhwystro cynnydd o ran y Cynlluniau Pontio:

‘ar lefel llywodraeth leol, ni chafodd y ddadl ei hennill erioed mewn perthynas â newid meddylfryd ar ddigartrefedd.... Mae’n drawiadol iawn pa mor fanwl

157 Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Dod â Digartrefedd i Ben (2023) *Adroddiad Blynyddol i Weinidogion Cymru 2022-23*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-08/bwrdd-cynghori-cenedlaethol-dod-digartrefedd-ben-adroddiad-blynyddol-weinidogion-cymru-2022-2023.pdf>

yw’r adwaith yn y gymuned i bethau fel ailgartrefu cyflym.

[Mae] arferion hen ffasiwn a braidd yn ddigyfnewid o ran gweld poblogaeth ddigartref sy’n deilwng ac yn annheilwng...maen nhw’n mynd i fod... yn anodd... eu newid... ynghylch aros i bobl fod angen tai â chymorth ac yna cael cymaint ohono â phosibl a chael ffrwd gyllido sy’n cynyddu bob blwyddyn i’w ddarparu. Mae hynny’n sefyll yn uniongyrchol groes i’r agenda Ailgartrefu Cyflym.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector gwirfoddol)

‘mae mater arall... yn ymwneud ag ymwybyddiaeth ddiwylliannol o’r hyn mae dan arweiniad tai yn ei olygu, ac rwy’n dal i ddod ar draws meddylfryd traddodiadol iawn am... Y camau traddodiadol hyn drwy’r system.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector statudol)

Felly, cymeradwyodd sawl hysbysydd alwadau a wnaed gan y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Dod â Digartrefedd i Ben i ddyblu¹⁵⁷ ymdrechion i ailddatgan, addysgu a pherswadio awdurdodau lleol, arweinwyr

gwleidyddol lleol a phartneriaid eraill ynghylch y rhesymeg dros ddull ailgartrefu cyflym, yn ogystal â chanllawiau ymarferol ar sut yn union i fynd ar drywydd hyn:

‘mae rhywbeth... yn ymwneud ag addysgu’r sector... sy’n dylanwadu ar ddealltwriaeth pobl o’r hyn sy’n bosibl... bod angen i ni ganolbwyntio ychydig yn fwy arno, yn fy marn i.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector statudol)

‘mae’r uchelgais yn gwbl gywir. Mae’n ymwneud â chamau graddol a chyflawni graddfa’r diwygio mewn system sydd dan bwysau eithriadol... byddai mwy o amser a sylw yn cael ei groesawu ar yr hyn rydym yn ei flaenoriaethu, a’r camau ymarferol a all helpu pobl

gyda’r broses honno o newid cyfeiriad.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector tai)

3.5 Tai yn Gyntaf

Mae Tai yn Gyntaf, ymateb sy’n cael ei gydnabod yn rhyngwladol ac sy’n cael ei arwain gan dai, i ddigartrefedd ymysg y rhai sydd ag anghenion cymhleth, wedi bod yn ffocws polisi digartrefedd Cymru ers o leiaf Cynllun Gweithredu 2019.¹⁵⁸ Roedd Cynllun 2021 yn ymrwymo i barhau i ehangu gan gynnwys drwy £1.9 miliwn o fuddsoddiad yn 2021/22,¹⁵⁹ er bod Tai yn Gyntaf bellach yn cael ei gyllido – ynghyd â gwasanaethau eraill sy’n gysylltiedig â digartrefedd – drwy’r Grant Cymorth Tai. Mae’r data diweddaraf sydd ar gael yn dangos bod prosiectau Tai yn Gyntaf wedi gweithredu mewn 17 awdurdod lleol ledled Cymru yn 2022, gyda 332 o bobl wedi cael llety rhwng 2018 a 2022¹⁶⁰ a 91% o denantiaethau Tai yn Gyntaf wedi cael eu cynnal yn 2018.¹⁶¹ Mae Fframwaith Canlyniadau Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd 2024 yn cynnwys dangosyddion allweddol sy’n ymwneud â Thai yn Gyntaf, er mai dim ond cynnal tenantiaethau Tai yn Gyntaf a nifer y tenantiaethau hynny sy’n dod i ben am resymau penodol mae hyn, nid a yw lefel Tai yn Gyntaf yn cynyddu ac yn ddigonol i ateb y galw.¹⁶²

158 Llywodraeth Cymru (2021) *Cynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym: Canllawiau i Awdurdodau Lleol a Phartneriaid Datblygu Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym 2022 i 2027*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. <https://www.llyw.cymru/cynlluniau-pontio-ailgartrefu-cyflym-canllawiau-i-awdurdodau-lleol-au-partneriaid>; Llywodraeth Cymru (2021) *Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru: Cynllun Gweithredu Lefel Uchel 2021-2026*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. <https://www.llyw.cymru/rhoi-diwedd-ar-ddigartrefedd-cynllun-gweithredu-lefel-uchel-2021-i-2026>; Llywodraeth Cymru (2024) *Y Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2024-04/fframwaith-canlyniadau-gyfer-rhoi-diwedd-ddigartrefedd%20%281%29_0_0.pdf

159 Llywodraeth Cymru (2021) *Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru: Cynllun Gweithredu Lefel Uchel 2021-2026*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. <https://www.llyw.cymru/rhoi-diwedd-ar-ddigartrefedd-cynllun-gweithredu-lefel-uchel-2021-i-2026>. P.13.

160 Rhwydwaith Tai yn Gyntaf Cymru (2023) *Housing First Wales Tracker February 2018 – September 2022*. Ar-lein: Cymorth Cymru. <https://www.cymorthcymru.org.uk/wp-content/uploads/2023/10/HF-Wales-Tracker-Sep-2022.pdf>

161 Llywodraeth Cymru (2024) *Y Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd: Adroddiad Sylfaen*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2024-07/ending-homelessness-outcomes-framework-baseline-report.pdf>

162 Llywodraeth Cymru (2024) *Y Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2024-04/fframwaith-canlyniadau-gyfer-rhoi-diwedd-ddigartrefedd%20%281%29_0_0.pdf

Mae bron pob un (14 o’r 16) awdurdod lleol a ymatebodd i’r arolwg yn dweud bod cynlluniau Tai yn Gyntaf ar waith yn eu hardal. Eglurodd un o’r ddau nad oes ganddynt ddarpariaeth o’r fath mai ‘diffyg adnoddau’ yw’r rheswm dros hynny (Awdurdod Lleol, Canolbarth a Gorllewin Cymru). Mewn hanner (7 o 14) o’r awdurdodau lleol â Thai yn Gyntaf, ystyriwyd bod lefel y ddarpariaeth yn annigonol i ateb y galw. Nodwyd dau beth a oedd yn rhwystro cynyddu’r ddarpariaeth Tai yn Gyntaf, yn fwyaf amlwg diffyg mynediad at dai addas, ac yn enwedig tai un ystafell wely:

‘Dim ond os oes tai addas ar gael y gall Tai yn Gyntaf weithio.’

(Awdurdod Lleol, y Cymoedd)

‘Mae gennym y capasiti cymorth i ddiwallu anghenion y garfan Tai yn Gyntaf, ond nid y cyflenwad o dai... 1 ystafell wely sydd ei angen. O ganlyniad, rydym yn cynnig cymorth dwys i bobl... ond nid yn gyfan gwbl gydnaws ag Egwyddorion Tai yn Gyntaf gan fod pobl yn cael llety anaddas.’

(Awdurdod Lleol, Gogledd-ddwyrain Cymru)

Yn achos ardal arall, roedd yr her nid yn unig yn ymwneud ag argaeledd cyffredinol tai priodol, ond hefyd ei leoliad, ac yn benodol risgiau creu tenantiaethau Tai yn Gyntaf ‘mewn ardaloedd nad ydynt yn mynd i’r afael â lefelau ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ati’ (Awdurdod Lleol, y Cymoedd). Yr ail rwystr a nodwyd oedd digon o gapasiti cymorth:

‘[mae] angen rhagor o staff arnom i roi’r cymorth angenrheidiol.’

(Awdurdod Lleol, Gogledd-ddwyrain Cymru)

‘Er bod y prosiect yn cael ei gydnabod fel Tai yn Gyntaf, teimlir nad yw’n gweithredu i’w lawn botensial. Bydd yr holl gymorth a ddarperir yn cael ei adolygu a’i ail-dendro yn ystod 24/25 i sicrhau bod gennym y ddarpariaeth orau i fodloni ein gofynion.’

(Awdurdod Lleol, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Fel mae’r dyfyniadau hyn yn ei ddangos, mae heriau o ran cael gafael ar stoc a darparu adnoddau ar gyfer cymorth dwys yn peryglu cywirdeb rhaglenni.

3.6 Partneriaethau

O ystyried pa mor ganolog yw partneriaethau i’r agenda Cynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym,¹⁶³ fe wnaethom ddefnyddio arolwg yr awdurdodau lleol fel cyfle i archwilio cryfder y partneriaethau presennol gydag iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, cyfiawnder troseddol, cymdeithasau tai a gwasanaethau ysgolion/addysg, er mwyn deall yn well sut maent yn gwella ymatebion i ddigartrefedd. Cyflwynir y manylion yn nhabl 3.1.

Tabl 3.1: Partneriaethau sy’n gwella gallu awdurdodau lleol i atal a/neu liniaru digartrefedd yn effeithiol

	Ydi – mae’r partneriaethau sydd ar waith yn gwella’r gallu yn y maes hwn yn sylweddol	Ydi – mae’r partneriaethau sydd ar waith yn gwella’r gallu yn y maes hwn i ryw raddau	Nac ydi – nid yw partneriaethau sydd ar waith yn gwneud fawr o wahaniaeth, os o gwbl, yn y maes hwn	Nac ydi – mae’r partneriaethau’n wan/ddim yn eu lle	Ddim yn gwybod
Iechyd	3	9	2	2	
Gwasanaethau cymdeithasol	3	11	1	1	
Cyfiawnder Troseddol	4	8	4		
Cymdeithasau tai	8	6	1		
Ysgolion a gwasanaethau addysg	1	4	5	4	2

Ffynhonnell: Arolwg yr awduron

Roedd yn ymddangos mai’r trefniadau partneriaeth gyda chymdeithasau tai oedd yr elfen gryfaf, gydag 8 awdurdod lleol yn disgrifio’r rhain fel rhai sy’n ‘gwella’n sylweddol’ eu gallu i atal a/neu liniaru digartrefedd yn effeithiol a 6 arall yn dweud eu bod yn gwella’r galluoedd hynny ‘i raddau’. Disgrifiodd Awdurdodau Lleol ‘gysylltiadau rhagorol’ (Awdurdod Lleol, Gogledd-ddwyrain Cymru) gyda chymdeithasau tai a ‘gweithio’n agos’ (Awdurdod Lleol, De Cymru) drwy e.e. cofrestri tai cyffredin. Ond nodwyd amrywiaeth o heriau mewn perthynas â’r cysylltiadau hyn. Dywedwyd bod cymdeithasau tai yn amrywio’n sylweddol o ran eu parodrwydd i ddarparu ar gyfer grwpiau penodol, gyda rhai yn dal i lynu wrth ‘egwyddorion parodrwydd tenantiaeth’ (Awdurdod Lleol, Gogledd-ddwyrain Cymru) ac eraill yn fwy cynhwysol:

‘mae rhai landlordiaid cymdeithasol yn derbyn llawer o enwebiadau, yn hytrach na gofyn gormod o gwestiynau, ac nid yn dewis a dethol.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector statudol)

‘rydyn ni’n dibynnu’n fawr iawn ar ein stoc ein hunain yn hytrach na’r prif Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig... Maen nhw’n dal i hoffi dewis a dethol, yn anffodus, ac mae hynny’n heriol... nid ydyn nhw’n awyddus iawn i ymuno â Thai yn Gyntaf chwaith... mae gennych chi bartneriaid eithaf hen-ffasiwn... o ran landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector statudol)

Roedd hysbyswyr allweddol hefyd yn cydnabod bod ‘angen sicrwydd’ ar gymdeithasau tai (Hysbysydd allweddol yn y sector statudol) ynghylch amrywiaeth o bryderon a all atal partneriaethau effeithiol: ‘Maen nhw’n poeni am risg, am anghenion cymorth heb eu diwallu, am gydlyniant cymunedol, a’r holl bethau hynny’ (Hysbysydd allweddol yn y sector gwirfoddol):

163 <https://www.llyw.cymru/ailgartrefu-cyflym-canllawiau-html-103823>

‘er mwyn cynorthwyo rhywun i lwyddo yn eu cartref, mae hynny’n aml yn gofyn am lefel o gefnogaeth... ond...mae cymdeithasau tai yn dweud... yn aml...nad yw’r gefnogaeth honno ar gael...maen nhw’n gorfod rheoli anghenion cymorth pobl mewn ffordd nad ydyn nhw’n teimlo’n gymwys i’w wneud, ac maen nhw’n poeni am yr effaith mae hynny’n ei chael ar bobl... mae’n annheg i’r unigolyn hwnnw ac yn annheg i’r gymuned ehangach.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector tai)

Roedd mwyafrif helaeth o awdurdodau lleol hefyd wedi nodi bod partneriaethau â gwasanaethau cymdeithasol, cyfiawnder troseddol ac iechyd ar waith, er bod y rhain yn cael eu disgrifio yn y rhan fwyaf o achosion fel pethau sy’n gwella ymatebion digartrefedd ‘yn rhannol’.

Mae’n ymddangos bod cryfder y berthynas â phartneriaid cyfiawnder troseddol yn amrywio’n sylweddol ledled Cymru, gydag un Awdurdod Lleol yn disgrifio eu Llwybr Carcharorion fel rhywbeth ‘*llai nag effeithiol*’ (Awdurdod Lleol, De Cymru) ac un arall yn disgrifio eu perthynas â’r gwasanaeth prawf a’r Weinyddiaeth Gyfiawnder fel un ‘*rhagoriaeth*’ (Awdurdod Lleol, Gogledd-ddwyrain Cymru). Mae her sylweddol yn codi o bwerau deddfwriaethol perthnasol yn cael eu cadw’n ôl i Lywodraeth y Deyrnas Unedig, sy’n golygu y gall fod yn anodd trosi uchelgeisiau

Llywodraeth Cymru i atal digartrefedd ymysg y rhai sy’n gadael carchar yn gamau ymarferol:

‘mae llawer o waith yn cael ei wneud o fewn polisi Llywodraeth Cymru sy’n edrych ar yr adsefydlu hwnnw... ac maen nhw’n gallu deddfu i roi diwedd ar ddigartrefedd a llety ond... Nid oes gan Lywodraeth Cymru y pwerau deddfwriaethol i gyflawni unrhyw newid mewn gwirionedd... Rydyn ni’n gallu ysgrifennu’r polisiâu gorau posibl... ynghylch sut rydyn ni’n gobeithio darparu ar gyfer pobl sy’n gadael carchardai... ond mewn gwirionedd mae cael Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi i gytuno ar hynny ac i wneud hynny yn anodd iawn.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector cyfiawnder troseddol)

Mae cryfhau darpariaeth a phartneriaethau yn y maes hwn wedi bod yn ffocws ym mholisi digartrefedd Llywodraeth Cymru, gyda Chynllun Gweithredu 2021 yn ymrwymo i ddatblygu a gweithredu strategaeth newydd gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, gyda £762,977 o gymorth ar gyfer ‘y rhaglen rhoi llety i’r rhai sy’n gadael carchar.’¹⁶⁴ Mae cynigion sydd â’r nod o wella cymorth i

bobl sy’n gadael carchar sydd mewn perygl o fod yn ddigartref hefyd wedi eu cynnwys yn y Papur Gwyn ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd.¹⁶⁵ Daeth newid allweddol ym mholisi’r Deyrnas Unedig yn 2021 pan gyflwynodd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi fath newydd o lety sy’n cynnig llety dros dro a chymorth i bobl sy’n gadael carchar am hyd at 84 noson, o’r enw ‘CAS3 (Gwasanaeth Llety Cymunedol 3). Pwysleisiodd hysbyswyr allweddol ledaeniad anwastad llety CAS3 ledled Cymru, a’i absenoldeb llwyr mewn rhai ardaloedd, gan gynnwys y rhai y mae galw mawr amdanynt. Fel y trafodwyd ym mhennod 4, mae dod o hyd i lety addas ar gyfer pobl sy’n gadael carchar yn bryder mawr a chynyddol i awdurdodau lleol.

Mewn perthynas â phartneriaethau â gwasanaethau cymdeithasol, nododd Awdurdodau Lleol a ymatebodd brofiadau gwahanol hefyd. Soniodd un am ‘*gysylltiadau agos*’ (Awdurdod Lleol, De Cymru) gyda gwasanaethau plant ac oedolion, tra disgrifiodd eraill waith cadarnhaol fel rhywbeth a oedd yn ‘*ddibynnol ar gydweithwyr allweddol ac nid prosesau sefydledig*’ (Awdurdod Lleol, Gogledd-ddwyrain Cymru). Disgrifiodd un arall y cyfrifoldeb fel un a oedd yn gyfan gwbl ‘*yn fater i dai ei ddatrys y problemau yn hytrach na bod gwasanaethau cymdeithasol yn ein helpu i atal digartrefedd*’ (Awdurdod Lleol, Gogledd-ddwyrain Cymru).

Yn yr un modd, o ran iechyd, dywedodd rhai Awdurdodau Lleol fod trefniadau partneriaeth penodol - er enghraifft, ar ryddhau o’r ysbyty, yn ‘*gweithio’n eithriadol o dda*’ (Awdurdod Lleol, De Cymru), tra bod eraill yn tynnu sylw at ‘*ambell enghraifft o arfer da yma ac acw*’ sy’n dibynnu ar gysylltiadau penodol, yn hytrach nag ymarfer wedi ei wreiddio (Awdurdod Lleol, Gogledd-ddwyrain Cymru). Tynnodd dau awdurdod lleol yng ngogledd-

ddwyrain Cymru sylw at yr heriau dybryd o ran cysylltu â gwasanaethau iechyd meddwl yn effeithiol:

‘Mae iechyd, yn enwedig iechyd meddwl, yn dal yn faes anodd iawn i gael cefnogaeth gan y bwrdd iechyd, gan adael achosion cymhleth i ddatblygu’n argyfyngau a dim ymyrraeth gynnar i gynnal iechyd meddwl, sy’n arwain at ddigartrefedd ac yn gadael staff digartref ar eu pen eu hunain i ddelio â sefyllfaoedd cymhleth.’

(Awdurdod Lleol, Gogledd-ddwyrain Cymru).

Mae’n ymddangos bod partneriaethau’n wannach o lawer gydag ysgolion a gwasanaethau addysg, gyda dros hanner yr awdurdodau lleol sy’n ymateb (9 neu 16) yn disgrifio partneriaethau fel rhai gwan, yn absennol neu ddim yn gwneud llawer o wahaniaeth. Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod digartrefedd ymhlith pobl ifanc yn ffocws cryf yng Nghymru ers o leiaf 2018, pan wnaeth y Prif Weinidog ar y pryd, Carwyn Jones, ymrwymo i roi diwedd ar ddigartrefedd ymhlith pobl ifanc o fewn deng mlynedd,¹⁶⁶ a phrosiect cysylltu data 2021 a oedd yn dangos perthynas glir rhwng absenoldeb o’r ysgol a digartrefedd.¹⁶⁷ Mae Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid 2022¹⁶⁸ yn nodi’n glir y cysylltiad rhwng allgáu pobl ifanc o addysg, cyflogaeth a hyfforddiant a risg digartrefedd,

¹⁶⁴ Llywodraeth Cymru (2021) *Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru: Cynllun Gweithredu Lefel Uchel 2021-2026*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. <https://www.llyw.cymru/rhoi-diwedd-ar-ddigartrefedd-cynllun-gweithredu-lefel-uchel-2021-i-2026>. P.21.

¹⁶⁵ Llywodraeth Cymru (2023) *Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2023-10/ymgynghoriad-papur-gwyn-roi-diwedd-ddigartrefedd_0.pdf;

¹⁶⁶ Llywodraeth Cymru (2018) Prif Weinidog Cymru’n cyhoeddi prosiectau newydd i atal digartrefedd ymhlith pobl ifanc

¹⁶⁷ Llywodraeth Cymru (2021) *Absenoldeb o’r ysgol ymhlith plant o deulu digartref*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. <https://www.llyw.cymru/absenoldeb-or-ysgol-ymhlith-plant-o-deulu-digartref-html>

¹⁶⁸ Llywodraeth Cymru (2022) *Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid: Trosolwg*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. <https://www.llyw.cymru/fframwaith-ymgysylltiad-chynnydd-ieuenctid-trosolwg>.

ac mae wedi bwrw ymlaen ag ymdrechion i addasu systemau i nodi ffactorau risg cynnar, gan gynnwys drwy £3.7 miliwn o gyllid y flwyddyn drwy'r Grant Cymorth Ieuenctid, sy'n cyllido'r swyddi ar gyfer cydlynwyr digartrefedd ieuenctid ym mhob awdurdod lleol. Nododd un ymatebydd o blith yr Awdurdodau Lleol fod ganddo rywfaint o gyrhaeddiad i ysgolion drwy ei gydlynnydd, ond bod 'y gwasanaeth hwn yn gam sylweddol sydd wedi ei dynnu oddi wrth ddarparu gwasanaethau digartrefedd rheng flaen, ac yn rhywbeth y mae angen i ni ei gryfhau' (Awdurdod Lleol, Gogledd-ddwyrain Cymru).

Datblygiad allweddol yn y maes hwn fu datblygu a threialu Upstream Cymru gan Llamau a Phrifysgol Caerdydd.¹⁶⁹ Mae Upstream yn seiliedig ar Brosiect Geelong o Awstralia sydd wedi ei werthuso'n gadarnhaol, ac mae'n defnyddio arolwg sgrinio cyffredinol i ganfod disgyblion sydd mewn perygl o fod yn ddigartref a'u targedu i gael cymorth. Mae wedi cael ei ddefnyddio ar draws saith ysgol yng Nghymru i nodi'r rhai sydd mewn perygl o ymddieithrio o'r ysgol, sydd â llesiant isel a diffyg cymorth gan oedolyn dibynadwy, ac mae'n destun gwerthusiad annibynnol parhaus.¹⁷⁰ Mae'r Papur Gwyn ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru hefyd yn cynnwys cynigion i osod dyletswyddau ar wasanaethau

addysg i ganfod, gweithredu, cyfeirio a chydweithredu lle mae myfyrwyr yn wynebu (risg) bod yn ddigartref).¹⁷¹

3.7 Cyllid a'r gweithlu

Yn wahanol i'w gymheiriaid ym Mhrydain, mae Llywodraeth Cymru wedi diogelu cyllid ar gyfer cymorth digartrefedd drwy barhau i neilltuo cyllid Cefnogi Pobl.¹⁷² Fodd bynnag, cafodd y Grant Cymorth Digartrefedd¹⁷³ ei rewi o 2021-2024, gan sbarduno ymgyrch ar gyfer ei gynnydd dan arweiniad Cymorth Cymru. Roedd yr ymgyrch yn canolbwyntio ar effaith y rhewi ar y gweithlu cymorth, gan dynnu sylw at faterion yn ymwneud â chyflogau isel a chontractau ansicr,¹⁷⁴ a bod llawer o weithwyr rheng flaen yn cael trafferth talu am hanfodion yn ystod yr argyfwng costau byw.¹⁷⁵ Ar ben hynny, mewn tystiolaeth i Bwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y Senedd, tynnodd Cymorth Cymru sylw at y ffaith bod tri chwarter ei aelodau'n rhedeg ar ddiffyg, dros hanner yn defnyddio cronfeydd wrth gefn i roi cymhorthdal i wasanaethau, dros dri chwarter mewn perygl o fod angen lleihau capasiti gwasanaethau, a 40% yn debygol o roi contractau presennol yn ôl pe bai'r Grant Cymorth Digartrefedd yn cael ei rewi yn 2024/25.¹⁷⁶

Yn y pen draw, cafodd y Grant ei gynyddu £13 miliwn o'i gymharu â chyllideb 2023/24, symudiad a groesawyd gan y sector¹⁷⁷ er nad yw'n cyrraedd y targed o 10% o gynnydd (sy'n cyfateb i £16 miliwn) yr oedd rhanddeiliaid yn amcangyfrif oedd ei angen.¹⁷⁸ Dywedodd bron y cyfan (13 o 16) o'r rhai a ymatebodd i arolwg yr awdurdodau lleol y byddai'r cynnydd hwn yn eu galluogi i gynnal gwasanaethau digartrefedd ar y lefelau presennol gan y bydd yn talu am gynnydd mewn costau, gan gynnwys sicrhau bod cyflogau'r sector yn talu'r cyflog byw gwirioneddol. Ni thybiwyd ei fod yn ddigonol i alluogi mwy o gapasiti mewn gwasanaethau ar adeg pan welir bod angen hyn ar frys:

'mae gennym bellach y cyllid y mae mawr ei angen i... sefydlogi'r gwasanaethau a gyflenwir... ond nid yw hyn yn rhoi lle i gynyddu capasiti'r gwasanaeth ar adeg pan fo'r galw wedi mynd drwy'r to... Nid yw'r lefelau presennol o gymorth sy'n gysylltiedig â thai yn ddigonol ar gyfer y galw presennol a'r galw a ragwelir.'

(Awdurdod Lleol, Gogledd-ddwyrain Cymru)

'Gyda chwyddiant, gyda'r pwysau sy'n cael ei roi ar staff, ar sefydliadau comisiynu a chontractio, nid yw £13 miliwn yn mynd yn bell iawn... allwn ni ddim

esgus bod hynny'n ein galluogi ni i wneud popeth mae ein huchelgeisiau polisi yn ei gwmpasu, sy'n fater o bwys.'

(Hysbysydd allweddol yn y sector statudol)

Codwyd heriau ehangach gyda'r Grant Cymorth Digartrefedd hefyd, gan gynnwys effaith setliadau un flwyddyn ar staffio, comisiynu a datblygu gwasanaethau. Mynegodd rhai hysbyswyr allweddol bryderon ynghylch a fyddai'r cynnydd yn cael ei drosglwyddo i wasanaethau a gomisiynir ac yn lliniaru'r pwysau ar gyflogau.

Mynegodd hysbyswyr allweddol hefyd amwysedd ynghylch y cyd-destun cyllido ehangach ar ddigartrefedd. Er bod y Grant Cymorth Digartrefedd yn parhau i gael ei glustnodi, a'r cynnydd yn y grant hwnnw a'r grant tai cymdeithasol (gweler pennod 2) wedi cael eu croesawu, ystyriwyd bod y darlun ehangach yn 'llwm iawn' (Hysbysydd allweddol yn y sector statudol):

'nid yw edrych ar setliad un flwyddyn yn ddefnyddiol iawn - mae'n rhaid i chi edrych ar y pwysau sydd ar wasanaethau dros y pum, deng mlynedd diwethaf, a sut byddant yn edrych yn y pum mlynedd a ddaw. Dydw i ddim yn gweld unrhyw beth yn gwella'n sylfaenol o ran lefel yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau

169 <https://www.llamau.org.uk/upstream-cymru>
170 Llamau (2024) *A Wales Without Homelessness Begins Upstream*. Ar-lein: Llamau. <https://www.llamau.org.uk/News/a-wales-without-homelessness-begins-upstream>
171 Llywodraeth Cymru (2023) *Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2023-10/ymgyngghoriad-papur-gwyn-roi-diwedd-ddigartrefedd_0.pdf;
172 Watts, B., Bramley, G., Fitzpatrick, S., McMordie, L., Pawson, H., a Young, G. (2022) *The homelessness monitor: Great Britain 2022*. Llundain: Crisis. <https://www.crisis.org.uk/ending-homelessness/homelessness-knowledge-hub/homelessness-monitor/about/the-homelessness-monitor-great-britain-2022/> t.90.
173 Cafodd ei greu yn 2019 drwy gyfuno tair ffrwd gyllido (Cefnogi Pobl, y Grant Atal Digartrefedd a Gorfodaeth Rhentu Doeth Cymru) i alluogi awdurdodau lleol i gomisiynu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar atal a chynnal tenantiaethau.
174 Canfu arolwg o ddarparwyr cymorth tai a digartrefedd gan Cymorth Cymru fod 41% yn cael eu talu islaw'r isafswm cyflog ar gyfer mis Ebrill 2024 (£11.44 yr awr), ac roedd 67% yn is na'r Cyflog Byw Gwirioneddol (£12.00 yr awr). Cymorth Cymru (2024) Diffyg cyllid Llywodraeth Cymru yn gwthio gweithwyr digartrefedd i dlodi. Ar-lein: Cymorth Cymru. <https://www.cymorthcymru.org.uk/cy/diffyg-cyllid-llywodraeth-cymru-yn-gwthio-gweithwyr-digartrefedd-i-dlodi/>
175 Cymorth Cymru (2022) *Anawsterau yn y Rheng Flaen: Effaith yr argyfwng costau byw ar weithwyr cymorth rheng flaen yn y sector digartrefedd a chymorth tai yng Nghymru*. Ar-lein: Cymorth Cymru. <https://www.cymorthcymru.org.uk/wp-content/uploads/2023/05/Struggles-from-the-Frontline-Cym.pdf>
176 Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai (2024) Dogfen Agenda ar gyfer y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 25/01/2024 09:00. Ar-lein: Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai Senedd Cymru. <https://busnes.senedd.cymru/documents/g13652/Agenda%20Dydd%20lau%2025-Ion-2024%2009.00%20Y%20Pwyllgor%20Llywodraeth%20Leol%20a%20Thai.pdf?T=0>

177 Cymorth Cymru (2024) *Housing Support Grant to receive £13 million uplift*. Ar-lein: Cymorth Cymru. <https://www.cymorthcymru.org.uk/housing-support-grant-to-receive-13-million-uplift/>
178 Cymorth Cymru (2024) *diffyg cyllid Llywodraeth Cymru yn gwthio gweithwyr digartrefedd i dlodi*. Ar-lein: Cymorth Cymru. <https://www.cymorthcymru.org.uk/cy/diffyg-cyllid-llywodraeth-cymru-yn-gwthio-gweithwyr-digartrefedd-i-dlodi/>

digartrefedd, gwasanaethau Opsiynau Tai... Mae rhywfaint o'r arian grant sydd wedi bod ar gael gan Lywodraeth Cymru wedi cael ei groesawu ond mae wedi bod ar yr ymylon.'

(Hysbysydd allweddol yn y sector statudol)

Fel mae'r drafodaeth hon yn ei amlygu, mae pryderon cynyddol wedi bod ynghylch gweithlu'r sector digartrefedd yng Nghymru. Roedd mwyafrif yr awdurdodau lleol a ymatebodd i'r arolwg (8 o 16) yn anghytuno â'r datganiad 'Gallwn recriwtio a/neu gadw staff sydd â'r sgiliau i ymateb yn effeithiol i'n dyletswyddau statudol mewn perthynas â digartrefedd yn ein hardal' tra'r oedd 6 yn cytuno a 2 yn niwtral. Roedd yr esboniadau am yr heriau hyn yn cynnwys llwythi gwaith trwm, natur heriol y gwaith a chyllid annigonol i gynnig cyflogau realistig:

'Mae cyllid cyfyngedig gan y Cyngor yn golygu bod... Recriwtio... yn her ac o ganlyniad mae gan swyddogion lwyth achosion trwm. Mae hyn wedyn yn effeithio ar gydnerthedd ac ansawdd gwaith swyddogion... Does neb eisiau gweithio ym maes digartrefedd a pheidio â darparu'r gwasanaethau gorau posibl, ond gyda llai o amser a llwyth achosion cynyddol, mae hyn yn her... mae anghenion cleientiaid, yn aml heb eu diwallu gan wasanaethau cymorth eraill

y tu hwnt i gymorth sy'n gysylltiedig â thai... yn arwain at ymddygiad heriol... sy'n peri gofid i swyddogion, yn ddealladwy. Rydyn ni wedi recriwtio staff anhygoel dros y blynyddoedd diwethaf, ond oherwydd cyflymder a maint y llwyth gwaith... mae rhai wedi gadael wrth iddyn nhw sylweddoli nad oedd y swydd yn addas iddyn nhw.'

(Awdurdod Lleol, Gogledd-ddwyrain Cymru)

'Mae'r anghysondeb rhwng y galw a'r cyflenwad yn effeithio o ddifri ar forâl ac iechyd staff, gan arwain at flinder neu bobl yn gadael eu rolau ar gyfer swyddi sy'n cael eu hystyried yn rhai sy'n talu'r un faint ond sy'n achosi llai o straen.'

(Awdurdod Lleol, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Roedd nifer o'r ymatebwyr yn dadlau bod angen mynd i'r afael â'r materion hyn 'cyn cynyddu'r cyfrifoldebau digartrefedd ar awdurdodau lleol' (Awdurdod Lleol, Canolbarth a Gorllewin Cymru) drwy ddiwygio deddfwriaeth i osgoi 'mwy a mwy o staff... yn gadael gan eu bod yn teimlo nad oes neb yn gwrando arnynt' (Awdurdod Lleol, y Cymoedd).

Roedd pryderon hyd yn oed yn fwy difrifol mewn perthynas â gwasanaethau a gomisiynir. Roedd naw o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg awdurdodau lleol (o blith 16) yn anghytuno â'r datganiad 'Mae sefydliadau rydym yn eu

comisiynu i ddarparu gwasanaethau sy'n gysylltiedig â digartrefedd yn ein hardal yn gallu recriwtio a/neu gadw staff sydd â'r sgiliau i ymateb yn effeithiol i ddigartrefedd yn ein hardal', gyda phedwar yn anghytuno'n gryf (roedd 3 yn cytuno â'r cynnig ac roedd 4 yn niwtral). Tynnwyd sylw unwaith eto at faterion yn ymwneud â chyflog a'r straen a ddaw i ganlyn y gwaith, ond daeth thema ychwanegol i'r amlwg yma ynghylch pwysigrwydd statws a chydabyddiaeth:

'Mae angen i ni gael gwell cydnabyddiaeth o bwysigrwydd eu rôl i'w chwarae o fewn yr agenda digartrefedd a gwell amodau cyflog.'

(Awdurdod Lleol, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

'Yr hyn a fyddai'n helpu yw bod y sector yn cael ei gydnabod fel proffesiwn, a chyflog i adlewyrchu cymhlethdod y rôl. Staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan y llywodraeth. Gwrandawriad i farn y staff a bod y llywodraeth yn gweithredu ar hynny.'

(Awdurdod Lleol, De Cymru)

Roedd y prif hysbyswyr yn adleisio pryderon Awdurdodau Lleol gan bwysleisio'r 'pwysau... enfawr' (Hysbysydd allweddol yn y sector statudol) ar staff rheng flaen, yn enwedig yn ystod y pandemig, ac er y gallai'r pwysau hyn fod wedi lleihau rhywfaint, mae staff yn dal i

fod wedi eu 'hymestyn' (hysbysydd allweddol yn y sector gwirfoddol) ac wedi eu 'llethu' (hysbysydd allweddol yn y sector hawliau lles), gyda 'gorweithio... rhwystredigaeth ac anfodlonrwydd' yn rhemp (Hysbysydd allweddol yn y sector statudol). Cydnabuwyd bod yr heriau hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar ansawdd a chanlyniadau gwasanaethau:

'mae meithrin perthynas llawn ymddiriedaeth gyda'u gweithiwr cymorth yn bwysig iawn. Os bydd eu gweithiwr cymorth yn newid bob wythnos neu ddwy oherwydd eu bod yn cael cyflog mor wael ac yn mynd i rywle arall i weithio am gyflog gwell a llai o straen, yna bydd hynny'n arwain at ganlyniadau gwael iawn i'r sawl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.'

(Hysbysydd allweddol yn y sector gwirfoddol)

Yn y cyd-destun hwn, cafodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen sy'n canolbwyntio ar y gweithlu y Bwrdd Cyngori Cenedlaethol Dod â Digartrefedd i Ben ei ganmol am 'amlygu' (Hysbysydd allweddol yn y sector tai) yr heriau hyn ac fel un a oedd wedi 'dod o hyd i newidiadau ymarferol' (Hysbysydd allweddol yn y sector tai) fel y manylwyd yn Adroddiad Blynyddol 2023 y Bwrdd Cyngori Cenedlaethol Dod â Digartrefedd i Ben. Mae'r argymhellion hyn yn cynnwys camau gweithredu i gynyddu'r cymorth sydd ar gael i staff, i adolygu a meincnodi cyflogau'r sector, i hybu sgiliau staff, gan gynnwys drwy fframwaith achredu newydd, ac i wella arferion comisiynu i ategu'r amcanion ehangach hyn.¹⁷⁹

179 Bwrdd Cyngori Cenedlaethol Dod â Digartrefedd i Ben (2023) *Adroddiad Blynyddol i Weinidogion Cymru 2022-23*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-08/bwrdd-cyngori-cenedlaethol-dod-digartrefedd-ben-adroddiad-blynyddol-weinidogion-cymru-2022-2023.pdf>

3.8 Y Panel Adolygu Arbenigol a'r Papur Gwyn

Mae'r Papur Gwyn ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru¹⁸⁰ yn cynrychioli'r cam diweddaraf mewn agenda polisi tymor hir yng Nghymru i ddiwygio polisi digartrefedd o blaid canolbwyntio ar atal ac ymatebion i ddigartrefedd sy'n cael eu harwain gan dai. Fel rhan o'i hymrwymiad i archwilio'r diwygiadau deddfwriaethol angenrheidiol, sefydlodd y Gweinidog bryd hynny y Panel Adolygu Arbenigol ym mis Mawrth 2022 i gynnal adolygiad cynhwysfawr o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â digartrefedd, 'yn seiliedig ar egwyddorion atal cynnar, Bod Neb yn cael ei Adael Allan, ac ailgartrefu cyflym', i ddarparu'r sylfaen ar gyfer rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru.

Roedd y Panel - sy'n cynnwys 11 o aelodau o bob rhan o'r trydydd sector, awdurdodau lleol, gwasanaethau digartrefedd, cymdeithasau tai a'r byd academiaidd – wedi cyfarfod dros gyfnod o flwyddyn ac wedi ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid, gan gynnwys gyda 300 o bobl sydd â phrofiad o ddigartrefedd a gweithwyr proffesiynol amrywiol, ¹⁸¹ er mwyn cynhyrchu pecyn manwl o ddiwygiadau deddfwriaethol arfaethedig ym mis Medi 2023. Mewn ymateb i'r argymhellion hyn, lansiodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd ar Ddiwrnod Digartrefedd y Byd 2023. Erbyn hyn mae gwaith yn mynd rhagddo i roi'r cynigion ar waith drwy Fil drafft y bwriedir ei gyflwyno at ddibenion craffu yn senedd y Deyrnas Unedig yn 2025. ¹⁸²

Mae dros 70 o gynigion wedi eu cynnwys yn y Papur Gwyn, ac mae'r rheini wedi eu trefnu o amgylch pum thema: 1) diwygio deddfwriaeth digartrefedd; 2) dyletswyddau ar wasanaethau cyhoeddus ehangach i atal digartrefedd; 3) atal digartrefedd ar gyfer grwpiau yr effeithir arnynt yn anghymesur; 4) mynediad at lety; a 5) gweithredu. Crynhoir y prif gynigion ym mlwch 3.1.

Roedd y mwyafrif o'r bobl oedd wedi ymateb i arolwg yr awdurdod lleol (9 allan o 16) yn ystyried bod y pecyn cyffredinol o ddiwygiadau'n eithaf defnyddiol o ran mynd i'r afael â digartrefedd. Roedd tri yn teimlo nad oeddent yn ddefnyddiol, ac roedd dau yn credu na fyddent yn gwneud llawer o wahaniaeth, ond dylid nodi hefyd fod tystiolaeth bod awdurdodau lleol wedi camddeall natur rhai o'r cynigion (gweler isod). Roedd cydbwysedd barn yr hysbyswyr allweddol yn fwy cefnogol o lawer. Roedd nifer yn ystyried bod y cynigion yn 'drawsnewidiol' (Hysbysydd allweddol yn y sector statudol) ac yn 'hanesyddol' (Hysbysydd allweddol yn y sector gwirfoddol) os cânt eu gweithredu'n effeithiol, gan bwysleisio capasiti'r diwygiadau i 'godi tai a digartrefedd i fyny rhestr flaenoriaeth Llywodraeth Cymru' (Hysbysydd allweddol yn y sector statudol) a symud y tu hwnt i flaenoriaethu rhai grwpiau wrth ddarparu cymorth statudol:

Blwch 3.1: Crynodeb o'r prif argymhellion a wnaed yn y Papur Gwyn Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru

1. diwygio deddfwriaeth digartrefedd

- ymestyn diffiniad 'dan fygythiad o ddigartrefedd' i aelwydydd sydd mewn perygl o fewn chwech mis sydd i fyny o'r 56 diwrnod presennol;
- cyflwyno dyletswydd statudol i ddatblygu Cynllun Tai Personol sy'n cynnwys barn yr ymgeisydd, pennu'r camau y bydd yr awdurdod lleol yn eu cymryd i sicrhau llety, a chyflwyno hawl newydd i ofyn am adolygiad o'r 'camau rhesymol' mewn Cynlluniau Tai Personol;
- diddymu'r prawf angen blaenoriaethol gan ryddhau'r grwpiau y mae'r ddyletswydd ailgartrefu llawn yn ddyledus iddynt;
- cael gwared ar y prawf bwriad;
- ehangu'r grwpiau sydd wedi eu heithrio o'r prawf cysylltiad lleol, gan gynnwys pobl â phrofiad o ofal nad ydynt yn cael eu lletya o dan y dyletswyddau gwasanaethau cymdeithasol, pobl sy'n gadael carchar, a phobl sy'n profi, neu sydd mewn perygl o brofi, cam-drin domestig; egluro'r canllawiau ar yr amgylchiadau arbennig sy'n caniatáu eithrio o'r prawf cysylltiad lleol;
- cyflwyno dyletswydd statudol newydd i ddarparu cymorth i'r rhai sy'n cael eu lletya gan yr awdurdod lleol i gadw eu llety;
- cyfyngu ar yr amgylchiadau lle gellir defnyddio'r prawf methiant afresymol i gydweithredu.

2. dyletswyddau ar wasanaethau cyhoeddus ehangach i atal digartrefedd

- cyflwyno dyletswydd i nodi'r rhai sydd mewn perygl o fod yn ddigartref a, lle bo hynny'n briodol, cyfeirio at yr awdurdod lleol;
- cyflwyno dyletswydd i weithredu o fewn cylch gwaith y corff cyhoeddus penodedig i gynnal tenantiaethau a lliniaru'r risg o ddigartrefedd;
- ehangu'r ddyletswydd bresennol i gydweithredu;
- cyflwyno dull cydlynu achosion ar gyfer y rheini sydd mewn perygl o fod yn ddigartref sydd â nifer o anghenion cymorth cymhleth ac sydd mewn cysylltiad â nifer o wasanaethau cyhoeddus.

3. atal digartrefedd ar gyfer grwpiau yr effeithir arnynt yn anghymesur, gan gynnwys grwpiau sydd mewn perygl wrth adael sefydliadau fel ysbytai a charchardai a gwasanaethau cymdeithasol plant

- cyflwyno gofyniad cyfreithiol i bob awdurdod lleol yng Nghymru gynnal cofrestr tai hygrych;
- sicrhau bod deddfwriaeth digartrefedd yn cyd-fynd â Deddf Cam-drin Domestig 2021 drwy ehangu'r diffiniad o gam-drin domestig i gynnwys ymddygiad sy'n gorfodi ac yn rheoli;

180 Llywodraeth Cymru (2023) Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. https://www.gov.wales/sites/default/files/consultations/2023-10/ending-homelessness-white-paper_0_0.pdf

181 Crisis (2023) Expert panel calls for ground-breaking changes to law to help end homelessness in Wales. Crisis: ar-lein. <https://www.crisis.org.uk/about-us/media-centre/expert-panel-calls-for-ground-breaking-changes-to-law-to-help-end-homelessness-in-wales/>

182 Llywodraeth Cymru (2024) Dadansoddiad o'r Ymgynghoriad ar gyfer y Papur Gwyn ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru. https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2024-04/dadansoddiad-ymgynghoriad-ar-gyfer-y-papur-gwyn-ar-roi-diwedd-ar-ddigartrefedd-yng-nghymru_0.pdf

- cryfhau'r cyfrifoldebau rhianta corfforaethol fel nad yw pobl ifanc 16 a 17 oed yn cael eu rhoi mewn llety dros dro heb gymorth, na bod y system ddigartrefedd yn cael ei defnyddio fel ffordd allan o wasanaethau gofal cymdeithasol neu gyfiawnder ieuenctid;
- cryfhau systemau i helpu i nodi a chynllunio ar gyfer pobl sy'n gadael carchar sydd mewn perygl o fod yn ddigartref ar ôl cael eu rhyddhau;
- cyflwyno proses cydlynu achosion ar gyfer achosion cymhleth;
- cyflwyno dyletswydd newydd, lle bo'n briodol, i gynnig cymorth i gadw llety er mwyn helpu i atal pobl rhag bod yn ddigartref dro ar ôl tro.

4) mynediad at lety

- set o gynigion sy'n ymwneud â sicrhau bod llety dros dro yn fwy addas;
- ei gwneud yn ofynnol defnyddio Cofrestri Tai Cyffredin a pholisïau dyraniadau cyffredin ar draws pob awdurdod lleol;
- galluogi awdurdodau lleol i fynnu bod Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn ailgartrefu teuluoedd digartref (ac eithrio mewn amgylchiadau penodol), wedi ei fodelu ar Adran 5 o Ddeddf Tai (Yr Alban) 2001; galluogi awdurdodau lleol i dynnu pobl nad ydynt mewn angen o ran tai oddi ar y rhestr aros am dai cymdeithasol, a phwerau dros dro i roi mwy o flaenoriaeth i bobl sy'n ddigartref yn ystod cyfnodau o argyfwng;
- galluogi pobl i fod yn 'ddigartref gartref' (lle bo'n ymarferol ac yn ddiogel) er mwyn helpu i leddfu'r pwysau ar lety dros dro;
- galluogi'r ddyletswydd tai i gael ei chyflawni drwy ddulliau ychwanegol, ar yr amod bod y trefniadau tai'n ddiogel am 12 mis a bod archwiliadau penodol yn cael eu gwneud.

5) gweithredu

- ystod o gynigion sy'n canolbwyntio ar strategaeth, cynllunio a monitro'r dyletswyddau newydd, a gwella'r prosesau casglu data.

'os caiff ei weithredu yn ei gyfanrwydd... mae ganddo allu i drawsnewid... [i] gael gwared ar y [gwahaniaeth] hanesyddol haeddiannol/anhaeddiannol o'n system digartrefedd a... rhoi rhywbeth yn ei le sy'n ceisio atal fel y ffordd o bennu ein hymateb i ddigartrefedd... mae mwy o urddas o lawer yn perthyn i hynny, ac mae'n llawer llai difriol na'r hyn a fu gennym.'

(Hysbysydd allweddol yn y sector gwirfoddol)

Roedd hysbyswyr allweddol eraill yn *'geflogol ar y cyfan'* (Hysbysydd allweddol yn y sector cyfiawnder troseddol), ond roedd hynny'n amodol ar ddatrys pryderon difrifol ynghylch gweithredu, adnoddau ac amseriad:

'at ei gilydd [rydyn ni] yn croesawu pob un o'r prif gynigion... ond [mae'r gefnogaeth yma] yn cynnwys cafeatau fwy neu lai ar unwaith mewn perthynas â'r mater o sut rydyn ni am ei roi ar waith? Mae'r materion allweddol sy'n ymwneud â'r adnoddau sydd ar gael a'r cefndir o gynyddu'r cyflenwad tai, yn enwedig y cyflenwad tai cymdeithasol, yn gwbl hanfodol er mwyn cyflawni hyn.'

(Hysbysydd allweddol yn y sector statudol)

Roedd nifer o hysbyswyr allweddol yn teimlo mai'r cynigion i gyflwyno dyletswyddau newydd ar wasanaethau cyhoeddus ehangach i nodi a gweithredu ar risg digartrefedd o fewn eu swyddogaethau eu hunain, atgyfeirio at awdurdodau lleol a chydweithio ag awdurdodau lleol wrth ymateb i ddigartrefedd, oedd elfennau mwyaf cyffrous ac effeithiol, o bosibl, y Papur Gwyn:

'Bod dyletswyddau cyfreithiol ar wasanaethau cyhoeddus eraill, fel iechyd... dyna beth mae llawer o bobl yn teimlo'n gyffrous iawn amdano... dyna'r darnau coll a fydd yn cael effaith enfawr. Yn aml iawn rydyn ni'n gweld baich digartrefedd yn cael ei roi ar wasanaethau tai a digartrefedd yn unig er ein bod yn gwybod y byddai dull amlasiantaeth cyfannol yn ein helpu i atal neu roi diwedd ar ddigartrefedd.'

(Hysbysydd allweddol yn y sector gwirfoddol)

Roedd awdurdodau lleol hefyd yn teimlo mai'r cynigion hyn yw'r rhai mwyaf defnyddiol o bosibl:

'Os caiff ei roi ar waith yn llawn ac mewn deddfwriaeth bydd y ddyletswydd ar wasanaethau eraill i gynorthwyo yn fanteisiol.'

(Awdurdod Lleol, Canolbarth a Gorllewin Cymru).

Cododd yr awdurdodau lleol gwestiynau ynghylch ‘*sut bydd hyn yn gweithio’n ymarferol*’ (Awdurdod Lleol, y Cymoedd) a thynnu sylw at y risg y gallai’r cynigion hyn fod yn ‘*ddim ond... dyletswydd i atgyfeirio*’ (Awdurdod Lleol, Gogledd-ddwyrain Cymru), gan gynyddu’r galw ar awdurdodau lleol ond heb gyfrannu unrhyw gymorth ychwanegol. Roedd yr hysbyswyr allweddol yn glir y byddai angen canllawiau, hyfforddiant a ‘*mecanweithiau atebolrwydd*’ (Hysbysydd allweddol y sector tai) priodol er mwyn i’r cynigion hyn gyflawni eu potensial, rhywbeth sy’n golygu ymgymryd â gwaith dwys ar draws gwahanol sefydliadau cyhoeddus.

Roedd nifer o hysbyswyr allweddol a phobl a ymatebodd i’r arolwg o awdurdodau lleol hefyd yn croesawu’r estyniad i’r ddyletswydd atal i gynnwys aelwydydd sydd mewn perygl o fod yn ddigartref o fewn chwe mis, yn hytrach na’r 56 diwrnod presennol. Yn ogystal ag ennyn cymeradwyaeth gadarnhaol gan rai, ni chododd unrhyw hysbysydd allweddol nac awdurdod lleol bryderon am yr agwedd hon ar y cynigion.

Roedd y newidiadau arfaethedig i’r ‘profion’ allweddol sy’n pennu mynediad at gymorth statudol i deuluoedd digartref, ar y llaw arall, yn gymysg, gyda llawer yn eu croesawu’n frwd fel rhywbeth blaengar tra bo eraill yn ystyried eu bod yn ddadleuol. Roedd hysbyswyr allweddol yn tueddu i groesawu cynigion i ddiddymu’r maen prawf angen blaenoriaethol a’r prawf bwriad wrth symud tuag at ddull gweithredu sy’n fwy ystyriol o drawma a ffordd o atal pobl rhag ‘*llithro drwy’r bylchau*’ (Hysbysydd allweddol y sector gwirfoddol):¹⁸³

‘bwriadoldeb... o bosibl yw’r elfen leiaf ystyriol o drawma yn y ddeddfwriaeth digartrefedd. Clywsom gymaint o straeon gan

bobl a gafodd eu dal allan gan hynny, ac yn bendant ni ddylai hynny fod wedi digwydd... angen blaenoriaethol hefyd... gadewch i ni fynd un cam ymhellach a rhoi’r hawl i bobl gael to dros eu pen os ydyn nhw’n ddigartref. Mae’n ymddangos yn rhywbeth sylfaenol iawn rywsut.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector gwirfoddol)

Roedd hysbyswyr allweddol hefyd yn tueddu i groesawu cynigion i ddiwygio rheolau cysylltiad lleol, a fyddai wedyn yn galluogi grŵp ehangach o bobl i wneud cais i gael eu hailgartrefu mewn cymunedau o’u dewis:

‘Droeon rydyn ni wedi gweld pobl sydd eisiau bod mewn cymunedau penodol, ac weithiau mae profion cysylltiad lleol yn gallu atal hynny.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector gwirfoddol)

Er eu bod yn ategu’n gryf bwrw ymlaen â diwygiadau arfaethedig, roedd yr hysbyswyr allweddol yn cydnabod bod yr awdurdodau lleol sydd dan bwysau yn poeni am eu heffeithiau posibl.

Dileu’r prawf bwriad oedd yn ennyn y pryder mwyaf ymysg awdurdodau lleol, a oedd yn teimlo bod y newid yn debygol o gael

‘*canlyniadau anfwriadol*’ (Awdurdod Lleol, Canolbarth a Gorllewin Cymru) sef ‘*cynnydd yn y galw ar wasanaethau*’ (Awdurdod Lleol, y Cymoedd) am eu bod yn teimlo ei fod yn ‘*dileu atebolrwydd*’ (Awdurdod Lleol, De Cymru), ac yn ‘*rhoi’r neges anghywir nad oes canlyniadau pan fyddant yn gwneud amgylchiadau pobl yn waeth*’ (Awdurdod Lleol, Canolbarth a Gorllewin Cymru). Roedd un hysbysydd allweddol wedi ystyried y gwrthwynebiad cryf ymysg awdurdodau lleol tuag at y cynnig hwn:

‘mae presenoldeb y prawf yn rhan bwysig o’u sgysiau â chleientiaid. Byddai rhai’n dweud ei fod yn fygythiad, a byddai eraill yn dweud ei fod yn llinell goch [neu] yn declyn darbwyllo... mae’r prawf hwnnw, p’un a yw’n fod i wneud hynny ai peidio, yn rhan o’r ffyrdd mae awdurdodau lleol yn ymgysylltu ac yn rheoli eu grŵp o gleientiaid. Mae ei golled yn dod ag... ofn mawr y byddant yn colli rheolaeth... y byddwn yn gweld cynnydd mewn ymddygiad nad yw’n dderbyniol i staff ac y gallem weld cynnydd yn nifer y rhai sy’n peidio â thalu rhent os ydy pobl yn gwybod bod... rhwyd ddiogelwch bob amser ar gael.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector statudol)

Ychydig iawn o sylw a gafodd y cynnig i gyflwyno prawf ‘trin bwriadol’ yn ystod cam dyrannu’r broses ddigartrefedd ac felly nid

oedd yn ymddangos fel petai’n rhoi sicrwydd i awdurdodau lleol ynghylch effaith dileu’r prawf bwriad.

Roedd diwygiadau i’r rheolau cysylltiad lleol hefyd yn ennyn pryderon ymysg awdurdodau lleol ar y sail y byddent yn cynyddu’r galw ar wasanaethau digartrefedd a gwasanaethau cyhoeddus ehangach:

‘Mae risg y mae’n rhaid ei chydabod sef bod y cynnig digartrefedd yng Nghymru mor gadarnhaol a ddim yn cyd-fynd â chynnig Lloegr, fel bod hyn yn denu digartrefedd ac yn cynyddu’r galw.’

(Awdurdod Lleol, Gogledd-ddwyrain Cymru)

‘Dileu cysylltiad lleol – effaith bosibl ar alw yn yr ardal, effaith ar iechyd a gofal cymdeithasol.’

(Awdurdod Lleol, De Cymru)

Fel mae’r dyfyniad diwethaf hwn yn ei ddangos, roedd camddealltwriaeth ynghylch y newidiadau arfaethedig yn gyffredin. Nododd o leiaf bedwar o’r rhai oedd wedi ymateb i’r arolwg bryderon ynghylch ‘dileu’ neu ‘ddiddymu’ y rheolau hyn, er mai bwriad y newidiadau arfaethedig yw ehangu’r grwpiau a’r amgylchiadau lle mae ymgeiswyr wedi eu heithrio.

Roedd y bwriad i ddiddymu’r maen prawf angen blaenoriaethol wedi peri pryder i ddau o’r rhai a ymatebodd i’r arolwg o awdurdodau lleol, gan y bydd yn lleihau’r flaenoriaeth a roddir i’r rhai sydd fwyaf agored i niwed:

183 Gweler hefyd: Panel Adolygu Arbenigol (2023) *Ending Homelessness in Wales: A Legislative Review*. Llundain: Crisis. <https://www.crisis.org.uk/media/uqgbuwpp/ending-homelessness-in-wales-a-legislative-review.pdf>; Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (2021) *Adolygiad Digartrefedd: drws agored i newid cadarnhaol*. Ar-lein: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. <https://www.ombudsman.wales/app/uploads/2021/10/Homelessness-Reviewed-an-open-door-to-positive-change.pdf>

‘os ydy pawb yn cael blaenoriaeth, yna dydy neb yn ei gael. Mae’r bobl fwyaf agored i niwed am fod yn ymladd dros yr un llety â phobl abl. Os oes un uned dai, bydd landlordiaid yn dewis y sawl sy’n gweithio dros rywun sydd â phroblemau iechyd meddwl neu sy’n camddefnyddio sylweddau.’

(Awdurdod Lleol, Gogledd-ddwyrain Cymru)

‘Mae cael gwared ar angen blaenoriaethol yn gwanhau’r gefnogaeth a roddir i’r rhai sydd fwyaf mewn angen’

(Awdurdod Lleol, De Cymru)

Mae’n werth nodi bod y cynnig hwn wedi cael llai o sylw na’r rheini sy’n ymwneud â digartrefedd bwriadol a chysylltiad lleol, o gofio mai’r prawf angen blaenoriaethol sydd wedi bod yn cael ei ddefnyddio’n hanesyddol fel y brif ddyfais ar gyfer pennu mynediad at gymorth tai. Gallai hyn awgrymu bod y rhan fwyaf o’r awdurdodau lleol yn cytuno â’r Panel Adolygu Arbenigol, yr hysbyswyr allweddol a Llywodraeth Cymru ynghylch y manteision a’r cyfiawnhad dros ehangu hawliau cyfreithiol i ailgartrefu y tu hwnt i grwpiau ‘angen blaenoriaethol’; bod awdurdodau lleol wedi derbyn y bydd y newid hwn yn cael ei gyflwyno ac felly nad ydynt yn blaenoriaethu gwrthwynebiad iddo; neu eu bod yn credu bod yr effaith fwyaf sylweddol wedi digwydd, o ystyried yr estyniad i’r maen prawf blaenoriaeth i bobl sy’n cysgu allan.

Un maes sydd wedi peri pryder i nifer o awdurdodau lleol oedd y cynnig i gyflwyno mwy o gyfrifoldebau ar gymdeithasau tai i helpu i ailgartrefu aelwydydd digartref. Efallai fod hyn yn syndod, o ystyried bod amrywiaeth o’r rhai a ymatebodd i’r arolwg o awdurdodau lleol o’r farn nad oedd tai sy’n cael eu gosod gan gymdeithasau tai i aelwydydd digartref ‘yn ddigon uchel’ ac yn wir, yng ngoleuni’r ymchwil flaenorol lle’r oedd awdurdodau lleol wedi galw am roi llai o hyblygrwydd i gymdeithasau tai o ran penderfynu pwy sy’n cael byw ynddynt er mwyn sicrhau eu bod yn dyrannu ‘cyfran deg’ o aelwydydd digartref.¹⁸⁴ Er bod bwriad i ddarparu gwell adnoddau i awdurdodau lleol allu cyflawni eu dyletswyddau ailgartrefu, nid oedd y cynigion hyn yn y Papur Gwyn wedi ennyn unrhyw sylwadau cadarnhaol gan y rhai a ymatebodd i’r arolwg o awdurdodau lleol; yn wir, roedd rhai’n ofni y byddai’n arwain at wrthbwyso’r glorian o ran dyraniadau i ffafrio aelwydydd digartref mewn ffordd a allai greu mwy o ddigartrefedd (wrth i grwpiau eraill gael trafferth cael gafael ar dai cymdeithasol) a chymell ceisiadau digartrefedd fel ‘yr unig lwybr i dai cymdeithasol’:

‘Sicrhau’r cydbwysedd cywir rhwng dyrannu i aelwydydd digartref a’r rheini sydd â math arall o angen brys am dai. Felly, gallai’r Papur Gwyn arwain yn anfwriadol at gynnydd mewn digartrefedd.’

(Awdurdod Lleol, De Cymru)

‘Bydd rhoi mwy o flaenoriaeth yn y fframwaith dyrannu i’r rheini sy’n ddigartref yn sbarduno’r llwybr i dai cymdeithasol drwy ddigartrefedd - a bydd

hynny’n cynyddu’r galw am adnoddau awdurdodau lleol a chostau.’

(Awdurdod Lleol, y Cymoedd)

Mae’n ymddangos nad yw’r safbwyntiau hyn yn ystyried, nac yn cael sicrwydd gan, elfennau o’r cynigion sydd wedi eu cynllunio’n benodol i sicrhau cydbwysedd mewn dyraniadau tai cymdeithasol a bod eraill sydd ag angen brys am dai yn gallu cael mynediad at y ddaliadaeth, gan gynnwys y byddai gan awdurdodau lleol y pŵer ond nid y rhwymedigaeth i fynnu bod cymdeithasau tai yn lletya’r rheini y mae’r brif ddyletswydd yn ddyledus iddynt a bod neilltuo ffafriaeth ychwanegol o ran dyraniadau i aelwydydd digartref yn cael ei nodi yn y Papur Gwyn fel mesur tymor byr yn hytrach na mesur tymor hir rheolaidd.¹⁸⁵ Fel yr amlinellwyd yn gynharach, mae’n bosibl bod camddealltwriaeth ynghylch natur y cynigion hyn.

Mae pryderon a godwyd gan hysbyswyr allweddol y sector tai mewn perthynas â’r cynigion hyn yn peri llai o syndod, gydag un ymatebydd o’r fath yn pwysleisio’r risg y bydd darparwyr yn cael eu gorfodi i letya aelwydydd:

‘[mae] risg go iawn o danseilio ein hymrwymiad i ddarparu’r cartref iawn i’r person iawn gyda’r gefnogaeth iawn. Cymdeithasau tai, ar y cyfan, sy’n adnabod eu cymunedau, sy’n adnabod eu cartrefi, ac sy’n gwybod beth fyddan nhw’n gallu ei ddarparu... Byddai’n well o lawer gennym weld rhywbeth

sy’n cydnabod bod yn rhaid i hwn fod yn benderfyniad mewn partneriaeth sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn yn hytrach nag awdurdodau lleol yn dweud, ‘Mae’n rhaid i chi gymryd [yr unigolyn yma],’

(Hysbysydd allweddol yn y Gymdeithas Dai)

Pwysleisiodd rhywun arall bwysigrwydd sicrhau bod newidiadau o’r fath yn mynd law yn llaw â darparu cymorth digonol i denantiaid sydd ei angen:

‘mae’n rhaid i ni gael mynediad at y gwasanaethau cymorth i helpu pobl i gadw to dros eu pennau. Fel arall, mae’r problemau y gall person eu creu’n anfwriadol mewn cymuned, ac i gymuned, yn gallu peri llawer o niwed i’n henw da, ein hygredd gyda phobl; a gall sugno adnoddau oddi wrth rai er mwyn rhoi cymorth dwys i eraill.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector tai)

Pan ofynnwyd iddynt ynghylch yr hyn sy’n galluogi ac yn rhwystro rhoi’r Papur Gwyn ar waith yn effeithiol, fe ddaeth pum thema allweddol i’r amlwg. Yn gyntaf a chryfaf, roedd hysbyswyr allweddol a’r rhai a ymatebodd i’r arolwg o awdurdodau lleol yn teimlo bod

184 Woolley, B. (2023) *Dyraniadau: Deall mwy, yng nghyd-destun digartrefedd yng Nghymru*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2023-10/dyraniadau-deall-mwy-yng-nghyd-destun-digartrefedd-yng-nghymru.pdf>

185 Gweler t. 44 yn Llywodraeth Cymru (2023) *Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2023-10/ymgyngghoriad-papur-gwyn-roi-diwedd-ddigartrefedd_0.pdf

cynnydd mewn cyllid yn hanfodol, yn enwedig o ystyried y cyd-destun cyllidol heriol a’r gyllideb ddiweddar (gweler pennod 2):

‘y peth ydy cyllid, ynte? Rydyn ni newydd weld cyllideb eithriadol o galed yn cael ei phasio yn y Senedd... Mae’r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru yn gweithredu o fewn diffyg. Mae’r rhan fwyaf o sefydliadau’r trydydd sector yng Nghymru yn gweithredu o fewn diffyg hefyd! Dwi’n teimlo mai dyna’r rhwystr i bopeth ar y funud... arian.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector cyfiawnder troseddol)

Pwysleisiodd nifer o awdurdodau lleol bwysigrwydd cyllid er mwyn galluogi mwy o gapasiti o fewn gwasanaethau digartrefedd awdurdodau lleol, rhywbeth nad yw’n bosibl ar hyn o bryd drwy’r Grant Cymorth Tai:

‘Mwy o adnoddau ariannol ar gyfer gwasanaethau digartrefedd statudol. Dydy cynnydd mewn Grantiau Cymorth Tai ddim yn caniatáu i ni ariannu mwy o staff ar gyfer swyddi dyletswydd statudol. Mae llwythi achosion eisoes yn uwch nag erioed o’r blaen ac mae staff yn gadael y sector oherwydd y pwysau. Dim ond rhoi mwy o bwysau ar awdurdodau

lleol fydd newidiadau i ddeddfwriaeth. Felly, mae angen mwy o hyblygrwydd o ran cyllid grant.’

(Awdurdod Lleol, y Cymoedd)

Yn ail, nododd sawl awdurdod lleol fod mwy o fynediad at dai addas yn ffactor galluogi pwysig (Awdurdod Lleol, De Cymru):

‘Byddai angen mwy o adnoddau arnom - a hynny o ran swyddogion ac opsiynau/ argaeledd tai.’

(Awdurdod Lleol, De Cymru)

‘Mae angen sicrhau bod mwy o lety addas ar gael.’

(Awdurdod Lleol, De Cymru)

Ac roedd yr angen tybiedig am ‘gynnydd dramatig yn y cyflenwad o dai rhent cymdeithasol’ (Hysbysydd allweddol yn y sector statudol) yn aml yn cael ei bwysleisio’n gryf gan hysbyswyr allweddol:

‘Ni fydd y ddeddfwriaeth orau y gellir ei llunio yn gwneud gwahaniaeth oni bai bod y Llywodraeth hefyd yn helpu i’w gwneud yn haws adeiladu digon o gartrefi. Gallech hyd yn oed dreblu cyllideb y Grant Cymorth Tai, ond os nad oes digon o gartrefi i bobl fyw ynddynt...’

(Hysbysydd allweddol yn y sector tai)

Yn drydydd, cafodd pwysigrwydd amseru gweithredu’r cynigion yn briodol er mwyn peidio â gorlwytho, gorlethu ac, yng ngeiriau un awdurdod lleol, ‘*achosi awdurdodau lleol i dorri*’ ei bwysleisio (Awdurdod Lleol, Gogledd-ddwyrain Cymru) (ac fe’i cydnabyddir yn glir yn y Papur Gwyn):

‘[Mae angen i] Lywodraeth [Cymru] fod yn barod i atal neu ailystyried agweddau nes bod y cyflenwad tai a’r opsiynau cymorth ar waith er mwyn galluogi’r dyletswyddau i gael eu hystyng yn y ffordd orau - a thecaf - bosibl.’

(Awdurdod Lleol, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

‘Dwi’n cael trafferth gydag amseriad y Papur Gwyn. O ystyried y pwysau yn y system, mae’n ymddangos fel petai wedi achosi mwy o ofid ac ansicrwydd a phryder. Ond pe bai wedi dod i mewn ar adeg wahanol, efallai y byddai wedi cael mwy o groeso neu rwyddineb o ran awdurdodau lleol.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector gwirfoddol)

Yn bedwerydd, ac fel y nodwyd uchod, ystyriwyd bod sicrhau ymrwymiad gan wasanaethau cyhoeddus ehangach yn ffactor galluogi hanfodol ac yn her enfawr:

‘bydd yn dibynnu’n llwyr ar ymrwymiad y cyrff cyhoeddus eraill hyn a’r ffordd y mae’n cael ei gwau i’w bywydau bob dydd - rydyn ni’n bell iawn o wneud i hynny ddigwydd, a bydd angen rhywun, ar lefel Prif Weinidog yn ôl pob tebyg, i yrru hynny i sicrhau ei fod yn digwydd.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector academiaidd)

Yn bumed ac yn olaf, roedd sawl hysbysydd allweddol wedi pwysleisio’r angen i newid y diwylliant o fewn awdurdodau lleol er mwyn rhoi pecyn diwygio’r Papur Gwyn ar waith yn effeithiol, ac mae’r ‘frwydr o syniadau’ yma’n glir yn y cyferbyniadau rhwng tystiolaeth rhai hysbyswyr allweddol a’r rhai a ymatebodd i’r arolwg o awdurdodau lleol:

‘oni bai bod diddymu’r angen blaenoriaethol yn dod law yn llaw â gweledigaeth glir ynghylch system digartrefedd nad yw’n rhoi blaenoriaeth lle mai’r cyfan sy’n bwysig yw a ydych chi mewn perygl o fod yn ddigartref – rydyn ni’n ddall i’ch math o aelwyd... a p’un a ydyn ni’n credu eich bod chi wedi achosi hyn eich hun - oni bai ei fod yn dod law yn llaw â hynny, mae’n debyg y byddwch yn dal i weld ail haen o fath o lety dros dro i bobl... yr unig beth a welwn yw y bydd y canlyniadau fymryn yn llai drwg nag yr

oeddent yn arfer bod, ond ni fydd yn system sy'n cael ei harwain gan dai. Ni fydd yn seiliedig ar degwch.'

(Hysbysydd allweddol yn y sector gwirfoddol)

'Mae'r rhan fwyaf o'r cynigion yn rhoi'r cyfrifoldeb yn ôl ar yr awdurdod lleol. Does dim cyfrifoldeb ar yr unigolyn. Dim canlyniadau am beidio â thalu rhent neu am ymddygiad gwrthgymdeithasol, dim cymhelliant i ymgysylltu â chymorth neu wasanaethau gan y bydd dyletswydd ar yr awdurdod lleol i ddatrys y cyfan... Bydd y diwygiadau'n cael eu gweld fel llwybr byr i dai cymdeithasol a /neu gymorth ariannol yn hytrach na'r gwasanaeth brys y dylai fod... bydd yn golygu mwy o faich ar yr awdurdod lleol.'

(Awdurdod Lleol, Gogledd-ddwyrain Cymru)

4. Cysgu allan a digartrefedd statudol

Prif bwyntiau

Cynyddodd y lefelau amcangyfrifedig o gysgu allan 86% yn ystod y tair blynedd hyd at fis Gorffennaf 2024. Un o'r prif ffactorau y tu ôl i'r cynnydd yma oedd methiant anghyfreithlon rhai awdurdodau lleol i letya rhai aelwydydd digartref yng nghyd-destun pwysau difrifol ar lety dros dro, law yn llaw â dirwyn yr ymateb brys i pandemig COVID-19 i ben. Ystyrir bod pobl sy'n gadael carchar a'r rhai heb fynediad at arian cyhoeddus mewn perygl penodol o gysgu allan.

Ar ôl cyrraedd uchafbwynt yn 2019/20, bu rhywfaint o ostyngiad yn llif yr aelwydydd digartref a oedd yn destun dyletswyddau atal neu ryddhad awdurdodau lleol yn 2020/21 ac mae wedi aros yn weddol wastad ers hynny, gan gyrraedd 12,939 yn 2023/24. Ar hyn o bryd mae diffyg data statudol ar gael ar broffil aelwydydd sy'n wynebu digartrefedd yng Nghymru neu ei sbardunau. Mae ein harolwg o awdurdodau lleol yn dangos bod galw dros y flwyddyn ddiwethaf wedi cynyddu ymysg pobl ag anghenion cymhleth, oedolion sengl a'r rhai sy'n gadael y carchar.

Ers 2018/19, mae cyfran y camau atal a lliniaru y barnwyd eu bod yn llwyddiannus wedi gostwng, o 68% i 58% o ganlyniadau'r ddyletswydd atal ac o 41% i 26% o ganlyniadau rhyddhad. Gwelir bod y tueddiadau hyn yn cael eu sbarduno wrth i gapasiti awdurdodau lleol gael ei ddargyfeirio oddi wrth ymdrechion atal a lliniaru i reoli argyfwng, yn ogystal â chyd-destun heriol iawn yn y farchnad dai a strwythurol - mae hynny'n cyfyngu ar allu awdurdodau lleol i atal pobl rhag cael eu troi allan o'r sector rhentu preifat a sicrhau tai amgen priodol a fforddiadwy.

Wedi'i sbarduno gan yr ymateb mwy cynhwysol i ddigartrefedd a ysgogwyd gan y pandemig a chyd-destun marchnad dai heriol, cynyddodd lleoliadau llety dros dro 189% yn y tair blynedd hyd at fis Mawrth 2024, i 6,444. Cynyddodd lleoliadau mewn llety Gwely a Brecwast bum gwaith yn fwy (452%) i 2,730 ac mae nifer y teuluoedd mewn gwestai Gwely a Brecwast wedi cynyddu fwy na deg gwaith yn fwy i 408. Mae'r pwysau hyn yn golygu bod rhai awdurdodau lleol fel mater o drefn yn methu â darparu ar gyfer y rhai y mae dyletswydd arnynt i'w cynorthwyo, ac mae hynny wedi arwain at bobl yn cysgu allan. Mae'r pwysau hyn yn rhoi straen ar gapasiti a llesiant staff, yn ogystal â chyllidebau Awdurdodau Lleol.

4.1 Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn dadansoddi newidiadau diweddar i raddfa a natur cysgu allan a digartrefedd statudol yng Nghymru gan ddefnyddio dwy brif ffynhonnell: ein harolwg o awdurdodau lleol a gynhaliwyd ym mis Mai-Mehefin 2024 ac ystadegau digartrefedd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys amcangyfrifon awdurdodau lleol o gysgu allan. Mae'r data diweddaraf sydd ar gael adeg ysgrifennu'r adroddiad yn ymwneud â blwyddyn ariannol 2023/24. Lle bo modd, mae dadansoddiadau'n cynnwys cyfnod pandemig COVID-19, er bod hyn wedi ei gyfyngu gan y ffaith mai dim ond ym mis Awst 2020 y cychwynnwyd nifer o gyfresi perthnasol Llywodraeth Cymru. Mae'r cwmpas ar gyfer dadansoddi rhai materion allweddol fel achosion uniongyrchol o ddigartrefedd hefyd yn gyfyngedig, gan fod cyfresi monitro hirdymor perthnasol wedi cael eu gollwng yn ystod y pandemig ac nid ydynt eto wedi cael eu hailsefydlu.

Yn dilyn y cyflwyniad hwn, mae pum brif ran i'r bennod. Mae Adran 4.2 yn dadansoddi graddfa newidiol cysgu allan ers dechrau'r pandemig. Mae Adran 4.3 yn dadansoddi tueddiadau yn y galw o ran digartrefedd statudol a chamau awdurdodau lleol i helpu ymgeiswyr. Mae Adran 4.4 yn archwilio newidiadau ym mhroffil ac achosion digartrefedd, cyn i adran 4.5 symud ymlaen i ystyried canlyniadau ymdrechion awdurdodau lleol i atal, lliniaru a datrys digartrefedd statudol. Mae Adran 4.6 yn ymdrin â graddfa, natur a'r hyn sy'n sbarduno defnydd o lety dros dro yng Nghymru.

4.2 Cysgu allan

Am dair blynedd cyn y pandemig, roedd cysgu allan yng Nghymru yn cael ei fesur drwy gyfrifiadau bob nos a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol yn dilyn ymarfer casglu gwybodaeth flaenorol.¹⁸⁶ Ym mis Tachwedd 2017, 2018 a 2019, nododd yr ymarfer 188, 158 a 176 o bobl sy'n cysgu allan ledled Cymru gyfan, gyda'r niferoedd wedi eu canoli'n bennaf yng Nghaerdydd, Abertawe a Wrecsam (sy'n cyfrif am 55%-67% o'r cyfanswm). Ochr yn ochr â hyn, amcangyfrifwyd bod 348, 343 a 405 o bobl yn cysgu allan am o leiaf un noson dros gyfnod o bythefnos ym mis Hydref 2017, 2018 a 2019, yn y drefn honno, sy'n awgrymu mai dim ond tua hanner y rhai oedd yn cysgu allan ar ryw adeg yn ystod yr wythnosau blaenorol a oedd wedi cael eu nodi yn y cyfrifiadau.

Yn 2020, cafodd yr ymarferion blynyddol hyn eu gohirio o blaid amcangyfrifon diwedd mis a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru gan yr awdurdodau lleol; gwnaed y penderfyniad i beidio ag ailddechrau cynnal yr ymarfer blynyddol ym mis Awst 2024.¹⁸⁷ Lleisiwyd pryderon ynghylch y diffyg arweiniad a roddir i awdurdodau lleol ynghylch sut i gynnal yr amcangyfrifon hyn,¹⁸⁸ ond roedd consensws cryf ymysg hysbyswyr allweddol bod adrodd


misol yn llawer gwell na'r ymarferion blynyddol blaenorol am ei fod yn adlewyrchu 'amrywiadau tymhorol' (Hysbysydd allweddol yn y sector gwirfoddol) ac yn 'galluogi awdurdodau lleol i gael dealltwriaeth well o lawer a meithrin perthynas, neu o leiaf, wybodaeth am y bobl y mae cysgu allan yn effeithio arnynt yn eu hardal' (Hysbysydd allweddol yn y sector gwirfoddol):

'mae'r ffigurau misol... [yn] fwy cywir o lawer na chyfrif y rhai sy'n cysgu allan ar un noson benodol... [y] gallech ei ddefnyddio'n gyffredinol... fel mesur newid dros amser, ond... [roedd] yn dibynnu cymaint ar bethau fel y tywydd... [a] nifer y gweithwyr allgymorth oedd ar gael i fynd allan i gyfrif... Erbyn hyn mae gennym... gasgliad rheolaidd parhaus o ddata a gwybodaeth am bwy sy'n cysgu allan yn eich ardal... a... gwell sefyllfa o lawer.'

(Hysbysydd allweddol yn y sector academiaidd)

Ers dechrau'r ymarfer yma ym mis Awst 2020, mae'r ffigurau'n awgrymu bod y cyfanswm cenedlaethol amcangyfrifedig wedi bod ar gynnydd yn gyffredinol (gweler Ffigur 4.1), sy'n debygol o fod yn adlewyrchu'r ffaith bod y cymorth brys a roddwyd ar waith ar ddechrau'r pandemig yn dirwyn i ben.

Ffigur 4.1: Amcangyfrifon cysgu allan misol 2020-24



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru – StatsCymru

Erbyn diwedd 2023, roedd yn ymddangos bod y cyfansymiau cenedlaethol wedi dychwelyd i lefelau cyn 2020 fwy neu lai (gweler uchod), er nad oes modd cymharu'r niferoedd yn uniongyrchol. Mae'r ffigurau diweddaraf yn ffigur 4.1 yn dangos bod lefelau amcangyfrifedig cysgu allan wedi codi 86% yn y tair blynedd hyd at fis Gorffennaf 2024.

Mae ein harolwg o awdurdodau lleol yn rhoi golwg ychwanegol ar dueddiadau mewn cysgu allan, gydag ymatebwyr wedi eu rhannu'n gyfartal ynghylch a yw'r galw gan bobl sy'n cysgu allan wedi cynyddu neu wedi aros yn sefydlog yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gweler tabl 4.1 isod). Mae hyn yn awgrymu tueddiadau amrywiol ar draws gwahanol ardaloedd, ond gall hefyd ddangos (yn unol â ffigur 4.1) bod lefelau cysgu allan yng Nghymru yn dechrau sefydlogi. Mae'r safbwynt hwn yn cael ei ategu ymhellach gan y ffaith bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol (10 allan o bob 16) yn rhagweld, pan ofynnwyd iddynt am newidiadau disgwylidiedig yn y galw

gan bobl sy'n cysgu allan dros y flwyddyn nesaf, y byddai'n aros yn gyson; dim ond tri oedd yn rhagweld cynnydd yn y galw (gweler tabl 4.3). Roedd un hysbysydd allweddol yn ystyried bod ymestyn angen blaenoriaethol i bobl sy'n cysgu allan yn sbardun ar gyfer y lefelu ymddangosiadol hwn, er bod goblygiadau i'r defnydd o lety dros dro (gweler adran 4.6):

'gan fod gennym system angen blaenoriaethol yng Nghymru lle mae bod yn unigolyn sy'n cysgu allan yn angen blaenoriaethol, rydyn ni wedi gweld rhywfaint o ostyngiad yn nifer y bobl sy'n cysgu allan, ond... mae hynny'n trosglwyddo

186 Llywodraeth Cymru (2020) *Cyfrif Cenedlaethol o Gysgu Allan, Tachwedd 2019* <https://www.gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2020-02/national-rough-sleeper-count-november-2019-814.pdf>

187 Llywodraeth Cymru (2024) *Cynigion i roi'r gorau i'r cyfrif blynyddol cenedlaethol o gysgu allan: crynodeb o ymatebion*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. <https://www.llyw.cymru/cynigion-i-roir-gorau-ir-cyfrif-blynyddol-cenedlaethol-o-gysgu-allan-crynodeb-o-ymatebion>

188 Crisis (2024) Response to Welsh Government proposals to stop the national annual rough sleeper count in Wales. <https://www.crisis.org.uk/media/dnrhktgi/crisis-response-rough-sleeping-data-proposals-may-2024.pdf>

i... gynnydd yn y defnydd cyffredinol o lety dros dro.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector gwirfoddol)

Mae data o’r cyfweiliadau â hysbyswyr allweddol a’r ymatebion i’r arolwg o awdurdodau lleol wedi datgelu rhywfaint o wybodaeth am y ffactorau sydd wedi sbarduno cysgu allan dros y blynyddoedd diwethaf. Fe ymddengys mai’r ffactor canolog oedd y pwysau difrifol ar lety dros dro yng Nghymru, a drafodir ymhellach yn adran 4.6 isod:

‘[O ganlyniad i anawsterau o ran cael gafael ar lety dros dro, rydyn ni wedi gweld] cynnydd yn nifer yr unigolion sy’n syrffio soffas a... mymryn o gynnydd yn yr adroddiadau am unigolion yn cysgu allan am gyfnodau byr neu’n cysgu yn eu cerbydau.’

(Awdurdod Lleol, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Eglurodd hysbyswyr allweddol fod rhai awdurdodau lleol yng Nghymru yn gweithredu rhestrau aros anghyfreithlon ar gyfer llety dros dro, a hynny’n gwbl agored, o ystyried nad oes digon o stoc addas i ateb y galw, rhywbeth sydd hefyd wedi ei nodi mewn ymchwiliad yn 2023 gan Bwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y Senedd,¹⁸⁹ sy’n golygu nad oes gan yr ymgeiswyr sydd â hawl i lety unrhyw ddewis ond cysgu allan. Mae hysbyswyr allweddol yn dweud bod y niferoedd ar y ‘rhestrau aros’ hyn yn ‘ystyfnig o uchel’ (Hysbysydd allweddol yn y sector statudol) a bod pobl arnynt am ‘rhy hir’ (Hysbysydd allweddol yn y sector tai). Nodwyd problemau penodol o ran sicrhau

mynediad at lety dros dro mewn perthynas â phobl sy’n gadael carchar, sy’n golygu eu bod mewn perygl penodol o gysgu allan yn ôl yr ymatebwr hwn o awdurdod lleol:

‘Mae rhyddhau troseddwyr o’r carchar yn gynnwys wedi cyfrannu at nifer y bobl sy’n gadael carchar yn dod i gysylltiad ynghyd â chynnydd yn y ffigurau cysgu allan gan nad ydym yn gallu darparu ar eu cyfer ar fyr rybudd neu heb rybudd o gwbl... Mae’n anodd dod o hyd i lety sy’n addas ar gyfer y grŵp hwn... a dydy nifer ohonyn nhw ddim wedi cwblhau asesiadau risg.’

(Awdurdod Lleol, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Nododd un hysbysydd allweddol fod y grŵp hwn yn arbennig o debygol o fod ar restr aros am gynllun llety â chymorth penodol, gan nad oes opsiynau priodol ar gael yn y gymuned (gweler pennod 3):

‘[Mae’r bobl sy’n gadael carchar] yn tueddu i fynd ar restr aros am un math penodol o lety dros dro... mae’n rhaid i ni aros nes bydd un ohonyn nhw’n dod yn wag... dw i’n gwybod nad ydy rhestrau aros... yn cydymffurfio â’r ddeddfwriaeth. Rydyn ni wedi

codi hyn [ym] mhob man bosibl. Dydyn ni ddim yn celu hynny.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector statudol)

Roedd un hysbysydd allweddol hefyd yn teimlo bod ansawdd gwael rhai sefydliadau llety dros dro yn sbarduno cysgu allan, ac fe ddisgrifiodd ‘pobl yn dewis bod ar y stryd oherwydd... nid oedd y llety dros dro yn addas i’w hanghenion ac fe allai hyd yn oed olygu eu bod nhw’n fwy agored i niwed’ (Hysbysydd allweddol yn y sector gwirfoddol). Yn unol â thystiolaeth gan awdurdodau lleol ym mhennod 3 sy’n tynnu sylw at amheuaeth ynghylch dilystrwydd yr angen ymysg y rheini sy’n cysylltu â gwasanaethau statudol ac yn honni eu bod yn ddigartref ac ar y stryd, dywedodd y cyfranogwr hwn fod ‘pobl yn gorfod profi eu bod yn cysgu allan neu... gysgu allan am gyfnod cyn yr ystyrir eu bod nhw ag angen blaenoriaethol’ (Hysbysydd allweddol yn y sector gwirfoddol), rhywbeth mae’r canllawiau’n nodi’n glir na ddylai fod angen ei wneud.¹⁹⁰

Nodwyd hefyd bod y risg o gysgu allan yn arbennig o uchel ymysg y rhai nad ydynt yn gallu manteisio ar arian cyhoeddus:

‘mae’r bobl nad ydynt yn gallu manteisio ar arian cyhoeddus yn achosi cryn bryder i ni... ychydig iawn o opsiynau sydd gan Lywodraeth Cymru ar eu cyfer... Mae hynny’n bryder go iawn... [oherwydd]

cydnabyddir os na ellir gwneud unrhyw beth am bobl o’r fath, does dim modd rhoi diwedd ar ddigartrefedd ar y stryd yn ôl pob tebyg.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector statudol)

Er gwaethaf y pwyslais yma ar y cyfyngiadau a osodir gan y setliad datganoli, mae gwaith diweddar yn yr Alban wedi tynnu sylw at yr ystod o gamau y gall llywodraethau datganoledig a gweithredwyr cymdeithasol eraill eu cymryd i fynd i’r afael â digartrefedd ymysg y rhai nad ydynt yn gallu manteisio ar arian cyhoeddus neu sydd â chymhwysedd cyfyngedig arall i gael cymorth statudol.¹⁹¹

4.3 Y galw o ran digartrefedd statudol

Mae nifer yr aelwydydd y mae’r ddyletswydd atal neu liniaru yn ddyledus iddynt o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn fesur allweddol o’r galw o ran digartrefedd yng Nghymru. Un o nodau canolog y Ddeddf nodedig hon oedd lleihau’r niferoedd y mae’r Brif Ddyletswydd Ailgartrefu yn ddyledus iddynt drwy liniaru neu atal eu digartrefedd yn gynharach.¹⁹² Mae rhifynnau blaenorol o’r monitor yn rhoi darlun llawn o hanes a chynnwys y diwygiadau hyn¹⁹³ ac mae siart llif sy’n cynrychioli llwybrau drwy brosesau asesu o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn atodiad A.

Fel y dangosir yn Ffigur 4.2, ar ôl cynnydd sylweddol ar ddiwedd y 2010au, gostyngodd nifer yr aelwydydd y mae’r ddyletswydd atal neu liniaru yn ddyledus iddynt yn ystod anterth y pandemig ac mae wedi aros yn sefydlog

189 Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai Senedd Cymru (2023) Digartrefedd. Ar-lein: Senedd Cymru. <https://senedd.wales/media/zs0jkb4g/cr-ld15717-e.pdf>


190 Llywodraeth Cymru (2022) Atodiad – Rheoliadau Digartrefedd (Angen Blaenoriaethol a Bwriadoldeb) (Cymru) 2022. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2022-10/code-of-guidance-addendum.pdf>

191 Watts-Cobbe, B., McMordie, L., Bramley, G., Sims, R., Young, G., Rayment, M. (2024) *Destitution by Design: righting the wrongs of UK immigration policy in Scotland*. Ar-lein: Prifysgol Heriot-Watt. <https://researchportal.hw.ac.uk/en/publications/destitution-by-design-righting-the-wrongs-of-uk-immigration-polic>

192 Llywodraeth Cymru (2016) Digartrefedd yng Nghymru, 2015-16; Caerdydd: Llywodraeth Cymru. <https://www.gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-04/homelessness-2015-16.pdf>

193 Gweler <https://www.crisis.org.uk/ending-homelessness/homelessness-knowledge-hub/homelessness-monitor/>

Figur 4.2: Aelwydydd sy’n destun lliniaru neu atal digartrefedd, 2015/16-2023/24



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru – StatsCymru


dros y pedair blynedd hyd at fis Mawrth 2024. Yn ystod 2023/24, mae 12,939 o aelwydydd sy’n destun dyletswyddau atal neu lliniaru wedi dod i gysylltiad ag awdurdodau lleol yng Nghymru. Fel y dangosir yn ffigur 4.3, mae’r sefydlogrwydd hwn yn cuddio rhai newidiadau o ran nifer yr aelwydydd y mae’r dyletswyddau atal a lliniaru yn ddyledus iddynt dros amser, yn enwedig gostyngiad yn y rheini yr oedd y ddyletswydd atal yn ddyledus iddynt ym mlwyddyn y pandemig 2020/21 – o ganlyniad i foratoriwm troi allan – sy’n cael ei ddigolledu’n rhannol gan gynnydd cysylltiedig yn y rheini y mae’r ddyletswydd lliniaru yn ddyledus iddynt.

Fodd bynnag, gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer yr aelwydydd y bernir eu bod yn ddigartref ac sydd ag angen blaenoriaethol; ac felly, sy’n destun dyletswydd ailgartrefu lawn yr awdurdod lleol (gweler ffigurau 4.3 a 4.4). Gwelwyd y duedd hon ar i fyny ers saith mlynedd erbyn hyn, gyda chynnydd blynyddol o 17% ar gyfartaledd dros y cyfnod hwnnw – 20% yn 2023/24. Mae’r tueddiadau hyn yn adlewyrchu anawsterau cynyddol

ar ran awdurdodau lleol i atal a lliniaru digartrefedd yn effeithiol, sy’n golygu bod nifer cynyddol yn llifo drwodd i’r pwynt lle bydd Prif Ddyletswydd Ailgartrefu yn cael ei sbarduno (gweler adran 4.5).

Mae Ffigur 4.4 yn cyflwyno tuedd ôl-2016/17 o aelwydydd y mae’r Brif Ddyletswydd Ailgartrefu yn ddyledus iddynt, yng nghyd-destun data sy’n cyfateb yn fras o dair blynedd olaf y fframwaith digartrefedd statudol cyn-2015. Mae hyn yn dangos bod nifer yr aelwydydd y mae’r Brif Ddyletswydd yn ddyledus iddynt bellach wedi cyrraedd lefelau sy’n uwch na’r rhai a welwyd cyn cyflwyno dyletswyddau atal a lliniaru o dan Ddeddf 2014, sef 6,135 o aelwydydd yn 2023/24, i fyny o 1,611 yn 2015/16, ac o’i gymharu â’r 5,107 o aelwydydd yr oedd y ddyletswydd yn ddyledus iddynt cyn cyflwyno’r fframwaith cyfreithiol newydd.

Ffigur 4.3: Aelwydydd sy’n destun dyletswyddau digartrefedd awdurdod lleol, 2016/17-2023/24, wedi eu mynegeo (2017/18=100)




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru – StatsCymru

Mae ein harolwg o awdurdodau lleol yn rhoi lens ychwanegol y gellir ei defnyddio i ddeall newidiadau yn y galw o ran digartrefedd sy’n torri trwy rai o gymhlethdodau’r fframwaith cyfreithiol. Pan ofynnwyd sut roedd cyfanswm yr aelwydydd a oedd yn gofyn am gymorth wedi newid dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf (2023/2024) o’i gymharu â’r flwyddyn ariannol flaenorol (2022/23), dywedodd bron i hanner yr awdurdodau lleol (7 allan o 16) eu bod wedi gweld cynnydd (gyda phump yn adrodd ynghylch cynnydd bach yn hytrach na chynnydd sylweddol). Mae chwe awdurdod lleol wedi nodi niferoedd sefydlog, tra bo tri wedi nodi gostyngiad bach.

Wrth ystyried y tueddiadau cyffredinol hyn yn y galw o ran digartrefedd, roedd sawl hysbysydd allweddol yn cydnabod bod y niferoedd wedi ‘sefydlogi’ ar y cyfan (Hysbysydd allweddol yn y sector academiaidd)

dros y blynyddoedd diwethaf. Er gwaethaf hyn, roedd rhanddeiliaid yn poeni am lefelau digartrefedd, gan ddisgrifio pwysau ‘*digynsail a diddiwedd*’ (Hysbysydd allweddol yn y sector statudol). Mae’r paradocs ymddangosiadol hwn yn adlewyrchu dau brif ffactor a ragfyneir yn y dadansoddiad ystadegol isod: yn gyntaf, bod cyflwyniadau wedi sefydlogi ar lefelau cymharol uchel yn hanesyddol, ychydig yn is na’r lefelau brig a welwyd rhwng 2018/19 a 2019/20 ac, yn ail, bod yr heriau sy’n cynnal ‘llif’ drwy’r system digartrefedd statudol yn golygu bod y niferoedd sydd mewn llety dros dro yn eithriadol o uchel (gweler adran 4.6) isod:

Ffigur 4.4: Aelwydydd yr aseswyd eu bod yn anfwriadol ddigartref ac mewn angen blaenoriaethol (y mae'r Brif Ddyletswydd Ailgartrefu yn ddyledus iddynt)



Ffynonellau: Llywodraeth Cymru – StatsCymru a Monitor Digartrefedd Cymru 2017.

‘nid oes cynnydd [wedi bod] yn nifer y ceisiadau, ond mae nifer cynyddol o bobl mewn llety dros dro, gan nad ydyn ni’n symud cymaint o bobl ymlaen. Felly dwi’n meddwl bod hynny wedi bod yn un o’r prif dueddiadau.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector academiaidd)

4.4 Newidiadau ym mhroffil ac achosion digartrefedd statudol

Cafodd ystadegau Llywodraeth Cymru a oedd yn rhoi dadansoddiad manwl o benderfyniadau digartrefedd yn ôl y math o aelwyd eu dirwyn i ben yn ystod y pandemig.¹⁹⁴ Fel y mae ar hyn o bryd, mae’r unig ddata o’r fath sydd ar gael yn gwahaniaethu rhwng aelwydydd un person a rhai eraill.¹⁹⁵ Yn 2023/24, roedd aelwydydd un person yn cyfrif am tua 63% o’r holl geisiadau,¹⁹⁶ sydd bron yn union yr un fath â’r 62% a gofnodwyd yn 2016/17. Fodd bynnag,

194 Gwefan StatsCymru <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Homelessness/Statutory-Homelessness-Prevention-and-Relief/households-found-to-be-eligible-for-assistance-unintentionally-homeless-and-in-priority-need-during-the-year-categories-of-priority-need-by-type-of-household-section-75->

195 Gwefan StatsCymru <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Homelessness/householdsforwhichassis-tancehasbeenprovided-by-outcome-householdtype>

196 Hynny yw, fel cyfran o [ymgeiswyr y mae’r Ddyletswydd Atal yn ddyledus iddynt + ymgeiswyr y mae’r Ddyletswydd Lliniaru yn ddyledus iddynt + ymgeiswyr anghymwys + ymgeiswyr yr ystyrir nad ydynt yn ddigartref na dan fygythiad o ddigartrefedd] – achosion Dyletswydd Atal a gyfeiriwyd at y Ddyletswydd Lliniaru].

Tabl 4.1: Canfyddiad o newid diweddar yn nifer yr achosion o ddigartrefedd sy’n cynnwys gwahanol grwpiau (nifer yr Awdurdodau Lleol)

	Cynnydd	Gostyngiad	Gweddol sefydlog	Ddim yn gwybod
Teuluoedd â phlant	7	3	4	
Aelwydydd sy’n gweithio	6		5	4
Pobl sy’n cysgu allan	7		7	1
Pobl sydd ag anghenion cymorth cymhleth	12	1	2	
Ailadrodd cyflwyniadau (o fewn 12 mis)	5	2	6	3
Pobl sengl 25+ oed	9	1	4	
Pobl sy’n syrffio soffas	6	1	8	1
Pobl ifanc sengl	3	2	8	1

Ffynhonnell: Arolwg yr awduron

mae ein harolwg o awdurdodau lleol yn cynnig rhywfaint o wybodaeth am broffil y rheini sy’n cysylltu â’r awdurdodau lleol am gymorth.

Pan ofynnwyd am newidiadau yn nifer yr achosion o ddigartrefedd ymysg grwpiau penodol (gweler tabl 4.1), adroddwyd yn eang ynghylch cynnydd yn y galw gan rai ag anghenion cymorth cymhleth (gan 12 o’r 15 awdurdod lleol a ymatebodd), thema a bwysleisiwyd yn gryf gan hysbyswyr allweddol. Mae’r duedd ymddangosiadol hon yn debygol o fod yn gysylltiedig ag ymestyn y categori angen blaenoriaethol i bobl sy’n cysgu allan, ond gyda phwysau ehangach ar wasanaethau cyhoeddus, tynnwyd sylw hefyd at fethiannau cysylltiedig i ymyrryd i fyny’r gadwyn:

‘mae ein rhanddeiliaid... yn gweld... anghenion cymorth mwy dwys, a mwy o anghenion cymorth lluosog... mwy o ymddygiad maen nhw’n credu sy’n heriol, ac mewn rhai achosion, sy’n annerbyniol. Mae pryder go iawn... ynghylch effaith hynny ar staff sy’n gweithio

yn y sector tai yn enwedig, ac maen awdurdodau lleol.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector statudol)

‘mae cynnydd wedi bod yng nghymhlethdod anghenion cymorth... mae nifer o bethau sy’n cyfrannu at hynny... y pwysau ar wasanaethau cyhoeddus ac efallai pobl ddim yn cael y math o gymorth... sydd ei angen arnynt o rannau eraill o’r system. Mae gwasanaethau iechyd meddwl yn codi cryn dipyn... Mae anghenion cymorth pobl yn dwysau ac mae’n bosibl iddynt fynd yn ddigartref pan oedd modd osgoi hynny.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector gwirfoddol)

Roedd y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol a ymatebodd hefyd wedi nodi cynnydd yn y galw gan bobl sengl dros 25 oed (9 o'r 15 o ymatebwyr ym mhob achos), gyda hysbyswyr allweddol yn pwysleisio dau ffactor sy'n cyfrannu at hyn: yn gyntaf, ffactorau sy'n ymwneud â'r rhwyd diogelwch cyfreithiol ac, yn benodol, cyfuniad o aneffeithlonrwydd ymddangosiadol y ffocws atal ôl-2015 yn achos pobl sengl ag anghenion cymhleth ac estyniad diweddar y dyletswyddau i lawer o'r grŵp hwn drwy ddiwygiadau i'r categori angen blaenoriaethol:

‘ers rhai blynyddoedd bellach... nid yw ein deddfwriaeth bresennol, er ei bod yn canolbwyntio’n gryf ar atal, wedi bod yn gweithio i grwpiau penodol... mae o hyd ddigartrefedd cyson ar y stryd, pobl sengl, a phobl sengl ag anghenion cymhleth ac mae’n debygol bod y rhain yn her gynyddol i’r sector.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector statudol)

‘Rydyn ni nawr mewn sefyllfa lle rydyn ni’n lletya pobl sengl yn rheolaidd mewn ffordd nad oedden ni’n ei wneud o’r blaen. Felly mae’n debyg bod hynny’n rhan o’r newid mewn proffil sydd wedi parhau ers COVID.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector academiaidd)

Pwysleisiodd rhai awdurdodau lleol eu bod wedi gweld ‘*mwy a mwy o geisiadau yn cael eu hailgyflwyno*’ (Awdurdod Lleol, Canolbarth a Gorllewin Cymru) o ganlyniad i ymestyn yr angen blaenoriaethol.

Yn ail, pwysleisiwyd effaith diwygio lles ar bobl sengl yng nghyd-destun prinder eiddo un ystafell wely, gyda rôl y gyfradd llety a rennir a’r dreth ystafell wely yn cael eu hamlygu’n benodol:

‘[mae] degawdau wedi mynd heibio ers i ni gael y dreth ystafell wely [ac] nid ydym wedi llwyddo i sicrhau cynnydd... yn nifer yr eiddo un ystafell wely sydd ar gael... Mae trafodaethau ynghylch effaith y dreth ystafell wely, y tu allan i’r sector tai, wedi diflannu i raddau... Naill ai mae angen i ni wthio i gael gwared ar y dreth ystafell wely... neu... mae angen mwy o eiddo un ystafell wely i’r bobl ifanc hynny, neu bobl sengl yn gyffredinol, symud i mewn iddynt.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector hawliau lles)

Y grwpiau olaf o bryder sy’n deillio o dabl 4.1 yw (fel yr adroddwyd uchod) pobl sy’n cysgu allan a theuluoedd â phlant, gyda hanner yr awdurdodau lleol a ymatebodd (7 allan o 14) yn nodi cynnydd yn y galw gan y grŵp olaf hwn dros y flwyddyn ddiwethaf. Yr hyn sy’n berthnasol yma yw ffactorau sy’n ymwneud â’r argyfwng costau byw sy’n ysgogi’r risg o ddigartrefedd ymysg aelwydydd sy’n gweithio:

‘rydyn ni’n delio â charfan o bobl sydd wedi ehangu i gynnwys y rheini sydd mewn gwaith... ac sy’n methu â thalu eu costau tai na chynnal eu sefyllfa o ran tai.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector statudol)

‘mae yna grŵp o bobl a allai fod heb ymgysylltu â gwasanaethau digartrefedd o’r blaen, a allai fod wedi cael eu gwthio i’r sefyllfa honno oherwydd yr argyfwng costau byw, wrth i landlordiaid werthu eu heiddo.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector gwirfoddol)

Fel y trafodwyd ym mhennod 3, nid yw Llywodraeth Cymru bellach yn casglu data fel mater o drefn ar y sbardunau sy’n ysgogi cyflwyniadau digartrefedd statudol,¹⁹⁷ rhywbeth sy’n cael ei gydnabod gan hysbyswyr allweddol fel cyfyngiad truenus mewn gwlad sy’n canolbwyntio cymaint ar atal digartrefedd. Ers 2023, mae data sy’n nodi amgylchiadau tai blaenorol y bobl sy’n cael eu rhoi mewn llety dros dro gan awdurdodau lleol wedi cael ei gasglu,¹⁹⁸ ac mae’n dangos

bod tua 5% o’r 15,183 o bobl a gafodd eu rhoi mewn llety dros dro yn ystod y deg mis hyd at fis Ionawr 2024 wedi cael eu hailgartrefu ‘oddi ar y stryd’, tra bo 7% arall yn syrffio soffas cyn hynny ac roedd 8% newydd adael carchar. Y grwpiau mwyaf oedd y 38% a oedd yn arfer byw mewn ‘llety anaddas arall’; ac roedd 41% yn ymgeiswyr a oedd yn deillio o amgylchiadau ‘eraill’.

Roedd ein harolwg o awdurdodau lleol yn gofyn yn benodol am newidiadau yn nifer yr achosion o ddigartrefedd sy’n deillio o achosion uniongyrchol penodol, ac mae’r canlyniadau i’w gweld yn nhabl 4.2. Ystyriwyd bod digartrefedd sy’n deillio o’r rhan fwyaf o’r achosion uniongyrchol a nodwyd yn Nhabl 2 wedi aros yn weddol sefydlog yn ystod 2023/24. Roedd eithriad trawiadol i’r patrwm hwn a oedd yn ymwneud â rhyddhau o’r carchar - yn ôl y sôn mae hyn yn cyfrif am gynnydd yn nifer y bobl ddigartref mewn 11 allan o’r 16 awdurdod. Gwelwyd bod hyn yn ganlyniad i arferion rhyddhau cynnar a gyflwynwyd i reoli pwysau yn yr ystâd carchardai.¹⁹⁹

‘Mae rhyddhau’n gynnar o garchardai wedi cyfrannu at nifer y bobl sy’n gadael carchar.’

(Awdurdod Lleol, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

197 Gwefan StatsCymru <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Homelessness/Statutory-Homelessness-Prevention-and-Relief/households-found-to-be-eligible-unintentionally-homeless-and-in-priority-need-during-the-year-main-reason-for-loss-of-last-settled-home-by-type-of-household-section-75->

198 Gwefan StatsCymru <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Homelessness/homelessness-accommodation-provision-and-rough-sleeping/placedintotemporaryaccommodation-by-homelessnessreason-period>

199 Mae Trwydded dan Oruchwyliaeth ar Ddiwedd Cyfnod yn y Ddalfa yn golygu bod rhai carcharorion yn gallu cael eu rhyddhau cyn eu Dyddiad Rhyddhau Amodol. Cafodd ei gyflwyno gan y cyn Lywodraeth ym mis Hydref 2023. Ym mis Gorffennaf 2024, cyhoeddodd y Llywodraeth Lafur newydd gynlluniau eraill i fynd i’r afael â phwysau yn y system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys mesurau dros dro sy’n caniatáu rhyddhau’n gynnar: <https://www.gov.uk/government/news/lord-chancellor-sets-out-immediate-action-to-defuse-ticking-prison-time-bomb>

Tabl 4.2: Canfyddiad o newid diweddar yn nifer yr achosion o ddigartrefedd sy’n deillio o wahanol achosion uniongyrchol (nifer yr Awdurdodau Lleol)

	Cynnydd	Gostyngiad	Gweddol sefydlog	Ddim yn gwybod	Ddim yn berthnasol yn fy ardal i
Pobl y gofynnir iddynt adael cartref y teulu	7	1	8		
Pobl sy’n cael eu troi allan o’r sector rhentu preifat	6	4	6		
Pobl sy’n cael eu troi allan o’r sector rhentu cymdeithasol	1	5	9		
Pobl sy’n gadael carchar	11	1	4		
Perchnogion tai wedi eu hadfeddiannu	4	3	8	1	
Y rhai sydd wedi dioddef cam-drin domestig	6	1	8	1	
Dioddefwyr mathau eraill o gam-drin (annomestig) e.e. aflonyddu hiliol	4		11	1	
Pobl sy’n profi perthynas ddi-drais yn chwalu	4	2	10		
Pobl ifanc sy’n gadael gofal awdurdod lleol	1	1	12	2	
Ffoaduriaid o Wcráin	3	1	10	2	
Ffoaduriaid o Affganistan	3	2	7	3	1
Mudwyr eraill heb hawl i gyllid cyhoeddus neu gymhwysedd cyfyngedig arall i gael cymorth statudol	2	1	8	3	1

Ffynhonnell: Arolwg yr awduron

‘Mae newidiadau mewn gwasanaethau Prawf/Carchardai, fel y cynllun rhyddhau’n gynnar a galw’n ôl i’r carchar, wedi cyfrannu at y cynnydd.’

(Awdurdod Lleol, De Cymru)

Cafodd pryderon yn y maes hwn eu cadarnhau gan hysbyswyr allweddol a oedd wedi pwysleisio amrywiaeth o faterion sy’n ymwneud â digartrefedd ar ôl i bobl gael eu rhyddhau o’r carchar, a oedd yn y pen draw yn

cael eu gwaethygu, ond ddim eu hachosi, gan ryddhau’n gynnar. Roedd y rhain yn cynnwys diffyg cynllunio ac adnoddau yn gysylltiedig â chymorth adsefydlu gan sefydliadau gwasanaeth prawf a’r trydydd sector sydd dan bwysau, yn ogystal â heriau penodol sy’n gysylltiedig â remand a dedfrydau byr a sut mae’r rhain yn effeithio ar hawliau nawdd cymdeithasol. Daw’r ffactorau hyn at ei gilydd i sbarduno digartrefedd yn ogystal â ‘drws troi’ (Hysbysydd allweddol yn y sector cyfiawnder troseddol) yn ôl i’r carchar.

Mae’r ymatebion i’r cwestiwn hwn yn dangos gostyngiad yn nifer y bobl sy’n ddigartref yn sgil cael eu troi allan o dai cymdeithasol (gwelir ei fod wedi gostwng mewn pum awdurdod lleol, wedi aros yn gyson mewn naw, ac wedi cynyddu mewn dim ond un). Roedd rhai’n priodoli hyn i newidiadau mewn ymarfer a ddechreuodd yn ystod y pandemig, ond nid yw hyn yn egluro pam bod yr achosion o droi allan o dai cymdeithasol wedi disgyn ymhellach o ran pwysigrwydd yn 2023/24:

‘Mae’r sector tai cymdeithasol wedi ymrwymo i beidio â throï pobl allan o lety ers pandemig COVID 19, felly mae’r ffigurau hyn yn isel.’

(Awdurdod Lleol, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Awgrymodd hysbyswyr allweddol fod y pandemig wedi catalyddu’r duedd hon yn hytrach na’i hysgogi’n llwyr:

‘Un peth mae [Cymdeithasau Tai] wedi bod yn eithaf da am ei gynnal yw peidio â throï pobl allan i ddigartrefedd... yr arfer da a ddechreuodd ddod i’r amlwg cyn y pandemig, ac a gafodd ei gynnal ar ôl y pandemig, mae wedi ei sefydlu’n eithaf da erbyn hyn... ar y cyfan, maen nhw’n dda iawn am gynnal... goddef ôl-ddyledion rhent... a rhoi’r cymorth hwnnw ar waith.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector statudol)

Er bod y duedd hon yn cael ei hystyried yn rhywbeth cadarnhaol o safbwynt atal digartrefedd, roedd rhywfaint o rwystredigaeth ymysg rhanddeiliaid yn y sector tai bod disgwyl i landlordiaid cymdeithasol gamu i’r adwy yn fwy aml yn sgil methiant gwasanaethau cyhoeddus a system nawdd cymdeithasol annigonol:

‘mae amryfal argyfyngau, haen ar ôl haen, ac yn bendant ers y pandemig... mae [cymdeithasau tai] yn gweld cyfradd uwch o lawer o’u tenantiaid yn wynebu problemau iechyd neu... dydyn nhw ddim yn gallu gweithio... mae’r argyfwng costau byw ar ben hynny wedi cymryd yr holl gydnerthedd yr oedd pobl fod wedi ei feithrin dros amser... ac mae cymdeithasau tai yn gorfod gwneud mwy a mwy... [ac] i bob pwrpas maen nhw’n gorfod gweithredu fel y rhwyd diogelwch olaf i’w tenantiaid pan fydd y system lles wedi methu.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector tai)

Roedd yr ymatebion i’r arolwg yn gymysg o ran tueddiadau mewn digartrefedd a sbardunwyd gan droi allan o’r sector rhentu preifat, gyda chwe awdurdod lleol yn adrodd bod cynnydd mewn galw o’r fath, gyda’r un faint yn nodi sefydlogrwydd, a phedwar yn nodi gostyngiad. Wrth egluro eu hymatebion, roedd nifer o awdurdodau lleol o’r farn bod dadfuddsoddi gan landlordiaid ar ôl rhoi Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) ar waith yn 2022 (gweler pennod 3) wedi arwain at gynnydd

mewn digartrefedd, gyda’r duedd hon yn parhau, er bod hynny ar lefel is, yn 2023/24.

‘Mae’r gostyngiad o ran faint o rybudd sy’n cael ei roi gan y sector rhentu preifat yn bennaf yn sgil rhoi Deddf Rhentu Cartrefi 2016 ar waith; roedd llawer o landlordiaid preifat yn gadael y sector cyn hyn am eu bod yn ymwybodol o’r dyddiad gweithredu, a dyna pam roedd ffigurau 22/23 yn uwch [na ffigurau 2023/24].’

(Awdurdod Lleol, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Roedd nifer o hysbyswyr allweddol yn teimlo bod digartrefedd sy’n cael ei sbarduno wrth adael y sector rhentu preifat yn cynyddu, ac mae hynny’n pwysleisio’r bwlch cynyddol rhwng incwm aelwydydd a lefelau rhent sy’n cael ei sbarduno gan bwysau costau byw a chyfraddau Lwfans Tai Lleol:

‘Rydyn ni’n dal i weld nifer fawr o deuluoedd, pobl ar incwm isel, am fod rhenti wedi mynd y tu hwnt i incwm.... Mae’n ymddangos bod y bwlch cynyddol hwnnw rhwng incwm a phrisiau rhent... yn sbardun cynyddol [ar gyfer digartrefedd].’

(Hysbysydd allweddol yn y sector gwirfoddol)

Tynnwyd sylw hefyd at bwysau costau byw ehangach, law yn llaw â diffyg stoc tai un ystafell wely ar gyfer pobl dan 55 oed, fel her benodol i aelwydydd nad ydynt yn deulu:

‘Y ffactorau sy’n sbarduno llawer o lefelau digartrefedd yw tlodi, yr argyfwng costau byw, tensiynau yn y cartref a pherthynas yn chwalu, lle mae pobl sengl yn cael eu heffeithio fwyaf... pobl sengl a chyplau dan 55 oed heb blant sy’n cael eu gwasanaethu waethaf drwy’r cyflenwad tai lleol ar draws y sector rhentu preifat a thai cymdeithasol.’

(Awdurdod Lleol, Gogledd-ddwyrain Cymru)

Er nad oedd yr ymatebion i’r arolwg yn datgelu pryder penodol am y cynnydd yn y galw gan ffoaduriaid o Affganistan ac Wcráin, roeddent yn ystyried bod ystod ehangach o ffactorau sy’n ymwneud â mudo yn bwysig. Ymhlith y rhain oedd ymdrechion y Swyddfa Gartref i gyflymu’r broses o wneud penderfyniadau ar geisiadau am loches er mwyn ‘clirio’r ôl-groniad’, sydd felly’n cynyddu’r galw gan y rheini sy’n cael statws ffoadur:

‘mae’r newidiadau ym mhrosesau’r Swyddfa Gartref o ran penderfyniadau lloches wedi cael effaith... eithaf sylweddol... Mae’r newid sydyn yn y broses o wneud penderfyniadau... yn golygu bod angen lletya llawer mwy o ffoaduriaid dros dro ac yn

barhaol... Mae’n is-grŵp bach o’r boblogaeth ond mae’n werth ei nodi.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector academiaidd)

‘Rydyn ni hefyd wedi gweld cynnydd yn nifer yr achosion o Ffoaduriaid gan fod yr ôl-groniad gan y Swyddfa Gartref nawr yn cael ei brosesu. Mae llawer o’r garfan hon yn dangos PTSD cymhleth.’

(Awdurdod Lleol, De Cymru)

Nododd cyfranogwyr nad oedd y cyfnod rhybudd o 28 diwrnod o lety’r Swyddfa Gartref (wedi ei ymestyn i 56 diwrnod ar ôl i waith maes gael ei wneud ar gyfer yr adroddiad hwn) yn ddigon o amser i ddod o hyd i lety arall priodol yng nghyd-destun ‘*prinder difrifol o eiddo rhent*’ (Hysbysydd allweddol yn y sector gwirfoddol). Mae newidiadau i’r polisi gwasgaru lloches yn golygu bod y pwysau yma nawr yn cael effaith ledled Cymru, gyda graddfa’r effaith ‘*yn dibynnu ar y marchnadoedd tai mewn... ardaloedd awdurdodau lleol*’ (Hysbysydd allweddol sector statudol) yn ôl hysbyswyr allweddol, ond gyda rhai ardaloedd ‘*wir yn teimlo’r pwysau*’ (Hysbysydd allweddol yn y sector statudol) a heb y ‘*galluoedd, yr arbenigedd, yr adnoddau*’ i ymateb yn ddigonol (Hysbysydd allweddol yn y sector gwirfoddol). Lleisiwyd pryderon hefyd ynghylch y galw cynyddol gan y rheini sydd heb hawl i gyllid cyhoeddus, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) y rheini y mae eu cais am loches wedi cael ei wrthod.

Gofynnwyd i’r rhai a ymatebodd i’r arolwg o awdurdodau lleol am eu disgwyliadau ynglŷn â’r galw o ran digartrefedd sy’n cynnwys gwahanol grwpiau dros y flwyddyn nesaf. Roedd y rhan fwyaf ohonynt yn rhagweld sefydlogrwydd cymharol ar draws y rhan fwyaf o’r grwpiau a restrir yn nhabl 4.3. Unwaith eto,

roedd eithriad dramatig i hyn yn ymwneud â phobl sy’n gadael carchar, gyda 10 o’r 16 ymatebydd yn rhagweld cynnydd mewn galw gan y grŵp hwn yn 2024/25. Roedd hyn yn peri cryn bryder i awdurdodau lleol yng nghyd-destun y pwysau ehangach ar lety dros dro a’r heriau penodol sy’n gysylltiedig â lletya’r grŵp hwn:

‘bydd y cynllun rhyddhau cynnar... yn golygu bod llawer o bobl sy’n gadael carchar yn troi at wasanaethau digartrefedd yn llawer iawn cynt, a bydd hyn yn costio’n fawr i’r Cyngor... [Mae’n] amlwg yn bryder sylweddol y gall Gwasanaethau Carchardai fod yn llawn a chychwyn ymateb o’r fath, heb unrhyw ystyriaeth yn ôl pob golwg i’r gwasanaethau cyhoeddus sy’n darparu cymorth i’r digartref [sydd] yr un mor llawn neu sydd ar fin cyrraedd pen eu tennyn.’

(Awdurdod Lleol, Gogledd-ddwyrain Cymru)

‘Gallai nifer y bobl sy’n gadael carchar gynyddu oherwydd newidiadau mewn cynlluniau rhyddhau ar gyfer y rheini sy’n bwrw dedfrydau o garchar... Bydd hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar lety dros dro a gallai rhai pobl orfod cysgu allan.’

(Awdurdod Lleol, y Cymoedd)

Tabl 4.3: Newid disgwyliedig yn nifer yr achosion o ddigartrefedd yn ystod y 12 mis nesaf (nifer yr Awdurdodau Lleol)

	Bydd yn cynyddu	Bydd yn gostwng	Aros yn weddol sefydlog	Ddim yn gwybod	Ddim yn berthnasol yn fy ardal i
Pobl sy'n cysgu allan	3		10	2	1
Pobl sy'n syrffio soffas	4		11	1	
Teuluoedd â phlant	2		12	2	
Pobl y gofynnir iddynt adael cartref y teulu	3		10	2	
Pobl sy'n cael eu troi allan o'r sector rhentu preifat	6	4	5	1	
Pobl sy'n cael eu troi allan o'r sector rhentu cymdeithasol	1	2	12	1	
Pobl sy'n gadael carchar	10	1		5	
Perchnogion tai wedi eu hadfeddiannu	6		8	2	
Y rhai sydd wedi dioddef cam-drin domestig	1		10	3	
Dioddefwyr mathau eraill o gam-drin (annomestig) e.e. aflonyddu hiliol			13	2	1
Pobl sy'n profi perthynas ddi-drais yn chwalu	1		13	2	
Pobl ifanc sy'n gadael gofal awdurdod lleol	2	1	11	2	
Ffoaduriaid o Wcráin	6	4	3	3	
Ffoaduriaid o Affganistan	4	2	4	6	
Mudwyr eraill heb hawl i gyllid cyhoeddus neu gymhwysedd cyfyngedig arall i gael cymorth statudol	3	1	6	5	1

Ffynhonnell: Arolwg yr awduron

Unwaith eto roedd gwahaniaeth barn ynghylch y tueddiadau yn y sector rhentu preifat gyda mwy neu lai'r un gyfran o awdurdodau lleol yn disgwyl cynnydd, gostyngiad a sefydlogrwydd yn y galw gan y rheini sy'n cael eu troi allan o'u daliadaeth, fel y nodir yn y tri ymateb testun agored cyferbyniol isod:

‘Mae landlordiaid preifat yn dal i adael y farchnad.’

(Awdurdod Lleol, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

‘Rydyn ni’n rhagweld y bydd y Sector Rhentu Preifat yn sefydlogi dros y deuddeg mis nesaf. Bydd y landlordiaid sy’n teimlo bod y ddeddfwriaeth Deddf Rhentu Cartrefi ‘o blaid y tenant – yn erbyn y landlord’ wedi gadael y farchnad erbyn hyn, neu wrthi’n gwneud hynny ar hyn

o bryd, a bydd hynny’n ein gadael â’r landlordiaid sydd wedi ymrwymo i’r farchnad sector rhentu preifat.’

(Awdurdod Lleol, Gogledd-ddwyrain Cymru)

‘Dylai’r warchodaeth i ddeiliaid contract yn y Ddeddf Rhentu Cartrefi arwain at ostyngiad yn nifer yr aelwydydd sy’n colli eu cartrefi.’

(Awdurdod Lleol, De Cymru)

Gallai hyn adlewyrchu effaith gwahanol gyd-destunau’r farchnad dai, neu ansicrwydd ynghylch tueddiadau yn y dyfodol yn wyneb grymoedd gwrthbwysol. Tynnwyd sylw hefyd at bwysau fforddiadwyedd sy’n wynebu tenantiaid yng nghyd-destun pwysau costau byw a chyfraddau llety dros dro annigonol.

Mae’r ymatebion hefyd yn awgrymu rhywfaint o bryder ynghylch cynnydd yn y galw gan ffoaduriaid o Wcráin, gyda chwe awdurdod lleol yn disgwyl cynnydd. Mewn dwy ardal roedd hyn yn adlewyrchu disgwyliad y byddai trefniadau lletya yn dod i ben ar ôl sawl estyniad. Roedd ymatebion testun agored yn dangos pryder ehangach y byddai pwysau sy’n gysylltiedig â’r system loches yn parhau i sbarduno pwysau digartrefedd dros y flwyddyn nesaf. Roedd yr un gyfran o ymatebwyr (6) yn rhagweld cynnydd mewn digartrefedd o ganlyniad i adfeddiannu tai perchnogion, er bod y mwyafrif yn disgwyl sefydlogrwydd yn hyn o beth (8) ac y byddai unrhyw gynnydd yn y ffactor hwn o lefel isel iawn.

200 Wedi’u cyfrifo fel cyfanswm penderfyniadau’r Ddyletswydd Atal ynghyd â chyfanswm penderfyniadau’r Ddyletswydd Lliniaru, ynghyd â phenderfyniadau anghymwys yn ogystal â phenderfyniadau ‘ddim yn ddigartref’, llai achosion Dyletswydd Atal sy’n arwain at gyfeirio at y Ddyletswydd Lliniaru (gweler Ffigur 6).

4.5 Canlyniadau ymgeisio


Mae’r adran hon yn ystyried canlyniadau ceisiadau am gymorth tai gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Rydym yn canolbwyntio ar ganlyniadau atal, lliniaru, a’r prif ddyletswyddau ailgartrefu yn eu tro, ond ar y dechrau mae’n werth nodi bod 5,391 o’r aelwydydd a oedd wedi gofyn am gymorth tai gan awdurdodau lleol mewn perthynas â digartrefedd wedi cael eu barnu’n anghymwys neu ‘ddim yn ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd’ yn 2023/24, gan gynnwys 432 o aelwydydd a gafodd eu rhoi yn y categori cyntaf (e.e. o ran statws mewnfudo/dinasyddiaeth). Ar ôl aros yn weddol sefydlog dros y pum mlynedd flaenorol, cynyddodd y garfan gyfun hon o 17% o gyfanswm y ceisiadau²⁰⁰ yn 2022/23 i 21% yn 2023/24.

4.6 Dyletswyddau atal a lliniaru

Yn ôl prosesau monitro awdurdodau lleol, mae’r rhan fwyaf o gamau atal yn llwyddo i atal digartrefedd – gweler Ffigur 4.5. Yn 2023/24, cafodd 58% (5,079) o’r 8,772 o aelwydydd a oedd ‘dan fygythiad o ddigartrefedd’ gymorth fel hyn. Ar yr un pryd, mae cyfran yr holl gamau atal y bernir eu bod yn ‘llwyddiannus’ ar drywydd am i lawr, ac mae wedi disgyn o 68% yn 2018/19. Yn gysylltiedig â hynny, roedd cyfran y camau atal aflwyddiannus a oedd wedi arwain at y Ddyletswydd Lliniaru wedi codi o 16% i 25% dros yr un cyfnod.

Os bernir bod ymgeisydd yn ddigartref adeg gwneud cais, neu os yw’r ymdrechion i atal hynny wedi methu, mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd i liniaru digartrefedd yr aelwyd. Gallai hyn gynnwys sicrhau (neu helpu i sicrhau) tenantiaeth breifat neu gymdeithasol, neu ryw fath derbyniol arall o ddaliadaeth – e.e. symud i mewn â ffrindiau neu berthnasau. Yn anffodus, nid yw ystadegau Llywodraeth Cymru yn cofnodi unrhyw ddadansoddiad o’r fath.

Ffigur 4.5: A66 Canlyniadau Dyletswydd Atal, 2018/19-2023/24



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Fodd bynnag, mae data statudol yn dangos bod nifer a chyfran y camau Dyletswydd Lliniaru a gofnodwyd fel rhai ‘llwyddiannus’ wedi disgyn yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, gan ostwng o 41% i 26% yn y pum mlynedd hyd at 2023/24 (gweler ffigur 4.6). Ar y llaw arall, roedd nifer a chyfran y canlyniadau Dyletswydd Lliniaru lle’r oedd diffyg llwyddiant wedi arwain at gyfeirio at y Brif Ddyletswydd Tai wedi mwy na dyblu o 22% i 49% dros yr un cyfnod.


Yn fwy cadarnhaol efallai yw’r gostyngiad sylweddol a welwyd yn nifer yr aelwydydd sy’n destun ymyriad Dyletswydd Lliniaru aflwyddiannus ond nad yw’r Brif Ddyletswydd Ailgartrefu yn ddyledus iddynt oherwydd bernir nad ydynt yn flaenoriaeth neu eu bod yn fwriadol ddigartref. Gostyngodd canlyniadau o’r fath 81% rhwng 2018/19 a 2023/24 o 1,860 i 366 (gweler ffigur 4.6), wedi ei sbarduno’n amlwg gan ymarfer ac, yn fwy diweddar, newidiadau cyfreithiol a wnaed ar ôl dechrau’r pandemig. Yn 2023/24 dim ond

90 o aelwydydd a oedd yn ddarostyngedig i gamau lliniaru aflwyddiannus ond a gafodd eu barnu yn rhai ‘nad ydynt yn flaenoriaeth’, 5% y nifer yn y categori hwnnw yn 2018/19.

Roedd yr hysbyswyr allweddol yn gwbl glir ynghylch y ffactorau sy’n sbarduno’r gostyngiad hwn mewn gweithgarwch atal a lliniaru effeithiol - pwysleiswyd dau ffactor allweddol. Yn gyntaf, cyfeiriwyd yn gyson at awdurdodau lleol mewn ‘dull argyfwng’ (Hysbysydd allweddol yn y sector statudol), sy’n canolbwyntio ar ymateb i ddigartrefedd sydd eisoes wedi digwydd a rheoli llety dros dro:

‘mae’r rheng flaen ym maes digartrefedd, pobl sydd eisoes yn ddigartref, mor llethol i gydweithwyr awdurdodau lleol fel ei bod yn fwyfwy anodd iddyn nhw

Ffigur 4.6: A73 Canlyniadau Dyletswydd Lliniaru, 2018/19-2022/23



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

gael amser i ymgysylltu gymaint ag y byddent yn ei hoffi... Byddai’n llawer gwell ganddyn nhw fod yn gwneud ymdrechion i atal... ond... mae’r pwysau... o ran llety dros dro... yn aruthrol’

(Hysbysydd allweddol yn y sector gwirfoddol)

Pwysleiswyd y cyd-destun ariannol heriol yma fel rhywbeth sy’n rhwystro awdurdodau lleol rhag gallu rheoli’r ymateb hwn i argyfwng a buddsoddi mewn dulliau ataliol ar yr un pryd:

‘Rydyn ni mewn cyd-destun ariannol heriol iawn yn gyffredinol, felly ni fu cynnydd mewn adnoddau staffio nac adnoddau refeniw er mwyn gallu datblygu capasiti gwasanaeth newydd, i newid i wasanaethau ataliol yn ogystal â chynnal yr ochr argyfwng.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector statudol)

Yn ail, ystyriwyd bod y cyd-destun strwythurol ar gyfer atal yn eithriadol o heriol, oherwydd yr anawsterau o ran cael gafaél ar dai addas ar gyfer y rhai mewn angen:

‘Os ydych chi’n siarad ag unrhyw awdurdod lleol, fe welwch mai llety dros dro sy’n peri’r trafferthion. Does gynnón ni ddim digon ar gyfer y bobl mae disgwyl i ni eu lletya, ac mae’r her yn cynyddu oherwydd does dim modd i ni ddim symud pobl ymlaen... Dyna’r her sy’n eu hwynebu. Ychydig iawn sy’n sôn am yr hyn maen nhw’n ei wneud o ran atal, i leihau’r niferoedd sy’n dod i mewn, yn rhannol oherwydd yr heriau strwythurol sy’n achosi digartrefedd.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector academaidd)

‘mae eu hopsiynau o ran atal yn llawer mwy cyfyngedig nag yr oedden nhw... Nid yw’n fater o... beidio â gwneud hynny am nad ydyn nhw eisïau... Ond... dydy’r adnoddau hynny... eu staff a’r cyflenwad o dai addas [ddim yn ei ganiatáu]’

(Hysbysydd allweddol yn y sector tai)

Yn anad dim, gwelwyd bod ymyriadau ataliol effeithiol ar gyfer y rheini sy’n wynebu cael eu troi allan o’r sector rhentu preifat wedi dod yn arbennig o heriol dros y blynyddoedd diwethaf:

‘roedd awdurdodau lleol... am gyfnod o leiaf... yn gweld lefelau sylweddol iawn o droi allan heb fai, a doedd dim modd iddyn nhw berswadio’r landlordiaid i wneud unrhyw beth gwahanol.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector statudol)

‘Ond, efallai yn y gorffennol, gellid bod wedi datrys anghydfod rhwng landlordiaid a thenantiaid... neu fodd gwell o ddod o hyd i lety arall, ychydig flynyddoedd yn ôl efallai, ond dydy hynny ddim yn wir erbyn hyn.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector gwirfoddol)

Dadleuodd un cyfranogwr nad yw’r awdurdodau lleol wedi gallu gadael y ‘dull argyfwng’ ers yr ymateb brys i’r pandemig:

‘fe wnaethon ni droi at y dull argyfwng gyda COVID, a’r pwyslais oedd cael pawb i rywle diogel. Dyna ein blaenoriaeth. Rhoi to dros bennau pobl... dw i ddim yn credu ein bod ni wedi symud i ffwrdd o hynny eto... does

dim amser gan awdurdodau lleol i edrych ar atal digartrefedd mewn unrhyw ffordd arbennig o greadigol neu arloesol.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector statudol)

Mae’r safbwyntiau hyn yn tanlinellu canfyddiadau ymchwiliad Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y Senedd i ddigartrefedd yn 2023 a oedd wedi canfod ‘oherwydd diffyg adnoddau a chyllid, mae llawer o awdurdodau a gwasanaethau’n gorfod canolbwyntio ar roi cymorth i bobl sy’n cyrraedd pwynt tyngedfennol, yn hytrach nag ar atal.’²⁰¹ Nododd tystion a gyfrannodd at yr ymchwiliad fod angen gwella’r ymdrechion atal, gan gynnwys mewn perthynas â gweithredu ymateb aml-asiantaeth, a mwy o ddefnydd (lle bo hynny’n briodol) o gyfryngu teuluol.

Er bod swm a sylwedd cyffredinol ymatebion yr hysbyswyr allweddol yn nodi bod gweithgarwch atal yng Nghymru ymhell o gyrraedd ei botensial, roedd rhai’n awyddus i bwysleisio’r trawsnewidiadau cadarnhaol (ond anghyflawn) a gyflawnwyd ers cyflwyno’r dyletswyddau atal, ac roedd arwyddion hefyd fod yr argyfwng presennol yn sbarduno mwy o waith atal gwell mewn ardaloedd sydd ag adnoddau i alluogi hyn:

‘gan feddwl yn ôl i 2014 a’r Dyletswyddau Atal... mae gwelliant wedi bod yn bendant... ers hynny... yn sicr mae gwelliannau wedi bod... [ond] nid yw pawb yn derbyn

nac yn deall... agenda ataliol ddyfnach.’


(Hysbysydd allweddol yn y sector gwirfoddol)

‘mae yna lond llaw o awdurdodau wrthi’n gwneud y math o bethau y byddwn wedi disgwyl iddyn nhw fod yn ei wneud ddeg mlynedd yn ôl pan ddaeth y ddeddfwriaeth i rym, ac mae’n teimlo eu bod bellach yn mynd i’r afael â hynny oherwydd y pwysau... gweithwyr arbenigol... ar gyfer pobl sy’n profi cam-drin domestig, gweithio gyda charchardai a phobl sy’n gadael carchar, yn benodol er mwyn eu hatal rhag mynd yn ddigartref... Dyma’r oedd y ddeddfwriaeth yn disgwyl i awdurdodau ei wneud yn y lle cyntaf. Felly... mae yna rywfaint o gynnydd ac mae hynny’n rhannol oherwydd bod cyllid ar gael o dan y Gronfa Ffyniant Gyffredin mewn rhai ardaloedd.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector academaidd)

201 Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai Senedd Cymru (2023) *Digartrefedd*. Ar-lein: Senedd Cymru. <https://senedd.wales/media/zs0jkb4g/cr-ld15717-e.pdf> (Tudalen 38). Gweler hefyd: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (2021) *Adolygiad Digartrefedd*: drws agored i newid cadarnhaol. Ar-lein: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. <https://www.ombudsman.wales/app/uploads/2021/10/Homelessness-Reviewed-an-open-door-to-positive-change.pdf>

Ffigur 4.7: A75 Canlyniadau'r Brif Ddyletswydd Ailgartrefu, 2018/19-2022/23



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

4.7 Camau gweithredu'r Brif Ddyletswydd Ailgartrefu

Rydym eisoes wedi gweld bod nifer yr aelwydydd y mae'r brif ddyletswydd ailgartrefu yn ddyledus iddynt wedi ehangu'n gyflym. I'r rhan fwyaf o aelwydydd sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd hon, y canlyniad yw 'rhyddhad cadarnhaol', sy'n gyfystyr ag ailgartrefu diogel. Fel y dangosir yn Ffigur 4.7, fodd bynnag, nid yw rhwng un rhan o bump a thraean o'r achosion yn gorffen fel hyn.

Mae cyfran sylweddol o achosion Prif Ddyletswydd Ailgartrefu (22% yn 2023/24) yn cael eu cau yn sgil colli cysylltiad, lle mae'r aelwyd wedi tynnu ei gais yn ôl, neu lle cafodd yr achos ei gau am resymau 'eraill'. Fel y dangosir uchod, mae canlyniadau o'r fath hefyd yn cyfrif am gyfrannau sylweddol o achosion yn y carfannau Dyletswydd Atal a

Dyletswydd Lliniaru, gyda chyfanswm o 18% o'r canlyniadau ar draws y tair carfan (liniaru, atal a phrif ddyletswydd) yn 2023/24.²⁰²

Er nad yw'r ystadegau swyddogol yn galluogi dadansoddi cyrchfan y ddaliadaeth sy'n gysylltiedig â chyflawni'r brif ddyletswydd ailgartrefu'n gadarnhaol, mae ein harolwg o awdurdodau lleol yn taflu rhywfaint o oleuni ar y tueddiadau diweddar o ran argaeledd, neu fynediad at, lety sefydlog ar gyfer aelwydydd digartref. Mae'r data'n dangos gwahaniaeth amlwg rhwng y tueddiadau canfyddedig o ran mynediad at dai cymdeithasol a thai rhent preifat yn y flwyddyn ddiwethaf (gweler tabl 4.6).

Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol (11 allan o 16) yn dweud bod mynediad i'r sector rhentu preifat wedi gwaethygu, gan dynnu sylw at themâu sydd bellach yn gyfarwydd sef effaith

Tabl 4.4: A fu newidiadau o ran argaeledd neu fynediad at y mathau a ganlyn o lety sefydlog i'r rhai sy'n ddigartref dros y flwyddyn ddiwethaf? (nifer yr Awdurdodau Lleol)

	Wedi cynyddu	Wedi gostwng	Sefydlog	Ddim yn gwybod
Awdurdod Lleol	5	1	4	5
Cymdeithasau Tai	8		7	1
Sector Rhentu Preifat	1	11	3	1

Ffynhonnell: Arolwg yr awduron

dirywiad tymor hwy o ran argaeledd llety o'r fath a materion fforddiadwyedd cysylltiedig:

'Mae'r sector rhentu preifat wedi bod yn eithriadol o ansefydlog dros y deuddeg mis diwethaf, gyda llai o eiddo ar gael o un flwyddyn i'r llall dros y chwe blynedd diwethaf... [Am fod] mwy o gystadleuaeth o fewn y sector rhentu preifat... mae'r rheini ar fudd-daliadau (sy'n gyfran uchel o'r garfan ddigartref) yn cael eu prisio allan.'

(Awdurdod Lleol, Gogledd-ddwyrain Cymru)

'Fel llawer o ardaloedd eraill, mae'r sector rhentu preifat yn dod yn opsiwn tai nad yw'n bodoli ac anfforddiadwy [yma].'

(Awdurdod Lleol, y Cymoedd)

Ar y llaw arall, mae hanner yr awdurdodau lleol yn nodi cynnydd o ran argaeledd neu fynediad at eiddo Cymdeithasau Tai, a dim un ohonynt yn sôn am ostyngiad. Mae tua thraean o'r ymatebwyr (5 allan o 16) wedi nodi cynnydd o ran argaeledd, neu fynediad at, dai awdurdod lleol, a dim ond un sydd wedi adrodd ynghylch gostyngiad. Priodolwyd y ffaith bod mwy o dai cymdeithasol ar gael i ddau sbardun: tynnodd rhai ardaloedd sylw at rôl polisïau adeiladu, caffael a phrynu yn ôl:

'Mae gan y Cyngor a darparwyr Tai Cymdeithasol raglen adeiladu newydd.'

(Awdurdod Lleol, De Cymru)

'rydym wedi cynyddu ein stoc drwy grant TACP [y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro], drwy brynu eiddo'r cyngor yn ôl a'n rhaglen Mwy o Dai.'

(Awdurdod Lleol, De Cymru)

Roedd eraill wedi tynnu sylw at bolisïau dyraniadau 'brys' lle'r oedd aelwydydd digartref yn cael mwy o flaenoriaeth:

202 Mae'n debygol bod hyn yn cynnwys rhai sy'n cael eu cyfrif fwy nac unwaith.

‘Mae’r polisi brys yn rhoi’r flaenoriaeth uchaf i bobl [sy’n] ddigartref neu sydd dan fygythiad o ddigartrefedd.’

(Awdurdod Lleol, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

‘Rydyn ni wedi cael proses 50% Gosodiadau Uniongyrchol ar gyfer Pobl Ddigartref ar waith ers yr haf 2020 – roedd hyn yn rhan o’n hymateb i Covid ac mae wedi ei chynnal ers hynny... Rydyn ni wedi gweld cynnydd dros y deuddeg mis diwethaf yn nifer y teuluoedd sy’n ddigartref ac o ganlyniad rydyn ni wedi gallu cynyddu’r nifer yn y garfan hon sy’n cael tai cymdeithasol.’

(Awdurdod Lleol, Gogledd-ddwyrain Cymru)

Soniodd un am argaeledd unedau tai cymdeithasol llai fel ffactor sy’n cyfyngu ar dueddiadau o’r fath, ond nid ar gyfer pobl dros 55 oed lle *‘mae digonedd o gyflenwad tai i bobl hŷn / tai gwarchod’* (Awdurdod Lleol, Gogledd-ddwyrain Cymru).

Tynnodd hysbyswyr allweddol a’r rhai a ymatebodd i’r arolwg o awdurdodau lleol sylw at heriau penodol o ran lletya rhai grwpiau. Gan adlewyrchu’r canfyddiadau a adroddwyd mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn, y prif grwpiau (a’r rhai sy’n gorgyffwrdd) a nodwyd oedd pobl sy’n gadael carchar, pobl ag anghenion cymhleth a phobl sengl:

‘Aelwydydd digartref sengl - does gennym [ni] ddim cyflenwad o gartrefi ar gyfer aelwydydd digartref sengl, o ystyried y system les.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector gwirfoddol)

‘Fel grŵp, mae’n anodd iawn lletya [pobl sy’n gadael carchar]... yn ogystal â llawer o bobl eraill sydd ag anghenion cymhleth ac anghenion eraill... maen nhw hefyd yn anhygoel o anodd eu lletya.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector statudol)

Yn aml, roedd ymatebwyr o awdurdodau lleol yn rhoi pwyslais ar ddiffyg mynediad at lety â chymorth fel rhwystr allweddol, yn enwedig yn y Cymoedd:


‘[Rydyn ni angen] mwy o ddarpariaeth i bobl sydd ag anghenion cymhleth o ran tai. Mwy o opsiynau tai sy’n cael eu rheoli ac sy’n darparu ar gyfer unigolion sydd angen lefel o gymorth i gynnal eu tenantiaeth.’

(Awdurdod Lleol, y Cymoedd)

‘Mae diffyg tai fforddiadwy, tai â chymorth [a] gweithio cydgysylltiedig (yn enwedig mewn perthynas ag unigolion sydd ag anghenion cymhleth)’

(Awdurdod Lleol, y Cymoedd)

Ffigur 4.8: Canlyniadau gwaith achos digartrefedd awdurdodau lleol, 2023/24: dadansoddiad o’r math o aelwyd



Fel y crybwyllwyd uchod, er nad yw ystadegau digartrefedd Llywodraeth Cymru bellach yn cynnig dadansoddiad manwl o benderfyniadau a chanlyniadau yn ôl y math o aelwyd,²⁰³ mae data sy'n galluogi dadgyfuno penderfyniadau a chanlyniadau rhwng aelwydydd un person ac eraill ar gael (gweler ffigur 4.8).²⁰⁴ Mae'r data hwn yn dangos bod pobl sengl yn cael eu gorgynrychioli (o'i gymharu ag aelwydydd â dau oedolyn ac aelwydydd â phlant) yn y categorïau canlynol:

- Ystyried nad ydynt yn flaenoriaeth neu eu bod yn fwriadol ddigartref
- Yn ddarostyngedig i gamau lliniaru aflwyddiannus ond yn fwriadol ddigartref
- Methu â manteisio ar gymorth y Ddyletswydd Lliniaru neu'r Ddyletswydd Lawn am beidio â chydweithredu neu yn sgil colli cysylltiad.

Mae anfantais gymharol pobl sengl a ddangosir yma yn debygol o adlewyrchu cyfuniad nifer o ffactorau a drafodwyd drwy gydol yr adroddiad hwn, gan gynnwys: parhau i ddad-flaenoriaethu pobl sengl yn y rhwyd diogelwch statudol drwy'r maen prawf angen blaenoriaethol; mwy o achosion o anghenion lluosog a chymhleth ymysg pobl sengl; effaith anghymesur y diwygiadau lles gan gynnwys y Dreth Ystafell Wely a chapiau Lwfans Tai Lleol ar bobl sengl; a chystadleuaeth sylweddol am gyflenwad annigonol o eiddo un ystafell wely.

4.8 Lleoliadau llety dros dro

Ar ôl cyfnod o sefydlogrwydd cymharol ar ddiwedd y 2010au, mae'r blynyddoedd diwethaf wedi gweld cynnydd sydyn yn y defnydd o lety dros dro. Dros y pedair blynedd hyd at fis Mawrth 2024, roedd cyfanswm y lleoliadau wedi cynyddu 189%, o 2,232 i 6,444. Mae'n bosibl mai'r hyn sy'n peri'r pryder mwyaf yw'r cynnydd o ran lleoliadau mewn gwestai gwely a brecwast i 2,730 o ddim ond 495 ar


31 Mawrth 2020 – sy'n golygu ei fod wedi cynyddu bedair gwaith (neu 452%). Yn ystod y cyfnod ers 2017, mae lleoliadau mewn gwestai gwely a brecwast wedi cynyddu ddeng gwaith, ac erbyn hyn maent yn cyfrif am bron i hanner yr holl leoliadau mewn llety dros dro (42%) – dyma'r math o lety dros dro y dibynnir arno fwyaf o bell ffordd yng Nghymru – gweler ffigur 4.9.

Cododd nifer y bobl (yn hytrach nag aelwydydd) mewn llety dros dro o 3,577 ym mis Awst 2020 i 11,721 ar ddiwedd mis Chwefror 2024 – gweler ffigur 4.10. Fodd bynnag, gyda'r niferoedd yn gostwng yn raddol dros y misoedd dilynol, mae'n ymddangos y gallai dechrau 2024 gynrychioli anterth yn y ddibyniaeth ar lety dros dro yng Nghymru.

Pryder penodol mewn perthynas â llety dros dro oedd y nifer cynyddol o aelwydydd â phlant yr oedd hyn yn effeithio arnynt. Erbyn 31 Mawrth 2024, ar draws pob math o lety dros dro, roedd 1,755 o deuluoedd mewn llety dros dro, sydd ddwywaith yr 849 a oedd mewn llety dros dro bedair blynedd yn gynharach. Er gwaethaf y cynnydd cyflym hwn, mae teuluoedd yn cynrychioli cyfran ostyngol o'r aelwydydd mewn llety dros dro, i lawr o 37% ar 31 Mawrth 2020 i 27% ar 31 Mawrth 2024, sydd yn ôl pob tebyg yn adlewyrchu'r penderfyniad i ehangu angen blaenoriaethol ac anawsterau penodol a oedd yn cael eu hwynebu o ran sicrhau cartref sefydlog i bobl sengl.

Mae'r cynnydd o ran y niferoedd sydd mewn llety dros dro yn adlewyrchu'r ffaith nad yw awdurdodau lleol yn gallu ailgartrefu'r trigolion hynny mewn tai parhaol yn ddigon sydyn i gyfateb i nifer y lleoliadau llety dros dro newydd. Mae'r mewnlif i lety dros dro wedi cynyddu'n sylweddol dros y pedair blynedd diwethaf, gan godi o tua 1,000 ym mis Awst 2020 i 1,800 ym mis Awst 2023 – er ei fod wedi gostwng ddiwedd 2023 ac yn ystod

Ffigur 4.9: Lleoliadau llety dros dro ar 31 Mawrth, 2017-2024 (aelwydydd)



Ffynonellau: Llywodraeth Cymru – StatsCymru

y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024, cafodd 17,856 o bobl eu rhoi mewn llety dros dro, gyda dim ond 8,229 yn cael eu 'symud i lety tymor hir addas'.²⁰⁵

Tynnodd hysbyswyr allweddol a'r rhai a ymatebodd i'r arolwg o awdurdodau lleol sylw at ddwy brif set (sy'n gorgyffwrdd) o ffactorau sy'n ysgogi'r pwysau cynyddol hwn ar lety dros dro. Yn gyntaf, a'r mwyaf amlwg o bell ffordd, oedd pandemig COVID-19 a'r ymateb brys 'Neb Heb Help' i gysgu allan a gafodd ei sbarduno yn sgil hynny, ac anallu awdurdodau lleol – yng ngoleuni cyd-destun ehangach y farchnad dai (gweler pennod 2) – i sicrhau llif digonol drwy lety dros dro i gadw'r niferoedd cyffredinol yn sefydlog (heb sôn am eu lleihau). Roedd hysbyswyr allweddol yn ystyried bod y newid hwn,


a'i barhad ar ôl y pandemig drwy ehangu'r angen blaenoriaethol, i'w 'groesawu'n fawr' (Hysbysydd allweddol yn y sector statudol) a'r 'peth iawn i'w wneud' (Hysbysydd allweddol yn y sector tai), yn ogystal â chydabod ei fod wedi ysgogi defnydd o lety dros dro. Disgrifiodd un cyfranogwr y newidiadau hyn fel 'symud o un broblem i broblem newydd, er y gallai fod yn un well i'w chael' (Hysbysydd allweddol yn y sector gwirfoddol). Mae sylwadau rhywun arall yn cyfleu teimlad a gydnabyddir yn eang:

203 Gwefan StatsCymru <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Homelessness/Statutory-Homelessness-Prevention-and-Relief/households-found-to-be-eligible-for-assistance-unintentionally-homeless-and-in-priority-need-during-the-year-categories-of-priority-need-by-type-of-household-section-75>

204 Gwefan StatsCymru <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Housing/Homelessness/householdsforwhichassistancehasbeenprovided-by-outcome-householdtype>

205 Ar ben hynny, mae'n bosibl bod nifer sylweddol o bobl wedi gadael llety dros dro neu eu cyfnod yno wedi dod i ben yn hytrach na chael eu symud i 'lety tymor hir addas'.

Ffigur 4.10: Unigolion digartref mewn llety dros dro ar ddiwedd y mis, 2020-2024



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru – StatsCymru

‘roedd yr ymdrechion yn ystod dwy flynedd gyntaf y pandemig yn wych... roedd y ffordd y cafodd pobl wared ar fiwrocratiaeth, chwalu’r rhwystrau, a gweithio gyda’i gilydd i geisio cael pobl i mewn ac yn ddiogel yn rhyfeddol... Dyna’r peth iawn i’w wneud at ddibenion rheoli heintiau ar y pryd, ac roeddem yn wirioneddol falch pan ddywedodd y Gweinidog nad oedd hi eisiau dychwelyd i’r ffordd yr oedd pethau cyn y pandemig... ond... ni wnaethom lwyddo i roi diwedd ar ddigartrefedd...

Fe wnaethon ni roi nifer o bobl mewn llety dros dro - ac nid oedd llawer ohono yn addas. Dwi’n teimlo ei bod hi’n bwysig cydnabod... ei bod hi’n heriol iawn i [awdurdodau lleol], ac mae prinder llety dros dro, heb sôn am lety sefydlog, yn heriol iawn, ond ychwanegu’r categori angen blaenoriaethol ychwanegol hwnnw oedd y peth iawn i’w wneud.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector gwirfoddol)

Roedd y rhai a ymatebodd i’r arolwg o awdurdodau lleol hefyd yn glir bod yr ymateb i’r pandemig a’r gwaith o gynnal dull gweithredu mwy cynhwysol wedi ysgogi’r cynnydd mewn defnydd o lety dros dro, ond nid oedd eu sylwadau’n pwysleisio bod y newidiadau hyn yn rhywbeth cadarnhaol. I’r gwrthwyneb, roedd yr awdurdodau lleol yn tueddu i bwysleisio faint o bwysau sydd arnynt a’u hamheuaeth ynghylch dilysrwydd angen ymysg rhai mewn llety dros dro o ganlyniad i ymestyn yr angen blaenoriaethol (gweler hefyd bennod 3):

‘[Nawr] mae’r baich ar yr awdurdod lleol i wrthbrofi bod rhywun yn cysgu allan... mae’r bar ar gyfer cynnig llety dros dro yn isel iawn. Erbyn hyn mae gennym bron i 200 o ymgeiswyr sengl yn eistedd mewn sefydliadau gwely a brecwast heb opsiynau realistig i symud ymlaen... ni fyddai gennym 200 o bobl yn cysgu allan petai’r ddyletswydd yn dod i ben yfory oherwydd byddai gan y mwyafrif lety arall (er ei fod yn ansefydlog).’

(Awdurdod Lleol, Gogledd-ddwyrain Cymru)

‘Yn ystod covid, roedd gennym y polisi ‘pawb i mewn’ a wnaethom ni ddim ailddechrau edrych ar benderfyniadau blaenoriaeth a dim blaenoriaeth ar ôl covid. Mae gennym Dîm Allgymorth sefydledig sy’n

helpu pobl sy’n cysgu allan, felly mae gennym lwybrau ar waith yn barod i atgyfeirio pobl i’r gwasanaeth, ond mae’r newidiadau i’r ddeddfwriaeth wedi gwaethygu a chynyddu’r galw ar wasanaeth sydd dan bwysau aruthrol.’

(Awdurdod Lleol, De Cymru)

Yn ail, yng nghyd-destun ehangach marchnad dai heriol ac fel y nodwyd drwy gydol yr adroddiad hwn, nododd y rhai a ymatebodd o awdurdodau lleol fod argaeledd fwyfwy cyfyngedig a fforddiadwyedd tai rhent preifat yn allweddol o ran heriau yn mynd i’r afael â phwysau llety dros dro yn effeithiol:

‘Cyn ac yn ystod covid, roedd y farchnad sector rhentu preifat o ran gallu sicrhau a symud i dai preifat fforddiadwy yn ddewis arall ymarferol yn lle tai cymdeithasol. Bu llawer o landlordiaid yn gweithio gyda’n tîm sector rhentu preifat i gartrefu eu tenantiaid, ac mae hyn wedi gostwng yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Mae landlordiaid wedi gwerthu, neu ar fin gwerthu, mewn marchnad dai fywiog neu maen nhw wedi codi eu rhent yn sylweddol.’

(Awdurdod Lleol, De Cymru)

Effeithiau defnydd uchel o lety dros dro

Nododd hysbyswyr allweddol a’r rhai a ymatebodd i’r arolwg o awdurdodau lleol doreth o effeithiau negyddol yn gysylltiedig â’r cynnydd hwn mewn defnydd o lety dros dro. Efallai mai’r peth mwyaf brawychus yw’r gydnabyddiaeth bod nifer o awdurdodau lleol fel mater o drefn yn methu lletya’r rheini y mae dyletswydd arnynt i’w cynorthwyo am nad oes ganddynt gapasiti a’u bod yn cynnal rhestrau aros anghyfreithlon i reoli’r galw hwn:

‘Rydyn ni wedi gweld achosion o... restrau aros, sydd i bob pwrpas yn anghyfreithlon, yn cael eu defnyddio gan awdurdodau lleol ar gyfer llety dros dro, am nad oes ganddyn nhw ddigon o lety dros dro ac felly maen nhw’n defnyddio’u band blaenoriaeth eu hunain oddi fewn iddo. Os ydych chi’n cyflwyno’ch hun fel rhywun sydd ar fin bod yn ddigartref, mae’n debygol y bydd yn rhaid i chi aros am gymorth.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector gwirfoddol)

‘rydyn ni wedi crybwyll y diffyg cydymffurfio o’r blaen, ac yn anffodus rydyn ni am barhau i beidio â chydymffurfio am gyfnod hir... dw i’n colli cwsgr dros hynny.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector statudol)

Fel y nodwyd uchod, ystyrir bod yr arfer hwn yn sbarduno cysgu allan mewn rhai ardaloedd, gyda pherygl penodol ymysg y rhai sy’n gadael carchar. Dywedodd cyfranogwr fod rhestrau o’r fath yn cael eu defnyddio yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru, a phwysleisiodd nifer ohonynt nad ar chwarae bach mae’r awdurdodau lleol yn gwneud hynny, ond oherwydd diffyg dewisiadau eraill:

‘fe gawson ni gleientiaid a oedd wedi cael cyngor, ‘Dyma dy babell. Dos i wersylla yng nghanol y dref fel dy fod ti mewn lle amlwg, mi fydd hynny’n dy helpu i wneud yn siŵr nad wyt ti’n cael dy anghofio yn y ciw i gael llety dros dro.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector statudol)

Nododd nifer o gyfranogwyr rôl gadarnhaol cyngor cyfreithiol ac eiriolaeth wrth fynd i’r afael â’r mater hwn, er eu bod yn teimlo’n rhwystredig ynghylch y diffyg ymyrraeth reoleiddiol neu benderfyniadau mwy systemig eraill.

Yn hanesyddol, ystyriwyd bod lefelau uchel o ddibyniaeth ar lety dros dro hefyd wedi effeithio ar ansawdd y stoc a ddefnyddir ac ar heriau rheoli o’i fewn. Rydym eisoes wedi gweld uchod mai llety Gwely a Brecwast yw’r prif fath o lety dros dro a ddarperir yng Nghymru erbyn hyn, a bod nifer y teuluoedd mewn llety Gwely a Brecwast wedi codi o 33 i 408 dros y pedair blynedd diwethaf – mwy na deg gwaith yn fwy. Disgrifiwyd y sefyllfa fel ‘*digalon*’ (Hysbysydd allweddol yn y sector tai), gyda’r rhai yr effeithiwyd arnynt yn wynebu diffyg mynediad at gyfleusterau coginio a golchi dillad, ac ystafelloedd ymolchi eu hunain. Unwaith eto, pwysleisiodd y cyfranogwyr ei fod yn adlewyrchu’r ffaith nad oes gan awdurdodau lleol unrhyw opsiynau eraill:

‘Mae yna bobl mewn llety na fyddem, cyn hyn, wedi caniatáu iddynt aros ynddo am fwy na chwe wythnos... dydy hynny ddim oherwydd ewyllys ein sector. Y rheswm am hyn yw am nad oes ganddyn nhw unrhyw le arall, yn llythrennol, i’w rhoi.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector statudol)

‘Does dim digon o lety dros dro, maen nhw’n defnyddio pentwr o westai... gwestai o safon isel mewn cymdogaethau o safon isel... mae gynnon ni un neu ddau wasanaeth arall lle mae pobl yn rhannu ystafelloedd ymolchi. Dydyn ni ddim eisiau darparu’r math yna o lety, ond ni fyddai’r awdurdod lleol yn fodlon, ar hyn o bryd, ein cefnogi i gau’r gwasanaeth hwnnw... does ganddyn nhw ddim dewisiadau gwell i bobl... mae awdurdodau

lleol wedi cyrraedd pen eu tennyn yn ceisio cyflawni eu dyletswyddau statudol. Dyna sut mae’n teimlo.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector tai)

Nid oedd materion ansawdd wedi eu cyfyngu i lety Gwely a Brecwast, gyda rhai cyfranogwyr yn tynnu sylw at broblemau diffyg atgyweirio mewn llety dros dro hunangynhwysol a nifer yn sôn am y defnydd dadleuol o hen uned manwerthu yng Nghaerdydd fel llety dros dro ar ffurf neuadd.²⁰⁶

Roedd hefyd pryderon dwys bod cymhlethdod cynyddol yr angen ymysg y rhai sy’n aros mewn llety dros dro a’r diffyg tai â chymorth priodol yn dod at ei gilydd i waethygu’r her o reoli llety dros dro, yn enwedig dod â darpariaeth ynghyd a gyrru prosesau troi allan, methiannau lleoliadau, cysgu allan ac ail geisiadau:

‘Mae’r dull Neb Heb Help yn heriol iawn i awdurdodau lleol. Rydyn ni’n cael llawer o ailadrodd cyflwyniadau lle bu methiant mewn llety dros dro sawl gwaith... felly pa mor aml ydyn ni am geisio lletya rhywun os yw’n amlwg nad yw’n gweithio?’

(Hysbysydd allweddol yn y sector statudol)

206 Cwestiwn Ysgrifenedig y Senedd, WQ90902 (e) Cyflwynwyd ar 30 Ionawr 2024. Ar-lein: Senedd Cymru <https://cofnod.senedd.cymru/WrittenQuestion/90902>; O’Neill, R. (2024) ‘Welsh Government defends use of ‘inhumane’ Toys R Us building for homeless people’. 31 Ionawr 2024. <https://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/welsh-government-defends-use-inhumane-28542689>; Hill, J. (2023) *People on housing waiting list in Cardiff sleeping in old Toys R Us building*. 30 Rhagfyr 2023. *Wales Online*. <https://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/people-housing-waiting-list-cardiff-28366632>

‘mae grŵp o bobl sydd ym mhen mwyaf cymhleth... y sbectrwm lle dydy’r opsiynau llety dros dro ddim yn ddigonol... lle maen nhw, oherwydd trawma a’u cyflyrau iechyd meddwl, llawer o bethau, yn ymateb i sefyllfaoedd penodol ac yn cael eu troi allan... maen nhw wedi cael eu taflu allan o bob opsiwn llety dros dro, felly... does unman arall y gallwn eu lleoli... mae llety dros dro mor brin bod pobl yn cael eu rhoi ble bynnag mae lle, a dydy hynny ddim yn ddelfrydol i lawer o bobl.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector gwirfoddol)

Yn ogystal â’r pryderon hyn ynghylch ansawdd ac addasrwydd, mae tystiolaeth hefyd sy’n awgrymu cynnydd yn hyd arhosiad aelwydydd mewn llety dros dro. Cynyddodd nifer yr aelwydydd sydd wedi aros mewn llety Gwely a Brecwast am fwy na chwe wythnos o 18 ar 31 Mawrth 2020 i 180 bedair blynedd yn ddiweddarach. Roedd data ar gyfer saith awdurdod lleol a gafodd sylw mewn ymchwil a gyhoeddwyd yn ddiweddar²⁰⁷ yn dangos bod hyd arhosiad ar gyfartaledd ar draws pob math o lety dros dro ar 31 Mawrth 2023 yn amrywio o 65 diwrnod yn Sir Ddinbych i 262 diwrnod yng Nghaerdydd:

207 Woolley, B. (2023) *Dyraniadau: Deall mwy, yng nghyd-destun digartrefedd yng Nghymru*. Ar-lein: Llywodraeth Cymru. <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2023-10/dyraniadau-deall-mwy-yng-nghyd-destun-digartrefedd-yng-nghymru.pdf>

‘Mae mwy o bobl yn chwilio am gartrefi, felly mae’n anochel ein bod yn gweithio gyda mwy a mwy o achosion bob blwyddyn lle mae pobl yn aros am gyfnodau estynedig.’

(Hysbysydd allweddol yn y sector gwirfoddol)

‘Mae’r diffyg llety i symud ymlaen iddo yn cyfrannu at bwysau mewn llety dros gyda phobl yn aros am gyfnodau hir ac felly’n rhoi gofynion ychwanegol ar gapasiti ar unrhyw adeg benodol.’

(Awdurdod Lleol, y Cymoedd)

Roedd cymaint o bwysau ar lety dros dro fel bod o leiaf pedwar awdurdod lleol yn dweud eu bod wedi defnyddio llety dros dro y tu allan i’w hardaloedd - ffordd o weithredu a oedd yn peri heriau gweithredol ac yn peryglu tensiynau â’r ‘ardaloedd derbyn’:

‘Mae argaeledd dros fisoedd yr haf [yn broblematic] ... Os [nad oes] rhywle ar gael mae’n rhaid i [ni] fynd allan o’r sir neu ddefnyddio Travelodge sy’n anodd gydag archebion a rheoli achosion.’

(Awdurdod Lleol, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

‘Mae lletya pobl y tu allan i’r sir mewn gwestai yn cyflwyno heriau gweithredol i’r gweithlu gan eu bod yn gorfod teithio ymhellach i ddarparu cymorth, ond mae hefyd yn creu tensiynau â’r Siroedd cyfagos.’

(Awdurdod Lleol, Gogledd-ddwyrain Cymru)

Er bod effeithiau’r defnydd uchel o lety dros dro a amlygwyd hyd yma wedi canolbwyntio ar y rheini sy’n effeithio ar aelwydydd sy’n wynebu digartrefedd, roedd cyfranogwyr hefyd wedi lleisio pryderon am yr effeithiau negyddol ar awdurdodau lleol a’u gweithluoedd. Disgrifiwyd sut mae dod o hyd i lety a rheoli llety dros dro yn ‘*achosi straen*’ (Awdurdod Lleol, De Cymru) ac yn cymryd amser staff. Pwysleisiodd y cyfranogwyr hefyd y pwysau enbyd ar gyllidebau cynghorau sy’n gysylltiedig â’r defnydd o lety dros dro ar adeg lle mae’r cyllidebau hyn eisoes o dan ‘*bwysau aruthrol*’ (Hysbysydd allweddol yn y sector tai):

‘mae’r galw am lety i bobl ddigartref yn llawer mwy na’n cyflenwad o fathau newydd a gwell o lety dros dro... Mae byd digartrefedd a’r argyfwng costau byw yn symud yn gyflymach o lawer ochr yn ochr â diwygiadau deddfwriaethol, nag y gallwn ni drawsnewid ein model darparu ar gyfer digartrefedd. Mae hyn yn golygu bod y Cyngor yn agored i risg ariannol enfawr, nad yw’n cael ei chefnogi’n ddigonol gan [Lywodraeth Cymru],

drwy’r Grant Cynnal Refeniw na’r Grant Neb Heb Help.’

(Awdurdod Lleol, Gogledd-ddwyrain Cymru)

Fel y nodwyd yn adran 4.4 uchod, ym marn rhai hysbyswyr allweddol roedd y pwysau eithafol hyn yn arwain at ‘*arferion arloesol*’ ar ran rhai awdurdodau lleol o ran atal ac ailgartrefu cyflym ar sail ‘*gwario i arbed*’ (Hysbysydd allweddol yn y sector statudol), ond pwysau barn awdurdodau lleol oedd bod effeithiau negyddol yr argyfwng llety dros dro yn drech nag unrhyw effeithiau cadarnhaol, fel y mae’r dirywiad parhaus mewn camau atal effeithiol a nodwyd yn gynharach yn y bennod hon yn ei ddangos.

Caffael llety dros dro

Yn y cyd-destun a ddisgrifir uchod, mae gallu awdurdodau lleol i gaffael cyflenwad llety dros do newydd yn effeithiol wedi dod yn eithriadol o bwysig ond yn fwyfwy heriol. Mae’r rhai a ymatebodd i’r arolwg o awdurdodau lleol yn nodi heriau sylweddol o ran sicrhau llety dro i aelwydydd sydd ei angen (gweler tabl 4.4), er bod amrywiadau sylweddol o ran lefel yr her a wynebir gan wahanol grwpiau.

Mae’n ymddangos mai’r her leiaf yw caffael llety dros dro i deuluoedd â phlant. Serch hynny, roedd chwe awdurdod (allan o 16) yn ystyried bod hyn yn ‘eithaf heriol’, tra bo pedwar yn teimlo’i fod yn ‘heriol iawn’. Mae’n ymddangos bod heriau mwy difrifol o ran sicrhau llety dros dro i bobl sengl, gyda naw awdurdod lleol yn disgrifio ei bod yn ‘heriol iawn’ sicrhau llety dros dro i bobl sengl 25 oed a hŷn a phobl ifanc sengl rhwng 16-24 oed.

Roedd hi’n fwy heriol byth sicrhau llety i aelwydydd sy’n cynnwys rhywun ag anabledd a phobl sy’n gadael carchar, gydag 11 o’r 16 ymatebydd yn ei ddisgrifio fel ‘heriol iawn’. Yn achos pobl sy’n gadael carchar, pwysleisiodd awdurdodau lleol fod pwysau rhyddhau cynnar, y gofynion beichus o ran yr opsiynau llety a ganiateir o dan amodau trwydded, yn enwedig ar gyfer troseddwyr risg uchel, ac amharodrwydd landlordiaid i letya’r grŵp hwn, i gyd yn dod at ei gilydd. Yn achos aelwydydd

Tabl 4.5: Pa mor hawdd oedd sicrhau llety dros dro ar gyfer gwahanol grwpiau (nifer yr Awdurdodau Lleol)

	Heriol iawn	Eithaf heriol	Ychydig yn heriol	Ddim yn heriol o gwbl
Pobl sengl 25+ oed	9	5	1	1
Pobl ifanc sengl (16 - 24 oed)	9	4	2	
Teuluoedd â phlant	4	6	5	1
Pobl sydd ag anghenion cymorth cymhleth	15			
Aelwydydd sy'n cynnwys unigolyn ag anabledd	11	4	1	
Pobl sy'n gadael carchar	11	3	2	

Ffynhonnell: Arolwg yr awduron

sy'n cynnwys rhywun ag anabledd, roedd yr heriau allweddol yn cynnwys diffyg stoc wag briodol, yn enwedig mewn achosion lle mae angen eiddo cwbl hygrych.

Mae'n ymddangos mai'r heriau mwyaf o bell ffordd yw caffael llety dros dro i'r rheini sydd ag anghenion cymorth cymhleth, gyda phob awdurdod lleol yn dweud fod hyn yn 'heriol iawn'. Mae heriau mwy difrifol yn codi o ran sicrhau llety dros dro i bobl sengl, gyda naw awdurdod lleol yn disgrifio ei bod yn 'heriol iawn' sicrhau llety dros dro i bobl sengl 25 oed a hŷn a phobl ifanc sengl rhwng 16-24 oed:

'Diffyg argaeledd, diffyg cyllid, diffyg staff priodol i reoli'r math yma o lety. Fformiwla gyllido'r Grant Cymorth Tai... Diffyg darparwyr priodol.'

(Awdurdod Lleol, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

'Y cynnydd yn nifer yr anghenion cymhleth y mae angen llety â chymorth lefel uchel ar eu cyfer. Cost a nifer cyfyngedig llety o'r fath.'

(Awdurdod Lleol, De Cymru)

Roedd torri drwy'r heriau sy'n effeithio ar grwpiau penodol yn bryder mwy cyffredinol am drefn cyllido llety dros dro. Yn benodol, er bod cynlluniau prydlesu'r sector rhentu preifat yn cynnig, yn gyffredinol, gwell gwerth am arian a llety dros dro o ansawdd gwell, ystyriwyd bod cystadleuaeth am lety sector rhentu preifat, rhenti uchel, a chyfyngiadau ar y cynnig ariannol y gellir ei wneud i landlordiaid o dan gynlluniau prydlesu, yn arwain at ostyngiad yn y math yma o lety dros dro a mwy o ddibyniaeth ar fathau llai priodol a drutach o lety dros dro, sef llety Gwely a Brecwast:²⁰⁸

'Mae cyflenwad llety ar y cyfan yn heriol iawn... Mae hyn oherwydd y cyflenwad cyfyngedig ochr yn ochr â'r fframweithiau ariannol sy'n pennu sut y gellir codi rhenti. Mae hyn yn cyfyngu ar recriwtio landlordiaid ar gynlluniau prydlesu gan fod y cyfraddau a gynigir yn sylweddol is na rhent y farchnad.'

(Awdurdod Lleol, y Cymoedd)

Yng ngoleuni'r pwysau hyn, mae'n bwysig nodi bod y Papur Gwyn ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru yn cynnwys amrywiaeth o gynigion sydd â'r potensial a/ neu sy'n anelu'n benodol at leihau'r defnydd o lety dros dro, gan gynnwys mesurau amrywiol i gryfhau gweithgarwch atal yng Nghymru a chryfhau rôl cymdeithasau tai o ran darparu llety i aelwydydd digartref (gweler pennod 2). Bydd effaith y pwysau hyn dros y cyfnod nesaf yn dibynnu i raddau helaeth ar sut y datblygir y cynigion hyn yn ogystal ag effeithiolrwydd y camau gweithredu.

208 I weld adolygiad o'r fframwaith ac ystyriaeth o bryderon gwerth am arian mewn perthynas â llety dros dro yn Lloegr, gweler <https://www.homelessnessimpact.org/publication/temporary-accommodation-value-for-money-england>

5. Amcangyfrifon a rhagamcanion digartrefedd craidd

Prif bwyntiau

Yn 2022, amcangyfrifir bod digartrefedd craidd cyffredinol yng Nghymru wedi bod yn 12,250 o aelwydydd. Mae'r ffigur cyffredinol hwn yn cynnwys 6,550 o bobl yn syrffio soffas, 2,600 mewn llety dros dro anaddas, 2,270 mewn hosteli ac ati, 600 mewn llety anghonfensiynol a 250 yn cysgu allan. Mae'r niferoedd hyn wedi codi'n sylweddol ers 2019 ac wedi eu sbarduno'n bennaf gan ymatebion i bandemig COVID-19 ac yna'r argyfwng costau byw.

Mae cyfraddau digartrefedd craidd yng Nghymru yn is nag yn Lloegr (0.9% o'i gymharu â 1.01%), er eu bod wedi codi'n fwy sydyn yng Nghymru nag yn Lloegr neu'r Alban (lle mae'r cyfraddau ar eu hisaf, sef 0.62%). Erbyn hyn, mae gan Gymru fwy o aelwydydd mewn llety dros dro anaddas na'r ddwy wlad arall, a mwy yn yr holl gategoriâu digartrefedd craidd na'r Alban, ac eithrio cysgu allan.

Gan dybio y bydd y polisiâu presennol yn parhau (h.y. heb gynnwys y newidiadau polisi arfaethedig sydd heb ddod yn gyfraith eto, gweler pennod 3, adran 3.8), bydd cynnydd mewn digartrefedd craidd yn parhau yn y tymor byr i ganolig (hyd at 2031), ac yn codi'n gyflymach yn y tymor hwy (2031-41). Heb unrhyw newid i'r polisiâu presennol, gallem weld 24% o gynnydd mewn digartrefedd erbyn 2041. Fodd bynnag, mae nifer o ddatblygiadau polisi pwysig yn mynd rhagddynt neu'n cael eu hystyried yng Nghymru, sy'n debygol o newid y trywydd hwn.

O'r senarios polisi roeddem yn gallu eu modelu, y mwyaf effeithiol ar gyfer lleihau digartrefedd craidd yw cynyddu cyfran y

tai cymdeithasol a ddyrennir i aelwydydd digartref (gan gynnwys digartrefedd craidd), codi cyfraddau Lwfans Tai Lleol, a gwneud newidiadau i Gredyd Cynhwysol a budd-daliadau eraill i leihau amddifadedd.

Yn y tymor hwy, mae senarios eraill hefyd yn cael eu modelu i leihau digartrefedd craidd yn sylweddol, gan gynnwys mwy o gyflenwad tai cymdeithasol newydd wedi ei dargedu, cydbwyso economi Cymru'n llwyddiannus, a mwy o ddarpariaeth Tai yn Gyntaf ynghyd â darpariaeth adsefydlu briodol a llai o lety hostel traddodiadol.

Dangosir bod rhaglen gynhwysfawr o newid polisi sydd wedi ei threfnu'n briodol yn gallu lleihau digartrefedd craidd yng Nghymru gymaint â hanner o ran ein senario llinell sylfaen erbyn 2041. Byddai'r senario hwn yn arwain at gyfraddau digartrefedd craidd 22% yn is na lefel 2019. Ar ben hynny, byddai llety dros dro anaddas yn gostwng 83%, hostelau yn gostwng 54%, byddai cysgu allan yn cael ei leihau 45%, a syrffio soffas yn gostwng 39%. Byddai rhai gostyngiadau hefyd yn y mesurau ehangach o ddigartrefedd statudol (16%) a chyfanswm y llety dros dro (18%), er gwaethaf y cynnydd sylweddol mewn cymhwysedd ar gyfer cymorth digartrefedd sy'n gysylltiedig â rhoi diwedd ar angen blaenoriaethol.

5.1 Cyflwyniad

Ar ôl dadansoddi tueddiadau cysgu allan a digartrefedd statudol ym mhennod 4, rydym nawr yn symud ymlaen i edrych ar ddigartrefedd o ongl wahanol. Mae'r bennod hon yn cyflwyno amcangyfrifon o lefel,

Tabl 5.1: Categoriâu a diffiniadau digartrefedd craidd

Categori	Disgrifiad
Cysgu allan	Cysgu yn yr awyr agored e.e. mewn strydoedd, parciau, meysydd parcio, drysau
Llety Anghonfensiynol	Cysgu mewn mannau/lle na fwriedir iddynt fod yn llety preswyl arferol, e.e. ceir, faniau, lorïau, carafannau/cartref modur, pebyll, cychod, siediau, garejys, adeiladau diwydiannol/masnachol
Hosteli ayb.	Llety argyfwng cymunedol a llety dros dro wedi eu targedu'n bennaf at bobl ddigartref gan gynnwys hosteli, llochesi, a darpariaeth COVID-19 arbennig
Llety Dros Dro Anaddas	Aelwydydd digartref wedi eu lleoli mewn llety dros dro o fathau penodol, Gwely a Brecwast, Llety Preifat Trwyddedig nad yw'n Hunangynhaliol/ Llety Gosod fesul Noson, a Lleoliadau y Tu Allan i'r Ardal
Syrffio Soffa	Unigolion neu grwpiau teulu sy'n aros dros dro (yn disgwyl neu'n dymuno symud) gydag aelwyd arall, ac eithrio plant nad ydynt yn ddibynnol ar yr aelwyd letya a myfyrwyr, sydd hefyd yn orlawn yn ôl y safon ystafelloedd gwely ²⁰⁹

cyfansoddiad a daearyddiaeth 'digartrefedd craidd' yng Nghymru yn 2022-23 (gweler adran 5.2). Yn adran 5.3, rydym yn cyflwyno canlyniadau wedi eu diweddarau'r model rhagamcanu²¹⁰ a ddefnyddir i archwilio tueddiadau tebygol mewn digartrefedd craidd yn y tymor byr a'r tymor hwy. Yn adran 5.4, rydym yn ystyried effeithiau amrywiaeth o senarios polisi ac ymarfer gwahanol ar dueddiadau a ragwelir mewn digartrefedd craidd.

Cysyniad digartrefedd craidd

Cyflwynwyd y cysyniad digartrefedd craidd mewn ymchwil a gynhaliwyd gyda Crisis yn 2017.²¹¹ Mae datblygiad y cysyniad yn deillio o chwilio am fframwaith mesur cadarn sy'n goresgyn cyfyngiadau yn y dulliau

traddodiadol o raddnodi digartrefedd a ddefnyddir yn y Deyrnas Unedig ac, yn anad dim, y ddibyniaeth ar ystadegau digartrefedd statudol - sydd ddim ond yn olrhain y bobl sy'n gofyn am gymorth digartrefedd gan awdurdodau lleol ac sy'n gymwys amdano, a chyfrifiadau neu amcangyfrifon o nifer y bobl sy'n cysgu allan. Er bod y ddau dull yn bwysig ac yn cynnig gwybodaeth, maent hefyd yn agored i ddiffygion sy'n cyfyngu ar eu gwerth at ddibenion dadansoddi - gan gynnwys cymharu ar draws gwledydd (hyd yn oed yn y Deyrnas Unedig),²¹² dadansoddi tueddiadau dros amser ac fel sail i amcanestyniadau ynghylch maint posibl digartrefedd yn y dyfodol. Dangosir elfennau digartrefedd craidd a'u diffiniadau fel y'u cymhwysir yn yr astudiaeth hon yn nhabl 5.1 isod, gyda

209 Yn yr un modd â'r Monitorau mwy diweddar ar gyfer yr Alban a Lloegr, rydym wedi cynnwys lwfans ychwanegol ar gyfer aelwydydd sy'n dweud bod pobl yn aros gyda nhw dros dro a fyddai fel arall wedi bod yn ddigartref, yn seiliedig ar ddata diweddar o Arolwg Tai Lloegr.

210 Bramley, G. (2017) *Homelessness Projections: Core homelessness in Great Britain. Summary Report*. Llundain: Crisis. https://www.crisis.org.uk/media/237582/crisis_homelessness_projections_2017.pdf

211 Bramley, G. (2019) *Housing supply requirements across Great Britain for low-income households and homeless people: Research for Crisis and the National Housing Federation; Main Technical Report*. Caeredin: Prifysgol Heriot-Watt. <https://researchportal.hw.ac.uk/en/publications/housing-supply-requirements-across-great-britain-for-low-income-h>

212 Office for National Statistics (2019) *UK Homelessness: 2005 to 2018. Assessment of the comparability and coherence of existing UK government data sources on homelessness*. Ar-lein: ONS. UK homelessness - Office for National Statistics (ons.gov.uk)

disgrifiad llawn o gefndir a datblygiad y cysyniad a ddarparwyd ym Monitor Digartrefedd 2021 ar gyfer Lloegr.²¹³

Ceir gorgyffwrdd sylweddol, ond sydd ymhell o fod yn gyflawn, rhwng digartrefedd craidd a digartrefedd statudol. Rydym yn amcangyfrif bod 57% o aelwydydd digartref statudol yn y Deyrnas Unedig yn 2022 hefyd yn rhai digartrefedd craidd, tra bo tua 41% o'r rhai oedd yn ddigartref craidd yn ddigartref yn statudol hefyd.²¹⁴ Byddai'r rheini sy'n cael eu trin fel pobl ddigartref statudol a digartref craidd yn cynnwys pobl sy'n aros yn y mathau lleiaf priodol o lety dros dro, gan gynnwys hosteli a llety dros dro anaddas (gweler tabl 5.1). Ni fyddai aelwydydd digartref statudol mewn llety dros dro hunangynhwysol a'r rheini sy'n 'ddigartref gartref' (e.e. gyda theulu) cyn cael eu hailgartrefu yn cael eu cyfrif fel rhai sy'n ddigartref craidd. Byddai enghreifftiau o aelwydydd digartrefedd craidd *nad* ydynt yn cael eu cyfrif mewn mesurau digartrefedd statudol yn cynnwys rhai sy'n cysgu ar y stryd a phreswylwyr hosteli nad ydynt wedi gwneud cais i'r awdurdod lleol, yn ogystal â llawer sy'n syrffio sofffa.

5.2 Amcangyfrifon digartrefedd craidd, tueddiadau a dosbarthiad

Yn yr adran hon rydym yn cyflwyno tystiolaeth ar lefel digartrefedd craidd yng Nghymru ar ddiwrnod arferol yn y flwyddyn ariannol 2022/23 ('2022' yn gryno). Mae'r amcangyfrifon o ddigartrefedd craidd yn y cyfnod sylfaen (2022) yn defnyddio wyth ffynhonnell data yn gyffredinol. Mae'r rhan fwyaf o'r cydrannau'n triongli dwy ffynhonnell ddata neu fwy, gan helpu i fynd i'r afael ag

amrywiadau mewn cadernid ystadegol o ran cwmpas, y diffiniadau a ddefnyddiwyd a maint y samplau sy'n berthnasol i unrhyw fesur unigol. Mae'r dulliau, y ffynonellau a'r tybiaethau a ddefnyddiwyd i amcangyfrif niferoedd ym mhob categori digartrefedd craidd wedi eu crynhoi yn Nhabl 5.2. Mae rhagor o fanylion am y setiau data a'r pwysoliadau a roddwyd i bob cydran ar gael mewn nodyn technegol a gyhoeddwyd ar wahân gyda chefnidir pellach yn Adroddiad Technegol 2021.²¹⁵

Mae Ffigur 5.1 yn dangos amcangyfrif o lefelau a thueddiadau mewn digartrefedd craidd dros y degawd hyd at 2022 (ein blwyddyn sylfaen) yn gyffredinol ac yn ôl cydran rhwng 2012 a 2022. Yn 2022, rydyn ni'n amcangyfrif mai 12,330 o aelwydydd oedd y digartrefedd craidd at ei gilydd yng Nghymru, ac mai syrffio soffas oedd yr elfen fwyaf o hyn mewn tua 6,500 o aelwydydd, ac yna hosteli a llochesi (2,270). Roedd niferoedd llety dros dro anaddas (Gwely a Brecwast yn bennaf) hefyd yn uchel iawn y flwyddyn honno (2,600 o aelwydydd). Yr elfennau amcangyfrifedig lleiaf oedd cysgu allan (360) a llety anghonfensiynol (600).


Roedd y darlun o newid yng Nghymru braid yn ddramatig ar ôl 2019, gyda thwf cyflym a sylweddol yn y defnydd o lety dros dro anaddas, gyda llety gwesty Gwely a Brecwast yn rhan fawr o hyn. Mae hyn yn bennaf oherwydd effaith pandemig COVID-19 a'i ganlyniadau, yn ogystal â'r ymateb iddo, ac yna'r argyfwng costau byw a'r niferoedd mudo uchel, ac mae'n ffurfio rhan o gynnydd sylweddol ehangach yn y defnydd cyffredinol o lety dros dro a nodir ym mhennod 4. Ar ôl rhywfaint o ostyngiad rhwng 2012 a 2018, mae ein hamcangyfrifon yn awgrymu bod

Tabl 5.2: Crynodeb o'r ffynonellau a'r tybiaethau ar gyfer amcangyfrifon ciplun gwaelodlin ar gyfer Cymru

Categori o Ddigartrefedd Craidd	Amcangyfrif Canolog
Cysgu allan	Y mwyaf o {Amcangyfrif cyfrif neu (0.35 x Cyfrif/amcangyfrif +0.65x Arolwg Adnoddau Teuluol-Amddifadedd yn y Deyrnas Unedig 2022 rhagfynegiad model cyfansawdd)} ¹
Llety Anghonfensiynol	Fformiwla rhagfynegol Arolwg Llais y Cyhoedd ²
Hosteli ac ati (gan gynnwys llochesi)	Datganiad uchaf awdurdod lleol neu gais Rhyddid Gwybodaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau (Cais Rhyddid Gwybodaeth DWP) ar achosion Budd-dal Tai mewn llety tymor byr, llety brys neu lety pontio
Llety Dros Dro Anaddas	Datganiad uchaf ALL neu Gais Rhyddid Gwybodaeth DWP
Syrffio Soffa	Amcangyfrifon cyfartalog yr Arolwg o'r Llafurlu + addasiad o 20% ar gyfer preswylwyr dros dro ³ ar lefel Cymru, gyda dosbarthiad lleol yn seiliedig ar 55% o'r model rhagfynegi ar gyfer pobl ddigartref craidd cyffredinol, yn seiliedig ar yr Arolwg Adnoddau Teulu a'r arolwg Destitution in the UK 2022. ⁴


Nodiadau
1. Ar gyfer tri awdurdod lleol addaswyd amcangyfrif y cyfrif i lefel fwy realistig y mae modd ei chymharu ag awdurdodau tebyg eraill.
2. Mae'r fformiwla hon ar gyfer llety anghonfensiynol yn cael ei gyrru'n bennaf gan elfennau eraill o ddigartrefedd craidd.
3. Mae'r ffigurau ar gyfer syrffio soffas yn adlewyrchu'r tybiaethau cyfatebol a wnaed yn yr amcangyfrifon digartrefedd craidd yn Lloegr, lle mae data o Arolwg Aelwydydd Lloegr yn fwyaf defnyddiol, ac maent yn adlewyrchu ansicrwydd cymharol eang am y rhif hwn oherwydd ffynonellau data cyfyngedig.
4. Mae'r addasiad o niferoedd rhai sy'n syrffio soffas ar gyfer 'preswylwyr dros dro' yn seiliedig ar ddadansoddiad o ddata Arolwg o Dai Lloegr 2017-19 lle gofynnir cwestiwn newydd am bobl sydd wedi aros dros dro gyda phrif aelwydydd a fyddai fel arall wedi bod yn ddigartref (nid oes data cyfatebol yng Nghymru); nid yw'r grŵp hwn yn cael sylw mewn arolygon aelwydydd confensiynol sy'n hepgor preswylwyr dros dro.

Ffigur 5.1: Niferoedd cartrefi craidd yn ôl elfennau, Cymru 2012-19 (amcangyfrif ciplun ar bwynt mewn amser)



Ffynhonnell: amcangyfrifon yr awduron yn seiliedig ar ffynonellau yn Nhabl 5.2, col.1.

Ffigur 5.2: Cyfraddau digartrefedd craidd fesul 100 o aelwydydd yn ôl rhanbarthau Cymru, 2012-2022 (ciplun o'r amcangyfrif ar bob pwynt mewn amser)



syrrffio soffas hefyd wedi codi'n sylweddol, ar ôl gostyngiad yn gysylltiedig â'r ymateb Neb Heb Help ateg y pandemig. Roedd mesurau ymateb i'r pandemig hefyd wedi gweld gostyngiad sydyn yn nifer y bobl a oedd yn cysgu allan yn 2020, er ei bod yn ymddangos bod y rhain wedi codi rhywfaint ers hynny, er bod y lefel yn dal yn is nag yr oedd yn 2018-19.


Mae dadansoddiad o gyfraddau digartrefedd craidd fesul rhanbarth yng Nghymru dros gyfnod sylfaen 2012-2022 yn ffigur 5.2.²¹⁶ Ar ôl cyfnod o amrywiadau cymedrol o amgylch tuedd wastad, o 2018 ymlaen mae digartrefedd craidd wedi codi'n sylweddol ym mhob un o'r pedwar rhanbarth. De Cymru yw'r rhanbarth mwyaf poblog sy'n cynnwys y brifddinas a dwy ddinas sylweddol arall a'u cyffiniau, ac yn gyffredinol yma mae'r cyfraddau uchaf o ddigartrefedd craidd o'i

gymharu â phoblogaeth aelwydydd. Roedd y niferoedd yma'n dangos amrywiad bach heb unrhyw duedd gref iawn tan 2017, ond ers hynny mae'r niferoedd wedi codi'n uwch na rhanbarthau eraill, yn enwedig yn 2021.

Mae Cymoedd Cymru yn hen ardaloedd glofaol a diwydiant trwm yn Ne Cymru, ac yn gyffredinol maent yn cofnodi'r lefelau uchaf o dlodi ac amddifadedd yn y wlad. Roedd digartrefedd craidd fel pe bai'n codi ychydig yn uwch na lefel De Cymru yn 2014-15, ond wedyn disgynnodd yn ôl eto, ac yn fwy diweddar mae wedi codi ond fymryn yn is na chyfradd gyffredinol Cymru. Mae gan Ogledd-ddwyrain Cymru, sy'n cynnwys tref Wrecsam a threfi ar hyd arfordir Gogledd Cymru yn nes at Lannau Mersi, nifer tebyg o ddigartrefedd craidd i gyfartaledd Cymru a thueddiadau tebyg iawn.

216 Er bod modd dadansoddi'r dadansoddiad i lawr i lefel Awdurdod Lleol, mae ffin cyfeiliornad, oherwydd maint bychan y samplau ar gyfer rhai o'r cydrannau, yn golygu bod gennym fwy o hyder wrth adrodd ar ganfyddiadau ar lefel ranbarthol. Dyma'r rhanbarthau: *De Cymru*: Caerdydd, Pen-y-bont ar Ogwr, Sir Fynwy, Castell-nedd Port Talbot, Casnewydd, Abertawe, Bro Morgannwg; *Cymoedd Cymru*: Blaenau Gwent, Caerffili, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Torfaen; *Canolbarth gorllewin Cymru*: Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Gwynedd, Ynys Môn, Sir Benfro, Powys; *Gogledd Ddwyrain Cymru*: Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam.

Ffigur 5.3: Cymharu cyfraddau digartrefedd craidd fesul 100 o aelwydydd yn ôl elfennau rhwng tair gwlad Prydain Fawr, 2022



Ffynonellau: Fel yn Nhabl 5.1, Fitzpatrick et al (2023) a Watts et al (2023), ond wedi ei ddiweddaru ar gyfer Cymru yn seiliedig ar y gyfres newydd hon o amcangyfrifon.

Yn olaf, mae Canolbarth a Gorllewin Cymru²¹⁷ yn rhanbarth gwledig ac arfordirol yn bennaf a nodweddir gan ddwysedd poblogaeth isel, presenoldeb sylweddol o gymunedau Cymraeg eu hiaith, ac economïau lleol lle mae twristiaeth (gan gynnwys materion ail gartrefi/cartrefi gwyliau) ac amaethyddiaeth yn chwarae rôl arwyddocaol. Mae cyfraddau digartrefedd craidd yn is o lawer yn y rhanbarth hwn, ac er nad ydynt yn dangos unrhyw duedd tan 2019, maent wedi codi ers hynny ochr yn ochr â'r duedd genedlaethol ond ar lefel is.


Mae ein dadansoddiad digartrefedd craidd yn cael ei gynnal ar draws tair gwlad Prydain Fawr, ac felly rydym yn gallu cymharu

cyfraddau digartrefedd craidd (fesul 100 o aelwydydd) ar draws Cymru, yr Alban a Lloegr, fel y dangosir yn Ffigur 5.3. Mae gan Loegr lefel uwch o lawer o ddigartrefedd craidd na gwledydd eraill Prydain Fawr, sef 1.01%, gyda chyfraddau yng Nghymru fymryn yn is na hynny, sef 0.90%, a chyfraddau yn yr Alban yn sylweddol is, sef 0.62%. Mae hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa wahanol o ran y galw am gyflenwad yn y farchnad dai yng ngwledydd Prydain, ond hefyd y gwahanol ymatebion cyfreithiol a pholisi i ddigartrefedd sydd wedi datblygu ers i'r trefniadau datganoli ddod i rym. Mae'r dadansoddiadau²¹⁸ blaenorol o ddigartrefedd craidd i'w gydrannau wedi bod yn debyg ar draws y tair gwlad, ond erbyn hyn mae'n ymddangos bod gan Gymru lefelau

217 Mae'r ardal farchnad dai eang hon yn cynnwys rhannau o Ogledd-orllewin Cymru (Gwynedd, Ynys Môn) yn ogystal â De-orllewin Cymru (Sir Benfro) sydd fwyaf cysylltiedig â phwysau gan ail gartrefi a llety gwyliau gan gynnwys AirBnB.

218 Watts, B., Bramley, G., Fitzpatrick, S., McMordie, L., Pawson, H., a Young, G. (2022) *The homelessness monitor: Great Britain 2022*. Llundain: Crisis. <https://www.crisis.org.uk/ending-homelessness/homelessness-knowledge-hub/homelessness-monitor/about/the-homelessness-monitor-great-britain-2022/>. P.74.

Ffigur 5.4: Cyfraddau digartrefedd craidd cyffredinol fesul 100 o aelwydydd yn nhair gwlad Prydain Fawr 2012-23



Ffynonellau: fel yn Ffigur 5.3.
Sylwer: Mae ffigurau'r Alban a Lloegr ar gyfer 2023 yn deillio o amcanestyniadau a gyhoeddwyd yn gynharach (mae'r amcangyfrifon yn dyddio o'r gwanwyn 2023), ond gydag addasiad i ffigurau 2022 a 2023 yn rhannol i adlewyrchu data economaidd mwy diweddar sy'n cael ei weithio drwy'r model rhagamcanu, tra bo ffigurau Cymru ar gyfer 2023 yn deillio o amcanestyniadau gwaelodlin newydd.

sylweddol uwch o lety dros dro anaddas na'r Alban a Lloegr, yn ogystal â chael lefelau sylweddol uwch o bobl yn syrffio soffas na'r Alban. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod gan Gymru gyfradd is o bobl yn cysgu allan na'r ddwy wlad arall.

Mae Ffigur 5.4 yn edrych ar y gymhariaeth rhwng gwledydd o gyfraddau digartrefedd craidd dros amser. Mae Cymru'n gyson yn dangos cyfraddau digartrefedd craidd ychydig yn uwch na'r Alban ond yn is o lawer na Lloegr, gan adlewyrchu profiad tebyg o farchnad dai â llai o bwysau na Lloegr, ond sefyllfa lai ffafriol na'r Alban o ran stoc tai cymdeithasol a gosod tai ac, o leiaf gellid dadlau, amddiffyn pobl sengl ddigartref yn gyfreithiol. Gwelwyd cynnydd ym mhob un o'r tair gwlad yn ystod y 3-4 blynedd diwethaf,


er bod y gostyngiad yn ystod y pandemig yn canolbwyntio'n bennaf ar Loegr. Y casgliad mwyaf trawiadol a welir o'r siart hwn yw bod Cymru fel petai'n dangos y cynnydd cryfaf yn ddiweddar, ac felly'n cydgyfarfod ar y lefel uwch a ddangosir ar gyfer Lloegr drwy gydol y cyfnod blaenorol.²¹⁹

5.3 Cyflwyniad i ragamcanion o ddigartrefedd craidd

Un o'r nodau allweddol sy'n sail i ddatblygu mesurau digartrefedd craidd fu uchelgais i wella ein gallu i gynyddu nifer y prosiectau yn y dyfodol a modelu effaith gwahanol fesurau polisi a'u rhoi ar waith, dan wahanol amodau cyd-destunol. Mae'r ymchwil hwn yn adeiladu ar fframwaith modelu presennol

219 Dylai'r datganiad hwn gael ei gymhwyso drwy nodi bod y data cymharol a'r amcangyfrifon ar gyfer yr Alban a Lloegr dros y 1-2 flynedd diwethaf yn y siart hwn yn amcanestyniadau a gyhoeddwyd yn 2023 ar sail mewnbynnau data a gafodd eu diweddarau tan ganol 2022 yn unig; byddai cynnwys data mwy diweddar yn cynyddu'r cyfraddau a ddangosir ar gyfer Lloegr

Ffigur 5.5: Nifer yr aelwydydd digartref craidd a ragamcanwyd yn ôl categori o dan senario waelodlin, Cymru 2012-2041



Ffynhonnell: Allbwn model rhagamcanu.

a ddefnyddiwyd mewn nifer o astudiaethau ymchwil eraill.²²⁰ Mae rhagor o wybodaeth am y model hwn ar gael mewn Adroddiad Technegol cynharach,²²¹ ac yn nodyn technegol yr adroddiad hwn.²²² Mae'r model yn rhagweld lefelau'r angen am dai a'r

niferoedd digartrefedd allweddol ar gyfer ardaloedd is-ranbarthol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban gyda ffocws mawr ar orwelion amser 2026, 2031 a 2041.

220 Gweler yn benodol Bramley, G. & Watkins, D. (2016) 'Housebuilding, demographic change and affordability as outcomes of local planning decisions: exploring interactions using a sub-regional model of housing markets in England', *Progress in Planning*, 104, tt. 1-35; Bramley, G. gyda Leishman, C., Cosgrove, P. a Watkins, D. (2016) *What Would Make a Difference? Modelling policy scenarios for tackling poverty in the UK*. Caeredin: Prifysgol Heriot-Watt. <https://researchportal.hw.ac.uk/en/publications/what-would-make-a-difference-modelling-policy-scenarios-for-tackl>; a Bramley, G. (2019) *Housing Supply Requirements across Great Britain for low-income households and homeless people. Research Report for Crisis and the National Housing Federation. Main Technical Report*. Caeredin. Prifysgol Heriot-Watt. <https://researchportal.hw.ac.uk/en/publications/housing-supply-requirements-across-great-britain-for-low-income-h>.

221 Gweler Bramley, G., (2021) *Research on Core Homelessness and Homeless Projections. Technical Report on New Baseline Estimates and Scenario Projections for Scotland and Wales*. Caeredin: Prifysgol Heriot-Watt. <https://researchportal.hw.ac.uk/en/publications/research-on-core-homelessness-and-homeless-projections-technical--2>

222 Bramley, G. (2025) *Core Homeless Estimates and Projections for Wales as reported in the Homelessness Monitor Wales 2025: Technical Note*. Caeredin: Prifysgol Heriot Watt. <https://doi.org/10.17861/D9V8-8W03>

Roedd yr amcangyfrifon a’r amcanestyniadau²²³ blaenorol yn ystyried y tarfu a’r mesurau arbennig a ysgogwyd gan bandemig COVID-19, ond mae mwy o sylw nawr ar yr heriau economaidd a demograffig sy’n gysylltiedig â’r argyfwng costau byw, amodau’r farchnad dai a thueddiadau o ran mudo. Fel mew’n adroddiadau Monitro blaenorol, rydym yn ystyried nifer o senarios polisi amrywiol (11 eleni) yn erbyn amcanestyniad gwaelodlin, drwy redeg y model rhagamcanu ymlaen dros 19 mlynedd gyda phob polisi yn ei le. Rhestrir y rhain i gyd yn nhabl 5.3 yn adran 5.5 isod.

5.4 Yr amcanestyniadau gwaelodlin

Mae ein hamcanestyniadau gwaelodlin yn adlewyrchu senario ‘busnes fel arfer’ sy’n cynnwys rhagdybiaethau economaidd niwtral/gofalus ac amcanestyniadau demograffig canolog presennol ar gyfer y Deyrnas Unedig, gan ymgorffori newidiadau polisi sy’n gysylltiedig â digartrefedd dim ond lle mae’r gwaith gweithredu wedi dechrau’n sylweddol. Mae Ffigur 5.5 yn dangos effaith y senario waelodlin ar ddigartrefedd craidd yng Nghymru ac yn rhoi darlun o gymedroli o ran cyfradd y cynnydd yn dilyn y cynnydd sydyn hyd at 2022, gyda thwf cymedrol mewn niferoedd absoliwt hyd at 2036, ac yna cynnydd cyflymach rhwng 2036 a 2041. Yn y darlun cyffredinol hwnnw, rhagwelir y bydd cynnydd cymedrol yn y niferoedd sy’n cysgu allan a llety anghonfensiynol, nifer statig mewn hostelau, gostyngiad yn y lle cyntaf a ddilynir gan gynnydd cyflym yn nes ymlaen mewn llety dros dro anaddas, a chynnydd cymedrol yn y tymor hwy o ran y niferoedd sy’n syrffio soffas. Mae’r ffactorau sy’n sail

i’r newidiadau hyn yn cynnwys perfformiad cymharol wael yr economi yng Nghymru, pwysau poblogaeth a mudo, rhenti yn codi, tlodi cynyddol a pharhad polisiâu budd-daliadau lles cyfredol a phrosesau uwchraddio.

5.5 Effeithiau senarios polisi gwahanol

Yn yr adran hon rydym yn rhagweld canlyniadau digartrefedd craidd dros yr ugain mlynedd nesaf, drwy brofi effaith un ar ddeg o wahanol newidiadau polisi yn systematig ar y senario waelodlin.²²⁴ Er bod y prif bwyslais ar effaith y senarios hyn ar ddigartrefedd craidd yn ei gyfanrwydd, rydym hefyd yn ystyried yr effeithiau ar bum elfen digartrefedd craidd ar wahân, gan wneud sylwadau byr ar yr effeithiau ar geisiadau digartrefedd statudol ehangach a chyfanswm y llety dros dro. Cyflwynir y senarios a brofwyd yn nhabl 5.3.

Gall rhai o’r senarios hyn adlewyrchu agendâu polisi cyfredol yng Nghymru a/neu ar draws y Deyrnas Unedig (gweler pennod 3), gan gynnwys cynigion sy’n cael eu datblygu’n weithredol (e.e. Ailgartrefu Cyflym) neu eu gweithredu ar raddfa gyfyngedig (Tai yn Gyntaf). Enghraifft arall yw’r senario sy’n ymwneud â diddymu’r maen prawf angen blaenoriaethol yn llwyr, y tu hwnt i’w estyniad diweddar i bobl sy’n cysgu allan, cam sydd bellach yn rhan o gyfeiriad polisi yng Nghymru (gweler pennod 3). Rydym yn amcangyfrif effaith y newid hwnnw wrth iddo gael ei gyflwyno’n raddol dros chwe blynedd,²²⁵ yn seiliedig ar dystiolaeth ein gwaith modelu llif a stoc digartrefedd a rhai cysylltiedig ar draws Cymru a’r Alban. Mae senarios modelu eraill yn fwy damcaniaethol, gan gynnwys y rheini sy’n canolbwyntio ar welliannau lles, er eu bod

Tabl 5.3: Senarios polisi a brofwyd drwy’r model amcanestyniadau ar gyfer Cymru yn ystod y cyfnod 2022-41

Enw Llaw-fer	Disgrifiad
Llinell sylfaen	Mae’r senario ‘busnes fel arfer’ yma’n golygu rhagdybiaethau economaidd niwtral/gofalus ac amcanestyniadau demograffig canolog presennol ar gyfer y Deyrnas Unedig, ac ymgorffori newidiadau polisi sy’n gysylltiedig â digartrefedd dim ond lle mae’r gwaith gweithredu wedi dechrau’n sylweddol.
Mynegeio Lwfans Tai Lleol	Yn dilyn diweddarau cyfraddau’r Lwfans Tai Lleol i lefel y 30ain canradd o ran rhenti preifat yn yr hydref 2023, mae’r senario hwn yn disodli’r llinell sylfaen (sefydlog mewn termau nominal gyda chynnydd bob pum mlynedd) gan dybio y bydd y Mynegai Prisïau Defnyddwyr (CPI) yn codi bob blwyddyn.
Codi Lwfans Tai Lleol	Codi’r Lwfans Tai Lleol i lefel ganolrifol ym mhob ardal awdurdod lleol a chynnal lefel gymharol mewn termau real drwy fynegeio (cymharer â dewisiadau amgen o 30ain canradd gyda mynegeio CPI, neu ddim ond ail-sylfaenu bob pum mlynedd).
Arferion gorau o ran atal	Atal yn fwy helaeth ac effeithiol: cynyddu cyfran yr ymgeiswyr sy’n ymgysylltu ag atal tuag at yr uchafswm, er enghraifft defnyddio opsiynau yn y sector rhentu preifat a chyngor/ cymorth ariannol, ond yn seiliedig ar y fframwaith deddfwriaethol presennol. Sylwer, o ystyried y data a’r dystiolaeth gyfyngedig, nid yw’r senario hwn yn modelu dyletswyddau atal cyfreithiol newydd arfaethedig ar gyrff cyhoeddus eraill.
Dyraniad Tai	Cynyddu cyfran yr holl dai cymdeithasol net a osodir i aelwydydd digartref 60% o’i gymharu â’r cyfnod sylfaen, a dyrannu hyd at 20% o’r tai cymdeithasol net yn uniongyrchol i aelwydydd digartref craidd (yn ychwanegol at y rhai sy’n cael eu lletya’n barod).
Diddymu gwahaniaethu angen blaenoriaethol	Diddymu’r maen prawf angen blaenoriaethol dros gyfnod o chwe blynedd (2024-2030). Mae’r sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr effaith a fodelwyd i’w gweld yn y lefelau amrywiol o niferoedd digartrefedd allweddol yng Nghymru o’i gymharu â’r Alban (lle diddymwyd angen blaenoriaethol yn 2012), gan ganiatáu ar gyfer newidynnau eraill yn y modelau rhagfynegi. Rydym yn tybio y gellir priodoli hanner y gwahaniaeth i angen blaenoriaethol. Tybir bod y diddymiad mewn perthynas â chysgu allan wedi digwydd yn ystod y cyfnod sylfaen (h.y. 2020-23).
Mesurau CC a thlodi	Adfer ychwanegiad o £20 yr wythnos at lwfans personol CC, rhoi terfyn ar aros pum wythnos am y taliad CC cyntaf, atal tynnu dyledion o fudd-daliadau, lleihau ceisiadau/ adolygiadau a fethwyd mewn perthynas â Thaliad Annibyniaeth Personol, gwella Cymorth Lles Lleol (mae’r mesurau hyn yn targedu nodweddion lleihau amddifadedd y system nawdd cymdeithasol bresennol).
Gostyngiad Tai yn Gyntaf a SMD	Datblygu darpariaeth Tai yn Gyntaf, gyda chynnydd cysylltiedig mewn gwasanaethau adsefydlu ar gyfer pobl sy’n gaeth i sylweddau a throseddu, gan arwain at ostyngiad cynyddol mewn llety hostel ac ati a chyfraddau troseddu. Mae’r opsiwn a ddangosir yn cyfateb fwy neu lai i ddwbl y lefel perfformiad cyfredol ym mhoblogaeth pro rata yr Alban (tua 1300 o denantiaethau Tai yn Gyntaf newydd y flwyddyn hyd at 2031, gan ostwng ar ôl hynny).
Cyflenwad Tai	Cynnydd yn y cyflenwad tai rhent cymdeithasol newydd (a chyffredinol) y tu hwnt i’r ymrwymïadau presennol, h.y. oddeutu 64% (hyd at 3,700 o dai cymdeithasol wedi eu cwblhau bob blwyddyn), gyda’r cyflenwad newydd yn cael ei dargedu at angen (yn seiliedig ar fformiwla) ac yn rhannol ar ddarparu lle yn hytrach na hostel (h.y. darparu lle addas i gyn-breswylwyr hosteli).
Cynnydd mwy yng nghyfraddau CC	Mae hyn yn debyg i’r senario ‘CC a thlodi’ ond gyda 3 gwaith yn fwy o lwfansau personol CC (£60 yr wythnos).
Cydbwysedd rhanbarthol	Codi cyfraddau twf economaidd yn is-ranbarthau Prydain Fawr y tu hwnt i Lundain a De-ddwyrain Lloegr er mwyn dileu’r bwlch twf i raddau helaeth (gan gynnwys gwelliannau penodol i dwf GVA a mewnfudo domestig net i Gymru).
Twf economaidd uwch	Ar y cyd, cyflawni twf economaidd uwch ledled y Deyrnas Unedig, law yn llaw â lefel ychydig yn uwch o fewnfudo net (i bob pwrpas +0.5% y flwyddyn o dwf gwerth ychwanegol gros ar gyfer Cymru, tua 1% ar gyfer y Deyrnas Unedig).

223 Gweler yr adroddiadau monitro blaenorol yn: <https://www.crisis.org.uk/ending-homelessness/homelessness-knowledge-hub/homelessness-monitor/>

224 Gellid dweud bod rhai o’r newidiadau hyn, er eu bod yn cynrychioli newidiadau sylweddol o’r cyfnod cyn COVID-19, wedi eu cyhoeddi yn nogfen ddiweddar *Canllawiau Cynllunio* Llywodraeth Cymru (2021) a chyhoeddiadau cyllid cysylltiedig, a drafodwyd mewn mannau eraill; pwrpas y modelu yw ceisio dangos beth fyddai’r effeithiau’n debygol o fod ar ôl eu rhoi ar waith yn llawn.

225 Mae dewis cyfnod o chwe blynedd yn adlewyrchu cyfaddawd rhwng y cyfnod ychydig yn hirach lle cafodd y prawf ei ddileu’n raddol yn yr Alban (bron i ddeng mlynedd) a’r ffaith y gellid dadlau bod y broses o ddileu’n raddol yn llai beichus yng Nghymru a’r Alban yng nghyd-destun dyletswyddau atal a lliniaru sy’n ddall i angen blaenoriaethol ac estyniad yr angen blaenoriaethol i bobl sy’n cysgu allan sydd eisoes wedi ei gyflwyno (gweler pennod 3).

yn adlewyrchu argymhellion elusennau mawr gan gynnwys Sefydliad Joseph Rowntree ac Ymddiriedolaeth Trussell.²²⁶

Mae rhai cyfyngiadau ar ein gallu i fodelu senarios y byddem yn ddelfrydol yn dymuno eu modelu. Mae'r rhain yn cynnwys cyfyngiadau sy'n ymwneud â data ar allu'r model i ddarparu rhagolygon o effeithiau mesurau penodol, gan gynnwys, er enghraifft, y rheini a allai gael eu defnyddio i gyfyngu ar droi pobl allan yn y dyfodol o'r math a ddefnyddir mewn modelau ar gyfer yr Alban a Lloegr.²²⁷ Nid yw polisiau posibl eraill yn y dyfodol wedi cael eu nodi'n ddigon clir eto i'w modelu'n llawn, gan gynnwys newidiadau arfaethedig sy'n ymwneud â dyletswyddau atal ar gyrrff cyhoeddus eraill, a diwygiadau pellach i'r sector rhentu preifat. Mae trafodaethau arwyddocaol yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd ynghylch newidiadau posibl i fudd-daliadau lles, gan ganolbwyntio'n benodol ar y terfyn dau blentyn a'r Cap Budd-dal. Rydym yn cynnig amcangyfrif ar wahân o effaith bosibl newidiadau yn y maes hwn, ar sail dadansoddiad o arolwg perthnasol y llywodraeth, ond nid ydym eto wedi cyfuno'r senarios hyn â'r model rhagamcaniadau cyffredinol.

Mater o farn yw graddfa'r newid rydym yn ei fodelu mewn perthynas â pholisiau penodol. Mewn rhai achosion, y bwriad yw cynrychioli dyfarniad ynghylch y raddfa ymarferol fwyaf tebygol (mae hyn yn wir mewn perthynas â senarios Dyraniadau Tai, Tai yn Gyntaf, Ffyniant Bro, a Thwf Economaidd) neu derfyn rhesymegol unrhyw newid o'r fath (er enghraifft, yn achos senarios Lwfans Tai Lleol, y terfyn fyddai dileu'r holl fylchau rhwng lefelau rhent a chyfraddau Lwfans Tai Lleol). Mewn achosion eraill, mae'r maint penodol yn adlewyrchu barn resymol – ond mae'n anochel ei bod yn fympwyl i ryw raddau – ar

yr hyn a allai fod yn bosibl ac yn ddymunol (mae hyn yn wir mewn perthynas â'r cynnydd o 60% yn y cyflenwad tai a'r 'cynnydd sylweddol' mewn cyfraddau CC).

Effeithiau dros amser

Mae Ffigur 5.6 yn dangos effeithiau'r un ar ddeg senario polisi ar dri phwynt mewn amser – y tymor byrrach (2026), y tymor canolig (2031) a'r tymor hwy (2041). Mae polisiau'n cael eu gosod o'r chwith i'r dde o ran maint eu heffaith yn y tymor hir.

Y polisi sy'n dod i'r brig o ran effaith hirdymor yw codi'r Lwfans Tai Lleol (i lefel rhent ganolrifol) a chynnal y sefyllfa honno drwy fynegeo rhenti yn y dyfodol. Mae hyn yn cyd-fynd â'r gwaith dadansoddi blaenorol gan ddefnyddio'r model hwn. Mae'n ddiddorol nodi, fodd bynnag, fod graddfa'r effaith yn tyfu o lefel gymharol fach yn y tymor byr. Mae hyn yn tanlinellu bod cryfder yr effaith a welwn dros y tymor hwy yn cael ei sbarduno gan fynegeo cyfraddau Lwfans Tai Lleol gyda rhenti dros amser, yn ogystal ag yn y man cychwyn. Mae'r opsiwn Lwfans Tai Lleol canolradd o'i fynegeo ar ei lefel bresennol ond dim ond i'r CPI, nid rhenti, yn cael effaith lai, yn enwedig i ddechrau.

Mae'r senario dyraniadau tai bron yr un mor bwysig â chodi a mynegeo Lwfans Tai Lleol yn y tymor hwy, ond mae'n cael yr effeithiau mwyaf o bell ffordd yn y tymor byr a chanolig. Mae dwy elfen yn perthyn i'r senario hwn: yn gyntaf, mae cyfran yr holl eiddo rhent cymdeithasol i denantiaid newydd sy'n mynd i aelwydydd digartref yn y senario hwn yn cynyddu'n sylweddol, o 43% yn ei blwyddyn sylfaen i lefel sylweddol uwch, sef 63%, sy'n golygu cynnydd o 47%. Er gwaethaf y cynnydd diweddar, mae lle i gyfrannu mwy, yn enwedig o sector y cymdeithasau tai (gweler pennod

Ffigur 5.6: Maint effeithiau senarios polisi dethol ar ddigartrefedd craidd ar dri phwynt amser (canran y gwahaniaeth rhwng llinell sylfaen o ran nifer ciplun yr aelwydydd digartrefedd craidd)



Ffynhonnell: Efelychiadau'r awdur gan ddefnyddio model rhagamcanu.

2). Mae'r ail elfen, sef yr elfen allweddol, yn cynnwys dyraniadau uniongyrchol i aelwydydd digartrefedd craidd, yn ychwanegol at beth bynnag sydd wedi digwydd o'r blaen, hyd at 20% o'r tai gosod net sydd ar gael. Mae sicrhau bod yr elfen gyntaf ar waith yn gwneud yr ail yn fwy derbyniol i landlordiaid cymdeithasol ac eraill a allai fod yn poeni bod un grŵp o aelwydydd digartref (h.y. y rhai sy'n profi digartrefedd craidd) yn cael blaenoriaeth dros un arall (h.y. y rhai sy'n statudol ddigartref ond ddim yn ddigartref craidd, gweler adran 5.1 uchod). Er ei fod yn rhoi mwy o flaenoriaeth i'r ddau grŵp o aelwydydd digartref dros grwpiau eraill mewn angen, dylid pwysleisio y byddai cyfran sylweddol ar gael o hyd i aelwydydd nad ydynt yn ddigartref.

Er bod y senario dyraniadau tai yn amlwg yn cael effaith fawr ar yr holl orwelion amser, gan gynnwys y tymor byr, mae effaith y rhan

fwyaf o'r polisiau sy'n weddill yn cynyddu dros amser, gyda mwy o gydbwysedd rhanbarthol a thwf economaidd yn tueddu i ddod ag effeithiau mwy yn y tymor hwy yn unig, tra byddai cyflenwad tai, mesurau budd-daliadau lles a senarios Tai yn Gyntaf yn dod ag effeithiau sylweddol yn y tymor canolig yn ogystal â'r tymor hwy. Mae'r ffaith y rhagwelir y byddai llawer o senarios polisi yn cael effaith gymharol gyfyngedig yn y tymor byr yn adlewyrchu y byddent fel arfer yn cymryd dipyn o amser i'w gweithredu ac oherwydd yr oedi o ran amser sy'n rhan o'n model efelychu, yn enwedig ar gyfer effeithiau mwy anuniongyrchol (e.e. ar leihau digartrefedd drwy gynyddu incwm).

Mae effaith Tai yn Gyntaf yn cynyddu fwyaf yn y cyfnod canol, am mai dyna sut rydym wedi ei graddoli, er mwyn dal i fyny â'r ôl-groniad o ran angen, er ei fod yn dal i gael rhywfaint

226 Gweler yr enghraifft: Sefydliad Joseph Rowntree (2024) *A protected minimum floor in Universal Credit*. York: Ymddiriedolaeth Joseph Rowntree. <https://www.jrf.org.uk/social-security/a-protected-minimum-floor-in-universal-credit>; a Trussell Trust (2024) *The Cost of Hunger and Hardship*. Llundain: Ymddiriedolaeth Trussell. <https://www.trussell.org.uk/news-and-research/publications/report/the-cost-of-hunger-and-hardship>

227 Watts, B. Bramley, G., Pawson, H., Young, G., Fitzpatrick, S. & McMordie, L. (2022) *The Homelessness Monitor: England 2022*. Llundain: Crisis. <https://www.crisis.org.uk/ending-homelessness/homelessness-monitor-england-2022/>; Watts, B., Bramley, G., Fitzpatrick, S., Pawson, H., McMordie, L & Young, G. (2024) *The Homelessness Monitor: Scotland 2021*. Llundain: Crisis. <https://www.crisis.org.uk/ending-homelessness/homelessness-monitor-scotland-2024/>

o effaith ychwanegol yn ddiweddarach. Hefyd, mae'r boblogaeth amddifadedd difrifol a lluosog (SMD) anghenus a nodir yng Nghymru yn llai ar gyfartaledd nag yn yr Alban, sy'n lleihau'r cyfle i Dai yn Gyntaf leihau digartrefedd craidd. Mae'r polisi hwn yn gweithredu'n bennaf drwy leihau nifer y bobl mewn hostelau a'r cyfraddau troseddu yn y tymor hwy.

Bwriad yr opsiwn atal yw cael awdurdodau lleol i gynyddu'r gyfran o achosion atal a'r amrywiaeth o fathau o gymorth atal a gynigir hyd at y lefel a ddangosir gan awdurdodau sy'n perfformio'n well. O ystyried y cyfyngiadau yn y data presennol, mae'n debygol na fydd effeithiau gweithgarwch atal gwell yn cael eu pwysleisio ddigon yn y model rhagamcanu hwn. Ar ben hynny, mae'n bwysig nodi bod yr amcanestyniadau hyn wedi eu cyfyngu i'r cyfyngiadau cyfreithiol presennol ar gyfer atal. Felly, nid yw'n modelu effeithiau cynigion i gyflwyno dyletswyddau atal newydd ar gyrff cyhoeddus ehangach, cynigion ar gyfer dyletswydd newydd i helpu pobl i ddal gafael ar lety, na chynigion i ymestyn y ddyletswydd atal i'r rheini sydd mewn perygl o fod yn ddigartref yn ystod y chwe mis nesaf.

Mae'r mesurau sy'n ymwneud â budd-daliadau lles yn cael eu modelu i gael effeithiau tebyg, gan leihau digartrefedd craidd 8% yn y tymor hir, gydag oddeutu traean o'r effaith honno yn y tymor canolig. Mae peth o'r gwaith archwiliadol – sy'n defnyddio'r Arolwg o Adnoddau Teulu – ar fater amserol y terfyn dau blentyn yn awgrymu y gallai newidiadau i hwn a pholisïau cysylltiedig (e.e. cyfanswm y Cap Budd-dal) leihau digartrefedd craidd tua 10% yn y tymor canolig.

Mae'r opsiwn cyflenwad tai (cynnydd o tua 60% yn nifer y tai rhent cymdeithasol a gwblheir, wedi ei dargedu at angen, gyda chysylltiad penodol â lleihau niferoedd mewn hosteli) yn rhoi trefn debyg o ran effaith (9% yn y tymor hir, 5% yn y tymor canolig). Gellid ehangu'r opsiwn hwn ymhellach, gydag adnoddau ac ewyllys wleidyddol, a byddai potensial i gael mwy o effaith.

Cafodd terminoleg 'ffyniant bro' ei dileu o enw adran berthnasol llywodraeth y Deyrnas Unedig yn dilyn ethol gweinyddiaeth Lafur

newydd ym mis Gorffennaf 2024, ond mae'r cysyniad o geisio gwella perfformiad economaidd cymharol ac absoliwt rhanbarthau sydd ar eu hôl hi yn dal i fod ar yr agenda polisi ar gyfer gweinyddiaethau'r Deyrnas Unedig a'r gweinyddiaethau datganoledig. Rydym yn modelu'r senario cydbwysedd rhanbarthol hwn yn bennaf drwy godi'r cyfraddau twf economaidd yn anghymesur fwy ar gyfer yr (is-)ranbarthau sydd ar eu hôl hi ar yr un pryd â chodi'r gyfradd twf gyfartalog gyffredinol a newid rhai paramedrau sy'n ymwneud â mudo ac ardaloedd twf penodol. Mae'r canlyniadau yn dangos y byddai hyn yn cael effeithiau buddiol eithaf sylweddol ar ddeilliannau digartrefedd craidd yng Nghymru o tua 13% yn y tymor hwy ond dim ond tua thraean o hynny yn y tymor canolig. Mae hyn ychydig yn well na'r canlyniad o dwf economaidd cenedlaethol uwch yn gyffredinol, sy'n awgrymu bod y senarios hyn yn gorgyffwrdd yn sylweddol ond, i Gymru fel gwlad sydd ar ei hôl hi'n economaidd, gall polisi datblygu rhanbarthol fod yn bwysicach na thwf cyffredinol. Yn ogystal â hynny, mae gan dwf uwch y potensial i fod yn fendith gymysg, er enghraifft, oherwydd ei bwysau cysylltiedig ar brisiau tai, rhenti a mudo.

Byddai dileu angen blaenoriaethol yn raddol yn cael effaith net o leihau digartrefedd craidd, yn enwedig yn y tymor canolig, gyda'r drydedd effaith fwyaf yn 2031 (-5.7%), ond llai yn y tymor hwy. Byddai ei effaith fwyaf ar elfen fwyaf digartrefedd craidd, sef syrffio soffas, a fyddai'n gostwng 14% yn y tymor hir, ond byddai hyn yn cael ei wrthbwysu rhywfaint gan gynnydd (wrth gadw'r polisïau eraill yn gyfartal) mewn llety dros dro anaddas. Yr hyn sy'n arwyddocaol iawn o ran rheoli a chost gwasanaethau digartrefedd, *wrth gadw'r cyd-destun polisi ehangach yn gyfartal* (eto), y byddai'r mesur hwn yn cynyddu cyfanswm y ceisiadau digartrefedd a chyfanswm y llety dros dro. Byddai'r cynnydd hwn yn eithaf sylweddol yn y tymor hir (25% a 47% yn y drefn honno) pe na bai elfennau eraill o'r pecyn polisi a drafodir uchod yn cael eu gweithredu hefyd, ond nid ydynt yn anochel. Gyda'r holl fesurau polisi ar waith, byddai'r niferoedd hyn yn dal yn is yn y tymor hir, sef 16% a 18% yn y drefn honno. Gallai mesurau polisi ychwanegol, gan gynnwys cynigion i gryfhau

Tabl 5.4: Effaith un ar ddeg senario polisi yn unigol ar bum elfen digartrefedd craidd ar orwel amser 2041 (newid canrannol)

Senario	Cysgu allan	Anghonfensiynol	Hosteli ayb	Llety Dros Dro Anaddas	Syrffio Soffa
Mynegeio Lwfans Tai Lleol	-0.7%	-0.7%	0.0%	-19.9%	-0.2%
Codi LHA i lefel ganolrifol	-2.2%	-2.0%	0.0%	-74.2%	-0.5%
Atal Mwy	-0.7%	-0.1%	0.0%	-4.3%	0.0%
Dyraniad Tai	-30.7%	-2.5%	0.0%	-28.2%	-18.7%
Diddymu Angen Blaenoriaethol	0.2%	-0.8%	0.0%	13.0%	-14.4%
Amddifadedd/CC	-4.6%	-0.8%	0.0%	-16.9%	-6.6%
Tai yn Gyntaf a SMD	-7.4%	-0.6%	-22.1%	-6.7%	0.2%
Cyflenwad Tai	2.6%	0.5%	-31.5%	-23.1%	3.3%
Cynnydd Uwch mewn CC	-8.3%	-0.9%	0.0%	-14.2%	-7.3%
Cydbwysedd Rhanbarthol	-5.8%	-0.5%	0.0%	1.3%	-9.9%
Twf Economaidd Uwch	-8.3%	-0.9%	0.0%	-14.2%	-7.3%

Ffynhonnell: Efelychiadau'r awdur gan ddefnyddio model rhagamcanu.

gweithgarwch atal a lleihau'r defnydd o lety dros dro (gweler pennod 3, adran 3.8) leihau'r effeithiau hyn o bosibl.

Effeithiau ar elfennau digartrefedd craidd

Mae Tabl 5.4 yn crynhoi effeithiau pob un o'n un ar ddeg senario polisi ar bum elfen digartrefedd craidd ar ein gorwel amser hiraf (h.y. yn 2041). Y niferoedd yw'r gwahaniaethau mewn termau canrannol o'r sefyllfa llinell sylfaen.

Mae'r canlyniadau'n awgrymu bod lefelau cysgu allan yn arbennig o sensitif i ddyraniadau tai (gan gynnwys dyrannu uniongyrchol i bobl ddigartref craidd), mewn termau cyfrannol, gan ddangos ymatebion mwy cymedrol i bron pob un o'r senarios polisi eraill a brofwyd, gyda Thai yn Gyntaf, newidiadau i Gredyd Cynhwysol, twf economaidd uwch, a chydbwysedd rhanbarthol yn cael effeithiau ychydig yn fwy cadarnhaol na'r lleill.

I'r gwrthwyneb, mae'r categori llety anghonfensiynol yn eithaf anodd ei symud rhyw lawer drwy'r senarios polisi a fodelwyd. Dyma'r sector y mae gennym y lleiaf o

wybodaeth amdano, ac nid yw'r model a ddefnyddir i'w ragweld felly yn rhoi llawer o wybodaeth, er ei fod yn awgrymu cysylltiad â mathau eraill o ddigartrefedd craidd.

Mae'r categori hosteli, ac ati, yn ein system fodelu, yn ddibynnol ar gyflenwad/polisi. Felly, yr unig strategaethau sy'n effeithio'n uniongyrchol arno yw'r senarios cyflenwi tai cymdeithasol a Tai yn Gyntaf - byddai gan y ddau o'r rhain y potensial i leihau niferoedd yn raddol. Y rhagdybiaeth yn yr achos olaf yw y byddai cyfran gymedrol o'r cyflenwad ychwanegol yn cael ei ddefnyddio i ddiwallu anghenion defnyddwyr nodweddiadol hosteli, o ran math, maint a lleoliad. Fel y nodwyd uchod, mae'r senario cyflenwad tai cymdeithasol yn un y gellid ei gynyddu ymhellach, gyda mwy o effaith o bosibl ar raddfa'r elfen hon o ddigartrefedd craidd (hyd at uchafswm, sy'n gysylltiedig â graddfa sylfaenol dybiedig y sector hosteli sydd i'w chadw).

Mae'r ystod ehangaf o fesurau polisi yn dylanwadu'n sylweddol ar lety dros dro anaddas. Mae'r fframwaith modelu'n adlewyrchu'r realiti bod y niferoedd hyn yn cael eu gyrru gan lefel bresennol a

newidiadau i'r ceisiadau digartrefedd a gyflwynir i'r awdurdod lleol, cyfanswm y llety dros dro, a llety dros dro anaddas ei hun yn y cyfnod blaenorol. Mae profiad o fodelu'r elfen hon o ddigartrefedd craidd yn Lloegr yn awgrymu mai dyma'r elfen fwyaf sensitif i anghydbwysedd o ran cyflenwad a galw, ac mae hyn yn adlewyrchu'n arbennig y profiad yn Llundain. Mae'r modelu ar gyfer Cymru hefyd yn awgrymu effeithiau cymesur eithaf sylweddol yn y sector hwn, er bod y niferoedd absoliwt yn y categori digartrefedd craidd hwn wedi bod yn is (tan yn ddiweddar). Byddai codi a mynegeo'r Lwfans Tai Lleol yn briodol er mwyn dileu'r bylchau rhwng rhenti'r farchnad a'r swm y gellir ei gymorthdalw drwy Fudd-dal Tai/CC yn lleihau llety dros dro anaddas hyd at 74% yn y tymor hwy. Byddai mwy o ddyraniadau tai rhent cymdeithasol i aelwydydd digartref gyda dyraniadau uniongyrchol sylweddol i bobl ddigartref graidd hefyd yn helpu i leihau'r niferoedd hyn yn sylweddol (gostyngiad o 28%), a byddai hyn yn cael ei ategu drwy gynyddu'r cyflenwad tai cymdeithasol (23%). Gallai mesurau lles i leihau amddifadedd sy'n cynnwys Credyd Cynhwysol yn bennaf hefyd leihau'r niferoedd hyn yn sylweddol (17%), fel y gallai twf economaidd uwch (14%). Byddai gweithgarwch atal mwy grymus yn arwain at rywfaint o ostyngiadau ond (fel uchod) mae'n debyg bod y data a'r modelau presennol yn tanbrisió'r potensial yma. Un amod pwysig i'w nodi yma yw, gydag effeithiau mor fawr ar draws ystod eang o bolisiau, mae'n debygol y bydd lefel uchel iawn o orgyffwrdd (gweler isod). Mae ein modelu hefyd yn awgrymu, ac ystyried bod popeth arall yn gyfartal, y byddai'r senario dileu angen blaenoriaethol yn arwain at gynnydd o 14% mewn llety dros dro anaddas, er y byddai'r gostyngiadau mewn elfennau eraill o ddigartrefedd craidd (sef syrffio soffas, gweler isod) yn fwy na gwneud iawn am hynny.

Yn olaf, rydym yn ystyried yr effeithiau ar syrffio soffas, sef y categori digartrefedd craidd mwyaf. Mae'r model yn dangos mai'r polisi gyda'r effaith fwyaf yma fyddai cynyddu dyraniadau tai i aelwydydd digartref, gan gynnwys dyraniadau uniongyrchol i aelwydydd digartref craidd (gostyngiad o 19%). Mae'r maen prawf dileu angen blaenoriaethol hefyd yn cael ei fodelu i gael effaith sylweddol (gostyngiad o 14%) er ei fod yn cael ei wrthbwysu'n rhannol gan y cynnydd a ragwelir mewn llety dros dro anaddas a nodir uchod. Byddai manteision sylweddol hefyd yn ymwneud â syrffio soffas yn sgil rhai opsiynau polisi a gedwir yn ôl yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Credyd Cynhwysol sy'n ymwneud ag amddifadedd/newidiadau budd-daliadau (7-9%), polisiau ail-gydbwysu economaidd rhanbarthol mwy effeithiol, a thwf economaidd uwch (9-10% yr un).²²⁸

Er bod ein modelu'n canolbwyntio ar lefelau digartrefedd craidd, mae hefyd yn caniatáu sylwadau ar effeithiau senarios allweddol ar lefelau digartrefedd statudol a llety dros dro. Yn hyn o beth, mae effeithiau tebygol dileu angen blaenoriaethol, wrth gwrs, yn arbennig o bwysig. Mae ein model yn awgrymu y gallai mynd ar drywydd y senario hwn ar ei ben ei hun arwain at gynnydd yn nifer y ceisiadau a chyfanswm llety dros dro o tua 25% erbyn 2031, ac erbyn 2041 gallai cyfanswm y llety dros dro gynyddu 47% (gan dybio nad oes datblygiadau polisi/ymarfer eraill). Mae hyn i'w ddisgwyl, gan y byddai grŵp llawer ehangach o aelwydydd o bosibl yn cael mynediad at lety dros dro a'r prif ddyletswyddau ailgartrefu, ac ni fyddai nifer o'r rhain yn rhai digartref craidd, gan gynnwys llawer o 'aelwydydd posibl' cudd teuluol a rhai nad ydynt yn deulu²²⁹ a rhentwyr preifat. Wrth gwrs, byddai gan newidiadau o'r fath oblygiadau sylweddol ar gost gwasanaethau digartrefedd. Wedi dweud hynny, mae ein model hefyd yn dangos y byddai'r pecyn llawn o'r holl bolisiau arfaethedig, gan gynnwys dileu angen blaenoriaethol, yn gweld defnydd

a niferoedd llety dros dro yn lleihau hefyd, er gwaethaf effaith yr estyniad ar gymhwysedd am gymorth statudol. Er enghraifft, byddai cyflenwad tai uwch, Tai yn Gyntaf, newidiadau lles a thwf economaidd uwch yn lleihau cyfanswm y llety dros dro yn sylweddol hyd yn oed yng nghyd-destun rhwyd diogelwch cyfreithiol ehangach.

Haenau o bolisiau cymalog

Hyd yma, rydym wedi ystyried effaith gwahanol senarios polisi ar eu pen eu hunain. Fodd bynnag, mae'r un mor bwysig ystyried beth y gellir ei gyflawni drwy weithredu cyfuniadau o opsiynau polisi, neu yn wir (os rhoddwyd blaenoriaeth uchel iawn i ddigartrefedd craidd) pob polisi ymarferol ac effeithiol. Mae'r dadansoddiad a gyflwynir uchod yn rhoi rhywfaint o arweiniad cychwynnol i 'beth sy'n gweithio', ond nid yw hynny o reidrwydd yr un fath â'r effaith o ychwanegu'r polisi hwnnw at eraill sydd eisoes ar waith. Weithiau, gall ychwanegu polisi newydd weithio mewn ffordd synergidd i gynyddu'r effaith fel ei fod yn fwy na swm ei rannau. Fodd bynnag, yn fwy cyffredin, po fwyaf o bolisiau y byddwch yn eu dilyn, y lleiaf y byddant yn ei gyflawni, o'i gymharu â'r hyn y gellid bod wedi ei ddisgwyl o edrych arnynt ar eu pen eu hunain. Efallai mai'r rheswm am hynny yw bod y gwahanol bolisiau i raddau gwahanol yn helpu'r un bobl, ac efallai y bydd y gronfa o'r rhai sydd ar ôl 'mewn perygl' yn mynd yn llai os bydd mwy o bolisiau ar waith.

O ddefnyddio'r dull gweithredu lluosog hwn, mae'r drefn y mae polisiau'n cael eu dilyn yn bwysig. Wrth fodelu 'effeithiau stacio', byddai ein dull gweithredu arfaethedig yn golygu blaenoriaethu mesurau y gellir eu rhoi ar waith ar unwaith a chael effeithiau cyflym, wedi eu dilyn gan bolisiau mwy uniongyrchol sy'n ymwneud â thai, gan flaenoriaethu'r rhai symlach neu haws eu gweithredu cyn y rhai mwy cymhleth. Byddai polisiau ymhellach yn ôl yn y gyfres wedyn yn rhai a fyddai'n cymryd mwy o amser i gael effaith, yn fwy

cymhleth i'w gweithredu, yn cynnwys ystod ehangach o sectorau, a'r gost fwyaf. Gan ddilyn yr egwyddorion hynny, rydym wedi creu cyfres o naw senario gan adeiladu ar ein llinell sylfaen, a rhedeg y model gyda phob elfen wedi ei hychwanegu yn ei thro. Dangosir y canlyniadau yn Ffigur 5.7, lle mae'r niferoedd yn cynrychioli'r gwahaniaeth rhifol mewn aelwydydd digartrefedd craidd ar bob adeg o'i gymharu â'r llinell sylfaen.

Mae'r dadansoddiad hwn yn dangos yn glir bod modd lleihau digartrefedd craidd yng Nghymru yn sylweddol, a hynny yn erbyn y senario llinell sylfaen amcangyfrifedig ac yn erbyn y lefelau a amcangyfrifwyd yn ein blwyddyn gwaelodlin (2022). Er bod rhai polisiau'n cymryd amser i gynyddu'n raddol, gellir gweithredu eraill (yn enwedig y senario dyraniadau tai) ar unwaith bron.²³⁰ Byddai gweithredu'r holl bolisiau a brofwyd yma yn arwain at ostyngiad o 30% yn y tymor byr (2026), 42% yn y tymor canolig (2031) a 51% yn y tymor hwy (2041). Ar ben hynny, byddai'r ffigur 2041 fel canran o aelwydydd yng Nghymru wedi gostwng 22% o'i gymharu â'r gyfradd yn 2019.


Mae'n ymddangos o'r gwaith modelu y byddai bwrw ymlaen â'r holl fesurau a brofwyd uchod gyda'i gilydd yn gallu haneru digartrefedd craidd dros y cyfnod nesaf, o'i gymharu â'r hyn y byddai wedi bod heb unrhyw newid mewn polisiau. Er y byddai'r senario hwn yn golygu bod rhifau digartrefedd craidd 51% yn is na'r rhagfynegiad sylfaenol yn gyffredinol, byddai llety dros dro anaddas wedi gostwng 83%, byddai hosteli i lawr 54%, byddai cysgu allan yn gostwng 45%, a syrffio soffas yn gostwng 39%. Byddai gostyngiadau amlwg hefyd mewn mesurau ehangach o ddigartrefedd statudol, sef tua 16% mewn ceisiadau digartrefedd a 18% yng nghyfanswm cyffredinol llety dros dro, hyd yn oed ar ôl caniatáu ar gyfer gwrthbwysu'r cynnydd yn y niferoedd hyn sy'n deillio o ddiddymu'r angen blaenoriaethol.

228 Mae Tabl 5.4 yn awgrymu y gallai cynnydd yn y cyflenwad tai gael effaith gadarnhaol net fach ar syrffio soffas. Mae rhagor o fanylion ar gael yn y Nodyn Technegol cysylltiedig ac mae'n ymwneud â'r model yn cofnodi goblygiadau ehangach ar gyfer cyfoeth cymharol yn erbyn tlodi mewn ardal marchnad dai ac aelwydydd eraill y tu hwnt i'r rheini sy'n wynebu digartrefedd craidd yn elwa ar gyflenwad cyffredinol uwch o gartrefi cymdeithasol.

229 Mae aelwydydd posibl cudd yn oedolion sengl, cyplau neu grwpiau teuluol sy'n byw gydag aelwyd arall.

230 Mae 2024 yn flwyddyn bontio, ac yn gyffredinol ni ellir disgwyl i newidiadau polisi fwydo drwodd erbyn hynny. Mae anghysondeb yn y model presennol sy'n effeithio ar fynegeo'r Lwfans Tai Lleol lle dangosir bod hyn yn cael effaith wrthnysig yn y flwyddyn honno, gan adlewyrchu anghysondeb yn y ffordd mae'r bwlch Lwfans Tai Lleol wedi cael ei fodelu yn y flwyddyn flaenorol (i'w ddatrys pan fydd y model yn cael ei ddiwygio a'i ddiweddarau nesaf).

Ffigur 5.7: Newid yng nghyfanswm y digartrefedd craidd o'i gymharu â gwaelodlin ar gyfer Cymru gan ychwanegu un ar ddeg senario polisi yn dilyn ei gilydd i leihau digartrefedd craidd yn y cyfnod hyd at 2041



Ffynhonnell: Efelychiadau'r awdur gan ddefnyddio model rhagamcanu.

Mae'r dadansoddiad dilyniannol yn tanlinellu ymhellach fod rhai o'r polisiâu a brofwyd yn cael mwy o effaith nag eraill. Byddai'r enillion mwyaf yn y tymor hwy yn deillio o (a) codi'r Lwfans Tai Lleol a'i fynegeo'n effeithiol, a (b) cynnydd mewn dyraniadau tai cymdeithasol i aelwydydd digartref, gyda mwy o fynediad uniongyrchol i aelwydydd digartref craidd. Byddai manteision ychwanegol yn cael eu gwireddu yng Nghymru o (c) dileu'r angen blaenoriaethol; (d) cynyddu'r cyflenwad tai cymdeithasol gyda thargedu priodol; (e) uwchraddio Tai yn Gyntaf; (f) ail-gydbwysio economïau gwahanol wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig yn llwyddiannus gan gynnwys Cymru a (g) trwsio nodweddion lleihau amddifadedd Credyd Cynhwysol. Mae'n werth pwysleisio bod pedwar o'r chwe mesur hyn, gan gynnwys un o'r rhai mwyaf dylanwadol (dyraniadau tai), yn faterion polisi datganoledig yn eu hanfod, tra bo Llywodraeth Cymru hefyd yn gallu cyfrannu at gydbwysedd a datblygiad economaidd rhanbarthol.

Nid yw nifer o'r polisiâu, a oedd fel petaent yn rhai buddiol yn Ffigur 5.7, yn ymddangos fel rhai sy'n rhoi llawer o fudd ychwanegol yng nghyd-destun y dadansoddiad dilyniannol hwn. Mae hyn yn berthnasol i'r opsiwn arferion atal gwell yn benodol, sydd fel petai'n gorgyffwrdd yr opsiynau Lwfans Tai Lleol bron yn gyfan gwbl. Fel y nodwyd uchod, fodd bynnag, mae problemau data sy'n gysylltiedig â modelu atal yn golygu ei bod yn annhebygol y byddwn yn sicrhau manteision posibl llawn gwell ymarfer a diwygiadau cyfreithiol yn y maes hwn; mae amrywiaeth eang o'r rhain yn cael eu dilyn drwy'r Papur Gwyn ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru (gweler pennod 3) ac maent yn debygol o sicrhau enillion ychwanegol o ran lleihau digartrefedd craidd. Mae'n ymddangos hefyd nad yw codi lwfans personol Credyd Cynhwysol yn ychwanegu fawr ddim at y gostyngiad mewn digartrefedd craidd o ystyried y mesurau eraill (gan gynnwys y pecyn sy'n gysylltiedig ag amddifadedd). Fodd bynnag, mae modelu archwiliadol ar ddata'r arolwg yn awgrymu y

gallai rhai mesurau budd-dal, gan gynnwys dileu'r terfyn dau blentyn, leihau digartrefedd craidd yn sylweddol (gweler uchod). Yn olaf, ymddengys nad yw twf economaidd uwch yn ychwanegu fawr ddim budd yn y cyd-destun hwn y tu hwnt i'r hyn y byddai gwell cydbwysedd rhanbarthol yn ei olygu, yn rhannol oherwydd ei effaith ar brisiau tai a rhenti.

Mae rhagor o fanylion am y ffynonellau a'r dulliau a ddefnyddiwyd i amcangyfrif niferoedd digartrefedd craidd diweddar a chyfnod sylfaenol ar gael yn ein [hadroddiad technegol](#).

6. Casgliad

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn wynebu pwysau difrifol iawn o ran digartrefedd, sydd fwyaf amlwg mewn perthynas â llety dros dro. Mae nifer yr aelwydydd mewn llety dros dro bellach bron i dair gwaith yn uwch na'r lefel a welwyd ym mis Mawrth 2020, ar ddechrau pandemig COVID-19. Mae'r defnydd uchel o lety dros dro yn peri pryder am nifer o resymau, yn enwedig am fod yn rhaid i awdurdodau lleol ddibynnu ar strategaethau problemus a dadleuol i'w reoli.

Mae'r ddibyniaeth uchel iawn ar lety Gwely a Brecwast yn arbennig o broblematig, ac mae bellach wedi cymryd lle lesio yn y sector preifat fel y prif fath o lety dros dro yn 2021, ac mae bellach yn cyfrif am 42% o leoliadau yng Nghymru. Gwelwyd deg gwaith yn fwy o deuluoedd yn cael eu rhoi mewn llety Gwely a Brecwast dros y pedair blynedd diwethaf, ac mae ein dadansoddiad o ddigartrefedd craidd wedi datgelu bod Cymru bellach yn dibynnu ar lety dros dro anaddas i raddau llawer mwy na Lloegr neu'r Alban. Nid yn unig mae llety o'r fath yn anaddas i'r rheini sy'n byw ynddo, ond mae'n ddrud ac yn anodd ei reoli: nodir erbyn hyn bod costau llety dros dro yn risg ariannol ddifrifol i awdurdodau lleol. Mae'r pwysau hyn hefyd yn arwain at aros yn hirach mewn llety dros dro a mwy o ddibyniaeth ar leoliadau y tu allan i'r ardal sy'n tynnu aelwydydd oddi wrth rwydweithiau cymorth presennol ac sy'n gallu creu tensiynau gyda'r awdurdodau 'derbyn'.

Yn fwy brawychus fyth yw'r gydnabyddiaeth helaeth gan awdurdodau lleol a rhanddeiliaid sector allweddol bod nifer o awdurdodau lleol yng Nghymru fel mater o drefn yn methu â rhoi llety dros dro i bobl sengl y mae dyletswydd arnynt i'w cynorthwyo, a'u bod yn cynnal rhestrau aros anghyfreithlon i reoli'r galw. Mae hyn yn sbarduno nifer y bobl sy'n cysgu allan sydd wedi cynyddu'n sylweddol ers yr isafbwynt yn dilyn yr ymateb cychwynnol i'r pandemig.

Mae amrywiaeth o ffactorau wedi sbarduno'r sefyllfa heriol hon o ran llety dros dro. Yr hyn sy'n arbennig o berthnasol yw effeithiau pandemig COVID-19 ar ddigartrefedd a'r ymateb Neb Heb Help yr oedd wedi ei ysgogi. Roedd y newidiadau mewn arferion a ysgogwyd gan y pandemig yn cynnwys aelwydydd a oedd wedi eu heithrio'n flaenorol o agweddau amddiffyn allweddol o dan gyfraith digartrefedd, ac fe'u mabwysiadwyd i raddau helaeth fel yr ymateb 'busnes fel arfer' drwy ymestyn yr angen blaenoriaethol i bobl yn cysgu allan yn 2022. Yn ddi-os, dros amser, mae hyn wedi arwain at roi nifer sylweddol o bobl sengl mewn llety dros dro mewn ffyrdd sy'n parhau i herio awdurdodau lleol, ond mae'n siŵr ei fod hefyd wedi atal rhagor o gynnydd mewn niiferoedd sy'n cysgu allan yng Nghymru.

Ffactor allweddol arall sy'n sbarduno'r pwysau hyn fu gostyngiad – a ganfyddir yn gyffredinol gan randdeiliaid yn y sector ac sy'n cael ei gefnogi gan ddata sydd ar gael – o ran argaeledd a mynediad at dai rhent preifat ar gyfer aelwydydd sy'n wynebu digartrefedd. Mae'r galw uchel am lai a llai o leoedd gwag yn y sector rhentu preifat wedi arwain at godi rhenti i lefelau sy'n aml yn afresymol i'r rheini sydd ar incwm isel neu sy'n derbyn budd-daliadau.

Mae'r cyd-destun tai problematig hwn yn gysylltiedig â'r gostyngiad o ran effeithiolrwydd y dyletswyddau atal a lliniaru pwysig a gyflwynwyd yn 2015 o ran datrys digartrefedd; mae hynny wedi sbarduno cefnogaeth gref ymysg rhanddeiliaid yn y sector tuag at y cynigion i gryfhau camau atal digartrefedd ymhellach fel y nodir yn y Papur Gwyn ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd Gyda'n Gilydd. A hwythau'n sownd yn y dull argyfwng yn rheoli pwysau ar lety dros dro, mae gallu timau tai awdurdodau lleol wedi dirywio o ran mynd ati'n rhagweithiol i atal neu liniaru digartrefedd yn gynnar drwy ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael o dan y ddeddfwriaeth bresennol, gydag anawsterau o ran cael mynediad at y sector rhentu preifat a negodi

â landlordiaid preifat yn ymwneud yn helaeth â'r tueddiadau hyn. Er bod mynediad at y sector rhentu cymdeithasol – ac yn enwedig stoc cymdeithasau tai – wedi gwella, nid yw hyn eto'n ddigon i wneud iawn am heriau ehangach, ac nid yw ychwaith yn gyson ar draws y wlad. Mae lefelau'r cyflenwad tai newydd ymhell o fod yn ddigonol i fynd i'r afael â'r pwysau hyn, gyda phryderon ychwanegol yn dod i'r amlwg nad yw natur stoc dai Cymru yn cyfateb i'r angen, yn enwedig o ran eiddo un ystafell wely.

Mae'r heriau hyn yn wynebu aelwydydd sydd mewn perygl o fod yn ddigartref ac awdurdodau lleol yng nghyd-destun yr argyfwng costau byw parhaus ac ar ôl dros ddegawd o ddiwygiadau lles sydd wedi lleihau'r adnoddau sydd ar gael i'r rheini ar incwm isel ac sydd wedi cynyddu amddifadedd a thlodi plant. Ar yr un pryd, mae'r adnoddau sydd gan awdurdodau lleol i ymateb i'r pwysau amrywiol hyn yn gyfyngedig iawn yn wyneb costau uwch a chyllidebau sy'n lleihau ac sy'n effeithio ar y sector cyhoeddus.

Mae newidiadau ehangach yn y sector cyhoeddus yn cynyddu'r galw am dai yn fwy uniongyrchol, gan gynnwys mesurau rhyddhau cynnar o'r carchar. Roedd y rhain yn destun cryn bryder i awdurdodau lleol gan eu bod yn cynyddu'r galw gan grŵp sy'n ymddangos yn arbennig o anodd darparu ar eu cyfer yn briodol ar adeg pan nad yw awdurdodau mewn sefyllfa i allu ymateb i'r pwysau ychwanegol yma. Mae heriau sy'n gysylltiedig â mudo hefyd yn thema allweddol yn y rhifyn hwn o'r monitor, gyda'r galw am dai yn cael ei sbarduno gan benderfyniadau cyflymach gan y Swyddfa Gartref ynghylch ceisiadau am loches a'r cyfnod rhybudd byr (sydd bellach wedi ei ymestyn o 28 i 56 diwrnod) a roddir i'r rheini sy'n cael penderfyniad.

Mae'r pwysau cynyddol hyn o ran digartrefedd wedi digwydd er gwaethaf proffil gwleidyddol uchel digartrefedd yng Nghymru a'r ymdrechion parhaus i fynd ar drywydd polisiâu sydd â'r bwriad penodol o roi diwedd ar ddigartrefedd a lleihau'r ddibyniaeth ar lety dros dro. Mae'r gofyniad i awdurdodau lleol ddatblygu a rhoi Cynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym ar waith wedi bod yn allweddol i'r

agenda hon. Mae'r cynlluniau hyn yn dal i gael eu datblygu mewn sawl ardal, fwy na dwy flynedd ar ôl yr adeg y bwriadwyd eu sefydlu. Ond mae ein harolwg o awdurdodau lleol yn dangos bod y Cynlluniau hyn yn dechrau cael effeithiau cadarnhaol mewn ardaloedd eraill, gan wella mynediad at dai sefydlog (gan gynnwys tai cymdeithasol) i aelwydydd digartref, hyrwyddo gwaith partneriaeth, ac (efallai'n groes i reddf) o ran gwella'r ddarpariaeth o lety dros dro sydd ar gael.

Mae'r cyd-destun cyllidol, economaidd-gymdeithasol a marchnad dai heriol a ddisgrifiwyd uchod yn amlwg yn llesteirio rhoi Cynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym ar waith yn fwy cyflym ac effeithiol. Pwysleisiodd awdurdodau lleol fod pwysau difrifol ar gapasiti staff ac adnoddau yn cyfyngu ar eu gallu i fynd ar drywydd arferion trawsnewidiol a newid polisi. Ond yn ogystal â materion adnoddau, fe ymddengys hefyd fod rhwystrau ideolegol a diwylliannol sylweddol o ran cynnydd. Mae ein data'n nodi'n glir bod tensiynau o hyd – gwrthwynebiad llwyr weithiau – rhwng yr agenda bolisi genedlaethol ar ddigartrefedd yng Nghymru ac agweddau rhai o staff awdurdodau lleol, gan gynnwys mewn perthynas ag ailgartrefu cyflym lle mae dibyniaeth barhaus ar fodolau ail-gartrefu â chymorth yn parhau.

Daeth y thema hon o ddatgysylltiad rhwng cyfeiriad polisi cenedlaethol a rhai safbwyntiau awdurdodau lleol i'r amlwg mewn perthynas â sawl maes arall, gan gynnwys ymestyn yr angen blaenoriaethol i bobl sy'n cysgu allan. Roedd llawer o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg yn mynegi pryderon am y cymhellion gwrthun a gafodd eu cyflwyno yn sgil y newid hwn yn eu tyb nhw. O'r safbwynt hwn, gall pobl ddweud eu bod yn cysgu allan er mwyn cael mynediad at dai dros dro ac, yn y pen draw, at dai sefydlog, ac mae hyn yn tanseilio eu hymdeimlad o gyfrifoldeb personol i fynd i'r afael â'u hanghenion tai eu hunain. Nid yw'n glir pam fod pryderon am effeithiau ymddygiadol hawliau cyfreithiol i ailgartrefu yn canolbwyntio ar y rheini sydd wedi eu hetholfreinio'n ddiweddar yn sgil ymestyn angen blaenoriaethol a ddim ar deuluoedd ac aelwydydd eraill sydd wedi cael budd o'r hawliau hyn ers tro, ond mae gwrthwynebiad rhai staff awdurdodau lleol i ehangu'r hawliau

cyfreithiol hyn yn amlwg iawn. Roedd hysbyswyr allweddol o bob rhan o'r sectorau digartrefedd a sectorau eraill, ar y llaw arall, yn tueddu i fod yn benderfynol bod ymestyn yr angen blaenoriaethol yn gam angenrheidiol a chadarnhaol er mwyn atal llawer o bobl sengl rhag teimlo mai cysgu allan ydy'r unig ddewis sydd ganddynt.

Cododd y mater hwn unwaith eto wrth i ni ystyried cynigion uchelgeisiol ar gyfer diwygio pellach mewn perthynas â digartrefedd fel y nodir yn y Papur Gwyn Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru. Mae'r cynigion yn cynnwys canolbwyntio ar leihau, dileu neu newid profion sy'n cyfyngu ar fynediad at ddyletswyddau ailgartrefu (gan gynnwys cysylltiad lleol a digartrefedd bwriadol) ar hyn o bryd, cyflwyno dyletswyddau newydd ar gyrff cyhoeddus ehangach i gyfrannu at ymdrechion atal digartrefedd, ac atal digartrefedd yn well ymysg grwpiau y gwyddys eu bod mewn perygl anghymesur. Mae cynigion hefyd i wella mynediad at lety sefydlog, yn benodol drwy gryfhau dwylo awdurdodau lleol o ran gofyn i gymdeithasau tai letya'r rheini y mae'r brif ddyletswydd ailgartrefu yn ddyledus iddynt. Mae'r diwygiadau hyn yn adeiladu ac yn torri cwys newydd o ran ymatebion sy'n seiliedig ar hawliau cyfreithiol i ddigartrefedd ledled y Deyrnas Unedig, ac maent wedi cael eu cymeradwyo'n gryf gan hysbyswyr allweddol ar draws y sector statudol a'r trydydd sector. Yn ogystal â hynny, roedd y mwyafrif o awdurdodau lleol yn croesawu'r pecyn cyffredinol – petai'n cael adnoddau priodol – fel un a fyddai'n debygol o fod yn ddefnyddiol o ran mynd i'r afael â digartrefedd. Serch hynny, roedd cryn bryder ymysg awdurdodau lleol ynghylch y diwygiadau arfaethedig i brofion digartrefedd bwriadol a chysylltiadau lleol, ar y sail y byddai'r rhain yn cynyddu'r galw mae awdurdodau lleol yn teimlo nad ydynt yn gallu delio ag ef heb ragor o gymorth ac adnoddau, yn ogystal â chanfyddiadau y gallai'r rhain leihau cyfrifoldeb personol ymhellach. Mewn rhai achosion, ac yn benodol mewn perthynas â chysylltiad lleol, roedd yn ymddangos bod y pryderon hyn weithiau'n adlewyrchu camddealltwriaeth o'r cynigion. Pwysleisiwyd bod cyllid, mwy o fynediad at dai addas sefydlog (yn enwedig rhai un ystafell wely), a chyfnod gweithredu

fesul cam, i gyd yn allweddol o ran galluogi rhoi'r diwygiadau arfaethedig ar waith. Ar yr un pryd, fodd bynnag, mae'n ymddangos bod angen hefyd gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau ymrwymiad i'r dull gweithredu mwy cynhwysol – a throi eu cefnau ar wahaniaethu rhwng aelwydydd sy'n fwy neu'n llai teilwng o gael blaenoriaeth o ran cael mynediad at gymorth ailgartrefu.

Felly, mae'r hanes diweddar o dueddiadau digartrefedd a datblygiadau polisi yng Nghymru yn dangos pwysau cynyddol yng nghyd-destun ymdrechion parhaus i ddatblygu ymatebion mwy ataliol, cynhwysol sy'n cael eu harwain gan dai. Tra bo llawer o'r agenda polisi sy'n cael ei dilyn yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar leihau pwysau ar lety dros dro a gwella gallu awdurdodau lleol i ymateb yn effeithiol i ddigartrefedd, nid oes amheuaeth bod yr agenda diwygio'n cynyddu (ar ffurf y Bil Tai sydd ar y gweill a fydd yn datblygu cynigion y Papur Gwyn) ar adeg pan fydd awdurdodau lleol yn teimlo nad oes ganddynt ddigon o adnoddau i weithredu dulliau newydd a chymryd cyfrifoldebau pellach. Yn wir, mae'n ymddangos bod yr ofnau hyn yn taflu cysgod ar unrhyw ffocws sylweddol gan awdurdodau lleol ar y ffyrdd y mae'r cynigion yn ceisio rhannu cyfrifoldeb dros ddigartrefedd ymysg grŵp ehangach o randdeiliaid. Felly, wrth fwrw ymlaen â'r diwygiadau hyn mae'n rhaid rhoi blaenoriaeth i fynd i'r afael â'r pryderon hyn yn uniongyrchol gydag ymrwymiad i newid sylweddol o ran adnoddau a chymorth ar gyfer cyflawni, yn ogystal â chyfathrebu'n effeithiol y ffyrdd y mae'r pecyn arfaethedig yn bwriadu lledaenu'r cyfrifoldeb dros ddigartrefedd y tu hwnt i dimau tai awdurdodau lleol.

Mae canlyniadau ein hamcanestyniadau digartrefedd craidd yn dangos y bydd cadw'r dulliau polisi presennol yn golygu y bydd digartrefedd craidd yng Nghymru yn parhau i godi dros y ddau ddegawd nesaf. Fodd bynnag, mae ein gwaith modelu effeithiau 11 senario polisi yn awgrymu bod cynnydd o'r fath ymhell o fod yn anochel. Mae rhai polisiâu a ddatgelwyd fel rhai sy'n arbennig o effeithiol o ran lleihau lefelau digartrefedd craidd yn nwylo Llywodraeth y Deyrnas Unedig, a chodi cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol a'u mynegeo'n briodol, a mynd i'r afael â nodweddion Credyd

Cynhwysol sy'n cynhyrchu amddifadedd a'r rhwyd diogelwch cymdeithasol ehangach sy'n gysylltiedig â hynny. Amser a ddengys, ar ôl rhywfaint o gamau petrus i'r cyfeiriad hwn yng Nghyllideb yr Hydref (e.e. mewn perthynas â'r Lwfans Tai Lleol), i ba raddau y bydd Llywodraeth Lafur newydd y Deyrnas Unedig yn ceisio mynd i'r afael â'r nodweddion hyn yn y system les sy'n sbarduno digartrefedd.

Fodd bynnag, mae nifer o'r senarios polisi sydd wedi eu modelu i fod yn effeithiol yn nwylo gweithredwyr yng Nghymru, ac yn wir, mewn rhai achosion maent eisoes yn cael eu dilyn. Mae hyn yn wir, yn gyffredinol, ar gyfer senarios sy'n ymwneud â dyrannu cyfran uwch o dai cymdeithasol newydd i aelwydydd digartref, cynyddu'r cyflenwad tai cymdeithasol newydd (gan ganolbwyntio ar godi unedau sy'n addas ar gyfer preswylwyr presennol hosteli h.y. eiddo un ystafell wely), a chynyddu darpariaeth Tai yn Gyntaf. Er na fu'n bosibl i ni fodelu effeithiau'r diwygiadau arfaethedig ar ddyletswyddau atal digartrefedd awdurdodau lleol a'r sector cyhoeddus ehangach, mae cryfhau'r camau atal o fewn y cyfyngiadau cyfreithiol presennol hefyd yn cael ei fodelu i leihau digartrefedd craidd i ryw raddau a gellir disgwyl yn rhesymol i'r pecyn diwygio radical – os caiff ei weithredu'n effeithiol – sicrhau gostyngiadau pellach o lawer. Mae ymdrechion i ail-gydbwyso economi Cymru hefyd yn dod i'r amlwg fel rhai sydd â'r potensial i leihau digartrefedd craidd dros amser.


Mewn gwirionedd, ni fyddai diwygiadau polisi o'r fath yn cael eu dilyn ar eu pen eu hunain, ac mae ein dadansoddiad o effeithiau symud ymlaen â'r holl senarios arfaethedig mewn trefn resymegol yn dangos y gellid lleihau digartrefedd craidd yng Nghymru 51% yn erbyn llinell sylfaen erbyn 2041, gyda gostyngiadau sylweddol iawn yn cael eu modelu fel rhai sy'n bosibl dros orwelion amser byrrach 2026 a 2031.

Yn anad dim, mae'r amcanestyniadau hyn yn dangos yn glir nad oes angen i ehangu'r rhwyd ddiogelwch digartrefedd statudol drwy ddiddymu'r prawf angen blaenoriaethol arwain at gynnydd mewn digartrefedd statudol na llety dros dro. Er y byddai gwneud hynny'n dod â mwy o bobl i mewn i'r rhwyd

ddiogelwch statudol nad ydynt yn cael eu gwasanaethu ar hyn o bryd, ac felly byddai'n sicr o beryglu sbarduno cynnydd pellach mewn defnydd o lety dros dro anaddas, nid yw hyn yn anochel. Drwy fynd ar drywydd hyn yng nghyd-destun pecyn o ddiwygiadau – mae'n bosibl i Gymru ehangu'r rhwyd diogelwch cyfreithiol i bobl sengl ddigartref, gan osgoi'r cynnydd mewn defnydd o lety dros dro a welwyd o ganlyniad i wneud hynny yn yr Alban. Mae'r polisiâu sy'n galluogi hyn yn cynnwys codi a mynegeoio Lwfans Tai Lleol yn briodol, cynyddu dyraniadau tai cymdeithasol i aelwydydd digartref, ac atal digartrefedd. Ac mae'n werth pwysleisio bod yr enillion o'r diwygiadau sy'n canolbwyntio ar atal digartrefedd sy'n cael eu dilyn yng Nghymru yn debygol o fod wedi eu tanamcangyfrif yn ein gwaith modelu, o ystyried y cyfyngiadau data a manylion ansicr eraill.

Bydd rhifyn nesaf y monitor digartrefedd, sy'n canolbwyntio ar Gymru, yn gyfle i adolygu sut mae'r agenda polisi uchelgeisiol ar ddigartrefedd yng Nghymru yn bwrw ymlaen, ac i ba raddau mae'r rhwystrau a nodwyd yma yn cael sylw effeithiol. Bydd hefyd yn galluogi myfyrio ar effaith newidiadau sylweddol mewn arweinyddiaeth wleidyddol yng Nghymru, gan gynnwys newidiadau yn arweinyddiaeth y portffolio tai, a'r newidiadau cythryblus o ran y Prif Weinidog sydd wedi dominyddu gwleidyddiaeth Cymru yn 2024, yn ogystal ag arwydd cynnar o gyfeiriad polisi tai yn dilyn Llywodraeth newydd yng Nghymru ar ôl yr etholiad yn 2026. Yn olaf, bydd hefyd yn cynnig cyfle i ystyried effaith unrhyw newid mewn cyfeiriad polisi ar ran Llywodraeth newydd y Deyrnas Unedig ar ddigartrefedd yng Nghymru, yn enwedig mewn perthynas â pholisi nawdd cymdeithasol ac ymatebion y Swyddfa Gartref i fewnfudwyr a cheiswyr lloches.

Atodiad A: Prosesau asesu digartrefedd o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Atodiad 2: Arolwg Awdurdodau Lleol 2024

Roedd yr holiadur a ddefnyddiwyd yma yn seiliedig ar arolygon blaenorol a gynhaliwyd gan dîm ymchwil Monitor Digartrefedd y Deyrnas Unedig yn Lloegr a'r Alban yn ogystal ag yng Nghymru ers 2014. Yn dilyn ein hymchwil yn 2021, arolwg 2024 yw'r trydydd i gael ei gynnal yng nghyfres Monitor Digartrefedd Cymru.

